# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR ARCHWILIO**

Dyddiad ac Amser

**10.30 y.b., DYDD MAWRTH, 1AF RHAGFYR, 2015**

Lleoliad

**Siambr Hywel Dda, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon, Gwynedd. LL55 1SH**

Pwynt Cyswllt

**Bethan Adams**

**01286 679020**

**BethanAdams@gwynedd.gov.uk**

(Dosbarthwyd: 23/11/15)

# PWYLLGOR ARCHWILIO

## AELODAETH (19)

## Plaid Cymru (9)

Y Cynghorwyr

Aled Ll. Evans
E. Selwyn Griffiths
Sian Gwenllian
Charles Wyn Jones
Dilwyn Morgan
Michael Sol Owen
W. Tudor Owen
Gethin Glyn Williams
John Wyn Williams

## Annibynnol (5)

Y Cynghorwyr

Trevor Edwards
Thomas G. Ellis
John Brynmor Hughes
John Pughe Roberts
Angela Russell

## Llais Gwynedd (2)

Y Cynghorwyr

Anwen J. Davies
Aeron M. Jones

## Llafur (2)

Y Cynghorwyr

Sion W. Jones
Glyn Thomas

## Aelod Lleyg (1)

John Pollard

## Aelodau Ex-officio

Is-Gadeirydd y Cyngor

# R H A G L E N

**1. IS-GADEIRYDD**

I ethol Is-gadeirydd am 2015/16.

**2. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**4. MATERION BRYS**

Ystyried unrhyw fater arall sydd yn teilyngu sylw brys ym marn y Cadeirydd.

**5. COFNODION** 1 - 6

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o’r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 24 Medi 2015, fel rhai cywir.

**6. ADRODDIADAU ARCHWILIO ALLANOL** 7 - 55

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol.

**7. EFFEITHLONRWYDD TREFNIADAU CRAFFU'R CYNGOR** 56 - 57

Cyflwyno adroddiad yr Uwch Reolwr Democratiaeth a Chyflawni.

**8. CYFRIFON TERFYNOL 2014/15** 58 - 63

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Cyllid.

**9. CYLLIDEB REFENIW - ADOLYGIAD AIL CHWARTER 2015/16 (MEDI 2015)** 64 - 84

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Cyllid.

**10. RHAGLEN GYFALAF - ADOLYGIAD AIL CHWARTER 2015/16 (MEDI 2015)** 85 - 92

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Cyllid.

**11. STRATEGAETH ARIANNOL Y CYNGOR 2016/17 - 2019/20** 93 - 97

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Cyllid.

**12. TREFNIADAU RHEOLI RISG** 98 - 104

Cyflwyno adroddiad yr Uwch Reolwr Refeniw a Risg.

**13. GWEITHGOR GWELLA RHEOLAETHAU** 105 - 110

Cyflwyno adroddiad y Rheolwr Archwilio yn amlinellu gwaith Archwilio Mewnol am y cyfnod rhwng 14 Medi a 31 Hydref 2015.

**14. CYNNYRCH ARCHWILIO MEWNOL** 111 - 127

Cyflwyno adroddiad y Rheolwr Archwilio ar y cynnydd ar Gynllun Archwilio Mewnol 2015/16.

**15. CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2015/16** 128 - 133

Cyflwyno adroddiad y Rheolwr Archwilio ar y cynnydd ar Gynllun Archwilio Mewnol 2015/16.

**16. BLAEN RAGLEN Y PWYLLGOR ARCHWILIO** 134 - 136

Cyflwyno adroddiad yr Uwch Reolwr Refeniw a Risg.

# PWYLLGOR ARCHWILIO 24/9/15

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd John Pughe Roberts (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:** Trevor Edwards, Tom Ellis, Aled Ll. Evans, E. Selwyn Griffiths, Sian Gwenllian, John B. Hughes, Aeron M. Jones, Charles Wyn Jones, W. Tudor Owen, Angela Russell, Gethin Glyn Williams, John Wyn Williams a Peredur Jenkins (Aelod Cabinet Adnoddau).

**Aelod Lleyg:** Mr John Pollard

**Hefyd yn Bresennol:** Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), William E. Jones (Uwch Reolwr Cyllid), Ffion Madog Evans (Rheolwr Cyllid - Adnoddau a Chorfforaethol), Caroline Lesley Roberts (Rheolwr Buddsoddi – ar gyfer Eitem 5 a 6 ar y rhaglen), Dewi Morgan (Uwch Reolwr Refeniw a Risg), Luned Fôn Jones (Rheolwr Archwilio), Amanda Hughes (Rheolwr Archwilio Ariannol, Swyddfa Archwilio Cymru), Derwyn Owen (Arweinydd Ymgysylltu, Swyddfa Archwilio Cymru) a Bethan Adams (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Dilwyn Morgan, Michael Sol Owen a Glyn Thomas.

**1. TEYRNGED**

Talwyd teyrnged gan y Cadeirydd i'r diweddar Gynghorydd Robert J. Wright (Is-gadeirydd y Pwyllgor).

Safodd yr aelodau fel arwydd o barch.

Talwyd teyrnged yn ogystal i'r cyn aelod y Cynghorydd Eddie Dogan.

**2. CROESO**

Estynnwyd croeso i'r Cynghorwyr E. Selwyn Griffiths, Sian Gwenllian ac W. Tudor Owen a oedd yn mynychu cyfarfod o'r Pwyllgor hwn am y tro cyntaf.

**3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**4. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 16 Gorffennaf 2015, fel rhai cywir.

**5. CYFRIFON TERFYNOL 2014/15**

**i) Datganiad o'r Cyfrifon**

Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid y datganiadau ariannol statudol diwygiedig am gymeradwyaeth y pwyllgor. Nododd fod Atodiad 3 yn yr adroddiadau sy'n dilyn gan Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) yn nodi'r prif newidiadau yn y cyfrifon ers cyflwynwyd y fersiwn cyn-archwiliad i gyfarfod 16 Gorffennaf o'r Pwyllgor.

**ii) Adroddiad yr Archwilydd Penodedig ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol**

**a) Cyfrifon y Cyngor**

Yn unol â'r drefn Archwilio Flynyddol, sef adroddiad yr Archwilydd Penodedig i'r rhai sy'n llywodraethu, cyflwynwyd adroddiad SAC. 'Roedd Arweinydd Ymgysylltu a Rheolwr Lleol, SAC, yn bresennol i gyflwyno'r wybodaeth.

Nodwyd bod SAC yn gyfrifol am gynnal archwiliad ar ran yr Archwilydd Cyffredinol ac adrodd os ydynt o'r farn bod yr adroddiadau'n cyflwyno'r sefyllfa ariannol yn gywir a theg ar ddiwedd blwyddyn. Adroddwyd bod yr Archwilydd Cyffredinol yn bwriadu cyhoeddi adroddiad archwilio diamod ar gyfrifon Cyngor Gwynedd am 2014/15.

Nodwyd y prif sylwadau canlynol gan gynrychiolwyr SAC:

- Y byddai oedi cyn ardystio'r cyfrifon gan fod aelod o'r cyhoedd wedi lleisio gwrthwynebiad i'r cyfrifon yn ymwneud â gwariant Asiantaeth Cefnffyrdd. O ganlyniad, ni allai SAC gwblhau eu cyfrifoldebau archwilio yn ffurfiol na chyflwyno tystysgrif i gau'r archwiliad cyn bod y mater wedi ei gyfarch.
- Yng nghyswllt camddatganiadau na gywirwyd, bod SAC wedi adnabod gorddatganiad o £825,000 yn y darpariaethau, sef:
    - Darpariaeth o £490,000 ar gyfer y golled o ran y dreth Gyngor yn y dyfodol o ganlyniad i ddeiliaid tai ag eiddo sydd ddim yn llawn drwy gydol y flwyddyn yn newid i Ardreth Annomestig Genedlaethol.
    - Darpariaeth o £335,000 i gyfrannu tuag at y diffyg sy'n bodoli o ran pensiwn.
- Er bod rhwymedigaeth wedi'i wneud yn y gorffennol mewn perthynas â'r costau hyn, nid yw'n briodol cael darpariaeth yn y cyfrifon gan fod y rhwymedigaeth eisoes wedi'i adlewyrchu yn y cyfrifon yn sgil Safon Gyfrifyddu Ryngwladol 19 - Buddiannau Gweithwyr (IAS19).
- Nodwyd er y gwerthfawrogir mai doeth yw neilltuo'r cyllid mewn termau cyllidebol, nid ydynt yn cydymffurfio â'r diffiniad o "ddarpariaethau" o safbwynt cyfrifyddu technegol ac y byddai'n fwy priodol i'r symiau hyn gael eu neilltuo fel cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi.

Mewn ymateb i'r sylwadau uchod nododd y Pennaeth Cyllid:

- Nid oedd o'r farn bod gwrthwynebiad yr aelod o'r cyhoedd yn ymwneud yn uniongyrchol efo'r cyfrifon am 2014/15;
- Yng nghyswllt y gorddatganiadau, mai dau fater cyfrifyddu technegol oedd dan sylw. Neilltuwyd dwy gronfa yn ddarbodus, ond bod yr archwiliwr yn awgrymu na ddylid eu trin fel darpariaethau. Nodwyd bod sail i fedru ystyried arian a neilltuwyd naill ai fel darpariaethau neu fel cronfeydd, ond byddai'n ail-ystyried y drefn erbyn 2015/16.

Mewn ymateb i sylwadau gan aelodau parthed y ddarpariaeth o ran Treth Cyngor, cadarnhaodd y Pennaeth Cyllid bod Ymchwiliad Craffu ar y gweill yng nghyswllt Tai Gwyliau a Threthi.

Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod, nodwyd bod y rhagdybiaethau a dull cyfrifo'r diffyg pensiwn hanesyddol wedi newid, gyda chyfraniad o swm penodol yn hytrach na chanran o gyflog. Adroddwyd nad oedd y nifer swyddi wedi gostwng gymaint a ragwelwyd yn 2014-15, felly bod mwy o arian wedi'i neilltuo, ond oherwydd yr hinsawdd ariannol rhagwelir lleihad yn y nifer swyddi mewn blynyddoedd dilynol, felly roedd yn ddarbodus i glustnodi'r arian perthnasol.

**b) Cyfrifon Cronfa Bensiwn Gwynedd**

Adroddodd Rheolwr Lleol Swyddfa Archwilio Cymru bod y Cyngor yn gyfrifol am baratoi datganiadau ariannol i gyflwyno sefyllfa ariannol Cronfa Bensiwn Gwynedd fel ag yr oedd ar 31 Mawrth 2015.

Nododd bod SAC yn gyfrifol am gynnal archwiliad ac adrodd os ydynt o'r farn bod yr adroddiadau'n cyflwyno'r sefyllfa ariannol y Gronfa Bensiwn yn gywir a theg ar ddiwedd blwyddyn.

Hysbysodd bod yr Archwilydd Penodedig yn bwriadu cyhoeddi barn archwilio ddiamod ar gyfrifon Cronfa Bensiwn Gwynedd am 2014/15.

Nodwyd y prif sylwadau canlynol gan Reolwr Lleol Swyddfa Archwilio Cymru:

- Yng nghyswllt camddatganiadau na gywirwyd, bod SAC wedi adnabod bod buddion marwolaethau a lwmp symiau eraill wedi eu tan ddatgan o £119,000 gyda dau daliad mewn perthynas â blwyddyn ariannol 2014/15 wedi eu cyfrifyddu o dan 2015/16. Ychwanegodd mai mater bach ydoedd, ond bod dyletswydd ar SAC i dynnu sylw i'r mater.
- Nad oedd y Gronfa Bensiwn wedi diweddaru ei Ddatganiad o Egwyddorion Buddsoddi Ysgrifenedig (SIP) yn unol â'r amserlen adolygu o bob tair blynedd.
- Er yr adroddir ar wahân ar gyfrifon y Cyngor a chyfrifon y Gronfa Bensiwn, un dystysgrif y cyflwynir. Nododd na allai'r Archwilydd Cyffredinol rhyddhau tystysgrif nes y bydd ymholiadau sy'n codi o wrthwynebiad a godwyd gan aelod o'r cyhoedd wedi ei gwblhau'n ffurfiol.

Mewn ymateb i'r sylwadau uchod nododd y Pennaeth Cyllid:

- Bod y tan ddatganiad yn swm cymharol fychan o ystyried gwerth £1,400,000,000 y Gronfa Bensiwn, felly ni ystyrir bod angen ei gywiro.
- Byddai'r Pwyllgor Pensiynau yn adolygu'r Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi a chynhelir ymgynghoriad arno yn 2015/16.

Diolchodd Arweinydd Ymgysylltu Swyddfa Archwilio Cymru am y cydweithio dros y blynyddoedd o ran archwilio'r cyfrifon gyda chyfnod SAC o'u harchwilio yn dod i ben. Ychwanegodd bod ansawdd y cyfrifon wedi hwyluso'r archwiliadau dros y blynyddoedd.

Nododd y Cadeirydd a'r Pennaeth Cyllid eu gwerthfawrogiad o waith archwilwyr SAC dros y blynyddoedd.

Eglurwyd bod yr Archwilydd Cyffredinol wedi penderfynnu dyrannu'r gwaith o archwilio'r cyfrifon i gwmni Deloitte. Nodwyd nad oedd gan y Cyngor wrthwynebiad technegol i'r newid ond eu bod wedi pwysleisio i'r Archwilydd Cyffredinol gan mai Cymraeg yw iaith gweinyddiaeth mewnol y Cyngor y byddai rhaid i'r cwmni ymdopi â hyn.

Nododd aelod y dylid anfon llythyr at yr Archwilydd Cyffredinol i ddiolch am waith a chydweithrediad swyddogion SAC dros y blynyddoedd yng nghyswllt archwilio'r cyfrifon.

**PENDERFYNWYD:**

**(i) bod y Pwyllgor Archwilio, gyda'r grym a ddirprwywyd gan y Cyngor i fod "y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu" yng nghyswllt cymeradwyo'r datganiadau ariannol statudol a'r archwiliad perthnasol, yn cymeradwyo'r datganiadau ariannol statudol diwygiedig, yn derbyn adroddiadau perthnasol Swyddfa Archwilio Cymru, ac yn awdurdodi'r Pennaeth Cyllid a Chadeirydd y Pwyllgor i arwyddo'r "llythyrau cynrychiolaeth" a'u cyflwyno i Archwilydd Penodedig Swyddfa Archwilio Cymru.**

**(ii) y dylid anfon llythyr at yr Archwilydd Cyffredinol i ddiolch am waith a chydweithrediad swyddogion SAC dros y blynyddoedd yng nghyswllt archwilio'r cyfrifon.**

## 6. RHEOLAETH TRYSORLYS 2015/16 – ADOLYGIAD CANOL BLWYDDYN

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Cyllid ar weithgaredd rheolaeth trysorlys y flwyddyn gyfredol.

Cadarnhaodd y Rheolwr Buddsoddi, yn ystod y pum mis rhwng 1 Ebrill a 31 Awst 2015, arhosodd gweithgarwch benthyca'r Cyngor o fewn y cyfyngiadau a osodwyd yn wreiddiol, ac nid oedd unrhyw fanciau lle'r oedd y Cyngor wedi adnau arian yn methu ad-dalu.

Adroddwyd bod 98% o fuddsoddiad y Cyngor ym Manc Heritable wedi ei adennill, gyda dim ond £80,376 bellach heb ei dalu, a'i fod yn debygol y derbynnir dosraniad pellach.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad er gwybodaeth.**

## 7. ADRODDIAD Y GWEITHGOR GWELLA RHEOLAETHAU

Cyflwynwyd adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio ar gyfarfod o'r gweithgor uchod a gynhaliwyd ar 20 Awst 2015 i ystyried saith archwiliad a dderbyniodd gategori barn C yn ystod y cyfnod rhwng 1 Chwefror 2015 a 30 Mehefin 2015 sef -

a) Trefniadau Wrth Gefn a Pharhad Gwasanaeth
b) Iechyd a Diogelwch – Gweithio'n Unig
c) Taliadau Cymorth Cyntaf
ch) System Swyddi
d) Costau Teithio Gweithwyr Gofal Cymunedol
dd) Gwasanaethau Plant – Comisiynu Gofal
e) Cynllun Datblygu Amgueddfa ac Oriel Gwynedd.

Nodwyd yr ystyriwyd yn ogystal archwiliad 'Gorfodaeth Parcio' a oedd wedi derbyn barn B yn ogystal â mater a godwyd gan aelod yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 16 Gorffennaf yng nghyswllt Prydlesu Canolfan Awyr Agored Rhyd Ddu i Antur Nantlle Cyf.

Gwahoddwyd Uwch Reolwyr i fynychu'r cyfarfod er mwyn trafod y materion sy'n codi o'r archwiliadau a'r gwaith a wnaed ers cyhoeddi'r adroddiadau archwilio er mwyn cryfhau'r rheolaethau mewnol dan sylw.

Nodwyd y cafwyd sicrwydd yn y Gweithgor bod y materion a amlygwyd gan Archwilio Mewnol yn cael sylw teilwng a bod camau yn cael eu cymryd.

Nododd aelod nad oedd yn bosib iddo fynychu cyfarfod y Gweithgor ar gyfer y drafodaeth ar y mater Prydlesu Canolfan Awyr Agored Rhyd Ddu i Antur Nantlle Cyf gan ei fod ar ei wyliau.

Mewn ymateb i sylw gan aelod parthed asesiadau risg, nododd y Rheolwr Archwilio bod Archwilio Mewnol llynedd wedi gwirio asesiadau risg gan yr Adrannau yn ogystal a cadarnhau bod y Gwasanaeth Iechyd a Diogelwch yn gwirio asesiadau risg yr Adrannau.

Holwyd yng nghyswllt archwiliad Costau Teithio Gweithwyr Gofal Cymunedol, yn dilyn penderfyniad Ewrop bod amser gwaith gweithwyr gofal cymunedol yn cychwyn pan yn gadael y cartref, beth oedd yr oblygiadau ariannol i'r Cyngor. Nodwyd bod y mater yn derbyn sylw gan y Gwasanaeth Adnoddau Dynol.

Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod o ran monitro cynnydd y Gwasanaethau ar yr argymhellion, nododd y Rheolwr Archwilio bod archwiliadau dilyniant wedi eu cynllunio.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

## 8. CYNNYRCH ARCHWILIO MEWNOL

**Gwaith Archwilio Mewnol am y cyfnod hyd at 11 Medi 2015**

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Archwilio yn amlinellu gwaith Archwilio Mewnol am y cyfnod rhwng 1 Gorffennaf a 11 Medi 2015. Nodwyd bod 8 adroddiad am archwiliadau o'r cynllun gweithredol gyda'r categori barn berthnasol yn cael ei ddangos wedi ei gwblhau yn ystod y cyfnod ynghyd â 2 archwiliad dilyniant.

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiadau yn unigol.

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiadau yn unigol ac yn ystod y drafodaeth cyfeiriwyd at y materion canlynol –

**Cronfa'r Cadeirydd**

Mewn ymateb i ymholiad gan aelod, eglurwyd mai cyllideb blynyddol oedd y "gronfa", mewn gwirionedd.

**Prif System Gyfrifo – Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol**

Tynnodd aelod sylw at fater a amlygwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor Apelau Cyflogaeth ar 18 Medi 2015 o ran defnydd codau gwariant un Adran gan Adran arall. Mewn ymateb, nodwyd nad oedd yn anghyffredin i unigolyn ddal swydd gyda mwy nag un Adran, a bod dyletswydd ar reolwyr i wirio'r wybodaeth. Nododd yr aelod y byddai'n trafod y mater gyda'r swyddogion ar derfyn y cyfarfod.

**PENDERFYNWYD:**

**(a) derbyn yr adroddiadau ar waith Archwilio Mewnol am y cyfnod o 1 Gorffennaf i 11 Medi 2015 a chefnogi'r argymhellion a gyflwynwyd eisoes i reolwyr y gwasanaethau perthnasol er gweithrediad.**

**(b) bod Cadeirydd y pwyllgor, ynghyd â'r Cynghorwyr Tom Ellis, John B. Hughes a Angela Russell i wasanaethu ar y Gweithgor i ystyried yr archwiliadau oedd wedi derbyn categori barn 'C'.**

**(c) mai cyfrifoldeb unrhyw aelod na allai fod yn bresennol yn y Gweithgor oedd trefnu eilydd.**

**9. CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2015/16**

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Archwilio yn rhoi diweddariad ar y sefyllfa gyfredol o ran cwblhau cynllun archwilio mewnol 2015/16.

Adroddwyd bod yr Uned Archwilio Mewnol wedi rhagori ar darged chwarter 2, gyda 23.81% o archwiliadau'r cynllun wedi eu rhyddhau yn derfynol o gymharu â'r targed o 20% cyn diwedd y chwarter.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad fel diweddariad o gynnydd yn erbyn cynllun archwilio 2015/16.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30am a daeth i ben am 11.40am

____________________________

**CADEIRYDD**

CYFARFOD: **PWYLLGOR ARCHWILIO**

DYDDIAD: **1 Rhagfyr 2015**

TEITL: **Adroddiadau Archwilio Allanol**

PWRPAS: **Cyflwyno crynodeb o gamau gweithredu sefydlwyd gan y gwasanaethau mewn ymateb i adroddiadau archwilio allanol a'u hargymhellion er ystyriaeth y Pwyllgor Archwilio**

AWDUR: **Geraint Owen, Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol**

AELOD CABINET: **Cynghorydd Dyfrig Siencyn**

---

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Un o brif ddyletswyddau'r Pwyllgor Archwilio yn ôl Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, yw **adolygu ac asesu trefniadau'r awdurdod ar gyfer rheoli risgiau, rheolaeth fewnol a llywodraethu corfforaethol**. Mae'r Canllawiau Statudol a gyhoeddwyd yn unol â'r Mesur yn datgan bod angen i'r Pwyllgor, er mwyn cyflawni hyn:

- "*adrodd ar ddigonolrwydd trefniadau rheoli risgiau a rheolaeth fewnol yr awdurdod a gwneud sylwadau ar eu heffeithiolrwydd yn ogystal â gwneud gwaith dilynol ar y risgiau a nodwyd gan archwilwyr a gofyn am adroddiadau ar y camau a weithredwyd mewn ymateb*;" a
- "*bydd angen i'r awdurdod sicrhau nad yw gwaith yn cael ei ddyblygu'n ddianghenraid rhwng y pwyllgor archwilio ac unrhyw bwyllgor trosolwg a chraffu wrth ystyried adroddiadau o'r fath*".

1.2 Yn ei gyfarfod ar 3 Rhagfyr 2013, bu i'r Pwyllgor Archwilio gymeradwyo trefn newydd i gryfhau trefniadau llywodraethu a chraffu'r prif adroddiadau gan osgoi unrhyw ddyblygu neu aneglurder. Y prif adroddiadau yw:-

- Adroddiadau ESTYN
- Adroddiadau gan yr Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC)
- Adroddiadau Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru (SAC)

1.3 Mae cyfrifoldeb ar y Pwyllgor Archwilio i sicrhau bod trefniadau a phrosesau ar waith er mwyn sicrhau bod unrhyw argymhellion a gynhwysir mewn adroddiadau archwilio allanol yn cael eu gweithredu.

1.4 Bu i'r Fforwm Cadeiryddion Craffu yn ei gyfarfod ar 24 Ionawr 2014, dderbyn y cynnig i'r pwyllgorau craffu perthnasol graffu'r prif adroddiadau archwilio allanol, ac mae'r drefn hon yn parhau.

1.5 Cyflwynwyd crynodeb i'r Pwyllgor Archwilio o'r camau gweithredu a sefydlwyd gan y gwasanaethau mewn ymateb i'r adroddiadau archwilio allanol a'u hargymhellion. Roedd y crynodeb yn cael ei chyflwyno i'r pwyllgor fel y deuai argymhellion y prif adroddiadau neu unrhyw argymhellion sylweddol eraill i'n sylw.

1.6 Bellach, mae wedi dod yn amlwg fod angen trefniadau mwy trylwyr arnom i alluogi'r Pwyllgor Archwilio i fodloni ei hun bod y camau gweithredu i ymateb i gynigion gwella adroddiadau archwilwyr allanol wedi eu gweithredu.

1.7 Cyflwynir yma felly yn Atodiad 1 restr o arolygiadau a gynhaliwyd gan archwilwyr allanol dros y tair blynedd diwethaf ynghyd â'u cynigion ar gyfer gwella, eu cynlluniau gweithredu a'r cynnydd sydd wedi digwydd hyd yma. Bydd angen i'r pwyllgor ystyried a yw'n fodlon gyda'r cynnydd sydd wedi digwydd.

1.8 Cynigir y drefn hon fel trefn ar gyfer y dyfodol i'r Pwyllgor Archwilio i fod yn fodlon ar weithrediad y Cyngor i ymateb i adroddiadau archwilwyr allanol.

**2.0 Crynodeb o'r adroddiadau yn Atodiad 1**
Ceir crynodeb isod o'r adroddiadau sydd yn Atodiad 1.

**2.1 Adroddiad Gwella Blynyddol SAC 2012-13 (1.1.1 yn Atodiad 1)**
Mae'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt i ymateb i'r adroddiad hwn wedi eu cwblhau.

**2.2 Adroddiad Gwella Blynyddol SAC 2013-14 (1.1.2 yn Atodiad 1)**
Nid oedd yr adroddiad yn cynnwys cynnig nac argymhelliad gwelliant newydd.

**2.3 Adroddiad Gwella Blynyddol SAC 2014-15 (1.1.3 yn Atodiad 1)**
Mae cynnydd wedi digwydd ar y camau gweithredu y cytunwyd arnynt, ac mae'r gwaith yn parhau.

**2.4 Gwerthusiad Perfformiad Blynyddol AGGCC 2012-13 (1.2.1 yn Atodiad 1)**
Mae cynnydd wedi digwydd ar y camau gweithredu y cytunwyd arnynt yn dilyn gwerthusiad perfformiad 2012-13, a chafodd y gwasanaethau eu gwerthuso eto yn rhan o Werthusiad Perfformiad Blynyddol AGGCC 2013-14.

**2.5 Gwerthusiad Perfformiad Blynyddol AGGCC 2013-14 (1.2.2 yn Atodiad 1)**
Mae cynnydd wedi digwydd ar y camau gweithredu y cytunwyd arnynt, ac mae'r gwaith yn parhau. Bellach, mae Gwerthusiad Perfformiad Blynyddol AGGCC 2014-15 wedi ei gwblhau, a disgwylir cynllun gweithredu mewn ymateb i'r meysydd gwella a nodwyd.

**2.6 Gwerthusiad Perfformiad Blynyddol AGGCC 2014-15 (1.2.3 yn Atodiad 1)**
Cyhoeddwyd yr adroddiad ar 30 Hydref 2015, ac ystyrir canfyddiadau'r adroddiad gan y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau ar 26 Tachwedd 2015. Disgwylir cynllun gweithredu i ymateb iddo.

**2.7 Arolwg 3 blynedd Estyn: Arolygiad ar Ansawdd Gwasanaethau Addysg Awdurdod Lleol Gwynedd i blant a phobl ifanc yn ystod Mawrth 2013 (1.3.1 yn Atodiad 1)**

Mae'r wybodaeth cynnydd yn yr adroddiad yn rhoi tystiolaeth o'r cynnydd a wnaed yn ystod y cyfnod yn dilyn yr arolwg hyd at ymweliad olaf Estyn yn Rhagfyr 2014. Yn dilyn yr arolwg hwnnw, derbyniwyd llythyr yn cofnodi canlyniadau monitro Estyn: "Bernir bod Cyngor Gwynedd wedi gwneud cynnydd digonol mewn perthynas â'r argymhellion yn sgil arolygiad Mawrth 2013. O ganlyniad, mae Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru yn tynnu'r awdurdod o unrhyw weithgarwch dilynol pellach."

**2.8 Trefniadau Dogelu Plant Awdurdodau Lleol – Cyngor Gwynedd (SAC) Hydref 2014 (2.1 yn Atodiad 1)**

Gwelir fod cynnydd wedi digwydd ar y cynllun gweithredu i ymateb i'r cynigion ar gyfer gwella.

**2.9 Adolygiad Gwasanaeth Gofal Cartref Pobl Hyn Gwynedd gan AGGCC – Mawrth 2014 (2.2 yn Atodiad 1)**

Cynigir trefniadau i fonitro gweithrediad y cynllun gweithredu y cytunwyd iddo yn dilyn yr adolygiad.

**2.10 Adolygiad Cenedlaethol o'r Defnydd o drefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid (DOLS) yng Nghymru 2014 – Awdurdod Lleol Gwynedd a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (AGGCC) (2.3 yn Atodiad 1)**

Disgwylir derbyn cynllun gweithredu i ymateb i'r cynigion gwella a nodir yn yr adolygiad.

**2.11 Gwasanaeth Maethu Gwynedd (AGGCC) – Ionawr 2015 (2.4 yn Atodiad 1)**

Nodir yn yr adroddiad: "Ni wnaethom ganfod unrhyw feysydd nad oeddynt yn cydymffurfio â gofynon Rheoliadau Gwasanaethau Maethu (Cymru) 2003; fodd bynnag, bu ini ganfod meysydd lle y gellir datblygu arfer ymhellach er mwyn cynorthwyo i wella safon y gwasanaeth a ddarperir." Nodir y bydd unrhyw argymhellion yn cael eu cynnwys yng nghynllun gwaith yr adran.

**2.12 Adolygiad o'r Gwasanaeth Budd-dal Tai a Budd-dal y Dreth Gyngor (SAC) 2012 (2.5 yn Atodiad 1)**

Cyflwynir tystiolaeth gynhwysfawr yn yr adroddiad ar y cynnydd a wnaed i ymateb i gynigion SAC ar gyfer gwella.

**2.13 Adborth ar Adolygiad Rheoli Gwybodaeth Cyngor Gwynedd (SAC) 2012 (2.6 yn Atodiad 1)**

Mae'r dystiolaeth a gynigir ar y cynnydd a wnaed hyd yn hyn i ymateb i'r cynigion ar gyfer gwella yn awgrymu bod angen gwaith monitro pellach cyn cwblhau y cynllun gweithredu y cytunwyd arno.

**3.0 ARGYMHELLION**

**3.1 Bydd angen i'r pwyllgor ystyried a yw'r cynigion ar gyfer gwella yn adroddiadau'r archwilwyr allanol a restrir yn Atodiad 1 wedi eu gweithredu, gan benderfynu os ydyw am alw unrhyw fater i mewn am ystyriaeth bellach, unai i'r pwyllgor llawn neu'r Gweithgor Gwella Rheolaethau.**

**3.2 Bod y Pwyllgor Archwilio yn cymeradwyo'r drefn hon fel trefn ar gyfer y dyfodol i'r pwyllgor fod yn fodlon ar weithrediad y Cyngor i ymateb i adroddiadau archwilwyr allanol.**

# ADRODDIADAU ARCHWILIO ALLANOL 2012/13 - 2014/15



## ATODIAD 1

## 1. ARCHWILIADAU BLYNYDDOL

### 1.1 Adroddiadau Gwella Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru

#### 1.1.1 Blwyddyn 2012-13

Mae'r tabl isod yn cynnwys cynigion gwella'r Swyddfa Archwilio Cymru a chynllun gweithredu'r Cyngor gyferbyn â phob cynnig

| Cyf | Cynigion pellach ar gyfer gwella | Cyfrifoldeb | Cynllun Gweithredu | Erbyn Pryd | Y drefn monitro a'r cynnydd wnaed hyd yn hyn |
|---|---|---|---|---|---|
| C1 | Cynyddu cyfraniad rhanddeiliaid at gynllunio a gwerthuso gwelliannau. | Pennaeth Strategol a Gwella | Byddwn yn defnyddio llais y defnyddwyr/dinesydd wrth asesu pa faterion sydd angen sylw yn y Cynllun Strategol. O ran cyswllt efo partneriaid, byddwn yn cynnal deialog cyson gyda'r gwaith ar y Cynllun Integredig Sengl. Mae'r amserlen ar gyfer cynllunio gwelliannau yn caniatáu mwy o amser eleni am ddeialog gyda rhan ddeiliaid wrth adolygu cynigion. | Ebrill 2014 | Trefniadau cynnwys rhanddeiliaid wedi eu hintegreiddio i waith paratoi at y Cynllun Strategol e.e. defnyddio deunydd ymgynghoriadau Her Gwynedd a'r gwaith o greu'r Cynllun Integredig Sengl. |
| C2 | Cynnwys mesurau perfformiad, data sylfaenol a thargedau mwy cynhwysfawr ac o ansawdd gwell yn y Cynllun Gwella. | Pennaeth Strategol a Gwella | Mae'r Cabinet wedi cytuno i drefn adolygu'r Cynllun Strategol fydd yn rhoi sylw penodol i wella eglurder a phendantrwydd am fesuryddion a thargedau. | Ebrill 2014 | Y Cynllun Gwella wedi dangos datblygiad ers 2012-13, fel ei fod yn cynnwys mesurau sydd yn bwysig i bobl Gwynedd ac sydd yn effeithio ar eu hamgylchiadau ac yn dangos cyswllt clir gyda'r canlyniadau. Hefyd, amlygir tuedd a gosodir uchelgais glir. Cynhwysir data cymharol wrth adrodd ar berfformiad. |
| C3 | Sicrhau gwell cysondeb a chysylltiadau rhwng yr amcanion gwella, mesurau perfformiad allweddol a'r dangosyddion strategol cenedlaethol yn y Cynllun Gwella. | Pennaeth Strategol a Gwella | Bwriad y Cyngor yw, o 2014/15 ymlaen bod yr holl fesurau perfformiad a dangosyddion cenedlaethol perthnasol yn cael eu gosod o dan yr amcanion gwella perthnasol er mwyn amlygu'r cyswllt rhyngddynt. | Ebrill 2014 | Cynhwyswyd y mesurau perfformiad a'r dangosyddion cenedlaethol o dan yr amcanion gwella perthnasol o Adroddiadau Perfformiad 2013-14 ymlaen. |
| C4 | Sefydlu rhaglen dreigl o adolygiadau i gefnogi'r hunanasesiad blynyddol o'r fframwaith llywodraethu. Dylai blwyddyn gyntaf y rhaglen gynnwys gwerthusiadau o effeithiolrwydd y canlynol:<br>• yr hunanasesiad blynyddol o berfformiad;<br>• rolau'r Tîm Rheoli Corfforaethol, y Cabinet Anffurfiol a chadeiryddion ac is-gadeiryddion y Fforwm Craffu wrth nodi ac ymdrin â meysydd o danberfformiad yn erbyn yr amcanion gwella; a<br>• gwaith y tri phwyllgor craffu wrth nodi effeithiau polisïau'r Cyngor ar drigolion y sir. | Pennaeth Cyllid | Fel nodwyd gan yr archwiliwr yn ei lythyr, mae Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu wedi ei sefydlu sy'n cynnwys cynrychiolaeth o'r Tîm Rheoli Corfforaethol, y Swyddog Monitro, Archwilio & Risg a Strategol & Gwella. Bydd y grŵp yn cyfarfod oddeutu 4 gwaith y flwyddyn, gan lunio rhaglen waith ar gyfer y flwyddyn, gyda'r cylch blynyddol yn terfynu gyda chyflwyno Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft i'r Pwyllgor Archwilio ym mis Gorffennaf.<br>Bydd awgrymiadau'r Archwiliwr yn cael ystyriaeth deilwng wrth lunio'r rhaglen waith hyd at Orffennaf 2014. | 28/2/2014 | Mae'r Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu yn parhau i gyfarfod yn rheolaidd. Bydd yn cyfarfod yn fisol am y cyfnod hyd at haf 2016. Mae'r Grŵp yn parhau i asesu elfennau o Fframwaith Lywodraethu'r Cyngor, ac yn comisiynu gwelliannau - trwy'r Cynllun Strategol fel bo'r angen - er mwyn cynnal ei rôl wrth asesu effeithiolrwydd y trefniadau llywodraethu. |

# ADRODDIADAU ARCHWILIO ALLANOL 2012/13 - 2014/15

## ATODIAD 1

| Cyf | Cynigion pellach ar gyfer gwella | Cyfrifoldeb | Cynllun Gweithredu | Erbyn Pryd | Y drefn monitro a'r cynnydd wnaed hyd yn hyn |
|---|---|---|---|---|---|
| C5 | Sicrhau bod y Tîm Rheoli Corfforaethol a'r Pwyllgor Archwilio yn craffu ar ddeilliannau'r hunanasesiad o'r fframwaith llywodraethu ac yn eu herio'n rheolaidd ac yn gadarn. | Pennaeth Cyllid | Bydd y Tîm Rheoli Corfforaethol a'r Pwyllgor Archwilio yn derbyn adborth cyson o'r datblygiadau a ddisgrifir yn yr ymateb i C4 uchod. | 31/3/2014 | Gweler Blaen-raglen y Pwyllgor Archwilio, sydd yn eitem ar wahân ar y rhaglen, am fanylion o pryd y bydd "Hunanasesiad o Drefniadau Llywodraethu" yn derbyn sylw'r Pwyllgor. Mae'r Grŵp Rheoli, sydd yn cynnwys y Tîm Rheoli Corfforaethol a'r penaethiaid adran, yn derbyn diweddariad yn ystod camau allweddol, megis rhoi mewnbwn i'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol. |
| C6 | Sicrhau bod y Pwyllgor Archwilio yn derbyn holl adroddiadau rheoleiddwyr ac yn gwerthuso ac yn herio'r gwelliannau a wneir i drefniadau llywodraethu yn sgil gweithredu'r argymhellion yn yr adroddiadau. | Pennaeth Strategol a Gwella | Mae trafodaethau eisoes wedi eu cynnal rhwng swyddogion Cyllid a Strategol & Gwella er mwyn cryfhau effeithiolrwydd yr adroddiad gan reoleiddwyr sydd yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor, a rhoi ystyriaeth i rôl y Pwyllgor a gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011. O hyn ymlaen, bydd y Pwyllgor yn derbyn adroddiadau rheolaidd (o leiaf pob chwe mis) ar sut y mae'r Cygnor yn ymateb i argymhellion a chynigion Swyddfa Archwilio Cymru, Estyn a'r Arolygaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol (ac eraill fel bo'r angen). | 3/12/2013 | Trefniadau wedi bod yn weithredol i gyflwyno'r adroddiadau chwe-misol. O hyn allan, yn ogystal â derbyn gwybodaeth ar sut mae'r Cyngor yn ymateb i argymhellion adroddiadau archwilio, bydd y Pwyllgor yn derbyn copïau o'r cynlluniau gweithredu llawn. |
| C7 | Dod i gytundeb cynnar ynghylch yr arbedion effeithlonrwydd pellach, y broses well o reoli galw a'r toriadau i wasanaethau sydd eu hangen er mwyn cyflawni'r £16.1 miliwn sy'n ofynnol dros y pedair blynedd nesaf. | Pennaeth Strategol a Gwella | Ar adeg yr Archwiliad diwethaf, 'roedd y Cyngor eisoes wedi llunio cynllun pedair blynedd ar gyfer y cyfnod 2013/14 – 2016/17 gyda chynlluniau eisoes yn eu lle ar gyfer cwrdd â'r bwlch ariannol yn 2013/14 a 2014/15. 'Roeddem wedi adnabod y byddai angen mwy o gynlluniau yn 2015/16 ac 'roedd trefn mewn lle i wneud hynny.<br><br>Erbyn hyn fe fydd bwlch llawer mwy na'r disgwyl ar gyfer 2014/15, a bydd y Cabinet yn ail ymweld â'r strategaeth. Ystyrir y byddwn yn medru dygymod gyda sefyllfa 2014/15 drwy ddilyn yr un trywydd â'r cynllun gwreiddiol ond gan newid rhai elfennau oddi mewn i'r strategaeth honno a defnyddio rhywfaint o falansau er mwyn prynu amser hyd nes y bydd mwy o gynlluniau arbedion ar gael o Fedi 2014 ymlaen.<br><br>Mae'r rhaglen ar gyfer dod o hyd i'r arbedion hynny ar waith a byddwn yn manylu arno dros y ddeufis nesaf. | Ebrill 2014 | Wedi ei gwblhau. Cyflwynwyd adroddiad Strategaeth Arbedion 2010 -2013 i Fwrdd y Cyngor ar 01/12/09 ble y cymeradwywyd arbedion gwerth £16m.<br><br>Ar 14/12/10, ac wedi ystyriaeth gan y Prif Bwyllgor Craffu, cyflwynwyd adroddiad Strategaeth Ariannol 2011/12-2014/15 i Fwrdd y Cyngor er cymeradwyo arbedion pellach cyfwerth a £11m ar sail effeithlonrwydd o 1% ar draws cyllidebau'r adrannau ac Effeithlonrwydd Corfforaethol |

### 1.1.2 Blwyddyn 2013-14

Nid oedd yn cynnwys cynnig nac argymhelliad gwelliant newydd.

**ATODIAD 1**



### 1.1.3 Blwyddyn 2014-15

Bu cyflwyniad i'r Tîm Rheoli Corfforaethol, Aelodau Cabinet, Penaethiaid, Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Pwyllgorau Craffu a'r Pwyllgor Archwilio ar 30 Gorffennaf 2015. Mae'r adroddiad yn cynnwys y cynigion canlynol ar gyfer gwella:

Llywodraethu a Pherfformiad

| Cyf. | Gweithred | Arweinydd | Cynllun Gweithredu | Sylwadau / Cynnydd |
|---|---|---|---|---|
| C1 | Adolygu ei arferion gwaith yn erbyn yr argymhellion yn Adroddiadau Cenedlaethol 2014-15 yr Archwiliydd Cyffredinol a rhoi'r gwelliannau ar waith | Prif Weithredwr | Sicrhau fod y materion sydd wedi eu codi yn argymhellion Adroddiadau Cenedlaethol 2014-15 yr Archwilydd Cyffredinol yn derbyn sylw drwy'r drefn rheoli perfformiad. | Mae'r Grwp Asesu Trefniadau Llywodraethu wedi ystyried y mater ac wedi adnabod gan mai'r Pwyllgor Archwilio sydd yn gyfrifol am sicrhau fod gan y Cyngor drefniadau llywodraethu addas, y dylai'r Pwyllgor hwnnw dderbyn adroddiadau cyson yn nodi argymhellion a godwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru yn ei amrywiol adroddiadau, gan nodi beth sydd yn digwydd gyda'r arghymhellion hynny. Bydd y Pwyllgor Archwilio yn gallu asesu wedyn a yw ein hymateb yn briodol ynteu a oes angen mynegi pryder. |
| C2 | Cymryd rhan lawnach yng Nghynllun Gwastraff ac Adnoddau Llywodraeth Cymru er mwyn dilysu a/neu wella cynlluniau ailgylchu gwastraff a lleihau costau. | Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol | Cais wedi ei wneud i Lywodraeth Cymru i gael gwneud ymarferiad 'Toolkit Waste & Resources Action Programme'(WRAP) dan y 'Collaborative Change Programme' ( CCP). Dim cyllideb ar gael dan Raglen Llywodraeth Cymru ar gyfer gwneud hyn eleni,ond yn fodlon ystyried hyn ar gyfer 2016/17. | Cyfarfod sgopio i'r pwrpas wedi ei drefnu gyda WRAP i'w gynnal 13 Tachwedd 2015. |
| C3 | Nodi a/neu ddatblygu dangosyddion perfformiad sy'n ei gwneud yn bosibl i gynnydd yn erbyn yr amcanion yn Strategaeth Ffordd Gwynedd gael ei fesur. | Prif Weithredwr | | Dangosyddion perthnasol eisoes wedi eu cynnwys yn rhan 8 y Strategaeth Ffordd Gwynedd a fabwysiadwyd gan y Cabinet ar 14 Gorffennaf. |
| C4 | Sicrhau – ar y cyd â'r partneriaid – fod gan y Bwrdd Gwasanaethau Lleol ar y Cyd ddigon o adnoddau i'w alluogi i gyflawni ei gyfrifoldebau'n effeithiol, gan gynnwys diweddaru'r Cynllun Integredig Sengl. | Uwch Reolwr Gwasanaeth Cyflawni a Chefnogi Newid | | Papur adnoddau i'w gyflwyno i Grŵp Arweiniol y Bwrdd ym mis Rhagfyr yn amlinellu'r gofynion ar yr Uned Partneriaethau tan Mawrth 2017 a'r adnoddau i gyfarch y gofynion. |

**ATODIAD 1**

## 1.2 Gwerthusiad Perfformiad Blynyddol yr Arolygaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC)

### 1.2.1 Blwyddyn 2012-2013

Cyflwynwyd yr adroddiad i'r Cabinet ar 28 Ionawr 2014, ac i'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau ar 13 Chwefror 2014. Gweler isod adroddiad cynnydd yn erbyn yr argymhellion:

| GWEITHRED | Arweinydd | Cynllun Gweithredu | Erbyn pryd | Cynnydd |
|---|---|---|---|---|
| **1. Llunio Gwasanaethau** | | | | |
| i. Cynnal y momentwm o ran ad-drefnu gwasanaethau preswyl i bobl hŷn | Cyfarwyddwr Corfforaethol | Cynllun gweithredu 2013-14 Prosiect Trawsnewid Gwasanaethau Pobl Hŷn (gan anelu i sicrhau cydweithio gwell gyda'r Gwasanaeth Iechyd) ac yn benodol:<br><br>Gofal Preswyl<br>• Ystyried argymhellion asesiad lletya a gofal Porthmadog<br>• Adnabod ffordd ymlaen i'r ddarpariaeth yn nalgylch Porthmadog<br>• Gweithredu rhaglen ymgysylltu ynglyn a'r ffordd ymlaen<br>• Cytuno ffordd ymlaen gyda chartrefi preswyl y Cyngor Gwynedd Council<br>• Agor Uned Ysbaid yn benodol ar sail peilot | Mawrth 2014 | Cofnodwyd o fewn Gridiau Tystiolaeth Adroddiad Blynyddol AGGCC 2013/14: 6b.4<br><br>**Hafod y Gest:** Yn y flwyddyn bu i argymhellion asesiad lletya a gofal Porthmadog gael eu hystyried, ac adnabuwyd ffordd ymlaen ar gyfer darpariaeth yn nalgylch Porthmadog. Ddiwedd 2013-14 cytunodd Cabinet y Cyngor i gau Cartref Hafod y Gest, a'r penderfyniad wedi ei wneud i werthu'r safle i Gymdeithas Tai Eryri.<br><br>Bellach mae cynlluniau drafft ar gyfer codi Tai Gofal Ychwanegol ar y safle wedi eu creu gan Tai Eryri ac achos fusnes drafft wedi ei gyflwyno i'r Cyngor gan Gymdeithas Tai Eryri. Y gobaith yw sicrhau caniatâd cynllunio ar gyfer y datblygiad ym Medi 2014 a chychwyn ar y safle ym Mawrth 2015.<br><br>Fel rhan o'r ymdrechion sicrhawyd bod rhaglen ymgysylltu wedi ei weithredu trwy gydol y gwaith ym Mhorthmadog gan gynnwys cynnal cyfarfodydd gyda'r aelodau etholedig lleol, ynghyd a chyfathrebu cyson gyda phreswylwyr, eu teuluoedd a'r staff.<br><br>**Cartrefi preswyl y Cyngor:** Adroddiad ar resymoli darpariaeth preswyl yn cael ei chynhyrch er mwyn rhesymoli anghenion gwasanaeth a gwneud defnydd gorau o adnoddau.<br><br>**Uned Ysbaid:** Er mwyn gallu cynllunio i gyfarch y galw cynyddol dros y blynyddoedd nesaf, bwriedir sefydlu unedau gofal ysbaid yn y tair ardal. I'r perwyl hwn, yn ystod y flwyddyn bu i gynllun peilot ei sefydlu yng nghartref preswyl Plas Pengwaith yn Llanberis ar gyfer pobl 65+. Mae lle ar gyfer hyd at 7 person yn yr uned a fydd yn cael ei weld fel uned ar wahân i weddill y cartref, sydd yn cynnig gofal tymor hir. Mae defnyddio cartref y Cyngor yn ein galluogi i agor uned ysbaid ar ddim cost ychwanegol. Gellir sefydlu gwaelodlin ar gyfer defnydd a chynllunio yn dilyn y cyfnod peilot. |

**ATODIAD 1**



| GWEITHRED | Arweinydd | Cynllun Gweithredu | Erbyn pryd | Cynnydd |
|---|---|---|---|---|
| ii. Cynnal y momentwm o ran ad-drefnu gwasanaethau preswyl i bobl hŷn | Cyfarwyddwr Corfforaethol | • Datblygu cynigion er mwyn darparu ystod o wlâu sydd yn diwallu'r galw drwy Adolygiad Dechrau i Ddiwedd 'End to End' y Gwasanaeth Oedolion. | Mawrth 2014 | • Uned Lleu ym Mhlas Gwilym yn ei le, gyda 6 gwely ar gael ar gyfer Galluogi<br>• Uned Ysbaid yn Plas Pengwaith.<br>• Unedau Tai Gofal Ychwanegol yn cael eu datblygu yn 3 ardal. |
| | | | | |
| **2. Cael gafael ar gymorth** | | | | |
| i. Rhagweld y galw am gymorth cymunedol | Cyfarwyddwr Corfforaethol | • Parhau i fonitro er rhagweld y galw<br>• Ymchwil a dadansoddi mewn perthynas â newidiadau demograffig a'r effaith ar y gwasanaeth | Mawrth 2014<br>Parhaus | Parhau i fonitro. Galluogi yn golygu bod ffigyrau defnyddwyr yn cynyddu dros y flwyddyn.<br>Gwaith dadandoddi demograffi yn rhan allweddol o'r cylch cynllunio gan fydd manylion yma yn cael ei gyflwyno gan yr adran er mwyn sicrhau fod cynnydd mewn demograffi yn cael eu adlewyrchu o fewn cyllidebau. |
| | | | | |
| **3. Y gwasanaethau a ddarparwyd** | | | | |
| i. Datblygu'r amrywiaeth o wasanaethau yn y gymuned yn y gwasanaethau i oedolion | Cyfarwyddwr Corfforaethol | Cynllun Gweithredu 2013-14 Prosiect Trawsnewid Gwasanaethau Pobl Hŷn (gan anelu i sicrhau cydweithio gwell gyda'r Gwasanaeth Iechyd) ac yn benodol:<br><br>Gofal Dydd<br>• Cytuno ar gynllun sy'n cyfarch anghenion gofal dydd pobl hŷn gan gynnwys cyfleon gwaith / gwirfoddoli / cymdeithasu / gofal personol a gofal dwys<br>• Adnabod opsiynau gofal dydd Maesincla Caernarfon<br>• Datblygu Rhaglen Waith ar y cyd gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ynglŷn á darpariaeth gofal dydd arbenigol dementia<br><br>Teleofal<br>• Cwblhau adolygiad o achos fusnes teleofal<br>• Cytuno ar y ffordd ymlaen | Mawrth 2014 | **Gridiau Tystiolaeth 5b.7**<br>**Gofal Dydd:** Gweithredu'r Cytundeb efo Age Cymru i ymestyn y gefnogaeth anffurfiol I i bobl hŷn ar draws Gwynedd<br><br>Sefydlwyd gwasanaeth dydd arbenigol ar gyfer oedolion a phroblemau cof yn ardal Arfon yng Nghanolfan Dydd Plas Hedd, Bangor. Mae'n wasanaeth newydd sy'n ddarpariaeth ar y cyd rhwng Gwasanaethau Cymdeithasol a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Darperir y gwasanaeth bob dydd Mercher a dydd Sadwrn. Dyma'r tro cyntaf i'r Cyngor a'r Bwrdd Iechyd ddarparu gwasanaeth o'r fath ar ddydd Sadwrn.<br><br>Sefydlwyd clwb cinio gyda Age Cymru yn Tai Gofal Ychwanegol Awel y Coleg. Cytundeb gyda Age Cymru i sefydlu gweithgareddau yn Awel Y Coleg, Y Bala.<br><br>Gwelwyd datblygiadau gan Age Cymru yn Nefyn, Y Bala ac yn Nolgellau, ble sefydlwyd canolfannau Heneiddio'n Dda, gyda nifer o 'glybiau/gweithgareddau' wedi eu sefydlu oddi mewn y canolfannau yma. Mae 36 clwb yn Nefyn a 5 yn Bala. Agorwyd y ganolfan Heneiddio'n Dda Dolgellau ym mis Mehefin 2013. Mae'n agored am 2 ddiwrnod yr wythnos, ac mae nifer o weithgareddau wedi cychwyn fel 'clybiau' mewnol, 5 ar hyn o bryd. Golyga hyn fod 46 o glybiau gweithgareddau bellach yn weithredol i unigolion dros 50.<br><br>**Teleofal:** Gwaith adolygu trefniadau a phrosesau'r gwasanaeth telefofal wedi digwydd. Parhau gyda'r berthynas gyda Gofal a Thrwshio. |

**ATODIAD 1**

| GWEITHRED | | Arweinydd | Cynllun Gweithredu | Erbyn pryd | Cynnydd |
|---|---|---|---|---|---|
| ii. | Datblygu'r amrywiaeth o wasanaethau yn y gymuned yn y gwasanaethau i oedolion | Cyfarwyddwr Corfforaethol | Cynllun Gweithredu 2013-14 Prosiect Trawsnewid Gwasanaethau Anabledd Dysgu ac yn benodol:<br>• Adnabod modelau llety a gofal dydd ar gyfer pobl ac Anableddau Dysgu | Mawrth 2014 | **Gridiau Tystiolaeth 5b.9**<br>Mae datblygiad cyffrous gwerth £1.5miliwn ar droed i adeiladu 6 byngalo un ystafell wely ac un byngalo dwy ystafell wely ar gyfer tenantiaid gydag anabledd dysgu ar dir Pant yr Eithin yn Harlech. Datblygiad ar y cyd rhwng Cymdeithas Tai Eryri a Chyngor Gwynedd yw hwn i ddatblygu model llety newydd a fydd yn diwallu anghenion a dyheadau tymor hir tenantiaid ag Anableddau Dysgu a hyrwyddo eu hannibynniaeth. Gobeithir cwblhau'r cynllun cyn ddiwedd 2014-15. |
| iii. | Datblygu'r amrywiaeth o wasanaethau yn y gymuned yn y gwasanaethau i blant | Pennaeth Addysg | Cynllun Gweithredu 2013-14 Prosiect Anghenion Dysgu Ychwanegol ac yn benodol:<br>• Cytuno ar fodel newydd o ddarparu profiadau a chyfleoedd addysgol i blant gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol<br>• Penderfynu ar safleoedd posibl ar gyfer sefydlu Canolfan Rhagoriaeth Addysg Arbennig newydd yn ardal Dwyfor-Meirionnydd | Mawrth 2014 | <u>Model Newydd</u><br>• Wedi datblygu Strategaeth newydd yn cynnig ffordd newydd fwy Integredig o gyflwyno gwasanaeth i blant gydag Anghneion Dysgu Ychwanegol.<br>Mae'r egwyddorion hyn yn cynnwys y bwriad i roi mwy o sylw i'r canlynol:<br>• Blynyddoedd Cynnar ac ymyrraeth gynnar;<br>• Sefydlu tîm canolog, Integredig o arbenigeddau penodol i hwyluso cyd-weithio a chyd-gynllunio;<br>• Dad-gomisiynu'r CBAAA;<br>• Rhaglen Hyfforddiant i uwchraddio sgiliau'r gweithlu;<br>• Cyflwyno'r defnydd o Gynlluniau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.<br>Gobeithio cael cymeradwyaeth y Cyngor i'w mabwysiadu – rhagfyr 2015.<br><br><u>Canolfan Ragoriaeth Addysg Arbennig newydd Meirionnydd/Dwyfor:</u><br>• Wedi cytuno ar safle ym Mhenrhyndeudraeth a'r gwaith eisoes wedi cychwyn. Gobeithio cwblhau yn ystod tymor yr Hydref 2016 |
| iv. | Datblygu'r amrywiaeth o wasanaethau yn y gymuned yn y gwasanaethau i blant | Cyfarwyddwr Corfforaethol | Dod a'r gwasanaethau ataliol a statudol i blant at ei gilydd. | Mawrth 2014 | Mae'r gwasanaethau statudol a'r gwasanaethau ataliol i blant), pobl ifanc a'u teuluoedd (Dechrau'n Deg a Gyda'n Gilydd) wedi eu lleoli o dan Adran newydd sydd yn cael ei harwain gan Bennaeth Gwasanaeth ers Ebrill 2014. Mae ail strwythuro wedi digwydd o fewn yr Adran i sicrhau fod y gwasanaethau yn cael eu rheoli ar lefel Uwch reolaethol ac yn atebol i Uwch Dim Rheoli'r Adran. |
| v. | Datblygu'r amrywiaeth o wasanaethau yn y gymuned yn y gwasanaethau i blant | Pennaeth Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd | Datblygu cynigion er mwyn Canfod ffurf o gynnig gwell gwerth am arian wrth gynnig gwasanaeth effeithiol drwy Adolygiad Dechrau i Ddiwedd 'End to End' y Gwasanaeth Plant. | Mawrth 2014 | Cyflwynwyd adroddiad 'End to end' plant i'r Cabinet yn Ionawr 2014 a cafwyd cymeradwyaeth i symud ymlaen ar ddau o'r chwe argymhelliad o'r adolygiad. Roedd rhain yn benodol yn ymwneud a sefydlu Tim Trothwy Gofal a sefydlu trefniadau craffu lleoliadau o fewn y gwasanaeth. Mae'r Tim Trothwy Gofal yn weithredol ers Ionawr 2015 ac yn gweithio gyda nifer o deuluoedd i arbed plant rhag dod i ofal, neu i ddychwelyd plant at eu rhieni pan fo hynny yn ddiogel i fod yn gwneud hynny mewn cyfnod cynnar yn dilyn cael eu derbyn i ofal. Mae'r tim yn gweithedu o fewn strategaeth lleoliadau'r gwasanaeth ac fe fydd adroddiad yn cael ei chyflwyno i'r Panel Rhiant Corfforaethol a'r Cabinet ar weithrediad y tim yn y flwyddyn newydd. Mae'r Panel Craffu Lleoliadau yn cael ei gynnal yn fisol dan gadeiryddiaeth y Pennaeth Gwasanaeth. |
| | | | | | |

| GWEITHRED | Arweinydd | Cynllun Gweithredu | Erbyn pryd | Cynnydd |
|---|---|---|---|---|
| **4. Yr effaith ar fywydau pobl** | | | | |
| i. Sicrhau bod gwasanaeth yn hybu annibyniaeth i bobl hýn | Cyfarwyddwr Corfforaethol | Cynllun Gweithredu 2013-14 Prosiect Trawsnewid Gwasanaethau Pobl Hŷn (gan anelu i sicrhau cydweithio gwell gyda'r Gwasanaeth Iechyd) ac yn benodol:<br><br>Gofal Preswyl<br>• Ystyried argymhellion asesiad lletya a gofal Porthmadog<br>• Adnabod ffordd ymlaen i'r ddarpariaeth yn nalgylch Porthmadog<br>• Gweithredu rhaglen ymgysylltu ynglŷn â'r ffordd ymlaen<br>• Cytuno ffordd ymlaen cyda chartrefi presywl y Cyngor Gwynedd Council Agor Uned Ysbaid benodol ar sail peilot.<br><br>Gofal Dydd<br>• Cytuno ar gynllun sy'n cyfarch anghenion gofal dydd pobl hŷn gan gynnwys cyfleon gwiath / gwirfoddoli / cymdeithasu / gofal personol a gofal dwys<br>• Adnabod opsiynau gofal dydd Maesincla Caernarfon<br>• Datblygu Rhaglen Waith ar y cyd gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ynglŷn â darpariaeth gofal dydd arbenigol dementia<br><br>Teleofal<br>• Cwblhau adolygiad o achos fusnes teleofal<br>• Cytuno ar y ffordd ymlaen | Mawrth 2014 | Gweler uchod – 1(i)<br><br>Gweler Uchod 3(i)<br><br>Gweler Uchod 3(i) |
| ii. Sicrhau adolygiadau prydlon ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yn unol â chanllawiau statudol | Pennaeth Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd | • Y Gwasanaeth Plant a Theuluoedd i barhau i fonitro'n agos ac i dderbyn rhesymau gan Swyddogion Adolygu Annibynnol ar gyfer pob adolygiad sy'n hwyr | Parhaus | Mae gwelliant parhaus wedi cymryd lle dros y blynyddoedd diwethaf yn amseroldeb cynnal adolygiadau statudol plant mewn gofal :<br>12/13 – perfformiad blwyddyn yn 75.4%<br>13/14 – perfformiad blwyddyn yn 94%<br>14/15 – perfformiad cronnus hyd yma yn 91%<br>Targed eleni wedi ei osod rhwng 92% a 95%<br>Mae'r swyddogion adolygu yn cadw cofnod o'r rhesymau pam fod adolygiadau yn hwyr fel bod modd i'r Tim Rheoli fonitro'r wybodaeth er mwyn canfod os oes unrhyw batrymau yn amlygu eu hunain i'r graddau bod angen ymyrraeth benodol. |

# ATODIAD 1

| GWEITHRED | Arweinydd | Cynllun Gweithredu | Erbyn pryd | Cynnydd |
|---|---|---|---|---|
| iii. Gwella'r broses o gynllunio addysg ar gyfer plant sy'n derbyn gofal | Pennaeth Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd / Pennaeth Addysg | • Y Gwasanaeth Plant a Theuluoedd i barhau i fonitro'n agos<br>• Rôl allweddol i'r Cydlynydd Addysg Grwpiau Bregus i sicrhau a chodi ymwybyddiaeth ymysg ysgolion Gwynedd am bwysigrwydd cwblhau y cynlluniau addysg personol yn amserol | Parhaus | Mae'r sefyllfa o ran cwblhau cynlluniau addysg personol plant mewn gofal eleni wedi dirywio gyda pherfformiad cronnus ar ddiwedd chwarter 2 yn dangos mai 8% o'r niferoedd oedd angen eu cwblhau oedd wedi eu cwblhau yn amserol. Mae'r Gwasanaeth Plant wedi uchafu'r mater i sylw'r Cyfarwyddwr Corfforaethol ar ddechrau mis Tachwedd er mwyn ymyrryd i sicrhau fod rhaglen weithredu yn cael ei rhoi yn ei lle i wella perfformiad. Roedd perfformiad y blynyddoedd blaenorol fel a ganlyn :<br>13/15 – 87%<br>14/15 – 82.1%<br>Mae targed o 85% o gynlluniau yn cael eu cwblhau yn amserol wedi ei osod ar gyfer eleni. |
| iv. Sicrhau gwasanaethau iechyd i blant sy'n derbyn gofal | Pennaeth Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd / BIPBC | • Y Gwasanaeth Plant a Theuluoedd i barhau i fonitro'n agos<br>• Parhau i gynnal y drafodaeth gyda BIPBC i sicrhau adolygu trefniadau gweithredu asesiadau iechyd yn amserol | Parhaus | Mae trafodaethau wedi eu cynnal gyda Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr ers nifer o flynyddoedd i sicrhau gwelliant yn amseroldeb yr asesiadau iechyd sydd angen eu cwblhau. Mae perfformiad yn hanesyddol wedi bod yn isel yng Ngwynedd:<br>13/14 – 46%<br>14/15 – 50.6%<br>Mae perfformiad cronnus hyd ddiwedd chwarter 2 eleni yn dangos gwelliant gyda 63.4% o'r asesiadau disgwyliedig yn cael eu cynnal ar amser. Gosodwyd targed o 60% i ymgyrraedd tuag ato, ac mae'r rhagolygon eleni yn addawol. Mae trafodaethau rheolaidd yn digwydd yn y Panel Rhiant Corfforaethol ar yr ymarfer yn y maes yma gyda swyddogion o'r Bwrdd iechyd yn cael eu galw i adrodd ar gamau gwella ar y cyd a'r Awdurdod Lleol. |
| | | | | |
| **5. Darparu Gwasanaethau Cymdeithasol** | | | | |
| i. Sefydlu system sicrhau ansawdd yn y gwasanaethau i oedolion | Cyfarwyddwr Corfforaethol | • O ran data – datblygu system newydd fydd yn tynnu data yn uniongyrchol o system Rheoli Cofnodi Data yr Adran ac a fydd yn adrodd ar ansawdd data<br>• Defnyddio'r system newydd i adrodd yn chwarterol<br>• Paratoi, datblygu a hyrwyddo canllawiau defnyddio'r system i weithwyr o fewn y meysydd blaenoriaeth<br>• Llunio a chytuno strategaeth sicrhau ansawdd ar draws y gwasanaeth | Mawrth 2014<br>Hydref 2013<br>Parhaus<br>Mawrth 2014 | Datblygwyd system newydd erbyn Mawrth 2014 er mwyn tynnu data yn uniongyrchol o system Rheoli Cofnodi Data yr Adran gan amlygu unryw materion ansawdd data. Defnyddir o hyn allan ac er mwyn adrodd ar ddata perfformiad neu rheolaethol yn unol â'r angen.<br>Gwaith llunio strategaeth sicrhau ansawdd yn mynd rhagddo gyda'r bwriad o'i gwblhau erbyn diwedd Mawrth 2015, ond gwaith pellach wedi ei amserlennu ar gyfer 2015/16 (mater yma wedi cario i Llythur Blynyddol 2013/14 isod) |
| ii. Sicrhau goruchwyliaeth reolaidd a chyson o aelodau staff | Cyfarwyddwr Corfforaethol / Pennaeth Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd | • Datblygu a chytuno ar bolisi a chyfundrefnau ffurfiol<br>• Ystyried opsiynau amrywiol ar gyfer y drefn monitro gan gynnwys cytuno ar y drefn i'w mabwysiadu<br>• Gweithredu ar y drefn | Hydref 2103<br>Mawrth 2104<br>Parhaus | Mae gofynion goruchwyliaeth o ran gweithwyr cymdeithasol cofrestredig yn glir ac mae polisi goruchwylio mewn lle. Mae'r Adran wedi ymrwymo i gynnig goruchwyliaeth ffurfiol i bob gweithiwr rheng flaen (gan gynnwys y rhai di gymhwyster) yn fisol, ac mae hyn yn ymestyn i'r Uwch Reolwyr o fewn yr Adran.<br>Mae trefniadau monitro goruchwylio yn digwydd drwy gyfarfodydd rhwng Uwch Reolwyr a'u rheolwyr timau a thrwy awdit ffeiliau unigol. |

**ATODIAD 1**



| **GWEITHRED** | **Arweinydd** | **Cynllun Gweithredu** | **Erbyn pryd** | **Cynnydd** |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| **6. Darparu Cyfeiriad** | | | | |
| i. Sicrhau bod cysylltiadau, protocolau a chyngor proffesiynol yn cefnogi'r cyfarwyddwr statudol | Cyfarwyddwr Corfforaethol | • Adolygiad i'w gynnal gan y Cyfarwyddwr Statudol<br>• Datblygu rhaglen waith er mwyn ymateb yn seiliedig ar y strwythur, systemau, sgiliau staff a diwylliant rheoli. | Mawrth 2013<br><br>Parhaus | **Grid Tystiolaeth 4(4.11)**<br>Yn ystod 2013-14 llwyddwyd i:<br><br>1. Fabwysiadu a gweithredu Polis a Chanllawiau Diogelu Plant ac Oedolion Cyngor Gwynedd.<br>2. Rheolwyr Dynodedig wedi eu penodi ar gyfer pob Gwasanaeth<br>3. Polisiau Diogelu adrannol wedi eu creu ac wedi eu derbyn gan y Panel Strategol Diogelu<br>4. Rhaglen hyfforddiant Diogleu Plant ac Oedolion wedi ei greu gyda hyfforddiant ar gyfer staff yn cael ei ddarparu.<br>5. Modiwl e-ddysgu corfforaethol wedi ei ddatblygu<br>6. Hyfforddiant ar gyfer Aelodau Etholedig wedi ei ddatblygu ac yn cael ei ddarparu. |
| ii. Gweithredu'r polisi diogelu corfforaethol | Cyfarwyddwr Corfforaethol | • Y Panel Strategol Corfforaethol i godi ymwybyddiaeth ymhlith staff ag aelodau Cyngor Gwynedd ar eu cyfrofoldebau diogelu.<br>• Paratoi a mabwysiadu Polisi a Chanllawiau Diogelu Plant ac Oedolion Corfforaethol ag Adrannol<br>• Adrodd ar waith y Panel yn rheolaidd i'r Cabinet | Parhaus<br><br>Mai 2013<br><br>Parhaus | **Grid Tystiolaeth 4(4.11)**<br><br>Mae ymwybyddiaeth gorfforaethol o faterion Diogelu Oedolion hefyd wedi cynyddu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf gyda Panel Strategol Plant ac Oedolion wedi ei sefydlu. Mae polisi drafft corfforaethol wedi ei lunio. (Aeth y ddogfen a aeth i'r Cabinet 30 Ebrill 2013 ac o flaen y Cyngor Llawn 2il o Fai 2013 er mwyn derbyn cymeradwyaeth).<br><br>**Panel Rhiant Corfforaethol**<br>Yn sgil disgwyliadau Deddf Plant 1989 a Deddf Plant 2004 mae Panel Rhiant Corfforaethol hefyd wedi ei sefydlu fel panel ymgynghorol i gynghori Cabinet Cyngor Gwynedd ar faterion am les a budd plant a phobl ifanc sydd mewn gofal i Gyngor Gwynedd. Sefydlwyd y Panel Rhiant Corfforaethol, ar ei newydd wedd, ym mis Gorffennaf 2012. Cynhelir cyfarfodydd o'r Panel bob chwarter gyda'r hawl i alw cyfarfod brys pe bai'r angen yn codi. Bydd y panel yn adrodd i'r Cabinet ac i aelodau unigol y Cabinet mewn perthynas a materion o fewn eu portffolios.<br><br>Bydd y panel yn derbyn cyfarwyddyd a gwybodaeth am ymarfer da ac ymarfer gorau gan swyddogion arbenigol sy'n aelodau o'r Panel. Rhoddir sylw i ymarfer gorau ar lefel genedlaethol a rhyng genedlaethol ac adroddir ar yr enghreifftiau hyn fel sy'n berthnasol. |
| iii. Sicrhau cefnogaeth gorfforaethol i blant sy'n derbyn gofal, yn enwedig ym maes cynllunio addysg | Cyfarwyddwr Corfforaethol | • Datblygu Strategaeth<br>• Gweithredu'r Strategaeth | Ebrill 2014<br>Parhaus o Ebrill 2014 | Mae Strategaeth Rhiantu Corfforaethol yn y broses o gael ei gwblhau, a bydd ffocws ar sicrhau cefnogaeth addysg i blant mewn gofal yn derbyn sylw. Mae'r strategaeth wedi bod mewn ffurf drafft ers cyfnod, ac yn dilyn colli swydd bu oediad yn y gwaith o'i gwblhau. Ers Hydref 2015 mae penderfyniad fod y cyfrifoldeb gweithredol am waith y Panel Rhiant Corfforaethol yn eistedd gyda'r Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd yn hytrach na gyda'r Adran Cefnogaeth Gorfforaethol, ac mae sicrhau fod strategaeth a chynllun gweithredu clir mewn lle yn flaenoriaeth o ran y rhaglen waith. |

# ADRODDIADAU ARCHWILIO ALLANOL 2012/13 - 2014/15

**ATODIAD 1**

### 1.2.2 Blwyddyn 2013-2014

Cylchredwyd yr adroddiad i swyddogion perthnasol a'r aelodau perthnasol. Cyflwynwyd yr adroddiad i'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau ar 11 Rhagfyr 2014 gan Marc Roberts a Vicky Poole, Arolygaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru gyda chynllun gweithredu'r Cyngor. Yn ogystal cyflwynwyd adroddiad Arolygaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru i'r Cabinet ar 19 Chwefror 2015 ble y cytunwyd i roi sêl bendith i'r rhaglen waith sy'n ymateb i argymhellion a meysydd gwella yr Arolygaeth.

| Thema | Maes Gwella | Sylwadau a wnaed gan AGGCC yn eu hadolygiad blynyddol o Wynedd 2013-14 | Cynllun Gweithredu | Sut ydym yn monitro | Sefyllfa cynnydd ddiwedd Mai 2015 | Sylwadau wedi eu hamlygu gan y Gwasanaeth |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Llunio Gwasanaethau** | **i. Cynllunio strategol gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) mewn gwasanaethau i oedolion.** | Yn unol â dull gweithredu strategol y cyngor, "Ffordd Gwynedd", nod y cyngor yw gwella'r gwaith a wneir mewn partneriaeth gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BCUHB), a'r trydydd sector.<br><br>Mae Tîm Trawsnewid Integredig sy'n cynnwys uwch-swyddogion o BCUHB, y gwasanaethau cymdeithasol, tai a'r trydydd sector wedi gwneud cynnydd wrth ddatblygu trefniadau gweithio integredig.<br><br>Ceir cynlluniau pellach i wella gwaith integredig trwy gydleoli staff iechyd a gwasanaethau cymdeithasol a gwella'r cyfathrebu rhwng systemau technoleg gwybodaeth. Mae'r datblygiadau hyn yn bwysig er mwyn gwella effeithiolrwydd ac er mwyn casglu gwybodaeth i gyfrannu at waith cynllunio yn y dyfodol. | • Gweithredu yn unol ag egwyddorion y "Fframwaith ar gyfer Darparu Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig ar gyfer Pobl Hŷn sydd ag anghenion cymhleth" a arwyddwyd yn Mawrth 2014 gan 6 awdurdod lleol y Gogledd ac BIPBC.<br>• Sefydlu Fforwm Sirol Gwynedd.<br>• Cynnal cyfarfodydd o'r Fforwm pob 6 wythnos.<br>• Adolygu trefniadau a chylch gorwchyl Bwrdd Gwasanaethau Lleol Gwynedd a Môn.<br>• Penodi Swydd (secondiad) Rheolwr Integreiddio a Thrawsffurfio Gwasanaethau ar y cyd gyda BIPBC.<br>• Gweithredu cynlluniau 2014-15 Cronfa Canolraddol Gwynedd (ICF) | Panel Cyflawni Gofal<br><br>Bwrdd Gwasanaethau Lleol Gwynedd a Môn<br><br>Fforwm Sirol | 1. Fforwm Sirol wedi ei sefydlu ac yn cwrdd yn rheolaidd.<br>2. Gwaith adolygu trefniadau a chylch gorwchyl Bwrdd Gwasanaethau Lleol Gwynedd a Môn yn parhau.<br>3. Swydd (secondiad) Rheolwr Integreiddio a Thrawsffurfio Gwasanaethau ar y cyd gyda BIPBC wedi bod yn weithredol yn 2014-15 ond bellach cyfnod wedi dod i ben.<br>4. Cynlluniau arian ICF wedi eu gweithredu yn y flwyddyn - gweler yr adroddiad cynnydd perthnasol.<br>5. Y berthynas gyda Iechyd yn parhau i'w gryfhau.<br>6. Un cynllun a ariannwyd gyda adnoddau ICF oedd yr Adolygiad Gosod Cyfeiriad i Wasanaethau Pobl Hŷn. Bellach mae treialu'r ffordd newydd o weithio trwy ddull Ffordd Gwynedd yn weithredol ers y 5ed o Ionawr 2015. | Sicrhau adnoddau er mwyn parhau gyda 'r cynlluniau sydd wedi eu sefydlu gan arian ICF yn fater. |
| | **ii. Cynllunio strategol gyda BIPBC yn y Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS).** | Mae'r Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) yn rhan o BCUHB ac nid yw'n monitro'r gwasanaeth therapiwtig ar gyfer plant/pobl ifanc sy'n cael eu lleoli y tu allan i ardal yr awdurdod, oni bai eu bod wedi gwneud cyfraniad ariannol tuag at y lleoliad. | • Cyfarfod wedi ei gynnal cychwyn Haf 2014 rhwng y Cyngor ag Uwch Reolwyr BIPBC i drafod y maes yma.<br>• Trafodaethau pellach i'w cynnal. | Tim Rheoli Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd ac os bo angen uchafu adrodd i'r:<br>- Panel Cyflawni Plant a Phobl Ifanc<br>- Panel Rhiantu Corfforaethol | 1. Cyfarfod wedi ei gynnal cychwyn Haf 2014 rhwng y Cyngor ag Uwch Reolwyr BIPBC i drafod y maes yma.<br>2. Cyfarfodydd lefel Uchel i barhau.<br>3. Is gyfarfodydd hefyd wedi eu cynnal yn sgil y cyfarfod yn Haf 2014. | Is gyfarfodydd bellach wedi eu cynnal yn sgil y cyfarfod yn Haf 2014 sydd yn cymryd lle yn chwarterol. Hyn yn gam cadarnhaol er sicrhau gwella'r berthynas strategol i'r dyfodol. |

# ADRODDIADAU ARCHWILIO ALLANOL 2012/13 - 2014/15

## ATODIAD 1



| Thema | Maes Gwella | Sylwadau a wnaed gan AGGCC yn eu hadolygiad blynyddol o Wynedd 2013-14 | Cynllun Gweithredu | Sut ydym yn monitro | Sefyllfa cynnydd ddiwedd Mai 2015 | Sylwadau wedi eu hamlygu gan y Gwasanaeth |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **iii. Defnyddio gwybodaeth gan baneli plant sy'n derbyn gofal er mwyn disgrifio tueddiadau ac anghenion y boblogaeth.** | Nid yw systemau'r cyngor yn cipio proffil o boblogaeth y plant sy'n derbyn gofal yn rheolaidd, a'u hanghenion a aseswyd. Mae'r wybodaeth hon yn hanfodol os yw'r awdurdod yn mynd i werthuso effeithiolrwydd ei strategaethau lleoli a pharhad, a rhagweld yr angen am adnoddau yn y dyfodol. Gallai'r wybodaeth a gyflwynir i baneli amrywiol gyfrannu at broffil manwl o'r angen a welir. | • Yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd wedi sefydlu paneli cynllunio gofal parhaol, panel adnoddau i edrych ar geisiadau o'r newydd a Phanel Comisiynu lleolidau statudol.<br>• Bydd angen crynhoi'r wybodaeth a ddaw am anghenion gofal o'r strwythurau hyn i fwydo i strategaethau gofal y gwasanaeth. | Yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd drwy'r:<br>1. Paneli Cynllunio Gofal Parhaol<br>2. Panel Adnoddau<br>3. Panel Comisiynu Lleoliadau Statudol<br>4. Panel Rheoli Lleoliadau<br><br>Os bo angen uchafu i'r Panel Cyflawni Plant a Phobl Ifanc | 1. Paneli wedi eu sefydlu ac yn cael eu cynnal.<br>2. Panel Rheoli Lleoliadau wedi ei sefydlu yn ychwanegol ac hynny yn sgil canfyddiadau yr arolwg End to End Plant. Hwn yn cadw'r ffocws ar leoliadau newydd, sicrhau fod plant yn cyrraedd adref yn amserol. | Bydd yr Adran yn gallu pigo ac adnabod tueddiadau yn deillio o'r paneli yma ond rhaid cydnabod mai proses dros amser fydd hyn. |
| **Cael gafael ar gymorth** | **i. Amseroldeb gwaith asesu cychwynnol yn y gwasanaethau plant.** | Mae angen gwella canran yr asesiadau cychwynnol sy'n cael eu cwblhau cyn pen saith diwrnod; yn 2013- 14, llwyddodd y cyngor i gwblhau 67% o asesiadau cychwynnol cyn pen saith diwrnod gwaith, o'i gymharu gyda chanran gyfartalog o 72% yng Nghymru. | • Un swydd gweithiwr cymdeithasol wedi ei ychwanegu at sefydliad y Tîm Derbyn cyfeiriadau.<br>• Trefniant mewn lle i uwch weithiwr fod yn cymeradwyo'r asesiadau er mwyn gwella'r perfformiad 7 diwrnod.<br>• Gwaith gwella'r trefniadau, megis adroddiadau rheolaidd yn cael ei gynhyrchu i atgoffa rheolwr o achosion sydd angen eu cau. | Tim Rheoli Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd ac os bo angen uchafu adrodd i'r:<br>- Panel Cyflawni Plant a Phobl Ifanc | 1. Cyrhaeddiad ddiwedd Mawrth 2015 (SCC/042a) yn 70% sydd yn welliant ar gyrhaeddiad ddiwedd 2013/14 o 67.1%.<br>2. Uchelgais 2014/15 ar gyfer SCC/042a oedd 73% felly cyrhaeddiad ddiwedd Mawrth 2015 ychydig yn is. | Ymdrechion yn parhau o ran sicrhau ein bod yn deall rhesymau am unrhyw achosion sydd heb gwrdd â'r gofyn. |
| | **ii. Gwelliant parhaus er mwyn gostwng nifer y plant sy'n cael eu hailgyfeirio.** | Gwelwyd gostyngiad yng nghanran y plant sy'n cael eu hailgyfeirio o 39% yn 2011-12 i 26.6% yn 2013-14; fodd bynnag, mae'r ganran hon yn parhau i fod yn uwch na'r ganran gyfartalog yng Nghymru ac mae'n faes y mae angen gwneud gwelliant parhaus ynddo. | • Yr Adran Plant a Theuluoedd yn monitro hwn yn agos er mwyn sicrhau a chynnal y gwelliant parhaus.<br>• Systemau'r Adran Adran Plant a Theuluoedd bellach yn gwahaniaethu rhwng cyfeiriadau a hysbysiadau, lle nad oedd hyn yn wir yn y gorffennol, sydd wedi arwain at welliant. | Tim Rheoli Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd ac os bo angen uchafu adrodd i'r:<br>- Panel Cyflawni Plant a Phobl Ifanc<br>- Panel Rhiantu | 1. Cyrhaeddiad ddiwedd Mawrth 2015 (SCC/010) yn 25.7% sydd ychydig yn welliant bychan ar gyrhaeddiad ddiwedd 2013/14 o 26.6%.<br>2. Uchelgais 2014/15 ar gyfer SCC/010 oedd 30% felly cyrhaeddiad ddiwedd Mawrth 2015 o fewn yr uchelgais. | Ymdrechion yn parhau a trefniadau dal yn cael eu gweithredu i sicrhau cynnal gwelliant. |

ADRODDIADAU ARCHWILIO ALLANOL 2012/13 - 2014/15

ATODIAD 1

| Thema | Maes Gwella | Sylwadau a wnaed gan AGGCC yn eu hadolygiad blynyddol o Wynedd 2013-14 | Cynllun Gweithredu | Sut ydym yn monitro | Sefyllfa cynnydd ddiwedd Mai 2015 | Sylwadau wedi eu hamlygu gan y Gwasanaeth |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **iii. Ymwybyddiaeth a defnydd o wasanaethau eiriolaeth.** | Adroddodd arolygiad LAC bod pobl ifanc yn dweud eu bod yn cael eu hannog i fynychu eu hadolygiadau a bod eiriolaeth ar gael. Canfu'r arolygiad bod ansawdd y cynlluniau gofal yn amrywio, a bod angen diweddaru hyn yn ystod gwaith asesu dilynol.<br><br>Nid oedd rhai o'r bobl ifanc a welwyd yn ymwybodol o'r gwasanaeth eiriolaeth ac mae'r niferoedd sy'n manteisio ar y gwasanaeth eiriolaeth yn isel, a nodwyd bod y dull gweithredu wedi'i seilio ar faterion a diffyg eiriolwyr sy'n siarad Cymraeg yn rhwystrau. | • Creu consortia rhanbarthol (Gogledd Cymru) er mwyn sicrhau cytundeb darpariaeth gwasanaeth Adfocatiaeth Rhanbarthol o Ebrill 2015 ymlaen.<br>• Proses tendro am wasanaeth Adfocatiaeth Rhanbarthol.<br>• Penodi darparwr gwasanaeth Adfocatiaeth ar gyfer rhanbarth Gogledd Cymru.<br>• Darpariaeth gwasanaeth Adfocatiaeth Rhanbarthol yn weithredol.<br>• Adolygiad o'r camau hyrwyddo ymwybyddiaeth a chynnydd mewn defnydd. | Tim Rheoli Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd ac os bo angen uchafu adrodd i'r:<br>- Panel Cyflawni Plant a Phobl Ifanc<br>- Panel Rhiantu Corfforaethol<br>- Consortia adfocatiaeth rhanbarthol Gogledd Cymru | 1. Consortia rhanbarthol wedi ei sefydlu.<br>2. Proses tendro wedi mynd rhagddo ac penderfyniad o ran darparwr buddugol wedi ei gwblhau cyn ddiwedd Ionawr 2015.<br>3. Canlyniad y gwaith yma yw fod darparwr eiriolaeth wedi derbyn cytundeb i ddarparu ar draws y chwe Sir yn y Gogledd yn weithredol o Ebrill 1af, 2015. | Yn sgîl y gwaith yma rydym yn cyfrannu tuag at adolygiad o wasanethau eiriolaeth cenedlaethol gyda'r bwriad o sefydlu gwasanaeth cenedlaethol yn y dyfodol agos. |

# ADRODDIADAU ARCHWILIO ALLANOL 2012/13 - 2014/15

## ATODIAD 1



| Thema | Maes Gwella | Sylwadau a wnaed gan AGGCC yn eu hadolygiad blynyddol o Wynedd 2013-14 | Cynllun Gweithredu | Sut ydym yn monitro | Sefyllfa cynnydd ddiwedd Mai 2015 | Sylwadau wedi eu hamlygu gan y Gwasanaeth |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Y gwasanaethau a ddarpar-wyd** | **i. Cysondeb wrth ymateb i gwynion** | Mae'r cyngor wedi gwneud gwelliannau i'w broses gwyno a'r trosolwg corfforaethol o gwynion. Mae dysgu gan gwynion a'u defnyddio er mwyn gwella gwasanaethau yn thema bwysig o fewn “Ffordd Gwynedd” a materion strategol, ac mae'r cyfarwyddwr corfforaethol bellach yn ystyried yr holl ymchwiliadau a gynhelir gan yr Ombwdsmon.<br><br>Ceir enghreifftiau o gwynion a oedd yn cynnwys y sawl a oedd yn cwyno yn nodi gwelliannau a datrysiadau, ond mae angen gwella cysondeb a'r broses o reoli cwynion ymhellach.<br><br>Mae'r cyngor yn bwriadu gwella'r gwasanaeth, gan ymateb i ganllawiau newydd Llywodraeth Cymru ynghylch rheoli cwynion. | • Datblygu / adolygu Strategaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer y gwasanaethau fydd yn cynnwys sylw i'r prosesau cwynion a sylwadau.<br>• Staff yr Uned Gofal Cwsmer i fynychu hyfforddiant arbenigiol cwynion a diogelu data er mwyn datblygu sgiliau'r staff a gwybodaeth yr uned.<br>• Gweithredu yn unol â threfn a rheolaethau cwynion gofal cymdeithasol Llywiodraeth Cymru 2013 (statudol ar y 1af o Fehefin 2014) yn sgil canllaw newydd - Gwneud Pethau'n Iawn.<br>• Yn sgil y drefn a rheolaethau cenedlaethol newydd, diwygio canllawiau a pholisi cwynion yr Adran.<br>• Cyhoeddi taflenni gwybodaeth yn sgil y diwygiadau i ganllawiau a pholisi.<br>• Cylch hyfforddiant yn cael ei cynnig i'r staff ar draws y Gwasanaethau Cymdeithasol. | Tim Rheoli Adran Oedolion Iechyd a Llesiant<br><br>Adroddiad Cynnydd Blynyddol i AGGCC | 1. Ar 1af o Awst 2014 daeth trefn gwynion statudol newydd i rym gan ddisodli'r canllawiau cenedlaethol ‘Gwrando a Dysgu’. Bu i ni ymateb i'r newidiadau drwy lansio polisi lleol newydd a oedd yn adlewyrchu'r newidiadau, cynnal sesiynau codi ymwybyddiaeth i staff a rheolwyr a lansio taflen wybodaeth newydd i ddefnyddwyr.<br>2. Mae prosiect hefyd ar y gweill i gyd-weithio gyda pherson ifanc i ddatblygu taflen benodol i blant a phobl ifanc ar y drefn gwynion.<br>3. Bu i Reolwr yr Uned Gofal Cwsmer a Gwybodaeth ddychwelyd o gyfnod mamolaeth yn Nhachwedd 2014.<br>4. Yn ystod 2014 bu i staff yr uned fynychu hyfforddiant arbenigol cwynion er mwyn datblygu sgiliau'r staff a gwybodaeth yr uned. Rydym yn hyderus fod trefniadau rheolaethol a monitro wedi cryfhau ac ein bod wedi gwella ein gallu i gwrdd ag amserlenni statudol y drefn.<br>5. Yn ystod 2014/15 bu i hyfforddiant gael ei gynllunio ar gyfer Rheolwyr Gwasanaethau a bydd yr hyfforddiant ar gael yn ystod 2015.<br>6. Mae modiwl e-ddysgu ar y drefn gwynion hefyd yn cael ei ddatblygu ar gyfer staff rheng flaen.<br>7.Mae adroddiad chwarterol cwynion yn cael ei greu gan yr Uned sydd yn amlygu unrhyw ystadegau, perfformiad ymateb, materion sydd wedi deillio a gwersi. Mae hefyd adroddiad blynyddol cwynion yn adrodd ar faterion dros y flwyddyn. Mae'r adroddiadau hyn yn cael eu rhannu gyda Thimau Rheoli a Rheolwyr er mwyn tynnu eu sylw at unrhyw faterion a gwersi a gwella gwasanaethau o ganlyniad. | Mae dysgu o gwynion a defnyddio'r wybodaeth er mwyn gwella gwasanaethau yn thema bwysig o fewn meddylfryd Gwynedd o sicrhau bod y dinesydd yn ganolog i bob dim yr ydym yn ei wneud. Mae'r Cyfarwyddwr Corfforaethol yn ystyried yr holl ymchwiliadau a gynhelir gan yr Ombwdsmon ac yn ymateb i gwynion Cam 2. |

# ADRODDIADAU ARCHWILIO ALLANOL 2012/13 - 2014/15

## ATODIAD 1

| Thema | Maes Gwella | Sylwadau a wnaed gan AGGCC yn eu hadolygiad blynyddol o Wynedd 2013-14 | Cynllun Gweithredu | Sut ydym yn monitro | Sefyllfa cynnydd ddiwedd Mai 2015 | Sylwadau wedi eu hamlygu gan y Gwasanaeth |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **iia. Cyfleoedd i fanteisio ar ofal iechyd a llety ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. (Llety)** | Canfu arolygiad AGGCC o wasanaethau maethu bod gan blant a phobl ifanc leoliadau diogel lle y bodlonir eu hanghenion. Mae gan blant lais a chyfleoedd i ddweud eu dweud, ac mae modd iddynt gael dylanwad ar y ffordd y darparir y gwasanaeth. Canfu arolygiad AGGCC o Ddrws y Nant, sef y cartref plant a gomisiynir gan y cyngor, ymdeimlad cryf iawn o ofal sy'n canolbwyntio ar y person, lle y nododd pobl ifanc bod pobl yn gwrando arnynt a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi.<br><br>Fodd bynnag, bu'r arolygiad o blant sy'n derbyn gofal yn ystyried pobl ifanc sydd ag anghenion cymhleth, a chanfu nad yw amrediad y lleoliadau sydd argael yn ddigonol er mwyn bodloni anghenion cymhleth rhai pobl ifanc ac nad yw gweithgarwch priodol er mwyn "cyfateb" anghenion gyda sgiliau gofalwyr maeth bob amser yn digwydd. Mae'r cyngor yn gweithio i gynyddu amrediad y gofalwyr maeth mewnol er mwyn bodloni'r angen hwn. | • Gweithio i gynyddu amrediad y gofalwyr maeth mewnol.<br>• Cynyddu'r amrediad lleoliadau sydd ar gael er mwyn bodloni plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal sydd gydg anghenion cymhleth. | Tim Rheoli Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd ac os bo angen uchafu adrodd i'r:<br>- Panel Cyflawni Plant a Phobl Ifanc<br>- Panel Rhiantu Corfforaethol | 1. Ymdrechion yn parhau.<br>2. Gwynedd yn rhan o beilot i'r cynllun "Pan Fydda i'n Barod" ynghyd a Chynghorau Merthyr a Rhondda Cynon Taf. Mae'r cynllun "Pan Fydda i'n Barod" yn hybu'r egwyddor nad yw'r gwaith o fagu plentyn yn dod i ben pan mae pobl ifanc yn troi deunaw oed. Mae'r cynllun yn rhoi'r opsiwn i bobl ifanc fedru parhau i dderbyn cymorth a chefnogaeth wrth barhau yn eu lleoliadau maethu tu hwnt i 18 oed. Yn sgil bod yn rhan o'r cynllun peilot mae'r Cyngor wedi:<br>• Cyflwyno'r cynllun i weithwyr y Tîm Ôl 16 er mwyn iddynt fedru trafod opsiynau gyda phobl ifanc a'u gofalwyr.<br>• Darparu gwybodaeth cynnydd a data'n fisol i'r grŵp monitro, gan gynnwys rhoi adborth ar wersi a ddysgwyd er mwyn mireinio'r canllawiau a roddir gan y Llywodraeth pan ddaw'r cynllun yn statudol.<br>• Datblygu polisi drafft a chanllawiau ymarfer ar gyfer y cynllun trwy'r grŵp monitro.<br>• Cynnal grŵp ffocws lleol gyda gofalwyr maeth a phobl ifanc er mwyn ceisio'u barn ar y cynllun. Hwyluswydd y cyfarfodydd hyn gan Gweithredu Dros Blant.<br>• Dadansoddi effaith cost o gyflwyno'r cynllun o dan arweiniad Cyngor Rhondda Cynon Taf.<br>• Datblygu fframwaith mesur deilliannau (drafft) ar gyfer pobl ifanc sydd wedi bod yn rhan o'r cynllun. | Y defnydd o asiantaethau maethu yn llai na blynyddoedd blaenorol o ran lleoliadau newydd.<br>Y gwaith yn her barhaus yn enwedig lleoliadau i blant yn eu harddegau ac y nifer rhwng 0 a 2oed.<br>Adroddiad wedi bod o flaen Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Mehefin 2014 ar "Pan Fyddai'n Barod"<br>https://diogel.cyngor.gwynedd.gov.uk/GwasanaethauGwe/FfeiliauSystemau.Allanol/Pwyllgor/Ffeil?iaith=cy&llwybr=/2014-15/Pwyllgor Craffu Gwasanaethau_Services Scrutiny Committee/2014-06-19/09_01_Adroddiad ar Brosiect Ol-ofal Pan dwi'n Barod.pdf |

# ADRODDIADAU ARCHWILIO ALLANOL 2012/13 - 2014/15

## ATODIAD 1

| Thema | Maes Gwella | Sylwadau a wnaed gan AGGCC yn eu hadolygiad blynyddol o Wynedd 2013-14 | Cynllun Gweithredu | Sut ydym yn monitro | Sefyllfa cynnydd ddiwedd Mai 2015 | Sylwadau wedi eu hamlygu gan y Gwasanaeth |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **iib. Cyfleoedd i fanteisio ar ofal iechyd a llety ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. (Iechyd)** | Nododd yr arolygiad cenedlaethol o LAC yr angen i ddatblygu'r cyfleoedd i blant sy'n derbyn gofal i fanteisio ar wasanaethau iechyd sylfaenol a llety camu ymlaen. Fel rhan o'i gyfrifoldebau rhianta corfforaethol, dylai'r cyngor sicrhau bod modd i'r plant y mae'n gofalu amdanynt ddefnyddio gofal iechyd sylfaenol.<br><br>Gwelwyd y perfformiad ar gyfer cofrestru gyda Meddyg Teulu cyn pen 10 diwrnod yn gostwng o 92.5% yn 2012-13 i 78.4% yn 2013-14. Er bod canran yr asesiadau iechyd ar gyfer plant sy'n derbyn gofal wedi gwella 15% i 46%, mae'n parhau i fod lawer yn is na'r ganran gyfartalog yng Nghymru, sef 81%. | • Yr Adran Plant a Theuluoedd i barhau i fonitro'r sefyllfa'n agos.<br>• Parhau i gynnal y drafodaeth gyda BIPBC i sicrhau adolygu trefniadau gweithredu asesiadau iechyd yn amserol.<br>• Y maes yma yn cael ei adrodd arno yn rheolaidd i'r Panel Rhiantu Corfforaethol. | Tim Rheoli Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd ac os bo angen uchafu adrodd i'r:<br>- Panel Cyflawni Plant a Phobl Ifanc<br>- Panel Rhiantu Corfforaethol | 1. Cyrhaeddiad ddiwedd Mawrth 2015 (SCC/039) yn 50.6% sydd yn welliant ar gyrhaeddiad ddiwedd 2013/14 o 46%.<br>2. Uchelgais 2014/15 ar gyfer SCC/039 yw 60% felly cyrhaeddiad ddiwedd Mawrth 2015 yn llai.<br><br>Er bod canran yr asesiadau iechyd ar gyfer plant sy'n derbyn gofal wedi gwella eto eleni i 50.6%, mae'n parhau i fod lawer yn is na'r ganran gyfartalog yng Nghymru, sef 81%. | Mae hyn yn peri pryder i'r Cyngor ac mae'n faes sydd yn cael sylw gan y Panel Rhiantu Corfforaethol sydd yn parhau i geisio cynnal y drafodaeth gyda BIPBC i well gwelliant yn y sefyllfa. |

# ADRODDIADAU ARCHWILIO ALLANOL 2012/13 - 2014/15

## ATODIAD 1

| Thema | Maes Gwella | Sylwadau a wnaed gan AGGCC yn eu hadolygiad blynyddol o Wynedd 2013-14 | Cynllun Gweithredu | Sut ydym yn monitro | Sefyllfa cynnydd ddiwedd Mai 2015 | Sylwadau wedi eu hamlygu gan y Gwasanaeth |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Yr effaith ar fywydau pobl** | **i. Gwerthuso effaith y strwythurau diogelu corfforaethol.** | Yn ystod 2013-14, sefydlodd cynghorau Gwynedd ac Ynys Môn Fwrdd Diogelu Oedolion ar y cyd. Mae'r bwrdd wedi datblygu rhaglen waith er mwyn cynyddu'r ddealltwriaeth o ddiogelu ac er mwyn datblygu dull gweithredu ataliol tuag at ddiogelu oedolion. | • Polisïau a gweithdrefnau'n cael eu hadolygu'n flynyddol a'u cymeradwyo gan y Panel Strategol Diogelu.<br>• Trefn adrodd mesur effaith yn ei le ac yn adrodd i'r Panel Strategol Diogelu, y Cabinet a'r Tîm Rheoli.<br>• Awdit blynyddol yn cael ei gynnal sy'n mesur ansawdd y polisïau a'r gweithdrefnau diogelu ac ymwybyddiaeth staff o sut i weithredu ar adeg o bryder.<br>• Sicrhau awdit annibynnol o ansawdd a gweithrediad y polisi a'r gweithdrefnau drwy samplo gweithdrefnau a lefel ymwybyddiaeth staff o fewn y Cyngor.<br>• Gweithredu ar argymhellion yr awdit. | Panel Strategol Diogelu<br><br>Cabinet<br><br>Tîm Rheoli Corfforaethol | 1. Trefniadau yn parhau yn gorfforaethol. Mae'r Panel Strategol Diogelu yn cyfarfod yn rheolaidd bob 6  i 8 wythnos a'r Panel Gweithredol yn cyfarfod bob mis.<br>2. Cyflwynwyd adroddiad ar ganlyniadau 3 archwiliad i faterion Diogelu yng Ngwynedd i Gabinet 16 Rhagfyr 2014.  Canolbwyntiodd yr adroddiad ar argymhellion corfforaethol a wnaethpwyd gan y cyrff archwilio.<br>3. Cymeradwywyd yr argymhellion a'r bwriadau gan y Cabinet . Cytunodd y Panel i gyfannu'r argymhellion yma i Raglen Waith ar gyfer 2015-2016.<br>4. Cyhoeddwyd yr awdit a gomisiynwyd gan y Panel Strategol  " Awdit - Diogelu Plant ac Oedolion ( Cyngor Gwynedd ) gan arbenigwr allanol.  Mae'n adroddiad cadarnhaol sy'n cynnwys cyfres o argymhellion. Trafodwyd y rhain yn y Panel Strategol a phenderfynwyd eu cyfannu i Raglen Waith 2015-2016. | Y 3 adroddiad sail trafodaeth Cabinet Rhagfyr 2014 oedd:<br>i. "Adroddiad ar ansawdd gwasanaethau addysg awdurdodau lleol i blant a phobl ifanc." Estyn a Swyddfa Archwilio Cymru ym Mawrth 2013<br>ii. "Arolygiad Cenedlaethol Diogelu a Chynllunio Gofal ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ac unigolion sy'n gadael gofal, sy'n ymddwyn mewn ffordd sy'n eu gwneud yn agored i niwed neu a allai beri risg ." AGGCC yn Awst 2014<br>iii."Trefniadau Diogelu Plant Awdurdodau Lleol ." Swyddfa Archwilio Cymru yn Hydref 2014. |
| | **ii. Amseroldeb cynhadleddau amddiffyn plant.** | Mae'r cyngor wedi gostwng nifer y plant y mae'n gofalu amdanynt o 203 yn 2012-13 i 185 yn 2013-14.  Mae wedi sicrhau gwelliant sylweddol yn ei berfformiad o ran amseroldeb adolygu cynlluniau gofal plant sy'n derbyn gofal, gyda 94.3% yn cael eu cynnal o fewn amserlenni statudol bellach, o'i gymharu gyda 75.4% yn 2012-13.  Fodd bynnag, mae hyn yn parhau i fod yn is na'r ganran gyfartalog yng Nghymru (95.9%). | • Yr Adran Plant a Theuluoedd i barhau i fonitro'n agos.<br>• Yr Adran Plant a Theuluoedd i dderbyn rhesymau gan y Cydlynudd Amddiffyn Plant Adolygu Annibynnol ar gyfer pob cynhadledd sy'n hwyr a gweithredu fel bo'n briodol. | Tim Rheoli Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd ac os bo angen uchafu adrodd i'r:<br>- Panel Cyflawni Plant a Phobl Ifanc<br>- Grwp Gweithredol Diogelu Plant Gwynedd ac Ynys Mon | 1. Gwaith monitro ac derbyn rhesymau am gynhadleddau hwyr yn parhau.<br><br>2. Cyrhaeddiad ddiwedd Medi 2015 (SCC/014) yn 85.4% a SCC/034 yn 77.6%.<br><br>Mae cynnydd yn y niferoedd o gynhadleddau amddiffyn plant sydd yn cael eu cynnal, ac yn ystod 14/15 cynhaliwyd 85.4% o gynhadleddau amddiffyn plant cychwynnol o fewn yr amserlen statudol. Roedd hyn yn is na'r targed a osodwyd, sef 90% ac yn is na chyfartaledd Cymru. Hyd at ddiwedd chwarter 2 14/15 mae perfformiad cronnus yn 87.9%. Yn ystod 14/15 cynhaliwyd 95/7% o gynhadleddau amddiffyn plant adolygol ar amser, yn erbyn targed o rhwng 95% - 100%. Eleni mae perfformiad cronnus ar ddiwedd yr ail chwarter yn 77.6% ac mae hyn yn derbyn sylw gan yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd. | Mae'r Adran yn cadw llygad agos ar y rhesymau pam fod cynhadleddau yn hwyr ac yn gweld patrwm clir o fethu cael cworwm (yn unol a Chanllawiau Amddiffyn Plant Cymru gyfan) i gynnal cynhadleddau adolygol yn benodol. Mae'r cadeirydd yn gwneud penderfyniad ar sail barn broffesiynol i barhau â'r gynhadledd heb y partneriaid allweddol, neu i ohirio er mwyn sicrhau presenoldeb.  Mae'r materion yn cael eu dwyn i sylw'r partneriaid statudol yn rheolaidd i geisio datrysiad. |

# ADRODDIADAU ARCHWILIO ALLANOL 2012/13 - 2014/15

## ATODIAD 1

| Thema | Maes Gwella | Sylwadau a wnaed gan AGGCC yn eu hadolygiad blynyddol o Wynedd 2013-14 | Cynllun Gweithredu | Sut ydym yn monitro | Sefyllfa cynnydd ddiwedd Mai 2015 | Sylwadau wedi eu hamlygu gan y Gwasanaeth |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyflwyno Gwasan-aethau Cymdei-thasol** | **i. Codi ymwybyddiaeth o oblygiadau a gofynion Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid (DoLS) a gweithredu'r trefniadau llywodraethu ar gyfer gweithredu'r gweithdrefnau.** | Canfu arolygiad DoLS AGGCC bod yr hyfforddiant priodol yn cael ei ddarparu i'r aseswyr arbenigol a oedd yn cael eu cynorthwyo gan reolwyr gwybodus a phrofiadol. Nid yw hyfforddiant lleol a gweithgarwch i hyrwyddo DoLS y tu allan i'r cyngor wedi arwain at ymwybyddiaeth eang a dealltwriaeth o'r trefniadau diogelu. Mae'r angen i gynyddu ymwybyddiaeth a hyfforddiant DoLS yn adlewyrchu angen mwy cyffredinol i brif-ffrydio DoLS ar draws y cyngor, gofal cymdeithasol ac iechyd. Nododd arolygwyr y dylai'r cyngor ystyried ei drefniadau rheoli er mwyn sicrhau na cheir gwrthdaro rhwng buddiannau rhwng y corff goruchwylio sy'n goruchwylio proses asesu DoLS a'r awdurdod rheoli sy'n gyfrifol am y gofal a ddarparir.<br><br>Mae cyfraith achosion diweddar wedi ehangu'r cwmpas ar gyfer gweithrediad posibl trefniadau diogelu DoLS yn sylweddol, ac mae hyn eisoes yn cael effaith amlwg ar y galw a'r angen i'r cyngor ymateb mewn ffordd briodol. Mae gan y cyngor 9 o aseswyr budd pennaf ac mae mewn sefyllfa dda i fodloni'r cynnydd o ran y galw. | • Addasu gweithrefnau Gwynedd o ran DoLS.<br>• Penodi Cydlynydd DoLS i Wynedd.<br>• Trefniadau hyfforddi staff o ran gweithdrefnau a gofynion DoLS.<br>• Llunio rhaglen waith DoLS ar gyfer gwaith pellach o ran ymateb yn lleol gyda oblygiadau DoLS.<br>• Llunio a chyflwyno bid ariannol fel am adnoddau parhaol, ar gyfer ariannu swydd y Cydlynydd DoLS ac ariannu chyfreithiwr a chefnogaeth weinyddol i ymgymryd a'r gofynion DoLS, o 2015 ymlaen fel rhan o broses bidiau'r Cyngor. | Tim Rheoli Adran Oedolion Iechyd a Llesiant<br><br>Panel Strategol Diogelu | 1. Addasu gweithrefnau Gwynedd o ran DoLS wedi digwydd.<br>2. Cydlynydd DoLS i Wynedd wedi ei phenodi.<br>3.Bid wedi ei lunio a'i gyflwyno am adnoddau parhaol, ar gyfer ariannu swydd y Cydlynydd DoLS ac ariannu chyfreithiwr a chefnogaeth weinyddol i ymgymryd a'r gofynion DoLS, o 2015 ymlaen fel rhan o broses bidiau'r Cyngor.<br>4. Trefniadau hyfforddi staff o ran gweithdrefnau a gofynion DoLS.<br>5. Y gwaith o llunio rhaglen waith DoLS ar gyfer gwaith pellach o ran ymateb yn lleol gyda oblygiadau DoLS i'w gwblhau erbyn diwedd Mawrth 2015. | Ymddengys na fydd y bid ariannol am adnoddau corfforaethol parhaol yn llwyddiannus.<br>Angen felly adnabod yr adnoddau allan o gyllidebau'r Adran (o gofio yr agenda arbedion effeithiolrwydd ac torriadau sy'n ein wynebu).<br>Niferoedd ceisiadau DoLS wedi codi yn sylweddol rhwng 2013-14 ac 2014-15.<br><br>Ceisiadau DoLS 2013-14 : 7<br>Ceisiadau DoLS 2014 - 15 : 365<br>Ceisiadau wedi ei awdurdodi 2014-15 : 152<br>Ceisiadau wedi ei asesu ond ddim yn cwrdd a chriteria DoLS : 25<br>Cyfeiriadau ddim yn briodol : 69<br>Rhestr Aros : 119<br>Cyfanswm costau meddygol ers Ebrill 2014 £26,411.72 |

ATODIAD 1

| Thema | Maes Gwella | Sylwadau a wnaed gan AGGCC yn eu hadolygiad blynyddol o Wynedd 2013-14 | Cynllun Gweithredu | Sut ydym yn monitro | Sefyllfa cynnydd ddiwedd Mai 2015 | Sylwadau wedi eu hamlygu gan y Gwasanaeth |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **ii. Sicrhau ansawdd – Adran Oedolion Iechyd a Llesiant** | Mae gallu'r cyngor i adrodd am y perfformiad mewn ffordd fanwl wedi parhau i wella. Mae'r trefniadau rheoli risg o fewn y gwasanaeth wedi gwella wrth wneud defnydd rheolaidd o gofrestr risg, a'i diweddaru.<br><br>Nid yw'r cyngor wedi sefydlu system sicrhau ansawdd gorfforaethol. Mae'n bwriadu gwneud hynny yn 2014-15.<br><br>Nodwyd yr angen i wella trefniadau sicrhau ansawdd gan AGGCC yn ystod adroddiad gwerthuso blynyddol y llynedd. Yn ogystal, mae'n faes i'w wella yn yr arolygiadau cenedlaethol a gynhaliwyd yn ddiweddar ac yn yr adroddiad arolygu mabwysiadu. Mae'r cyngor yn mynd i gyflwyno tîm sicrhau ansawdd a diogelu plant ac oedolion trawsbynciol. | • O ran data – datblygu system newydd fydd yn tynnu data yn uniongyrchol o system Rheoli Cofnodi Data yr Adran ac a fydd yn adrodd ar ansawdd data.<br>• Defnyddio'r system newydd i adrodd yn chwarterol.<br>• Paratoi, datblygu a hyrwyddo canllawiau defnyddio'r system i weithwyr o fewn y meysydd blaenoriaeth.<br>• Llunio a chytuno strategaeth sicrhau ansawdd ar draws yr Adran Oedolion Iechyd a Llesiant. | Tim Rheoli Adran Oedolion Iechyd a Llesiant<br><br>Adroddiad Cynnydd Blynyddol i AGGCC | 1. O ran data – system newydd wedi ei ddatblygu ym Mawrth 2014 er mwyn tynnu data yn uniongyrchol o system Rheoli Cofnodi Data yr Adran ac adrodd ar ansawdd data.<br>2. Gwaith llunio strwythur sicrhau ansawdd wedi ei gwblhau erbyn diwedd Mawrth 2015. Gwaith pellach yn 2015-16 ar y strwythur yma. | Byddwn yn paratoi adroddiad chwarterol gan dynnu at ei gilydd y prif negeseuon o gwynion, dangosyddion perfformiad, unrhyw archwiliadau a gwybodaeth drwy'r drefn fonitro contractau. Bwriad yr adroddiad bydd crynhoi'r holl wybodaeth ac yna amlygu'r prif negeseuon a risgiau. Y mae cynnal archwiliadau ansawdd ymarfer gwaith cymdeithasol bellach yn rhan o'r cynlluniau. |
| | **iii. Sicrhau ansawdd - Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd** | Mae gallu'r cyngor i adrodd am y perfformiad mewn ffordd fanwl wedi parhau i wella. Mae'r trefniadau rheoli risg o fewn y gwasanaeth wedi gwella wrth wneud defnydd rheolaidd o gofrestr risg, a'i diweddaru.<br><br>Nid yw'r cyngor wedi sefydlu system sicrhau ansawdd gorfforaethol. Mae'n bwriadu gwneud hynny yn 2014-15.<br><br>Nodwyd yr angen i wella trefniadau sicrhau ansawdd gan AGGCC yn ystod adroddiad gwerthuso blynyddol y llynedd. Yn ogystal, mae'n faes i'w wella yn yr arolygiadau cenedlaethol a gynhaliwyd yn ddiweddar ac yn yr adroddiad arolygu mabwysiadu. Mae'r cyngor yn mynd i gyflwyno tîm sicrhau ansawdd a diogelu plant ac oedolion trawsbynciol. | • Uned Ddiogelu ag Ansawdd i'w sefydlu yn atebol yn strwythurol i Bennaeth Plant a Chefnogi Teuluoedd<br>• Ffurfioli'r fframwaith gwarantu ansawdd plant fel rhan o raglen waith Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd yng nghyfnod blwyddyn berfformiad 2015/16 | Tim Rheoli Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd | 1. Uned Ddiogelu ag Ansawdd wedi ei sefydlu yn Ebrill 2014 sy'n atebol yn strwythurol i Bennaeth Plant a Chefnogi Teuluoedd.<br>2. Gwaith yn mynd rhagddo o ran datblygu'r uned yma. | Yn 2015/16 bydd ymdrechion penodol ar ffurfioli'r fframwaith gwarantu ansawdd plant fel rhan o raglen waith Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd. |

ATODIAD 1



| Thema | Maes Gwella | Sylwadau a wnaed gan AGGCC yn eu hadolygiad blynyddol o Wynedd 2013-14 | Cynllun Gweithredu | Sut ydym yn monitro | Sefyllfa cynnydd ddiwedd Mai 2015 | Sylwadau wedi eu hamlygu gan y Gwasanaeth |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Darparu cyfeiriad** | **i. Cymorth rhiantu corfforaethol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal gan y Cyngor a phartneriaid.** | Mae'r cyngor wedi cymryd camau cadarnhaol o ran ei drefniadau rhianta corfforaethol, ond mae angen datblygu'r rhain ymhellach nawr. Bydd y panel rhianta corfforaethol yn gweithio gyda phlant sy'n derbyn gofal yn ystod 2014-15 er mwyndarparu amlinelliad i'r camau gweithredu y bydd y cyngor yn eu cymryd er mwyn cynorthwyo plant mewn gofal. Bydd angen i aelodau ddarparu mwy o gymorth er mwyn sicrhau bod y nodau strategol yn cael eu perchen mewn ffordd effeithiol a'u troi yn gamau gweithredu ar draws gwasanaethau'r cyngor a chan asiantaethau partner; gan sicrhau gofal iechyd priodol, mwy o gymorth addysgol a chyflogaeth dros dro yn y cyngor ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. | • Datblygu Strategaeth.<br>• Gweithredu'r strategaeth.<br>• Adroddiad Blynyddol y Panel Rhiantu Corfforaethol wedi ei gyflwyno i'r Cabinet. | Panel Rhiantu Corfforaethol | 1. Cyfarfod diwethaf o'r Panel 20 o Ebrill 2015.<br>2. Trafodwyd:<br>- drafft o'r Strategaeth<br>- Adroddiad iechyd yn ymwneud â phlant a ofelir amdanynt<br>- Gofal iechyd plant mewn gofal<br>- Adroddiad chwarterol plant mewn gofal<br>- Adroddiad cynlluniau addysg personol plant mewn gofal<br>- Y gwasanaeth maethu<br>- Cynllun dechrau i'r diwedd | Mae Tim Trothwy Gofal yn weithredol ers dechrau mis Chwefror 2015 .Nodwyd bod y canlyniadau wedi eu hamserlennu i fynd o flaen y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau cyn diwedd y flwyddyn.<br><br>Adroddwyd y cynhaliwyd arolwg o'r Gwasanaeth Maethu ddiwedd Hydref – ddechrau Tachwedd 2014 gan AGGCC. Nodwyd ei fod yn arolwg cadarnhaol iawn a'i bod yn fodlon bod y gwasanaeth maethu yn hyrwyddo lles y plant oedd dan eu gofal. |

### 1.2.3 Blwyddyn 2014-15

Cyhoeddir Adroddiad Blynyddol AGGCC 2014-15 ar 30 Hydref 2015 ac mae ar raglen y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau 26 Tachwedd 2015.

## 1.3 Arolwg ESTYN

### 1.3.1 Arolwg 3 blynedd Estyn 2013 : Arolygiad ar Ansawdd Gwasanaethau Addysg Awdurdod Lleol Gwynedd i blant a phobl ifanc yn ystod Mawrth 2013

Yn dilyn arolygiad Estyn o wasanaethau addysg ar gyfer plant a phobl ifanc ar 11 - 15 Mawrth 2013, barnwyd bod angen monitro cynnydd yr awdurdod gan Estyn. Derbyniwyd a chadarnhawyd Cynllun Gweithredu Ôl-Arolwg Estyn gan y Cabinet ar 17 Medi 2013. Ystyriwyd Cynllun Gweithredu Ôl-Arolwg Estyn gan y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau ar 3 Hydref 2013.

Yn dilyn ymweliad arolygwyr Estyn ar 2-5 Rhagfyr 2014, derbyniwyd llythyr yn cofnodi canlyniadau terfynol y monitro ar ôl yr arolygiad:
"Bernir bod Cyngor Gwynedd wedi gwneud cynnydd digonol mewn perthynas â'r argymhellion yn sgil arolygiad Mawrth 2013. O ganlyniad, mae Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru yn tynnu'r awdurdod o unrhyw weithgarwch dilynol pellach."

Bu i Arolygwyr Estyn fynychu cyfarfod Pwyllgor Craffu Gwasanaethau ar 12 Chwefror 2015 er mwyn adrodd yn ôl ar ganfyddiadau eu hymweliad 2-5 Rhagfyr 2014.

<u>Cylch Arolygiadau Awdurdodau Lleol (ESTYN)</u>
O ran cylch arolygiad awdurdodau lleol, mae'r cylch diwethaf newydd ddod i ben a bellach mae'r cylch yn o leiaf unwaith bob 6 blynedd.

- Cylch tair blynedd ysgolion unigol wedi dod i ben a bellach wedi newid i unwaith o leiaf bob 6 blynedd.

# ATODIAD 1

- Mae ESTYN yn gallu ymweld ag unrhyw ysgol neu awdurdod ar unrhyw amser, ond maent angen rhoi o leiaf mis o rybudd i ysgol ac o leiaf 12 wythnos (neu 3 mis) o rybudd i awdurdod lleol.
- Mae arolygydd cyswllt ysgolion (ESTYN) yn rhoi ymweliad pob tymor.
- Mae Adolygiad yn digwydd ar hyn o bryd ar gonsortia gwella ysgolion Cymru, sef: Gwe, Erw a dau gonsortiwm o'r de.

| Argymhelliad | Cyfrifoldeb | Cynllun Gweithredu | Erbyn Pryd | Cynnydd |
|---|---|---|---|---|
| A1 Gwella diogelu trwy sicrhau bod gweithdrefnau a pholisïau'r cyngor yn cael eu deall yn glir gan bawb sy'n gweithio i'r awdurdod ac yn cael eu diweddaru a'u lledaenu'n rheolaidd. | Swyddog Monitro: Cyfarwyddwr Corfforaethol | • Dosbarthu a sicrhau ymwybyddiaeth o 'Bolisi a Chanllawiau Diogelu Plant ac Oedolion' (corfforaethol) a chydymffurfiaeth ohono. | Chwefror 2014 | ***Cynnydd hyd at ymweliad Mehefin 2014***<br>*- Mae'r Panel Strategol Diogelu Plant ac Oedolion a'r Panel Gweithredol Diogelu Plant ac Oedolion wedi eu sefydlu er 6/11/12.*<br>*-Mae aelodaeth y Panel Strategol yn cynnwys Aelodau Cabinet Addysg a PPI a Gwasanaethau Cymdeithasol, Cyfarwyddwyr Corfforaethol a Phenaethiaid Adrannau.*<br>*-Mae'r Panel Strategol yn arwain ar osod y cyfeiriad strategol a delio gyda materion ymarferol sy'n gofyn mewnbwn ar y lefel uchaf.*<br>*-Mae'r Panel Gweithredol yn cynnwys rheolwyr o holl adrannau'r Cygnor ac yn datblygu gwaith yn ôl y cyfeiriad sy'n cael ei osod gan y Panel Strategol.*<br>**Cynnydd Pellach erbyn ymweliad Rhagfyr 2014**<br>Mae'r Panel Gweithredol o Reolwyr Dynodedig pob Adran yn parhau i gyfarfod yn fisol.<br>Mae'r Panel Strategol yn parhau i gyfarfod pob deufis.<br>Trefnwyd cyfarfodydd ychwanegol arbennig o'r Panel Strategol yn gynharach eleni hefyd.<br><br>***Cynnydd hyd at ymweliad Mehefin 2014***<br>*-Cafodd y Polisi Corfforaethol ei gymeradwyo gan y Gabinet Cyngor Gwynedd ar 30/3/13. Bydd y polisi yn cael ei adolygu yn flynyddol. Disgwylir adolygu'r polisi ym mis Mai 2014.*<br>*-Mae drafft o'r pamffled a phoster gwybodaeth yn cael eu datblygu ar hyn o bryd.*<br>*-Mae rhaglen CETIS yn gofyn i staff ymgyfarwyddo â pholisïau'r Cyngor ac mae modiwl yn Cetis wedi ei greu ar gyfer Diogelu fel rhan o hyfforddiant Lefel 1. Mae 350 o staff wedi defnyddio'r modiwl hyd yma.*<br>*-Mae set o gwestiynau ar bolisïau'r Cyngor a'r broses diogelu wedi eu darparu o fewn Cetis*<br>*-Mae pob adran yn y Cyngor wedi cynhyrchu a chadarnhau eu polisi diogelu adrannol. Bydd rhain yn cael eu hadolygu yn flynyddol gan y Panel Gwireddu.*<br>*-Mae'r system Gweithlu Diogel wedi ei gosod yn ei lle ac yn weithredol.*<br>*-Mae hyfforddiant wedi ei drefnu ar gyfer pob aelod o'r staff rheoli gan gynnwys yr Uwch Reolwyr a'r Rheolwyr Canol. Gweler y ddogfen Rhaglen Hyfforddiant*<br>*Mae hyfforddiant ar gyfer aelodau i'w gynnal ar Mai y 7fed, 2014.*<br>**Cynnydd Pellach erbyn ymweliad Rhagfyr 2014**<br>Mae'r polisi corfforaethol a phob polisi adrannol wedi'u hadolygu gan y Panel Gweithredol ac wedi'u cyflwyno i'r Panel Strategol i'w cymeradwyo yn unol a'r nod o fewn y Rhaglen Waith.<br>Mae llythyr a nodyn briffio wedi'u hanfon i bob rheolwr ar draws adrannau'r Cyngor gyda cais i gynnwys eitem ar raglen cyfarfodydd tim.<br>Pob Rheolwr Dynodedig yn rhaglennu ymweliad a phob cyfarfod tim o fewn eu hadrannau er mwyn atgyfnerthu'r neges yn y nodyn briffio<br>Cynnwys poster wedi'i gytuno arno a gwaith wedi'i gwblhau i sicrhau un rhif ffon cyffredin ar gyfer adrodd ar unrhyw bryderon gan staff/cyhoedd |
| | | • Sicrhau bod holl staff y Cyngor ymgymryd â hyfforddiant ymwybyddiaeth | Parhaus | ***Cynnydd hyd at ymweliad Mehefin 2014***<br>*-Mae hyfforddiant ar gyfer staff ar Lefel 1 yn cael ei ddarparu ers mis Chwefror 2014. Mae Lefel 1 yn cael ei ddarparu drwy raglen e-ddysgu a disgwylir i holl staff y cyngor fod wedi ei gyflawni'n llwyddiannus a bod staff yn ail gyflawni'r rhaglen bob tair blynedd.*<br>*Mae hyfforddiant at Lefel 2 wedi cael ei gynnal ar Chwefror 28 a'i ddarparu gan Sue Maskell ar ran y Bwrdd Diogelu. Gweler adran 1.10 Deunydd Hyfforddiant.*<br>**Cynnydd Pellach erbyn ymweliad Rhagfyr 2014** |

# ADRODDIADAU ARCHWILIO ALLANOL 2012/13 - 2014/15

## ATODIAD 1



| Argymhelliad | Cyfrifoldeb | Cynllun Gweithredu | Erbyn Pryd | Cynnydd |
|---|---|---|---|---|
| | | diogelu sylfaenol. | | Mae'r pecyn e-ddysgu ar gyfer hyfforddiant Lefel 1 i staff wedi'i lawnsio yn swyddogol yn dilyn dyfodiad "Y Ganolfan Bolisi" ar-lein. Mae staff yr adrannau Adnoddau Dynol, Strategol a Gwella yn ogystal a GwE eisioes wedi derbyn mynediad ac arweiniad gyda staff mewn adrannau eraill i ddilyn.<br><br>***Cynnydd hyd at ymweliad Mehefin 2014***<br>*Polisi Amddiffyn Plant wedi'i ddiwygio, ei ail-gyflwyno i ysgolion a'i ddosbarthu ymysg timau canolog yr ALl.*<br>*Cofnodion GCSU a GYDCA yn cyfeirio at ac yn atgoffa penaethiaid o'r gofynion.*<br>*Ffederasiwn Penaethiaid Cynradd yn trafod materion Diolgelu ac arweiniad pellach wedi'i gynnig.*<br>*Gwahoddiad i arweinydd tim plant wedi'i wneud i'r cyfarfod GYDCA nesaf.*<br>*Hyfforddiant a chefnogaeth pellach wedi'i drefnu ar gyfer ysgolion.*<br>*Y gofyn yma wedi'i amlygu i ysgolion yn ystod hyfforddiant Diogelu yn 2013 a 2014, a'i godi yn ystod cyfarfodydd strategol i benaethiaid.*<br>*Rhai ysgolion wedi adrodd yn wirfoddol ar ddiwedd 2012-13: bydd gofyn i BOB ysgol ymateb eleni. Disgwylir dadansoddiad o'r canfyddiadau hynny erbyn Tymor yr Haf.*<br>*LEFEL 1= pob gweithiwr o fewn y gyflogres addysg yn derbyn hyfforddiant lefel 1, un ai'n uniongyrchol neu drwy Educare. Cyflogres newydd arlwyo a glanhau wedi trosgwlyddo i fod o dan ofalaeth yr adran addysg Chwefror 2013. Rhaglen hyfforddi mewn lle i hyfforddi'r gyflogres newydd. Adran Dysgu a Datblygu y cyngor yn datblygu adnodd hyfforddi ar-lein ddwyieithog fydd ar gael i bawb - eto i gychwyn. Unwaith bydd hyn mewn lle ni fydd angen defnyddio Educare.*<br>*LEFEL 2= Cyfres o ddyddiadau HMS diwrnod llawn Lefel 2 wedi'u cynnal yn 2012-13, a rhaglen 2013-2014 yn weithredol ar hyn o bryd. Ymgynghorydd allanol a Swyddog Grwpiau Bregus yr adran, yn ogystal a'r Cyn Uwch Reolwr Addysg yn gyfrifol am Ddiogelu, wedi cymryd rhan. Pob Pennaeth a Llywodraethwr Dynodedig Amddiffyn Plant wedi'u gwahodd.*<br>*Dros 90% wedi mynychu, gyda'r gweddill yn mynychu eleni.*<br>*Rhaglen flynyddol yn parhau.*<br>*LEFEL 3= mynychwyd hyfforddiant gan swyddogion perthnasol yr adran addysg. Rhaglen pellach Lefel 3 yn cael ei drefnu eleni i reolwyr eraill.*<br>*Adroddiadau chwarterol a blynyddol y gwasanaeth plant. Achosion unigol o ddiffyg ansawdd yn derbyn dilyniant priodol*<br>*Fel rhan o'r sampl ymweliadau monitro , bydd cyfranogiad gan staff addysgu, staff cefnogi, llywodraethwyr, rhieni a phlant ysgolion .*<br>*Comisiynwyd ymgynghorydd allanol i gyd-weithio gyda'r swyddog diogelu, ysgolion wedi'u hadnabod.*<br>*Ymweliadau monitro'n cael eu trefnu ar gyfer hanner tymor cyntaf yr haf.*<br>**Cynnydd Pellach erbyn ymweliad Rhagfyr 2014**<br>Ymweliadau monitro effaith wedi'u cynnal mewn sampl o ysgolion ac adroddiadau unigol wedi'u paratoi ar gyfer pob ysgol.<br>Prif negeseuon yr adroddiadau unigol yn cael eu coladu ar gyfer adroddiad cyfansawdd gan nodi argymhellion i'w bwydo i'r cynllun gweithredu Diogelu adrannol.<br>Arweiniad pellach wedi'i gyflwyno i bob pennaeth cynradd ar feysydd penodol o ddiogelu trwy gyfrwng Cynhadledd Penaethiaid Cynradd.<br><br>***Cynnydd hyd at ymweliad Mehefin 2014***<br>*Cynllun Sir Gâr yn cael ei addasu ar gyfer ymweliadau monitro sampl o 11 o ysgolion yn ystod tymor yr haf.*<br>*Ysgolion wedi cael rhagrhybudd o fwriad yr awdurdod wedi ei gyflwyno i grwpiau strategol uwchradd a chynradd tymor yr Hydref 2013.*<br>*Rhaglen ymweld a rhestr ysgolion wedi'u hadnabod. Tymor yr haf (ymgynghorydd ddim ar gael tan hynny).*<br>*Adroddiadau i bob ysgol gyda chynllun gweithredu ac amserlen.*<br>*Adroddiad cyfansawdd i'r adran addysg, gydag argymhellion i'w bwydo i'r cynllun gweithredu Diogelu adrannol.* |

# ADRODDIADAU ARCHWILIO ALLANOL 2012/13 - 2014/15

## ATODIAD 1

| Argymhelliad | Cyfrifoldeb | Cynllun Gweithredu | Erbyn Pryd | Cynnydd |
|---|---|---|---|---|
| | | • Sicrhau bod y flaenoriaeth i faes Diogelu Plant ac Oedolion yn cael ei adlewyrchu yng Nghynllun Strategol y Cyngor.<br>• Aelodau Arweiniol yn derbyn tystiolaeth o berfformiad corfforaethol / trawsadrannol y Cyngor parthed materion diogelu plant ac oedolion. | Medi 2014<br><br>Parhaus | **Cynnydd Pellach erbyn ymweliad Rhagfyr 2014**<br>Awdit annibynnol wedi'i gynnal ac adroddiad cyfansawdd wedi'i lunio gan nodi argymhellion i'w bwydo i'r cynllun gweithredu Diogelu adrannol.<br><br>***Cynnydd hyd at ymweliad Mehefin 2014***<br>*-Gwnaed cais am gyllid i gynnal yr awdit ac mae wedi ei dderbyn. Bydd y cyllid yn cael ei rannu i 3 maes*<br>*Bydd y Grŵp Gweithredol yn datblygu'r dull o gynnal yr awdit.*<br>**Cynnydd Pellach erbyn ymweliad Rhagfyr 2014**<br>Awdit annibynnol wedi'i gyflawni gydag argymhellion ar gyfer blaenoriaethau pellach o fewn y rhaglen waith i'w hystyried yng nghyfarfodydd nesaf y Panel Strategol a'r Panel Gweithredol.<br><br>***Cynnydd hyd at ymweliad Mehefin 2014***<br>*-Mae'r flaenoriaeth strategol i faes Diogelu Plant ac Oedolion i'w weld yng Nghynllun Strategol 2014-17 yn nogfen drafft GOF3.*<br><br>***Cynnydd hyd at ymweliad Mehefin 2014***<br>*-Mae Aelodau'r Cabinet sydd â chyfrifoldebau am feysydd Gofal Cymdeithasol a Plant a Phobl Ifanc ac Addysg yn aelodau o'r Panel Strategol Diogelu Plant ac Oedolion. Yr aelod Gofal Cymdeithasol yw cadeirydd y Panel. Bydd y Panel yn derbyn adroddiadau awdit fel ag y nodir uchod yn 1.5 ac 1.6. Bydd y Panel yn derbyn adroddiadau ar sail dangosyddion sy'n cael eu ddatblygu gan is grŵp dangosyddion y Panel.*<br>*-Mae'r Cyfarwyddwyr Corfforaethol, y Pennaeth Addysg a'r Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yn aelodau o Fwrdd Diogelu Môn a Gwynedd.*<br>*-Mae holl ddogfennau'r Polisiau Diogelu i'w cael a ar gyfer yr holl staff ar fewnrwyd y Cyngor*<br>*http://mewnrwyd/gwy_doc.asp?cat=8312&doc=30806*<br><br>***Cynnydd hyd at ymweliad Mehefin 2014***<br>*-Mae Adroddiad y Cyfarwyddwr Statudol yn cael ei ryddhau'n flynyddol ac mae cyfeiriad penodol at y gwaith diogelu yn y rhagair ac yn fwy manwl ar dudalen 17.*<br>*-Bydd adroddiad blynyddol y Panel Strategol yn cael ei ryddhau ym Mai/Mehefin 2014.*<br><br>***Cynnydd hyd at ymweliad Mehefin 2014***<br>*-Mae fideo o gyfweliadau wedi ei greu gan gynreolwr y Bwrdd Diogeluac i'w gael ar wefan y Bwrdd Diogelu ym Môn.*<br>*-Cynhaliwyd sesiynau hyfforddiant ar 'Rheoli Honiadau o Gam-drin Proffesiynol' gan Sue Maskall ym mis Chwefror a Mawrth 2013 a Ionawr 2014.*<br>**Cynnydd Pellach erbyn ymweliad Rhagfyr 2014**<br>Yn dilyn ail strwythuro ym maes Byrddau Diogelu, mae bwriad erbyn hyn i ddatblygu gwefan rhanbarthol er mwyn rhannu gwybodaeth a rhoi gwybodaeth i'r cyhoedd a phartenriaid am weithgaredd ym maes diogelu gan gynnwys cyhoeddi crynodebau gweithredol o adolgiadau achosion plant.<br>Mae'r Bwrdd Diogleu rhanbarthol wedi cynnal cynhadledd yn gynharach yn y flwyddyn i godi ymwybyddiaeth am drais yn y cartref ac mae cynhadledd arall wedi ei threfnu ar gyfer mis Rhagfyr yn benodol ar gyfer camdriniaeth rhywiol.<br><br>***Cynnydd hyd at ymweliad Mehefin 2014***<br>*-Cafodd adroddiad Ôl-arolwg Estyn ei gyflwyno i'r Bwrdd Diogelu ym Medi 2013. Mae'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Statudol, Pennaeth Gwasanaeth Plant a Chefnogi Teuluoedd a Pennaeth yr Adran Addysg yn aelod o'r Bwrdd Lleol*<br>**Cynnydd Pellach erbyn ymweliad Rhagfyr 2014**<br>Yn dilyn yr ail strwythuro ym maes diogleu yn rhanbarthol, mae Grwp gweithredol Diolgeu wedi ei sefydlu ar draws Gwynedd a Môn |

**ATODIAD 1**

| Argymhelliad | Cyfrifoldeb | Cynllun Gweithredu | Erbyn Pryd | Cynnydd |
|---|---|---|---|---|
| | | | | sydd yn disodli'r hen Fwrdd Diogleu Plant Lleol. Pennaeth Gwasanaeth Plant Gwynedd sydd yn cadeirio'r Grwp yma ac mae'r aelodaeth yn canolbwyntio ar swyddogion gweithredol o bob asiantaeth fydd yn medru dylanwadu yn eu meysydd gwaith eu hunain ar godi ymwybyddiaeth a chreu cysylltiadau cryfach i wella cydweithio yn barhaus. Mae'r cylch gorchwyl ar gyfer y grwpiau tasg yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd er mwyn sicrhau fod yr agenda yn berthnasol i anghenion a blaenoriaethau lleol tra ar yr un pryd yn cyfrannu i'r agenda rhanbarthol.<br><br>***Cynnydd hyd at ymweliad Mehefin 2014***<br>*-Mae Grŵp Tasg Caffael a Chytundebau wedi ei sefydlu ac wedi llunio argymhellion i'r Panel. Mae'r Panel Gweithredol wedi derbyn yr argymhellion i'w gweithredu.*<br>*Cynllun Gwaith mewn lle ar gyfer Adolygu'r Llawlyfr Caffael a gweithredu'r argymhellion sef:-*<br>*- cynnwys arweiniad cyson ar faterion diogelu*<br>*- cynnwys atodiad penodol ar ddiogelu ( cynnwys cymalau safonol ac ystyriaethau yn y broses caffael)*<br>*-cynnwys atodiad penodol ar fonitro y gofynion diogelu mewn cytundebau.*<br>*-Uned Caffael yn arwain ar hwn ac yn disgwyl drafft erbyn Mai / Mehefin 2014.*<br>**Cynnydd Pellach erbyn ymweliad Rhagfyr 2014**<br>Rhan perthnasol o'r Llawlyfr Caffael wedi'i adolygu a'i ychwanegu ato gan y Grwp Tasg. Panel Gweithredol a'r Panel Strategol wedi croesawu a chymeradwyo'r gwaith a gyflawnwyd. Camau ar y gweill i godi ymwybyddiaeth am y rhan penodol hwn o'r Llawlyfr Caffael pan fo adolygiad o'r ddogfen gyfan wedi'i gwblhau.<br><br>***Cynnydd hyd at ymweliad Mehefin 2014***<br>*-Cronfa Ddata Gweithlu Diogel wedi ei sefydlu i sicrhau fod yr holl staff sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc wedi eu adnabod fel rhai sydd angen gwiriad DBS.*<br>*-Mae cyfres o sesiynau hyfforddi wedi eu cynnig i reolwyr er mwyn esbonio sut mae'r system yn gweithio.*<br>*-Mae'r weithdrefn Gweinyddiaeth Diogelwch Staff wedi ei diweddaru.*<br>**Cynnydd Pellach erbyn ymweliad Rhagfyr 2014**<br>Y bas-data ar waith ac yn cael ei ddefnyddio i gofnodi holl anghenion gwiriadau cofnod troseddol pob swydd berthnasol o fewn y Cyngor.<br>Protocol gweithredu wedi'i fabwysiadu.<br><br>**Gwelliannau a wireddwyd**<br>***Cynnydd hyd at ymweliad Mehefin 2014***<br>*Polisïau corfforaethol ac adrannol priodol yn eu lle ac ar gael i staff drwy'r mewnrwyd.*<br>*Hyfforddiant ar gyfer staff ac aelodau yn y broses o gael ei ddarparu. Pecynnau electronig wedi eu datblygu a chyflwyniadau llafar yn cael eu cyflwyno.*<br>*Dulliau monitro llwyddiannau'r hyfforddiant, dealltwriaeth staff a dulliau comisiynu yn cael eu datblygu.*<br>*Polisïau Diogelu Corfforaethol wedi cael eu mabwysiadu gan Gabinet y Cyngor ar 30/4/2013. Trosolwg o weithredu'r polisïau drwy'r Panel Strategol Diogelu Plant ac Oedolion sy'n cael ei gynnal bob 6 wythnos.*<br><br>**Cynnydd Pellach erbyn ymweliad Rhagfyr 2014**<br>Polisiau corfforaethol ac adrannol wedi'u hadolygu ac wedi'u cyflwyno i'w cymeradwyo i'r Panel Strategol.<br>Naw gweithdy i reolwyr ac Aelodau Etholedig wedi'u cynnal er mwyn codi ymwybyddiaeth.<br>Nodyn briffio wedi'i ddarparu a'i anfon i bob rheolwr gyda gorchymyn i gynnwys eitem ar raglen cyfarfodydd tim a rhannu'r wybodaeth yn y nodyn briffio.<br>Awdit blynyddol cyntaf wedi'i gynnal gydag adroddiad wedi'i chyflwyno sy'n cynnwys argymhellion er gwelliant pellach. Panel Gweithredol a Strategol yn rhoi sylw i'r argymhellion hynny yn bresennol.<br>Un rhif ffon cyswllt wedi'i adnabod ar gyfer adrodd pryderon/amheuon o gamdrin plant/oedolion bregus. Poster wedi'i ddylunio sy'n |

# ADRODDIADAU ARCHWILIO ALLANOL 2012/13 - 2014/15

## ATODIAD 1

| Argymhelliad | Cyfrifoldeb | Cynllun Gweithredu | Erbyn Pryd | Cynnydd |
|---|---|---|---|---|
| | | | | cynnwys y rhif ffon newydd.<br>Bas-data corfforaethol ar gyfer cofnodi gwiriadau o gofnodion troseddol yn weithredol.<br>Pecyn e-ddysgu wedi'i lawnsio gyda mynediad i staff rhai adrannau wedi'i drefnu. Y Ganolfan Bolisi newydd yn caniatau i staff gael mynediad i'r safle e-ddysgu dros y We.<br>Dashboard diogelu wedi ei ddatblygu ar gyfer cofnodi a mesur effaith.<br><br>**Canlyniad Ymweliad ESTYN – 2-5 Rhagfyr 2014**<br>Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth. |
| A2 Codi safonau yng nghyfnod allweddol 4 trwy dargedu adrannau sy'n tanberfformio mewn ysgolion uwchradd sy'n perfformio'n wael yn fwy cadarn. | Swyddogion Monitro: Dau Gyfarwyddwr Corfforaethol, Uwch Reolwr Ysgolion | • Sicrhau ymateb buan ac effeithiol i ganfyddiadau ymchwil y Gweithgor Craffu i berfformiad CA4 ysgolion uwchradd Gwynedd | Haf 2015 | ***Cynnydd hyd at ymweliad Mehefin 2014***<br>*Penaethiaid Uwchradd wedi cael cyflwyniad am ganfyddiadau'r Pwyllgor Craffu ac amcanion y Prosiect Hyrwyddo Ansawdd*<br>*Swyddog Prosiect wedi cychwyn ar ei gwaith ym mis Ionawr (0.5) ac wedi ymweld â phob ysgol uwchradd i gasglu gwybodaeth a sicrhau bo'r ysgolion yn perchnogi'r gwaith.*<br>*Casglu gwybodaeth am arferion da tu allan i'r Sir a dros y ffin a'u rhannu gyda'r ysgolion.*<br>*Penaethiaid uwchradd wedi cytuno ar egwyddorion cydweithio a phatrwm o rannu arfer dda ar draws y Sir ar waith.(tracio, presenoldeb, I-Pads).*<br>*Is-grwp wedi ffurfio er mwyn hyrwyddo datblygiad proffesiynol a chydweithio o fewn a rhwng ysgolion y Sir. Diwrnod DPP traws-sirol yn cael ei gynnal ar Hydref 24ain.*<br>*Tair ysgol wedi cytuno i agor eu drysau ar rannu arfer dda mewn meysydd allweddol yn draws-sirol fel rhan o'r ymgyrch i ddatblygu arweinyddiaeth.*<br>**Cynnydd Pellach erbyn ymweliad Rhagfyr 2014**<br>Cynhaliwyd Diwrnodau Datblygu Arweinyddiaeth yn ysgolion Botwnnog ac Ysgol y Moelwyn a chafwyd adborth cadarnhaol iawn.<br>Gwnaed astudiaethau achos o ysgolion oedd wedi profi llwyddiant yn L2 Mathemateg yn arholiadau'r Haf 2014.<br>Lluniwyd dogfen 'Mathemateg CA4' a'i chyflwyno i'r ysgolion.<br>Cynhaliwyd cyfarfod gyda Swyddog Broceriaeth GwE a pharatowyd papur 'Cydweithio Ysgol i Ysgol'<br>Rhoddwyd arweiniad i Grwp Cynhwysiad y Sir ar ddiweddariad i Fframwaith Arolygu ESTYN parthed plant bregus. Lluniwyd a chyflwynwyd Strategaeth Cefnogi Dysgwyr Bregus ar gyfer ysgolion Gwynedd.<br>Trefnwyd cyfarfodydd ar gyfer Cydlynwyr Rhifedd yr ysgolion<br>Trefnwyd a chynhaliwyd diwrnod datblygiad proffesiynol ar gyfer athrawon a chymorthyddion y Sir.<br>Casglwyd barn dysgwyr am y gefnogaeth a gafwyd gan yr ysgolion yng NghA4. Lluniwyd crynodeb i'r holl hysgolion yn nodi awgrymiadau'r dysgwyr.<br>Creuwyd a rhanwyd adnoddau gydag ysgolion er mwyn hyrwyddo llais y dysgwyr.<br>Cynhaliwyd hyfforddiant i gydlynwyr cyfranogiad. Lluniwyd a chyflwynwyd Strategaeth Cyfranogiad ar gyfer ysgolion Gwynedd.<br>Rhoddwyd adborth i benaethiaid yng nghyfarfodydd y GCSU |
| | | • Sicrhau, trwy'r CLG gyda'r Gwasanaeth Gwella Ysgolion Rhanbarthol [GwE] bod ysgolion targed yn cael cyfranogi o | Rhagfyr 2013-11-18 | ***Cynnydd hyd at ymweliad Mehefin 2014***<br>*Ymweliadau monitro tymhorol wedi'u cynnal a defnydd llawn wedi'i wneud o'r ystod data i gytuno ar dargedau a chamau ar gyfer gwelliannau pellach yn y 5 ysgol.*<br>*Cwblhawyd arfarniad manwl o berfformiad gan y 5 ysgol a gwelwyd synergedd rhwng argymhellion yr ysgol ac argymhellion yr Arweinydd System Cyswllt. Mae gwelliannau amlwg i'w gweld yn ansawdd arfarniadau y 5 ysgol ac yn eu gallu i bennu blaenoriaethau ar gyfer gwelliannau pellach.*<br>*5 ysgol wedi llunio cynllun gwella yn unol â'r gofynion lleol. Mae'r cynlluniau hynny yn nodi camau gweithredu; cyfrifoldebau arweiniol a monitro; amserlen gweithredu a deilliannau meintiol disgwyliedig. Mae pob cynllun wedi'i wirio gan yr AS cyswllt er mwyn sicrhau bod y materion allweddol yn cael sylw priodol ac wedi'u cyflwyno i sylw'r Corff Llywodraethol. Cynhaliwyd ymweliadau tymhorol i fonitro cynnydd tuag at yr ystod argymhellion ac mae data perfformiad CA4 2013 yn amlygu'r gwelliannau sydd eisoes wedi digwydd ar draws y 5 ysgol.* |

**ATODIAD 1**

| Argymhelliad | Cyfrifoldeb | Cynllun Gweithredu | Erbyn Pryd | Cynnydd |
|---|---|---|---|---|
| | | rwydweithiau a fforymau proffesiynol i rannu arferion da ac i fanteisio ar arbenigeddau Arweinwyr System ac arweinwyr ysgol llwyddiannus. | | *Hwyluswyd rhwydwaith broffesiynol o blith UDRH yr ysgolion targed er mwyn rhannu arferion da a chyflwyno arweiniad bellach ar osod targedau a thracio cynnydd dysgwyr; defnydd effeithiol o ddata gan arweinwyr yr ysgol; sut i sicrhau ymyrraeth buan ac effeithiol mewn achosion o danberfformio; hyrwyddo dysgu ac addysgu rhagorol ar draws yr ysgol. Yn ogystal, trefnwyd hyfforddiant 3 diwrnod i gynrychiolaeth o arweinwyr canol er mwyn rhoi sylw mwy dwys i agweddau hunan arfarnu, cynllunio gwelliant, tracio ar lefel adrannol a chynllunio'r dysgu/addysgu.*<br>*Trwy gyfrwng Swyddog Arweiniol yr ALl sicrhawyd arweiniad ar gynlluniau GEY/GAD.*<br>*Bu mwyafrif yr ysgolion targed yn dilyn arferion gorau Toolkit Sutton Trust ac arferion gorau safwe Estyn wrth lunio'u cynlluniau GEY a GAD.*<br><br>*Gwelwyd enghreifftiau o gynlluniau fydd yn arwain tuag at wella ansawdd addysgu a dysgu a chodi lefelau llythrennedd a rhifedd. Bu nifer o'r ceisiadau hefyd yn cynnwys cynlluniau i godi safonau cyrhaeddiad disgyblion PYD a disgyblion MAT. Rhoddwyd sylw i ymglymiad teuluol a chynnal gweithgareddau ar ôl ysgol gan nifer o'r ysgolion targed.*<br>*Cynhaliwyd sesiynau hyfforddi torfol i Lywodraethwyr ym meysydd dadansoddi data; hunan arfarnu; cynllunio gwelliannnau a herio perfformiad yr ysgol. Yn ychwanegol, cynhaliwyd sesiynau penodol o hyfforddiant mewn 3 o'r 5 ysgol targed*<br>**Cynnydd Pellach erbyn ymweliad Rhagfyr 2014**<br>Yn dilyn canfyddiadau Estyn yn Ysgol y Berwyn, penderfynwyd ychwanegu'r ysgol i'r grwp targed.<br>Cyfres o gyfarfodydd o'r Rhwydwaith Broffesiynol wedi'u cynnal er mwyn rhannu arferion da a chyflwyno arweiniad bellach.<br>Materion sydd wedi cael sylw yn cynnwys gosod targedau a thracio cynnydd dysgwyr; defnydd effeithiol o ddata gan arweinwyr yr ysgol; sicrhau ymyrraeth buan ac effeithiol mewn achosion o danberfformio; hyrwyddo dysgu ac addysgu rhagorol ar draws yr ysgol.<br>Hyn wedi arwain at weithredu miniocach ar draws yr ysgolion ond erys gwaith pellach i'w gwblhau mewn 2 ysgol yn benodol.<br>Hyfforddiant 2 ddiwrnod wedi'i gynnal i gynrychiolaeth o arweinwyr canol y 6 ysgol a chafwyd adborth cadarnhaol iawn.<br>Gwelliannau amlwg wedi bod ym mron pob dangosydd ymhob un o'r ysgolion cyswllt rhwng 2012>2014 yn cynnwys :<br>• Cynnydd 2012>2014<br>• TL2+]:<br>• Ysgol 1: 9.1%<br>• Ysgol 2: 6.0%<br>• Ysgol 3: 13.4%<br>• Ysgol 4: 22.8%<br>• Ysgol 5: 28.4%<br>Cynnydd cenedlaethol: 4.0%<br>[Cynnydd cyffelyb hefyd i'r DPC]<br>• Mathemateg:<br>• Ysgol 1: 10.1%<br>• Ysgol 2: 7.4%<br>• Ysgol 3: 9.0%<br>• Ysgol 4: 26.1%<br>• Ysgol 5: 37.9%<br>Cynnydd cenedlaethol: 3.0%<br>• TL2:<br>• Ysgol 1: 14.0%<br>• Ysgol 2: 14.8%<br>• Ysgol 3: 10.5%<br>• Ysgol 4: 31.7%<br>• Ysgol 5: 18.4%<br>Cynnydd cenedlaethol: 9.4% |

**ATODIAD 1**

| Argymhelliad | Cyfrifoldeb | Cynllun Gweithredu | Erbyn Pryd | Cynnydd |
|---|---|---|---|---|
| | | | | • TL1:<br>• Ysgol 1: 5.9%<br>• Ysgol 2: 3.9%<br>• Ysgol 3: -1.9%<br>• Ysgol 4: 12.9%<br>• Ysgol 5: 6.0%<br>Cynnydd cenedlaethol: 2.0%<br>• Sgôr Pwyntiau wedi'i gapio:<br>• Ysgol 1: 48<br>• Ysgol 2: 31<br>• Ysgol 3: 6<br>• Ysgol 4: 58<br>• Ysgol 5: 43<br>Cynnydd cenedlaethol: 16<br>Cynnydd da i'w weld hefyd yn y Saesneg, y Gymraeg a Gwyddoniaeth.<br>Cynnydd da hefyd i'w weld rhwng 2013 a 2014 ymhob dangosydd yn yr ysgol a dargedwyd yn ychwanegol i'r 5 ysgol wreiddiol [TL2+: +12.6%].<br>Fodd bynnag, er bod cynnydd da rhwng 2012-2014 mae llithriad bychan wedi bod yn y TL2+ yn 2014 o'i gymharu â 2013 mewn un ysgol [-0.7%] a llithriad mwy sylweddol mewn un arall [-6.6%].<br>***Cynnydd hyd at ymweliad Mehefin 2014***<br>*Hwyluswyd rhwydwaith broffesiynol o blith UDRH yr ysgolion targed er mwyn rhannu arferion da a chyflwyno arweiniad bellach ar osod targedau a thracio cynnydd dysgwyr; defnydd effeithiol o ddata gan arweinwyr yr ysgol; sut i sicrhau ymyrraeth buan ac effeithiol mewn achosion o danberfformio; hyrwyddo dysgu ac addysgu rhagorol ar draws yr ysgol. Mae ymdrechion wedi'u gwneud hefyd i baru'r ysgolion taregd gydag ysgolion eraill yn yr ALl er mwyn croes-beillio arferion da ee DN>Tryfan; SHO>DO.*<br>*Yn ogystal, trefnwyd hyfforddiant 3 diwrnod i gynrychiolaeth o arweinwyr canol er mwyn rhoi sylw mwy dwys i agweddau hunan arfarnu, cynllunio gwelliant, tracio ar lefel adrannol a chynllunio'r dysgu/addysgu.*<br>*Cynhaliwyd Gweithdy Datblygu Arweinyddiaeth ar gyfer dirprwyon a phenaethiaid cynorthwyol yn Ysgol Eifionydd, Porthmadog ar 4 Rhagfyr 2013. Roedd cynrychiolaeth o blith yr ysgolion targed yn bresennol. Mynychwyd yr hyfforddiant gan arweinwyr canol yn ogystal.*<br>*Darparwyd cyflwyniad ac yna gweithgareddau grŵp gan ddefnyddio dogfen Llywodraeth Cymru (Safonau Arweinyddiaeth – adolygiad arweinyddiaeth unigol) fel sail i'r gweithgareddau.*<br>*Adnabuwyd a datblygwyd yr elfennau canlynol:*<br>• *Dealltwriaeth bellach o'r safonau arweinyddiaeth a'r dystiolaeth sydd ei hangen i gwblhau adolygiad arweinyddiaeth unigol;*<br>• *Cynhwysedd unigolion i gyfrannu ymhellach tuag at arweinyddiaeth a rheolaeth o fewn eu hysgolion; a*<br>• *Dealltwriaeth ac adnabyddiaeth o'r meysydd allweddol/safonau unigol sydd angen eu datblygu ymhellach gan unigolion er mwyn cyfrannu ymhellach tuag at:*<br>*a. arweinyddiaeth a rheolaeth; a*<br>*datblygiad proffesiynol (e.e. paratoi ar gyfer ceisiadau CPCP/swyddi penaethiaid).*<br>**<u>Cynnydd Pellach erbyn ymweliad Rhagfyr 2014</u>**<br>[Yn dilyn cyfarfod gyda'r Tîm Arolygu ym Mehefin 2014, cytunwyd bod yr uchod yn fwy perthnasol i argymhelliad tri – ac y byddai'n derbyn sylw fel rhan o'r ymweliad monitro yn nhymor yf hydref 2014. O'r herwydd, trosglwyddwyd yr uchod i'r daflen 'Argymhelliad 3'.]<br>Sefydlwyd cynllun mentora penaethiaid newydd / penaethiaid mewn gofal ym Medi 2013 er mwyn datblygu cynhwysedd a chymhwysedd yr unigolion hyn i arwain a rheoli'u hysgolion yn fwy effeithiol. Seiliwyd y cynllun hwn (7 diwrnod o gefnogaeth benodol a strategol) ar Safonau Arweinyddiaeth Llywodraeth Cymru. Darparwyd penaethiaid profiadol neu rhai oedd newydd |

**ATODIAD 1**



| Argymhelliad | Cyfrifoldeb | Cynllun Gweithredu | Erbyn Pryd | Cynnydd |
|---|---|---|---|---|
| | | • Sicrhau bod yr ysgolion targed wedi cytuno [ac wedi cychwyn gweithredu] ar gynlluniau cadarn i wella safonau llythrennedd [darllen ac ysgrifennu yn benodol] a rhif ar draws yr ysgol yn unol â gofynion y Fframwaith Genedlaethol. | Hydref 2013 | ymddeol fel mentoriaid. Mae Pennaeth Mewn Gofal un o'r ysgolion targed yn derbyn cefnogaeth fel rhan o'r cynllun hwn.<br>Mae'r daflen hon yn nodi bod y Cynllun Mentora Penaethiaid Newydd / Penaethiaid Mewn Gofal yn weithredol eleni hefyd (2014-2015), ond gyda charfan newydd o benaethiaid newydd / mewn gofal.<br>......................................<br>Rhwydwaith Broffesiynol o blith UDRh y 6 ysgol targed wedi cael cyfle i gael mynediad i arweiniad ac arferion da ar :<br>• gosod targedau a thracio cynnydd<br>• defnydd effeithiol o ddata gan arweinwyr<br>• rhaglenni ymyrraeth<br>• gwella dysgu ac addysgu<br>Mae tystiolaeth o ymweliadau monitro bod hyn wedi arwain at weithredu miniocach ar draws yr ysgolion ond erys gwaith pellach i'w gwblhau mewn 2 ysgol yn benodol.<br>Cynhaliwyd hyfforddiant 2 ddiwrnod i gynrychiolaeth o arweinwyr canol er mwyn rhoi sylw mwy dwys i agweddau hunan arfarnu, cynllunio gwelliant, tracio ar lefel adrannol a chynllunio'r dysgu/addysgu. Mae tystiolaeth o ymweliadau monitro bod hyn wedi arwain at weithredu miniocach mewn rhai adrannau.<br><br>***<u>Cynnydd hyd at ymweliad Mehefin 2014</u>***<br>*Pob ysgol wedi ymateb i ofynion y rhaglen genedlaethol ac wedi derbyn cefnogaeth trwy gyfrwng Partner CfBT.*<br>*Cynhaliwyd ymarfer craffu ar y cyd yn y 5 ysgol er mwyn dod i farn ar ansawdd ac ystod cyfleon i hyrwyddo ysgrifennu estynedig ac i graffu ar ansawdd adborth ar waith dysgwyr. Yn dilyn pob ymarfer cytunwyd ar gamau gweithredu penodol i sicrhau gwelliannau pellach.*<br>**<u>Cynnydd Pellach erbyn ymweliad Rhagfyr 2014</u>**<br>Gweithredu yn yr ysgolion yn parhau yn unol ag amserlen cynlluniau unigol. Cynnydd da iawn wedi digwydd mewn un ysgol darged ym maes llythrennedd/rhif ac adborth ar waith dysgwyr. Cefnogaeth bellach wedi bod mewn 3 ysgol benodol a chynnydd cadarn wedi bod mewn 2 ohonynt. Erys peth pryder am ansawdd cyfleon a safonau ysgrifennu ac adborth ar waith dysgwyr mewn 1 o'r ysgolion hynny.<br><br>***<u>Cynnydd hyd at ymweliad Mehefin 2014</u>***<br>*Cynhelir ymweliadau monitro tymhorol i'r 5 ysgol [gydag ymweliadau pellach yn cael eu cynnal ar sail asesiad risg]. Mae ffocws cadarn yn yr ymweliadau i fonitro cynnydd ac i gasglu tystiolaeth o effaith. Mewn rhai achosion, mae hyn wedi arwain at dargedu cynhaliaeth bellach. Cyflwynir yr adroddiadau i sylw'r Corff Llywodraethol.*<br>**<u>Cynnydd Pellach erbyn ymweliad Rhagfyr 2014</u>**<br>Ymweliadau monitro tymhorol wedi'u cynnal i'r 6 ysgol [gydag ymweliadau pellach ar sail asesiad risg]. Yn achos 2 ysgol ble na welwyd cynnydd digon cadarn, targedwyd ymyrraeth ychwanegol. Mae hyn wedi arwain at welliannau cadarn yn un o'r ysgolion hynny a pheth gwelliant yn yr ysgol arall. Yn yr achos yma, gofynnwyd am fynediad at y Corff Llywodraethol i fynegi pryder yr Awdurdod.<br><br>***<u>Cynnydd hyd at ymweliad Mehefin 2014</u>***<br>*Uwch Arweinydd System yn bresennol y mhob cyfarfod o'r Grwp Ansawdd a'r Tim Rheoli ac yn adrodd ar gynnydd yn erbyn y gweithredu. Ceir presenoldeb yr Arweinydd System mewn cyfarfodydd hefyd ble trafodir ysgolion cyswllt.*<br>**<u>Cynnydd Pellach erbyn ymweliad Rhagfyr 2014</u>**<br>Uwch Ymgynghorydd Her yn bresennol y mhob cyfarfod o'r Grwp Ansawdd a'r Tim Rheoli ac yn adrodd ar gynnydd yn erbyn y gweithredu. Ceir presenoldeb YH mewn cyfarfodydd hefyd ble trafodir ysgolion cyswllt.<br><br>***<u>Cynnydd hyd at ymweliad Mehefin 2014</u>***<br>*Cynhaliwyd dwy drafodaeth fanwl yng nghyfarfodydd Y Pwyllgor Craffu. Ceisir yn gyson gyplysu rôl Yr Aelodau yn Y Cyngor efo'u rôl fel Llywodraethwyr.* |

**ATODIAD 1**

| Argymhelliad | Cyfrifoldeb | Cynllun Gweithredu | Erbyn Pryd | Cynnydd |
|---|---|---|---|---|
| | | | | *Cynhaliwyd sesiynau hyfforddi penodol i Aelodau Etholedig gan Uwch Arweinydd System GwE.*<br>**Cynnydd Pellach erbyn ymweliad Rhagfyr 2014**<br>Adroddiadau manwl ar 'Brosiect Hyrwyddo Ansawdd Addysg'a 'Gwaith ac Effaith GwE' yn cael eu cyflwyno i Bwyllgor Craffu Gwasanaethau ar 11 Rhagfyr 2014.<br><br>***Cynnydd hyd at ymweliad Mehefin 2014***<br>**Cynnydd Pellach erbyn ymweliad Rhagfyr 2014**<br>Gweithredu ar sail y Cytundeb Partneriaeth yn unol â'r lefelau cefnogaeth ym mhob categori.<br>Wedi defnyddio pwerau ar fater rheolaethol yn Ysgol y Gader.<br>Symud i'r drefn categoreiddio rhanbarthol/cenedlaethol ac yn adolygu'r Cytundeb Partneriaeth.<br><br>**Gwelliannau a wireddwyd**<br>• Gwelliannau amlwg wedi bod ym mron pob dangosydd ymhob un o'r ysgolion cyswllt rhwng 2012>2014<br>• Gwelliant yn y % ysgolion targed â pherfformiad yn y chwartel isaf yn 2013 (meincnodau chwarteli dangosyddion CA4 2014 ddim ar gael ar hyn o bryd, ond gwelliannau amlwg wedi bod ym mron pob dangosydd ysgolion targed yn 2014)<br><br>**Canlyniad Ymweliad ESTYN – 2-5 Rhagfyr 2014**<br>Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn rhannol. |
| A3 Monitro a herio pob ysgol a defnyddio'r holl bwerau sydd ar gael i'r awdurdod i wella arweinyddiaeth a rheolaeth mewn ysgolion sy'n tanberfformio. | Swyddogion Monitro: Pennaeth Addysg, Uwch Reolwr Ysgolion, Uwch Reolwr ADY a Chynwysiad Addysg, Uwch Ymgyngh-orydd Her, Cyfarwyddwr Corfforaethol | • Grymuso gweithredu'r Awdurdod mewn perthynas â datblygu arweinyddiaeth a rheolaeth mewn ysgolion cynradd. | Haf 2014<br><br><br>Parhaus<br><br><br><br>Parhaus<br><br><br><br><br>Parhaus | Penodwyd Garem Jackson fel Swyddog Gwella Ansawdd Addysg ym Medi 2013. Rhan o'i rôl yw datblygu ac arwain ar gynlluniau ym maes datblygu arweinyddiaeth, a chyda hynny'n benodol yn y sector cynradd.<br>Sefydlwyd cynllun mentora penaethiaid newydd / penaethiaid mewn gofal ym Medi 2013 er mwyn datblygu cynhwysedd a chymhwysedd yr unigolion hyn i arwain a rheoli'u hysgolion yn fwy effeithiol. Seiliwyd y cynllun hwn (7 diwrnod o gefnogaeth benodol a strategol, sydd yn fwy na'r tridiau sydd yn cael ei argymell gan Lywodraeth Cymru) ar Safonau Arweinyddiaeth Llywodraeth Cymru. Darparwyd penaethiaid profiadol neu rhai oedd newydd ymddeol fel mentoriaid. Mae'r cynllun yn parhau eleni (2014-2015) ar gyfer carfan newydd o benaethiaid newydd / penaethiaid mewn gofal.<br>Cynhaliwyd Gweithdy Datblygu Arweinyddiaeth ar gyfer dirprwyon a phenaethiaid cynorthwyol yn Ysgol Eifionydd, Porthmadog ar 4 Rhagfyr 2013. Mynychwyd yr hyfforddiant gan arweinwyr canol yn ogystal.<br>Darparwyd cyflwyniad ac yna gweithgareddau grŵp gan ddefnyddio dogfen Llywodraeth Cymru (Safonau Arweinyddiaeth – adolygiad arweinyddiaeth unigol) fel sail i'r gweithgareddau.<br><br>Adnabuwyd a datblygwyd yr elfennau canlynol:<br>• Dealltwriaeth bellach o'r safonau arweinyddiaeth a'r dystiolaeth sydd ei hangen i gwblhau adolygiad arweinyddiaeth unigol;<br>• Cynhwysedd unigolion i gyfrannu ymhellach tuag at arweinyddiaeth a rheolaeth o fewn eu hysgolion; a<br>• Dealltwriaeth ac adnabyddiaeth o'r meysydd allweddol/safonau unigol sydd angen eu datblygu ymhellach gan unigolion er mwyn cyfrannu ymhellach tuag at:<br>a. arweinyddiaeth a rheolaeth; a<br>b. datblygiad proffesiynol (e.e. paratoi ar gyfer ceisiadau CPCP/swyddi penaethiaid).<br>Yn dilyn cynnal sesiynau codi ymwybyddiaeth a pharatoi ar gyfer darpar ymgeiswyr CPCP eleni (2014-2015), llwyddwyd i gael 10 ymgeisydd o Wynedd i wneud cais. Mae 8 o'r 10 ymgeisydd wedi'u dewis ar gyfer y rhaglen CPCP eleni. Golyga hynny bod 40% o'r ymgeiswyr llwyddiannus ar draws chwe awdurdod y gogledd yn dod o Wynedd (8 allan o'r cwota rhanbarthol o 20).<br>Cynhaliwyd cynhadledd ar 18 Tachwedd 2013 i lansio 'Ysgol i Ysgol' yng Ngwynedd ar ffurf cynllun peilot er mwyn:<br>• sefydlu trefn leol o weithredu sydd yn efelychu agweddau o'r model cenedlaethol ar gyfer Ysgolion Arweiniol/Datblygol; a<br>• sefydlu rhwydwaith broffesiynol ar gyfer arweinwyr ysgolion er mwyn hyrwyddo gwelliannau a rhannu arferion da.<br>Roedd y gynhadledd yn llwyddiannus iawn, gan esgor ar driawdau neu bedwarawdau o ysgolion oedd yn arwain ar a/neu ch/cael eu datblygu mewn meysydd strategol. Yr Awdurdod ddewisodd y grwpiau, tra bod arweinwyr ysgolion yn dewis y meysydd |

| Argymhelliad | Cyfrifoldeb | Cynllun Gweithredu | Erbyn Pryd | Cynnydd |
|---|---|---|---|---|
| | | | | strategol.<br>Cynhaliwyd ail gynhadledd ar 16 Mehefin 2014 er mwyn ail ymweld â'r maes, a chynnig cyfleoedd i arweinwyr ysgolion ddewis grwpiau a meysydd strategol gwahanol ar gyfer 2014-2015. Y tro hwn, arweinwyr ysgolion oedd yn dewis eu grwpiau, a dewiswyd y meysydd strategol gan Yr Awdurdod, sef:<br>• Y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd;<br>• Lleihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad;<br>• Arweinyddiaeth;<br>• Llywodraethu (gan gynnwys 'cefnogi Penaethiaid i gynnig gwell arweiniad i Lywodraethwyr'); ac<br>• Asesu a thracio, gan gynnwys tracio lles.<br>Yn dilyn trafodaethau yng nghyfarfodydd y Tîm Comisiynu Ôl-Arolygiad yn ystod 2013-2014, sefydlwyd cynllun peilot arloesol yn nalgylch Y Moelwyn ar gyfer rhyddhau un o benaethiaid yr ysgolion am 40% o'i amser (penodwyd Mr. Dewi Lake, Pennaeth Ysgol Y Moelwyn) i weithredu fel Arweinydd Strategol ar holl ysgolion y dalgylch mewn meysydd penodol, sef:<br>**Egwyddorion Cyffredinol**<br><br>•Sefydlu diwylliant a gweithdrefnau sy'n hyrwyddo rhagoriaeth.<br>•Herio tanberfformiad ar bob lefel, cynnig cefnogaeth a sicrhau ymyrraeth a dilyniant priodol.<br><br>**Meysydd Penodol / Gweithredol**<br>1.Hyrwyddo datblygiad cydlynol yn y dalgylch ym meysydd llythrennedd, rhifedd a lleihau effaith tlodi ar gyflawniad.<br>2.Arwain ar ddatblygu arweinyddiaeth ar bob lefel ar draws y dalgylch.<br>3.Arwain ar dracio cynnydd yn effeithiol.<br>4.Arwain ac annog darpariaeth aml asiantaethol er budd plant a'u teuluoedd.<br>5.Cadeirio cyfarfodydd o gadeiryddion cyrff llywodraethol ysgolion y dalgylch.<br>6.Datblygu cydberchnogaeth dros y defnydd gorau posib' o adnoddau rheolaethol ac addysgol sydd ar gael yn y dalgylch.<br>Lluniwyd bid i Lywodraeth Cymru am gymorth ariannol i wireddu'r uchod. Er nad oedd cymorth ariannol ar gael gan Y Llywodraeth, maent yn gefnogol iawn i'r egwyddorion (cyllidwyd y cynllun yn uniongyrchol gan Yr Adran Addysg). O'r herwydd, mae'r cynllun wedi derbyn sylw a diddordeb y Bwrdd Datblygu Arweinyddiaeth Cenedlaethol (BDAC), a gwahoddwyd un o swyddogion Yr Awdurdod i roi cyflwyniad ar y cynllun i'r BDAC yng Ngorffennaf 2014.<br>Daeth y cynllun yn weithredol ym Medi 2014, gyda'r cyfarfod cyntaf ar 9 Medi (roedd un o swyddogion Yr Awdurdod yn bresennol). Bellach, mae'r Arweinydd Strategol a'r penaethiaid eraill yn cyfarfod yn bythefnosol er mwyn gwireddu amcanion y cynllun.<br>**Gellir cyfeirio at y ddogfennaeth yn y golofn dystiolaeth am eglurhad a chefndir manylach.**<br>Cynhaliwyd trafodaethau cychwynnol gyda Cheredigion, Powys, Sir Gâr a Chonsortiwm ERW yn ystod 2013-2014 er mwyn trafod cydweithio ym maes mentora penaethiaid newydd / penaethiaid mewn gofal. Mae Gwynedd wedi rhannu'r Cynllun Mentora Penaethiaid gyda Cheredigion a Sir Gâr, a disgwylir y bydd datblygiad pellach i'r cydweithrediad hwn i'r dyfodol.<br>Cynhaliwyd dau weithdy ar 28 a 29 Tachwedd 2013 gan 7 pennaeth arweiniol ym maes hunan arfarnu a chynllunio gwelliant. Bu'r gweithdai yn llwyddiannus iawn, gyda chynrychiolaeth o ymgynghorwyr her GwE a swyddogion Yr Awdurdod yn cefnogi. Rhwng y ddau weithdy, bu i bron bob un o benaethiaid cynradd Gwynedd dderbyn hyfforddiant o ansawdd yn y meysydd hyn.<br>Cynnydd o 2.7% yn y TL2+ sef prif ddangosydd CA4 yn 2014. Er hyn, mae gormod o ysgolion uwchradd yn parhau yn y chwarteli isaf o'r meincnodau PYD oherwydd perfformiad mewn Mathemateg a Saesneg yn bennaf.<br>Peth cynnydd wedi ei wneud i sicrhau cywirdeb a chysondeb asesiadau athrawon ond mae angen sicrhau trefn fwy grymus o safoni a chymedroli yn ystod y flwyddyn addysgol bresennol ac mae hyn wedi'i raglennu fel rhan o flaenoriaeth gweithredu GwE.<br>Ymweliadau monitro tymhorol wedi'u cynnal [ffocws i berfformiad diwedd cyfnod allweddol yn Ymweliad yr Hydref a chynnydd yn erbyn targedau ymhob ymweliad dilynol]. Lefel her uchel wedi'i chyflwyno a cheisiadau am gynlluniau gweithredu ble dyfarnwyd pryder am berfformiad. Penaethiaid Pynciau Craidd wedi mynychu nifer o'r cyfarfodydd monitro hyn yn yr uwchradd ac yn cael eu herio ar berfformiad eu hadrannau.<br>Arfarniad o berfformiad wedi'i gynnal ymhob ysgol ac er bod y bwlch rhwng y gorau a'r gwanaf wedi'i leihau, erys peth anghysondeb |

| Argymhelliad | Cyfrifoldeb | Cynllun Gweithredu | Erbyn Pryd | Cynnydd |
|---|---|---|---|---|
| | | | | o hyd yn ansawdd yr arfarniadau. Mae gwell cysondeb yn y setcor uwchradd na'r hyn welir yn y cynradd. Mae hynny wedi arwain at dargedu cynhaliaeth ac ymyrraeth i ysgolion penodol yn y ddau sector.<br>Categoreiddio wedi digwydd ar sail risg gan ddefnyddio meini prawf cytunedig.<br>Rhanddeiliaid wedi derbyn llythyr yn hysbysu a chyfarfodydd wedi'u cynnal gyda Phennaeth/Cadeirydd Llywodraethwyr i amlygu'r gofynion.<br>Rhaglen o ymyrraeth/cefnogaeth wedi'i thargedu i ysgolion oren/coch. Gwelliannau sylweddol mewn oddeutu hanner yr ysgolion a chynnydd cadarn mewn mwyafrif o'r gweddill. Ymyrraeth fwy dwys yn weithredol gyda'r ysgolion sydd heb wneud cynnydd digonol gan gynnwys gweithredu i ddatblygu rol y Llywodraethwyr fel cyfaill beirniadol ac i wella ansawdd arfarnu a chynllunio gwelliannau.<br>Cynlluniau yn weithredol ar draws holl ysgolion ond peth anghysondeb yn ansawdd y cynlluniau hynny mewn ychydig o ysgolion.<br>Rhaglen o ymrraeth a chefnogaeth wedi'i chytuno a'i gweithredu i bob ysgol. Ffocws gadarn yn yr ymweliadau i fonitro cynnydd ac i gasglu tystiolaeth o effaith yr ymyrraeth.<br>Ymweliadau monitro ychwanegol wedi'u cynnal ac adroddiadau manwl ar gynnydd wedi'u cyflwyno i UDRh/Llywodraethwyr.<br>Adroddiadau rheolaidd ar gynnydd wedi'u cyflwyno i'r Grwp Ansawdd/Tim Rheoli/Pwyllgor Craffu.<br>Hyfforddiant ar rol herio wedi'i gyflwyno i Aelodau Etholedig a Llywodraethwyr ysgolion. Cynhaliwyd sesiynau hyfforddi torfol i Lywodraethwyr ym meysydd dadansoddi data; hunan arfarnu; cynllunio gwelliannnau a herio perfformiad yr ysgol. Yn ychwanegol, targedir sesiynau penodol o hyfforddiant i Lywodraethwyr mewn ysgolion sy'n peri pryder. |
| | | • Mewn achosion ble gosodir ysgol mewn categori statudol gan Estyn, yr Awdurdod i symud ar fyrder i ddefnyddio'r pwerau statudol | | Sicrheir lefel briodol o her a chynhaliaeth i ysgolion trwy gyfrwng y cydweithio rhwng GwE a'r Awdurdod.<br>Defnyddiwyd pŵer statudol mewn perthynas a mater rheolaethol gydag un ysgol.<br>Hyfforddiant ar rol herio wedi'i gyflwyno i Aelodau Etholedig a Llywodraethwyr ysgolion.<br>Cynnydd yn y nifer o ysgolion sydd yn cynnwys Llywodraethwyr mewn unai ymweliadau monitro tymhorol neu ymarferion monitro/craffu gyda'r Ymgynghorydd Her.<br>Targedau wedi cael eu cytuno ar gyfer perfformiad diwedd cyfnod allweddol ym mhob ysgol a lefel yr her wedi'i wirio mewn ymweliadau monitro. Erys pryder mewn lleiafrif o ysgolion uwchradd am y bwlch rhwng perfformiad a tharged.<br>Ffocws miniocach wedi bod ar arfarnu ansawdd arweinyddiaeth yn yr ymweliadau monitro tymhorol. Gwell ansawdd a chysondeb i brosesau hunan arfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant ar draws yr Awdurdod, gyda rhaglen o ymyrraeth/cefnogaeth wedi'i thargedu ar gyfer ychydig o ysgolion sy'n parhau i beri pryder.<br>Cynnydd yn y nifer o ysgolion sydd yn cynnwys Llywodraethwyr mewn unai ymweliadau monitro tymhorol neu ymarferion monitro/craffu gyda'r Ymgynghorydd Her. |
| | | • Sicrhau bod gweithdrefnau miniog a phriodol yn eu lle trwy'r Gwasanaeth Rhanbarthol [GwE] i fonitro ac arfarnu cynnydd yr ysgolion ac i ddwysau y gweithredu a'r ymyrraeth ble na welir y cynnydd disgwyliedig. | | Rhaglen monitro wedi'i chytuno gyda phob ysgol ac adroddiadau cynnydd wedi'u cyflwyno i'r ysgol; Llywodraethwyr a'r ALI.<br>Ymgynghorywr Her wedi bod yn rhan o raglen uwch sgilio a'r gwasanaeth wedi gweithredu trefniadau gwirio ansawdd cynhwysfawr [oedd yn cynnwys templedi cyffredin, rhannu arferion da; monitro ymweliadau; safoni adroddiadau]. Fel canlyniad, lefel uwch o gysondeb yn ansawdd y gynhaliaeth a'r her ar draws y ddau sector.<br>Adroddiadau rheolaidd ar gynnydd wedi'u cyflwyno i'r Grwp Ansawdd/Tim Rheoli. |

# ADRODDIADAU ARCHWILIO ALLANOL 2012/13 - 2014/15

## ATODIAD 1

| Argymhelliad | Cyfrifoldeb | Cynllun Gweithredu | Erbyn Pryd | Cynnydd |
|---|---|---|---|---|
| | | • Grymuso a miniogi gweithdrefnau atebolrwydd mewnol y Cyngor am berfformiad ysgolion | | Mae adnabod swyddog o’r Adran Addysg i gydlynu materion rheoli perfformiad a’r cydweithio rhwng y swyddog a’r Swyddog Gwella Perfformiad wedi rhoi trefn ar adrodd ar berfformiad yr Adran Addysg.<br>Mae monitro a herio yn digwydd trwy gyfrwng Tim Rheoli’r adran, ac yna yn y Panel Cyflawni. Bydd materion o bryder yn cael eu dwyn i sylw’r Cabinet.<br>Yn ogystal â’r drefn uchod mae’r drefn Craffu yn gweithredu ar faterion o bryder sy’n cael eu hadnabod gan y Tîm Perfformiad Corfforaethol ac yn cael eu herio, yn ôl yr angen, yn y Pwyllgor Craffu.<br>Allan o’r drefn hon y codwyd y Prosiect Hyrwyddo Ansawdd Addysg.<br><br>**Gwelliannau a wireddwyd**<br>• Rhaglen fonitro a herio effeithiol yn weithredol a threfniadau clir ar gyfer adrodd ar gynnydd.<br>• Lefel her/atebolrwydd uwch yn weithredol.<br>• Ansawdd arweinyddiaeth wedi gwella ar draws ysgolion y ddau sector.<br>• Dim un ysgol wedi derbyn barn *anfoddhaol* gan Estyn ar gyfer Cwestiwn Allweddol 3 ers 19 Medi 2013 a 5 ysgol wedi cael eu dyfarnu’n *ddigonol*.<br>• Gwell perchnogaeth o’r rhaglen wella ar draws yr ystod rhanddeiliaid [Penaethiaid, Swyddogion, Arweinwyr System, Llywodraethwyr ac Aelodau Etholedig].<br><br>**Canlyniad Ymweliad ESTYN – 2-5 Rhagfyr 2014**<br>Aethpwyd i’r afael â’r argymhelliad hwn yn rhannol. |
| A4 Parhau i ddatblygu a gweithredu strategaethau presennol yr awdurdod i wella presenoldeb mewn ysgolion uwchradd. | Swyddog Monitro:<br>Uwch Reolwr ADY a Chynwysiad Addysg | • Sicrhau arfarniad o ddulliau a gweithdrefnau cofnodi absenoldebau ysgolion uwchradd Gwynedd. | Gorffennaf 2013 | ***<u>Cynnydd hyd at ymweliad Mehefin 2014</u>***<br>*Wedi’i gwblhau.*<br>*Pob ysgol uwchradd wedi parhau i wneud cynnydd yn eu % presenoldeb.*<br>*8 ysgol wedi dangos cynnydd 2 flynedd yn olynol.*<br>**<u>Cynnydd Pellach erbyn ymweliad Rhagfyr 2014</u>**<br>Pob ysgol uwchradd yn parhau i wneud cynnydd yn eu % presenoldeb.  9/14 ysgol yn y chwarteli uchaf.<br>***<u>Cynnydd hyd at ymweliad Mehefin 2014</u>***<br>*Wedi’i gwblhau.*<br>*Adroddiad wedi ei gyflwyno i’r GCSU.*<br>*Pob ysgol uwchradd wedi parhau i wneud cynnydd yn eu % presenoldeb.*<br>*8 ysgol wedi dangos cynnydd 2 flynedd yn olynol.*<br>**<u>Cynnydd Pellach erbyn ymweliad Rhagfyr 2014</u>**<br>Wedi’i gwblhau.<br>Bwriad i gyflwyno adroddiad pellach i’r GCSU ar ddata 2013/14.<br>Pob ysgol uwchradd wedi parhau i wneud cynnydd yn eu % presenoldeb.<br>***<u>Cynnydd hyd at ymweliad Mehefin 2014</u>***<br>*Wedi’i gwblhau.*<br>*% presenoldeb bob ysgol uwchradd wedi gwella.*<br>*2011/12 - 3 ysgol yn y chwarteli uchaf.  11 ysgol yn y chwarteli isaf.*<br>*1 ysgol – Ch1*<br>*2 ysgol – Ch 2*<br>*2 ysgol – Ch 3*<br>*8 ysgol – Ch 4.*<br>*Erbyn 2012/13 – 9 yn y chwarteli uchaf a 5 yn y chwarteli isaf.* |

# ADRODDIADAU ARCHWILIO ALLANOL 2012/13 - 2014/15

## ATODIAD 1

| Argymhelliad | Cyfrifoldeb | Cynllun Gweithredu | Erbyn Pryd | Cynnydd |
|---|---|---|---|---|
| | | | | *4 ysgol – Ch1*<br>*5 ysgol – Ch 2*<br>*3 ysgol – Ch 3*<br>*2 ysgol – Ch 4.*<br>**Cynnydd Pellach erbyn ymweliad Rhagfyr 2014**<br>*% presenoldeb bob ysgol uwchradd yn parhau iwella.*<br>Data 2013/14<br>6 ysgol – Ch1<br>3 ysgol – Ch 2<br>2 ysgol – Ch 3<br>3 ysgol – Ch 4.<br>***Cynnydd hyd at ymweliad Mehefin 2014***<br>*Wedi'i gwblhau*<br>*Gwybodaeth wedi ei gyflwyno i'r grwpiau perthnasol.*<br>*Data presenoldeb yn dangos gwelliant.*<br>*Meincnodau perfformiad 12/13 -*<br>*CA3 - 12 ysgol yn y chwarteli uchaf. 2 ysgol yn y chwarteli isaf.*<br>*CA4 - 6 ysgol yn y chwarteli uchaf. 8 ysgol yn y chwarteli isaf.*<br>*Arweiniad rhanbarthol parthed Fixed Penalty Notices wedi ei addasu. Hyfforddiant gweithredu FPN wedi ei gyflwyno i'r swyddogion cynhwysiad, swyddogion lles a phenaethiaid.*<br>**Cynnydd Pellach erbyn ymweliad Rhagfyr 2014**<br>Wedi'i gwblhau.<br>Gwybodaeth wedi ei gyflwyno i'r grwpiau perthnasol.<br>Data presenoldeb yn dangos gwelliant.<br>Arweiniad rhanbarthol parthed Fixed Penalty Notices wedi ei addasu. Hyfforddiant gweithredu FPN wedi ei gyflwyno i'r swyddogion cynhwysiad, swyddogion lles a phenaethiaid.<br>Canllawiau gweithredu FPN yn eu lle.<br>Cytundeb ar draws y sectorau wedi ei derbyn mewn perthynas a gwyliau ysgol, cyfnod astudio, erlyn, FPN.<br>Absenoldebau awdurdodedig – 5.8% - 4ydd gorau yng Nghymru.<br>Absenoldebau anawdurdodedig – 0.6% - 3ydd gorau yng Nghymru.<br>***Cynnydd hyd at ymweliad Mehefin 2014***<br>*Hyfforddiant a'r ymweliadau ysgolion wedi eu cwblhau. Staff gweinyddol yn dangos hyfedredd gweithredu - cysondeb yn y gweithredu.*<br>*Absenoldebau wedi lleihau.*<br>**Cynnydd Pellach erbyn ymweliad Rhagfyr 2014**<br>Hyfforddiant a'r ymweliadau ysgolion wedi eu cwblhau.<br>Staff gweinyddol yn dangos hyfedredd gweithredu - cysondeb yn y gweithredu.<br>Absenoldebau wedi lleihau<br>***Cynnydd hyd at ymweliad Mehefin 2014***<br>*Wedi'i gwblhau.*<br>*Lefel absenoldebau yn lleihau.*<br>*Swyddog Ymgynghorol Presenoldeb wedi cyflwyno adroddiadau i'r fforymau perthnasol.*<br>*Adroddir yn unol â'r drefn Rheoli Perfformiad Adrannol ar bresenoldeb yn chwarterol yn y Tîm Rheoli Addysg dan Gadeiryddiaeth Yr Aelod Cabinet dros Addysg.*<br>**Cynnydd Pellach erbyn ymweliad Rhagfyr 2014**<br>Parhad yn y cynnydd. |

# ADRODDIADAU ARCHWILIO ALLANOL 2012/13 - 2014/15

## ATODIAD 1

| Argymhelliad | Cyfrifoldeb | Cynllun Gweithredu | Erbyn Pryd | Cynnydd |
|---|---|---|---|---|
| | | | | Wedi'i gwblhau.<br>Lefel absenoldebau yn lleihau.<br><br>Swyddog Ymgynghorol Presenoldeb wedi cyflwyno adroddiadau i'r fforymau perthnasol.<br>Adroddir yn unol â'r drefn Rheoli Perfformiad Adrannol ar bresenoldeb yn chwarterol yn y Tîm Rheoli Addysg dan Gadeiryddiaeth Yr Aelod Cabinet dros Addysg.<br>***Cynnydd hyd at ymweliad Mehefin 2014***<br>*Wedi'i gwblhau.*<br>*Ymweliadau rhannu arferion da wedi eu cynnal ym mhob ysgol uwchradd.*<br>*Polisi a strategaeth gweithredu cofrestru wedi diweddaru i gwrdd â gofynion newydd Medi 2014.*<br>**Cynnydd Pellach erbyn ymweliad Rhagfyr 2014**<br>Wedi'i gwblhau.<br>***Cynnydd hyd at ymweliad Mehefin 2014***<br>*Wedi'i gwblhau.*<br>*Pob ysgol uwchradd wedi cwblhau adroddiad blwyddyn ac wedi anfon copi i LIC a'r Adran Addysg.*<br>*2012/13 - Absenoldeb awdurdodedig - wedi lleihau i 6.6% o gymharu 7.9% yn 2011/12.*<br>*Cymru – 7.4%.*<br>*Gwynedd yn gydradd ail orau yn genedlaethol.*<br>*212/13Absenoldebau anawdurdodedig – wedi gwella o 0.9% i 0.7%. Cymru yn 1.3%. Gosod Gwynedd yn gydradd 3ydd yn genedlaethol.*<br>**Cynnydd Pellach erbyn ymweliad Rhagfyr 2014**<br>Wedi'i gwblhau.<br>Pob ysgol uwchradd wedi cwblhau adroddiad blwyddyn ac wedi anfon copi i LIC a'r Adran Addysg.<br>2013/14 - Absenoldeb awdurdodedig - wedi lleihau o 6.6% i 5.8%.<br>Gwynedd yn 4ydd gorau yn genedlaethol.<br>Cymru – 6.4%<br>2013/14 - Absenoldebau anawdurdodedig – wedi gwella o 0.7% i 0.6% .<br>Cymru yn 1.3%.<br>Gosod Gwynedd yn 3ydd yn genedlaethol.<br>***Cynnydd hyd at ymweliad Mehefin 2014***<br>*Wedi'i gwblhau.*<br>*Data presenoldeb yn dangos cynnydd.*<br>**Cynnydd Pellach erbyn ymweliad Rhagfyr 2014**<br>Wedi'i gwblhau.<br>Data presenoldeb yn dangos cynnydd.<br>***Cynnydd hyd at ymweliad Mehefin 2014***<br>*Wedi'i gwblhau.*<br>*Data presenoldeb yn dangos cynnydd.*<br>**Cynnydd Pellach erbyn ymweliad Rhagfyr 2014**<br>Wedi'i gwblhau.<br>Data presenoldeb yn dangos cynnydd. |
| | | • Sicrhau targedau gwella presenoldeb | Gwanwyn 2013 | ***Cynnydd hyd at ymweliad Mehefin 2014***<br>*Wedi'i gwblhau.*<br>*Pob ysgol uwchradd wedi cytuno i osod targed presenoldeb o 95%.*<br>*Adroddiadau monitro yn cael eu cyflwyno yn gyson yng nghyfarfodydd y Gwasanaeth Lles Addysg a'r wybodaeth yn cael ei gyflwyno i'r Tim Rheoli Addysg.* |

**ATODIAD 1**

| Argymhelliad | Cyfrifoldeb | Cynllun Gweithredu | Erbyn Pryd | Cynnydd |
|---|---|---|---|---|
| | | ysgolion penodol yn unol â'u perfformiad blaenorol a chytuno ar gynllun gweithredu cytunedig gyda phob ysgol ym maes presenoldeb. | | **Cynnydd Pellach erbyn ymweliad Rhagfyr 2014**<br>Wedi'i gwblhau.<br>Pob ysgol uwchradd wedi cytuno i osod targed presenoldeb o 95%.<br>Adroddiadau monitro yn cael eu cyflwyno yn gyson yng nghyfarfodydd y Gwasanaeth Lles Addysg a'r wybodaeth yn cael ei gyflwyno i'r Tim Rheoli Addysg.<br><br>***Cynnydd hyd at ymweliad Mehefin 2014***<br>*Grwpiau targed penodol wedi eu sefydlu yn yr ysgolion uwchradd. Gwasanaeth Lles yn monitro perfformiad presenoldeb.*<br>*Gwybodaeth monitro yn cael ei gyflwyno yn y Tîm Rheoli Addysg.*<br>*Adroddir yn unol â'r drefn Rheoli Perfformiad Adrannol ar bresenoldeb yn chwarterol yn y Tim Rheoli Addysg dan Gadeiryddiaeth Yr Aelod Cabinet dros Addysg.*<br>*Swyddog Ymgynghorol Presenoldeb wedi cyflwyno argymhellion i'r GCSU a'r Grŵp Cynhwysiad gan ddarparu arweiniad ar agweddau penodol megis polisi enghreifftiol, FPN a.y.b.*<br>*Bwriedir cynnal arfarniad llawn o effaith gwaith Swyddogion Presenoldeb a Lles ar ddeilliannau'r grwpiau targed, a pherfformiad ysgolion unigol, cyn diwedd y flwyddyn addysgol 2013/14 gyda'r bwriad o lunio cynllun gweithredu yn sgil canfyddiadau'r arfarniad yma.*<br>**Cynnydd Pellach erbyn ymweliad Rhagfyr 2014**<br>Grwpiau targed penodol wedi eu sefydlu yn yr ysgolion uwchradd. Gwasanaeth Lles yn monitro perfformiad presenoldeb.<br>Gwybodaeth monitro yn cael ei gyflwyno yn y Tîm Rheoli Addysg.<br>Adroddir yn unol â'r drefn Rheoli Perfformiad Adrannol ar bresenoldeb yn chwarterol yn y Tim Rheoli Addysg dan Gadeiryddiaeth Yr Aelod Cabinet dros Addysg.<br>Swyddog Ymgynghorol Presenoldeb wedi cyflwyno argymhellion i'r GCSU a'r Grŵp Cynhwysiad gan ddarparu arweiniad ar agweddau penodol megis polisi enghreifftiol, FPN a.y.b.<br>Rhaglen waith Swyddogion Presenoldeb a Lles yn monitro deilliannau grwpiau targed a perfformiad ysgolion unigol gyda'r bwriad fod cynllun gweithredu tyn gynwysiedig yn CDY bob ysgol.<br><br>***Cynnydd hyd at ymweliad Mehefin 2014***<br>*Grwpiau targed penodol wedi eu sefydlu yn yr ysgolion uwchradd. Gwasanaeth Lles yn monitro perfformiad presenoldeb.*<br>*Adran Addysg yn y broses o adolygu patrymau gwaith y Swyddogion ar raddfa sirol. Wedi addasu eu rhaglenni gwaith i gynnwys adolygu grwpiau targed penodol o ddysgwyr ym mhob ysgol.*<br>*Presenoldeb yn dangos gwelliant – absenoldeb yn lleihau.*<br>**Cynnydd Pellach erbyn ymweliad Rhagfyr 2014**<br>Grwpiau targed penodol wedi eu sefydlu yn yr ysgolion uwchradd. Gwasanaeth Lles yn monitro perfformiad presenoldeb.<br>Rhaglen waith Swyddogion Presenoldeb a Lles yn monitro deilliannau grwpiau targed a perfformiad ysgolion unigol gyda'r bwriad fod cynllun gweithredu tyn gynwysiedig yn CDY bob ysgol.<br>Presenoldeb yn dangos gwelliant – absenoldeb yn lleihau.<br><br>***Cynnydd hyd at ymweliad Mehefin 2014***<br>*Wedi'i gwblhau.*<br>*Cyfarfodydd rheolaidd, misol, gyda'r Tîm Lles. Cofnodion y cyfarfodydd hynny yn cael eu cyflwyno i'r Tîm Rheoli.*<br>*Gwybodaeth monitro yn cael ei gyflwyno yn y Tîm Rheoli Addysg.*<br>*Adroddir yn unol â'r drefn Rheoli Perfformiad Adrannol ar bresenoldeb yn chwarterol yn y Tîm Rheoli Addysg dan Gadeiryddiaeth Yr Aelod Cabinet dros Addysg.*<br>**Cynnydd Pellach erbyn ymweliad Rhagfyr 2014**<br>Cyfarfodydd rheolaidd, misol, gyda'r Tîm Lles. Cofnodion y cyfarfodydd hynny yn cael eu cyflwyno i'r Tîm Rheoli.<br>Gwybodaeth monitro yn cael ei gyflwyno yn y Tîm Rheoli Addysg. |

# ADRODDIADAU ARCHWILIO ALLANOL 2012/13 - 2014/15

**ATODIAD 1**



| Argymhelliad | Cyfrifoldeb | Cynllun Gweithredu | Erbyn Pryd | Cynnydd |
|---|---|---|---|---|
| | | • Sicrhau bod data presenoldeb yn cael ei archwilio'n fanwl a rhagweithiol gan y gwasanaeth presenoldeb a lles, a chynllunio gwelliant yn dilyn hunan arfarniadau blynyddol. | Blynyddol o 2013 / 2014 | Adroddir yn unol â'r drefn Rheoli Perfformiad Adrannol ar bresenoldeb yn chwarterol yn y Tîm Rheoli Addysg dan Gadeiryddiaeth Yr Aelod Cabinet dros Addysg.<br><br>***<u>Cynnydd hyd at ymweliad Mehefin 2014</u>***<br>*Wedi'i gwblhau.*<br>*Presenoldeb yn dangos gwelliant – absenoldeb yn lleihau.*<br>**<u>Cynnydd Pellach erbyn ymweliad Rhagfyr 2014</u>**<br>Presenoldeb yn dangos gwelliant – absenoldeb yn lleihau.<br>Cyfarfodydd rheolaidd, misol, gyda'r Tîm Lles. Cofnodion y cyfarfodydd hynny yn cael eu cyflwyno i'r Tîm Rheoli.<br>Adroddiadau monitro yn cael eu cynnwys yng nghofnodion misol Tim Lles.<br><br>**<u>Cynnydd hyd at ymweliad Mehefin 2014</u>**<br>Wedi'i gwblhau.<br>Adroddiadau yn cael eu derbyn a'u trafod yng nghyfarfodydd misol Y Gwasanaeth Lles. Manylion yn cael eu rhannu o fewn strwythur rheoli perfformiad y Cyngor yn chwarterol.<br>**<u>Cynnydd Pellach erbyn ymweliad Rhagfyr 2014</u>**<br>Cyfarfodydd rheolaidd, misol, gyda'r Tîm Lles. Cofnodion y cyfarfodydd hynny yn cael eu cyflwyno i'r Tîm Rheoli.<br>Adroddiadau monitro yn cael eu cynnwys yng nghofnodion misol Tim Lles.<br>***<u>Cynnydd hyd at ymweliad Mehefin 2014</u>***<br>*Eitem am bresenoldeb ac effaith gwyliau ar bresenoldeb yn rhifyn nesaf 'Gwynedd Ni', Medi 2014.*<br>*Model polisi enghreifftiol wedi ei drafod a'i gyflwyno i Swyddogion Cynhwysiad pob ysgol uwchradd (Grŵp Cynhwysiad Uwchradd).*<br>*Polisi yn cynnwys gwybodaeth am wyliau yn ystod tymor ysgol a gweinyddu a gweithredu hysbysebion cosb penodol.*<br>**<u>Cynnydd Pellach erbyn ymweliad Rhagfyr 2014</u>**<br>Eitem am bresenoldeb ac effaith gwyliau ar bresenoldeb yn rhifyn nesaf 'Gwynedd Ni', Ionawr 2015.<br>Model polisi enghreifftiol wedi ei drafod a'i gyflwyno i Swyddogion Cynhwysiad pob ysgol uwchradd (Grŵp Cynhwysiad Uwchradd).<br>Polisi yn cynnwys gwybodaeth am wyliau yn ystod tymor ysgol a gweinyddu a gweithredu hysbysebion cosb penodol.<br>Pob ysgol wedi diweddaru polisi presenoldeb yn unol a model polisi enghreifftiol dan gyfarwyddwyd Swyddogion Cynwhwysiad.<br><br>**Gwelliannau a wireddwyd**<br>***<u>Cynnydd hyd at ymweliad Mehefin 2014</u>***<br>*Presenoldeb ysgolion uwchradd Gwynedd yn gwella.*<br><br>*2011/12 – 3 ysgol yn y chwarteli uchaf. 11 ysgol yn y chwarteli isaf.*<br>*1 ysgol – Ch1*<br>*2 ysgol – Ch 2*<br>*2 ysgol – Ch 3*<br>*8 ysgol – Ch 4.*<br>*Erbyn 2012/13 – 9 yn y chwarteli uchaf a 5 yn y chwarteli isaf.*<br>*4 ysgol – Ch1*<br>*5 ysgol – Ch 2*<br>*3 ysgol – Ch 3*<br>*2 ysgol – Ch 4.*<br>*Cysondeb gweithredu a strwythurau ar draws ysgolion uwchradd yn y maes absenoldeb, yn arwain at wella perfformiad grwpiau penodol o blant.*<br>*Effaith yr adnodd rhanbarthol ychwanegol (drwy'r grant Gwella Presenoldeb cenedlaethol) yn arwain at welliant mewn presenoldeb dros dreigl.* |

**ATODIAD 1**

| Argymhelliad | Cyfrifoldeb | Cynllun Gweithredu | Erbyn Pryd | Cynnydd |
|---|---|---|---|---|
| | | | | **Cynnydd Pellach erbyn ymweliad Rhagfyr 2014**<br>Presenoldeb ysgolion uwchradd Gwynedd wedi ac yn parhau i wella.<br>2013/14 – 9 ysgol yn y chwarteli uchaf. 5 ysgol yn y chwarteli isaf.<br>6 ysgol – Ch1<br>3 ysgol – Ch 2<br>2 ysgol – Ch 3<br>3 ysgol – Ch 4.<br>Cysondeb gweithredu a strwythurau ar draws ysgolion uwchradd yn y maes absenoldeb, yn arwain at wella perfformiad grwpiau penodol o blant.<br>Effaith yr adnodd rhanbarthol ychwanegol (drwy'r grant Gwella Presenoldeb cenedlaethol) yn arwain at welliant mewn presenoldeb dros dreigl.<br><br>**Canlyniad Ymweliad ESTYN – 2-5 Rhagfyr 2014**<br>Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth. |
| A5 Gwella ansawdd hunanarfarnu, a'r modd y caiff cynlluniau gwella a gweithdrefnau rheoli perfformiad eu rhoi ar waith yn yr adran addysg. | Swyddogion Monitro: Pennaeth Addysg, Rheolwr Cynllunio Strategol a Pherfformiad, Swyddog Gwella Ansawdd Addysg Cynorthwyol | • Sicrhau cynhwysedd ychwanegol o fewn yr Adran Addysg i gydlynu materion rheoli perfformiad. | Parhaus | ***Cynnydd hyd at ymweliad Mehefin 2014***<br>*Swyddog o'r Adran Addysg wedi ei hadnabod i gydlynu materion rheoli perfformiad. Y Swyddog a'r Swyddog Gwella Perfformiad yn cyfarfod yn rheolaidd.*<br>**Cynnydd Pellach erbyn ymweliad Rhagfyr 2014**<br>Swyddog o'r Adran Addysg wedi ei hadnabod i gydlynu materion rheoli perfformiad. Y Swyddog a'r Swyddog Gwella Perfformiad yn cyfarfod yn rheolaidd – trefniant yma'n parhau.<br><br>***Cynnydd hyd at ymweliad Mehefin 2014***<br>*Cymorth ychwanegol yn cael ei rhoi gan Swyddog Gwella Perfformiad ar faterion monitro chwarterol.*<br>*Trefn chwarterol cadarn mewn lle, gydag llawlyfr perfformiad chwaterol yn cael ei ddarparu i Dîm Rheoli'r adran.*<br>**Cynnydd Pellach erbyn ymweliad Rhagfyr 2014**<br>Trefniant uchod yn parhau.<br><br>***Cynnydd hyd at ymweliad Mehefin 2014***<br>*Aelod Cabinet yn cadeirio slot monitro Chwarterol, gydag amser wedi ei raglennu a'i gynnal ym mlwyddyn ariannol 2013/14. Amserlen wedi ei rhaglennu ar gyfer 2014/15.*<br>*Atebolrwydd a perchnogaeth wedi cryfhau yn dilyn y trefniadau.*<br>*Cytundeb canlyniadau – canlyniad gwella ansawdd addysg yn gwbl llwyddiannus yn 2013/14.*<br>**Cynnydd Pellach erbyn ymweliad Rhagfyr 2014**<br>Aelod Cabinet yn cadeirio slot monitro Chwarterol.<br>Amserlen wedi ei rhaglennu ar gyfer 2014/15.<br>Atebolrwydd a perchnogaeth wedi cryfhau yn dilyn y trefniadau.<br><br>***Cynnydd hyd at ymweliad Mehefin 2014***<br>*Trefn chwarterol cadarn mewn lle, gydag llawlyfr perfformiad chwaterol yn cael ei ddarparu i Dîm Rheoli'r Adran.*<br>*Eitem benodol ar agenda'r Tim Rheoli dan gadeiryddiaeth yr Aelod Cabinet.*<br>*Ar y cyfan, perfformiad yn cael ei fonitro o fewn tair wythnos.*<br>*Materion yn cael eu trafod/datrys yn y Panel Cyflawni.*<br>**Cynnydd Pellach erbyn ymweliad Rhagfyr 2014**<br>Trefniant uchod yn parhau. |

# ADRODDIADAU ARCHWILIO ALLANOL 2012/13 - 2014/15

## ATODIAD 1

| Argymhelliad | Cyfrifoldeb | Cynllun Gweithredu | Erbyn Pryd | Cynnydd |
|---|---|---|---|---|
| | | | | ***Cynnydd hyd at ymweliad Mehefin 2014***<br>*Wedi'i gwblhau.*<br>*Hyfforddiant wedi ei gynnal ar 04/10/2014.*<br>**Cynnydd Pellach erbyn ymweliad Rhagfyr 2014**<br>Wedi'i gwblhau. |
| | | • Sicrhau adnabod y rhaglenni gwella unigol sy'n cyfrannu tuag at fesuryddion yr Adran/ Gwasanaeth Addysg. | Hydref 2013 | ***Cynnydd hyd at ymweliad Mehefin 2014***<br>*Prosiectau / rhaglenni gwella unigol wedi eu hadnabod gan sicrhau gwell trefn o atebolrwydd yn y gwasanaethau unigol.*<br>**Cynnydd Pellach erbyn ymweliad Rhagfyr 2014**<br>Yn sgil hunan arfarniadau y gwasanaethau unigol, rhaglenni gwaith unigol wedi'u hadnabod sydd wedi arwain at well atebolrwydd yn y gwasanaethau unigol.<br>Swyddogion o fewn yr Adran Addysg yn glir ynglŷn â'u cyfrifoldebau am fesuryddion penodol.<br>Hyn hefyd wedi arwain at gryfhau a gwella cynllunio ar lefel adrannol. |
| | | • Creu matrics o'r mesuryddion | Rhagfyr 2013 | ***Cynnydd hyd at ymweliad Mehefin 2014***<br>*Amserlen wedi llithro.*<br>*Yn dilyn llithriad gyda amserlen y gwaith, penderfyniwyd gohirio'r gwaith tan 2014/15, oherwydd mae mesuryddion 2014/15 yn wahanol oherwydd cylch cynllunio busnes blynyddol y Cyngor.*<br>**Cynnydd Pellach erbyn ymweliad Rhagfyr 2014**<br>Yn sgil hunan arfarniadau y gwasanaethau unigol, cynlluniau gweithredu unigol wedi'u hadnabod er mwyn monitro cynnydd ac arfarnu perfformiad. Hyn wedi arwain at well atebolrwydd yn y gwasanaethau unigol a sicrhau gwella cynllunio ar lefel adrannol. |
| | | • Cytuno a sefydlu trefn hunan arfarnu gadarn | Medi 2013-Rhagfyr 2014 | ***Cynnydd hyd at ymweliad Mehefin 2014***<br>*Rhaglenni gwella wedi eu hadnabod.*<br>*Yn ystod 2014/15 bydd angen cytuno ar drefn ac amserlen adrodd ar gynnydd yn y gwasanaethau unigol.*<br>**Cynnydd Pellach erbyn ymweliad Rhagfyr 2014**<br>Yn sgil hunan arfarniadau y gwasanaethau unigol, rhaglenni gwaith unigol wedi'u hadnabod sydd wedi arwain at well o atebolrwydd yn y gwasanaethau unigol. Swyddogion o fewn yr Adran Addysg yn glir ynglŷn â'u cyfrifoldebau am fesuryddion penodol.<br>Hyn hefyd yn fodd i gryfhau a gwella cynllunio ar lefel adrannol.<br><br>***Cynnydd hyd at ymweliad Mehefin 2014***<br>*Amserlen Bidiau wedi cael ei chyfarch, gyda bidiau wedi eu pennu o fewn yr amserlen gorfforaethol.*<br>*Cyfarfodydd Bygythiadau a Chyfleon wedi eu cynnal gyda phob uned gwasanaeth, sef;*<br>*• Disgyblion a Chynhwysiad – 13/02/14*<br>*• Gwella Ysgolion – 17/02/14*<br>*• Adnoddau – 07/03/14*<br>*• Ysgolion – 12/03/14*<br>*Hunan arfarnu fesul gwasanaeth wedi ei gwblhau gyda'r staff perthnasol.*<br>*Blaenoriaethau a mesuryddion 2014/15 wedi eu hadnabod.*<br>*Bwriedir adolygu'r HA uchod yng nghyfarfodydd y Tîm Rheoli ddechrau Medi fel rhan o'r broses o adnabod bidiau'r adran. Bwriedir cynnal hunan arfarniad manylach yn dilyn derbyn canlyniadau terfynol Haf 2014 sef yn y flwyddyn newydd dilynol (Chwefror 2015).*<br>**Cynnydd Pellach erbyn ymweliad Rhagfyr 2014** |

ATODIAD 1

| Argymhelliad | Cyfrifoldeb | Cynllun Gweithredu | Erbyn Pryd | Cynnydd |
|---|---|---|---|---|
| | | | | Amserlen Bidiau wedi cael ei chyfarch, gyda bidiau wedi eu pennu o fewn yr amserlen gorfforaethol.<br>Cyfarfodydd Bygythiadau a Chyfleon wedi eu cynnal gyda phob uned gwasanaeth, sef;<br>• Disgyblion a Chynhwysiad – 16/09/14<br>• Gwella Ysgolion – 21/10/14<br>• Adnoddau – 23/09/14<br>• Trefniadaeth Ysgolion – 25/09/14<br>Hunan arfarnu fesul gwasanaeth wedi ei gwblhau a chynlluniau gweithredu wedi'u hadnabod.<br>Blaenoriaethau a mesuryddion 2014-15 wedi eu hadnabod.<br>Bwriedir cynnal hunan arfarniad manylach yn dilyn derbyn canlyniadau terfynol Haf 2014 sef yn y flwyddyn newydd dilynol (Chwefror 2015).<br><br>***Cynnydd hyd at ymweliad Mehefin 2014***<br>*Wedi'i gwbhlau.*<br>*Blaenoriaethau a mesuryddion 2014/15 wedi eu hadnabod.*<br>**Cynnydd Pellach erbyn ymweliad Rhagfyr 2014**<br>Wedi'i gwbhlau.<br>Blaenoriaethau a mesuryddion 2014/15 wedi eu hadnabod.<br><br>**Gwelliannau a wireddwyd**<br>***Cynnydd hyd at ymweliad Mehefin 2014***<br>*Cryfhau perchnogaeth oddi fewn i'r Adran ac atebolrwydd yr Adran Addysg dros faterion rheoli perfformiad.*<br>*Rhoi arweiniad clir ar egwyddorion a gweithdrefnau Rheoli Perfformiad.*<br>*Trefniadau cynllunio manwl a gweithdrefnau rheoli perfformiad trwyadl.*<br>*Gwneud defnydd mwy effeithiol o fesuryddion perfformiad er mwyn monitro cynnydd yn erbyn cerrig milltir yn rheolaidd, ac i* ***gymryd camau unioni priodol.***<br>*Sicrhau fod holl swyddogion yr Adran Addysg yn cyfrannu at y drafodaeth ar fygythiadau a chyfleon gwasanaethau'n flynyddol.*<br>**Cynnydd Pellach erbyn ymweliad Rhagfyr 2014**<br>Perchnogaeth ac atebolrwydd wedi cryfhau oddi fewn i'r Adran dros faterion rheoli perfformiad.<br>Arweiniad clir ar egwyddorion a gweithdrefnau Rheoli Perfformiad.<br>Trefniadau cynllunio manwl a gweithdrefnau rheoli perfformiad trwyadl.<br>Defnydd mwy effeithiol o fesuryddion perfformiad er mwyn monitro cynnydd yn erbyn cerrig milltir yn rheolaidd.<br>Holl swyddogion yr Adran Addysg yn cyfrannu at y drafodaeth ar fygythiadau a chyfleon y gwasanaethau'n flynyddol.<br>Swyddogion o fewn yr Adran Addysg yn glir ynglŷn â'u cyfrifoldebau am fesuryddion penodol.<br>Yn sgil hunan arfarniadau'r gwasanaethau unigol, rhaglenni gwaith unigol wedi'u hadnabod sydd wedi arwain at well atebolrwydd yn y gwasanaethau unigol. Hyn hefyd wedi arwain at gryfhau a gwella cynllunio ar lefel adrannol.<br><br>**Canlyniad Ymweliad ESTYN – 2-5 Rhagfyr 2014**<br>Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn rhannol. |
| A6 Parhau i roi cynlluniau ar waith i leihau nifer y lleoedd gwag. | Swyddogion Monitro: Rheolwr Arweiniol (Ad-drefnu Ysgolion | • Gweithredu rhaglenni llefydd gweigion ardaloedd a dalgylchol | Parhaus | **Gwelliannau a wireddwyd**<br>• Mae patrwm o leihau llefydd gweigion yn y Sir o ganlyniad i gyfuniad o gynlluniau ad-drefnu a gwaith adolygu capasiti ysgolion<br>• Mae cynllunlau ar y gweill neu wedi eu gweithredu i ddileu 1,289 o lefydd gweigion yn y sector cynradd drwy gyfuniad o gynlluniau ad-drefnu ysgolion a gwaith adolygu cynhwysedd yr ysgolion. Mae hyn o fewn y targed osodwyd erbyn Ionawr 2015 i leihau llefydd gweigion Cynradd. |

**ATODIAD 1**

| Argymhelliad | Cyfrifoldeb | Cynllun Gweithredu | Erbyn Pryd | Cynnydd |
|---|---|---|---|---|
| | Uwchradd), Rheolwr Arweiniol Ad-drefnu Ysgolion Cynradd, Uwch Reolwr Ysgolion, a Swyddog i'w ddynodi. | penodol | | • Mae nifer llefydd gweigion yn lleihau yn y Sector uwchradd. Mae cynlluniau e.e. cynllun y Berwyn yn mynd i gyfrannu ymhellach i'r targed yn y blynyddoedd nesaf<br>• Mae cynlluniau ar y gweill neu wedi eu gweithredu i ddileu 1,014 o lefydd gweigion yn y sector uwchradd trwy gyfuniad o gynlluniau ad-drefnu ac adolygu capasiti ysgolion.<br>**CRYNODEB**<br>• Erbyn Ionawr 2015 bydd **1,474** o lefydd geigion wedi ei ddileu o stad ysgolion Cyngor Gwynedd sydd yn gyfystyr ag arbed **£532,620** (yn unol â chost lle gwag fel y diffinwyd mewn adroddiad Estyn *( Sut mae lleoedd gwag yn dylanwadu ar yr adnoddau sydd ar gael i'w wario ar wella canlyniadau i ddisgyblion? - 2012*)<br>• Gyda cynlluniau arfaethedig, erbyn Medi 2017 ddylai bod **851** mwy o lefydd gweigion wedi ei ddileu o stad ysgolion Cyngor Gwynedd sydd yn gyfystyr ag arbed **£338,778** (yn unol a cost lle gwag fel y diffinwyd mewn adroddiad Estyn)<br>• Gan ystyried holl cynlluniau a gwireddwyd hyd yma a'r rhai i ddod rhwng rwan a Medi 2017, bydd cyfanswm o **2,325** o lefydd gweigion wedi ei ddileu o stad ysgolion Cyngor Gwynedd, sy'n creu arbedion o **£871,038** (yn unol a cost lle gwag gan adroddiad Estyn)<br>• Mae'r wybodaeth yma wedi ei grynhoi yn y tablau isod: |

| Cynllun / Prosiect | Effaith ar Lefydd Gweigion erbyn Ionawr 2015 | Arbedion yn unol ag Estyn (£262 Cynradd, £510 Uwchradd) |
|---|---|---|
| Tywyn | -257 | -£67,334 |
| Berwyn cam 1 – Uwchraddio Ysgol OM Edwards | -43 | -£11,266 |
| Berwyn cam 2 – Campws Gydol Oes Y Bala | 0 | 0 |
| Dalgylch Y Gader | 0 | 0 |
| Ysgol Ardal Groeslon, Carmel a Bronyfoel | 0 | 0 |
| Ysgol Glancegin | 0 | 0 |
| Ysgol Llidiardau | -76 | -£19,912 |
| Llefydd Gweigion Uwchradd | -589 | -£300,390 |
| Llefydd Gweigion Cynradd | -509 | -£133,358 |
| **CYFANSWM** | **-1,474** | **-£532,260** |

**ATODIAD 1**

| Argymhelliad | Cyfrifoldeb | Cynllun Gweithredu | Erbyn Pryd | Cynnydd |
|---|---|---|---|---|
| | | | | (see below) |

| Cynllun / Prosiect | Effaith ar Lefydd Gweigion erbyn Medi 2017 | Arbedion yn unol ag Estyn (£262 Cynradd, £510 Uwchradd) |
|---|---|---|
| Berwyn cam 2 – Campws Gydol Oes Y Bala | -388 | -£193,416 |
| Dalgylch Y Gader | -262 | -£89,972 |
| Ysgol Ardal Groeslon, Carmel a Bronyfoel | -97 | -£25,414 |
| Ysgol Glancegin | -93 | -£24,366 |
| Llefydd Gweigion Uwchradd | -11 | -£5,610, |
| **CYFANSWM** | **-851** | **-£338,778** |

| Dyddiad | Effaith ar Lefydd Gweigion erbyn Medi 2017 | Arbedion yn unol ag Estyn (£262 Cynradd, £510 Uwchradd) |
|---|---|---|
| Erbyn Ionawr 2015 | **-1,474** | **-£532,260** |
| Erbyn Medi 2017 | **-851** | **-£338,778** |
| **CYFANSWM** | **-2,325** | **-£871,038** |

**Canlyniad Ymweliad ESTYN – 2-5 Rhagfyr 2014**
Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

## 2. ARCHWILIADAU ERAILL

### 2.1 Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru: Trefniadau Diogelu Plant Awdurdodau Lleol - Cyngor Gwynedd - Hydref 2014

Archwiliwyd Trefniadau Diogelu Plant Awdurdodau Lleol Cyngor Gwynedd gan Swyddfa Archwilio Cymru a chyhoeddwyd adroddiad ym mis Hydref 2014. Yn dilyn hyn cyflwynwyd y cynigion isod yn adroddiad y Cynghorydd Wyn Williams i'r Cabinet ar 16 Rhagfyr 2014. Er mwyn sicrhau fod gweithredu wedi digwydd o ran y cynigion, cyflwynwyd yr adroddiad dan sylw, ynghyd a'r adroddiad cenedlaethol, i'r Panel Strategol Diogelu Plant ac Oedolion Bregus (29 Medi 2015). Cytunwyd yn y cyfarfod i'r Grŵp Gweithredol ystyried yr argymhellion cenedlaethol a'r cynigion lleol gan adrodd ar unrhyw fylchau sydd yn parhau ac angen sylw pellach. Bydd y Grŵp Gweithredol yn adrodd yn ôl i'r Panel Strategol Diogelu Plant ac Oedolion Bregus ar y 02 Rhagfyr 2015.

| Cyf | Cynigion pellach ar gyfer gwella | Cyfrifoldeb | Cynllun Gweithredu | Erbyn Pryd | Y drefn monitro a'r cynnydd wnaed hyd yn hyn |
|---|---|---|---|---|---|
| C1 | Adolygu'r gofynion o dan Ddeddf Plant 2004 ar gyfer Swyddog Amddiffyn Plant Dynodedig Awdurdodau Lleol er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio'n llawn â'r ddeddfwriaeth. | Cyfarwyddwr Corfforaethol | 1. Cyflwynwyd y cynnig i'r Cabinet – 16.12.14<br>2. Trafodwyd yr adroddiad gyda'r swyddogion perthnasol i geisio adnabod gweithrediadau posib.<br>3. Cyflwynwyd y cynnig i'r Panel Strategol Diogelu Plant ac Oedolion Bregus (29.09.15) er mwyn gweld os oes angen gweithredu pellach i'r hyn oedd eisoes wedi ei weithredu. | 02.12.15 | Yn benodol o ran y cynnig hwn, nodwyd yn y Panel Strategol Diogelu Plant ac Oedolion Bregus fod angen eglurder pellach gan Swyddfa Archwilio Cymru, gan i rai fod yn aneglur yn union beth oedd dan sylw yma. Cytunwyd wedi'r cyfarfod i Dafydd Paul, Uwch Reolwr Diogelu ac Ansawdd ddilyn y mater i fyny hefo Swyddfa Archwilio Cymru gan adrodd yn ôl i'r Panel Strategol Diogelu (02.12.15). |

# ADRODDIADAU ARCHWILIO ALLANOL 2012/13 - 2014/15

## ATODIAD 1



| Cyf | Cynigion pellach ar gyfer gwella | Cyfrifoldeb | Cynllun Gweithredu | Erbyn Pryd | Y drefn monitro a'r cynnydd wnaed hyd yn hyn |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | 4. Disgwylir sylwadau o ran unrhyw flychau sy'n parhau neu elfennau sydd angen sylw pellach yng Nghyfarfod nesaf y Panel Strategol Diogelu Plant ac Oedolion Bregus - 02.12.15. | | |
| C2 | Sicrhau bod risgiau diogelu, a'r camau i'w lliniaru, wedi'u diweddaru yn y Gofrestr Risgiau Corfforaethol. | Cyfarwyddwr Corfforaethol | 1. Cyflwynwyd y cynnig i'r Cabinet – 16.12.14<br>2. Trafodwyd yr adroddiad gyda'r swyddogion perthnasol i geisio adnabod gweithrediadau posib.<br>3. Cyflwynwyd y cynnig i'r Panel Strategol Diogelu Plant ac Oedolion Bregus (29.09.15) er mwyn gweld os oes angen gweithredu pellach i'r hyn oedd eisoes wedi ei weithredu.<br>4. Disgwylir sylwadau o ran unrhyw flychau sy'n parhau neu elfennau sydd angen sylw pellach yng Nghyfarfod nesaf y Panel Strategol Diogelu Plant ac Oedolion Bregus - 02.12.15. | 02.12.15 | Maent wedi eu cynnwys ar y Gofrestr Risgiau Corfforaethol.<br><br>Mae'r gofrestr gorfforaethol yn cael ei gyflwyno i'r Grŵp Rheoli, a bydd adroddiad ar drefniadau rheoli risg yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio ar 1 Rhagfyr 2015. |
| C3 | Gwella'r craffu ar elfennau allweddol trefniadau diogelu'r Cyngor, drwy, er enghraifft, adrodd yn rheolaidd am berfformiad ynglŷn â recriwtio diogel; presenoldeb mewn hyfforddiant diogelu a'i effaith; a chanlyniad y rhaglen archwilio ysgolion flynyddol. | Uwch Reolwr Democratiaeth a Chyflawni | 1. Cyflwynwyd y cynnig i'r Cabinet – 16.12.14<br>2. Trafodwyd yr adroddiad gyda'r swyddogion perthnasol i geisio adnabod gweithrediadau posib.<br>3. Cyflwynwyd y cynnig i'r Panel Strategol Diogelu Plant ac Oedolion Bregus (29.09.15) er mwyn gweld os oes angen gweithredu pellach i'r hyn oedd eisoes wedi ei weithredu.<br>4. Disgwylir sylwadau o ran unrhyw flychau sy'n parhau neu elfennau sydd angen sylw pellach yng Nghyfarfod nesaf y Panel Strategol Diogelu Planc ac Oedolion Bregus - 02.12.15.<br>5. Dylid pwysleisio bod bodolaeth y Panel Strategol Diogelu yn dystiolaeth yn ei hun o graffu'r maes diogelu - dyma ydi un o'r rhesymau i'r Panel fodoli sef i fonitro a chraffu'r maes.<br><br>Cafodd yr eitem ei adnabod yng ngweithdy blynyddol y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau yn ystod y flwyddyn. | 02.12.15 | Mae'r mater yn cael ei ystyried gan y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau yn ei gyfarfod ar 26 Tachwedd pan fydd sylw, ymysg pethau eraill y mae'r Pwyllgor Craffu wedi ei geisio, i'r mesuryddion allweddol yn y maes.<br><br>Bwriad y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau yw craffu os ydynt yn meddwl bod y trefniadau mae'r Cyngor wedi eu rhoi yn eu lle o ran y Panel Strategol Diogelu yn gweithio. |
| C4 | Cytuno ar raglen waith archwilio fewnol reolaidd i adolygu trefniadau diogelu'r Cyngor. | Uwch Reolwr Refeniw a Risg | 1. Cyflwynwyd y cynnig i'r Cabinet – 16.12.14<br>2. Trafodwyd yr adroddiad gyda'r swyddogion perthnasol i geisio adnabod gweithrediadau posib.<br>3. Cyflwynwyd y cynnig i'r Panel Strategol Diogelu Plant ac Oedolion Bregus (29.09.15) er mwyn gweld os oes angen gweithredu pellach i'r hyn oedd eisoes wedi ei weithredu.<br>4. Disgwylir sylwadau o ran unrhyw flychau sy'n parhau neu elfennau sydd angen sylw pellach yng Nghyfarfod nesaf y Panel Strategol Diogelu Planc | 02.12.15 | Cynhaliwyd archwiliad gan Glyn Hughes, ymgynghorydd annibynnol, yn 2014. Gellir cael manylion pellach (e.e. dyddiadau pendant) gan Geraint Owen.<br><br>Ar gyfer 2015/16, trafodwyd gyda Catrin Thomas, Cadeirydd y Panel Gweithredol Diogelu, a chytunwyd ar raglen i Archwilio Mewnol ymgymryd â'r gwaith.<br><br>Bydd diweddariad ar raglen waith Archwilio Mewnol yn cael ei gyflwyno i bob cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio, a bydd |

| Cyf | Cynigion pellach ar gyfer gwella | Cyfrifoldeb | Cynllun Gweithredu | Erbyn Pryd | Y drefn monitro a'r cynnydd wnaed hyd yn hyn |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | ac Oedolion Bregus - 02.12.15.<br>5. Mae bodolaeth y Panel Diogelu Strategol a Grŵp Gweithredol Diogelu yn ceisio ymateb i faterion o ran adolygu trefniadau diogelu'r Cyngor, a byddai hyn yn cynnwys ar adegau mewnbwn archwilio mewnol.<br><br>Bydd archwiliadau yn cael eu cynnal yn rheolaidd. | | canlyniadau'r archwiliad yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio yn y modd arferol. |
| C5 | Darparu hyfforddiant i'r staff i gyd ar Bolisi Chwythu Chwiban y Cyngor. | Rheolwr Dysgu a Datblygu | 1. Cyflwynwyd y cynnig i'r Cabinet – 16.12.14<br>2. Trafodwyd yr adroddiad gyda'r swyddogion perthnasol i geisio adnabod gweithrediadau posib.<br>3. Cyflwynwyd y cynnig i'r Panel Strategol Diogelu Plant ac Oedolion Bregus (29.09.15) er mwyn gweld os oes angen gweithredu pellach i'r hyn oedd eisoes wedi ei weithredu.<br>4. Disgwylir sylwadau o ran unrhyw flychau sy'n parhau neu elfennau sydd angen sylw pellach yng Nghyfarfod nesaf y Panel Strategol Diogelu Planc ac Oedolion Bregus - 02.12.15.<br><br>Oherwydd y nifer o unigolion sydd angen derbyn sesiynau sylfaenol codi ymwybyddiaeth yn y maes Diogelu , bydd y sesiynau'n cael eu cynnal drwy e-ddysgu dan ofal y tîm Dysgu a Datblygu.<br><br>Yn ogystal â hyn, mae Cyfres o weithdai Codi Ymwybyddiaeth i Reolwyr ac Aelodau Etholedig wedi eu cynnal, gyda sesiynau pellach yn cael eu trefnu ar gyfer y dyfodol. | 02.12.15 | O ran "Chwythu'r Chwiban" yng nghyd-destun Diogelu, mae cyfarwyddiadau ar sut i adrodd pryderon o fewn y polisi a modiwlau Diogelu.<br>Hefyd:<br>o cyfeirir ato yn y gweithdai i reolwyr<br>o mae cardiau gyda rhifau cyswllt wedi eu cylchredeg i staff<br><br>Gan fod hyn ychydig yn wahanol i'r drefn "Chwythu'r Chwiban" cyffredinol, ni ragwelir cynnal sesiynau ychwanegol i'r modiwlau e-ddysgu. |



## 2.2 Adolygiad Gwasanaeth Gofal Cartref Pobl Hŷn Gwynedd gan yr Arolygaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol (AGGCC)

Cyhoeddwyd yr adroddiad uchod ar 14 Mawrth 2014 yn dilyn **arolygiad ar 5 Chwefror 2014 a Chwefror 2014.** Cynhelir arolygiad sylfaenol bob 3 blynedd. Nodwyd, er bod camau wedi eu cymryd i ymateb i'r materion a nodwyd yn ystod yr arolygiad diwethaf, araf fu'r cynnydd a wnaed; a rhaid gweithredu'n effeithiol i roi'r ddogfennaeth newydd ar waith ym mhob maes, yn enwedig:

| Cyf | Cynigion pellach ar gyfer gwella | Cyfrifoldeb | Cynllun Gweithredu | Erbyn Pryd | Y drefn monitro a'r cynnydd wnaed hyd yn hyn |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Asesiadau Risg | Rheolwr Cofrestredig y Cartref preswyl | Mae disgwyliad fod asesiad risg wedi ei gwblhau i adnabod unrhyw risg i ddefnyddwyr ein gwasanaethau yn y cartrefi preswyl | parhaol | Ymweliadau Monitro 27 gan swyddogion monitro Darparu, Oedolion Iechyd a Llesiant |
| 2 | Dogfennau Cynllunio Gofal Person-Ganolog. | Rheolwr Cofrestredig y Cartref Preswyl | Mae ein holl dogfennau wedi ei addasu ar ffurf PCP, Personal Centre Plan, ar gyfer pob unigolyn sydd yn ein Cartrefi Preswyl Henoed ac Anabledd dysgu | parhaol | Ymweliadau Monitro 27 gan swyddogion monitro Darparu, Oedolion Iechyd a Llesiant |

ATODIAD 1



## 2.3 Adolygiad Cenedlaethol o’r Defnydd o Drefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid (DOLS) yng Nghymru 2014 – Awdurdod Lleol Gwynedd a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr - Arolygaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol (AGGCC)

1. Dylai’r Cyngor a’r Bwrdd Iechyd barhau i ddatblygu dealltwriaeth am y Ddeddf Galluedd Meddyliol, y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid a goblygiadau dyfarniad y Goruchaf Lys ar bob lefel. Dylent sicrhau eu bod yn adeiladu ar wybodaeth a sgiliau presennol rheolwyr gofal mewn gwasanaethau oedolion er mwyn sicrhau, lle ceir achosion awdurdodedig o golli rhyddid, bod adolygiadau rheoli gofal yn adlewyrchu ystyriaeth i ganlyniad ac effeithiolrwydd yr achosion hynny. Dylai’r cysylltiadau rhwng rheoli gofal a monitro contractau mewn gwasanaethau oedolion fod yn fwy cadarn.
2. Dylai’r Cyngor a’r Bwrdd Iechyd sicrhau eu bod yn cyflwyno adroddiadau rheolaidd ar wybodaeth rheoli perfformiad am y Trefniadau Diogelu wrth uwch reolwyr ac aelodau etholedig.
3. Dylai’r Cyngor archwilio’i drefniadau rheoli i sicrhau nad oes unrhyw wrthdaro buddiannau rhwng ei swyddogaethau fel corff goruchwyliol ac fel awdurdod rheoli.
4. Dylai’r Cyngor a’r Bwrdd Iechyd ill dau ddatblygu mecanweithiau sicrhau ansawdd mwy cadarn, fel bod yr holl geisiadau, asesiadau ac awdurdodiadau’n cydymffurfio â deddfwriaeth, canllawiau a chyfraith achosion.
5. Dylai’r Cyngor a’r Bwrdd Iechyd ill dau adolygu eu gallu o ran Aseswyr Budd Pennaf a meddygon Adran 12 i sicrhau eu bod yn gallu cyflawni gofynion y ddeddfwriaeth a dyfarniad y Goruchaf Lys.
6. Dylai’r Cyngor a’r Bwrdd Iechyd ill dau adolygu’r modd y maent yn cynnwys personau perthnasol, eu teuluoedd a’u gofalwyr. Dylent geisio adborth ar eglurder ac effeithiolrwydd gwybodaeth sydd ar gael. Dylent gynnwys manylion o ran sut i gyfleu canmoliaeth, pryderon a chwynion.
7. Dylai’r Cyngor a’r Bwrdd Iechyd ystyried ble y gallai cydweithio agosach ddwyn manteision ychwanegol a gwella canlyniadau i bersonau perthnasol a’u teuluoedd.
8. Dylai’r Cyngor a’r Bwrdd Iechyd ill dau sicrhau bod hyfforddiant yn y Ddeddf Galluedd Meddyliol a’r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid i reolwyr a staff ym mhob lleoliad gofal cymdeithasol a gofal iechyd perthnasol yn cael ei wneud yn orfodol ac yn cael ei ddarparu’n rheolaidd. Dylent archwilio effeithiolrwydd pob hyfforddiant o’r fath.

## 2.4 Adroddiad yr Arolygaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol - Gwasanaeth Maethu Gwynedd - Ionawr 2015

Cynhaliwyd arolygiad sylfaenol yn ystod mis **Hydref a Thachwedd 2014**. Nodir: “**Ni wnaethom ganfod unrhyw feysydd nad oeddynt yn cydymffurfio â gofynion Rheoliadau Gwasanaethau Maethu (Cymru) 2003**; fodd bynnag bu i ni ganfod meysydd lle y gellir datblygu arfer ymhellach er mwyn cynorthwyo i wella safon y gwasanaeth a ddarperir.

| Cyf | Cynigion pellach ar gyfer gwella | Cyfrifoldeb | Cynllun Gweithredu | Erbyn Pryd | Y drefn monitro a’r cynnydd wnaed hyd yn hyn |
|---|---|---|---|---|---|
| **1** | Teimla gofalwyr maeth y dylid gwneud mwy i gydnabod yr hyn y mae plant yn ei gyflawni. | | | | Nodir yn y gofrestr adroddiadau archwilio allanol y **bydd unrhyw argymhellion i’w cynnwys yng nghynllun gwaith yr Adran** |
| **2** | Datblygu menter i gynnwys plant yn well mewn adolygiadau gofalwyr maeth. | | | | |
| **3** | Ystyried adolygu fformat y cyfarfod aflonyddu”. | | | | |

## 2.5 Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru: Adolygiad 2012 o’r Gwasanaeth Budd-dal Tai a Budd-dal y Dreth Gyngor

| Cyf | Cynigion pellach ar gyfer gwella | Cyfrifoldeb | Cynllun Gweithredu | Erbyn Pryd | Y drefn monitro a’r cynnydd wnaed hyd yn hyn |
|---|---|---|---|---|---|
| C1 | Sicrhau bod trefniadau cynllunio olyniaeth effeithiol ar waith ar gyfer swydd y Swyddog Sicrhau Ansawdd a Hyfforddiant. | Uwch Reolwr Refeniw a Risg | Cadw trefniadau cynllunio olyniaeth yr uned gyfan o dan ystyriaeth barhaus, nid ar gyfer un swydd yn unig | Mor fuan â phosib | Mae trefniadau’r holl uned dan ystyriaeth barhaus yng nghyd-destun y gyfundrefn diwygio lles, ac mae rolau a chyfrifoldebau yr holl swyddi wedi eu hystyried wrth ddarganfod arbedion effeithlonrwydd a thoriadau yn unol â’r fframwaith gorfforaethol. |

**ATODIAD 1**

| Cyf | Cynigion pellach ar gyfer gwella | Cyfrifoldeb | Cynllun Gweithredu | Erbyn Pryd | Y drefn monitro a'r cynnydd wnaed hyd yn hyn |
|---|---|---|---|---|---|
| C2 | Sicrhau bod pob aelod o staff yn ymwybodol o'r trefniadau parhad busnes a nodir yn y cynllun adfer ar ôl trychineb. | Uwch Reolwr Refeniw a Risg | Sicrhau fod trefniadau cynllunio argyfwng yr Adran Gyllid ar gael i bawb. | Mor fuan â phosib | Mae trefniadau corfforaethol newydd wedi cael eu cyflwyno yn ddiweddar, gyda Paneli Strategol a Gweithredol wedi eu sefydlu o fewn y Cyngor er mwyn sicrhau cysondeb. Mae'r Uned Budd-daliadau, fel pob uned arall o fewn y Cyngor, yn gweithio oddi mewn i'r trefniadau hyn. |
| C3 | Sicrhau nad yw'r broses o drosglwyddo gweithgareddau hyrwyddo budd-dal o'r Cyngor i'r Ganolfan Cyngor ar Bopeth yn cael effaith negyddol ar y broses o ymgysylltu â dinasyddion. | Uwch Reolwr Refeniw a Risg | Trefniadau wedi eu sefydlu gyda Cyngor ar Bopeth er mwyn cynnal safonau gwasanaeth. | Mor fuan â phosib | Adroddwyd i'r Pwyllgor Archwilio yn 2012 fod CAB wedi penodi swyddog hyrwyddo budd-daliadau gydag arian Llywodraeth Cymru a drosglwyddwyd iddynt, ac fod y swyddog yma eisoes mewn cyswllt gyda swyddogion budd-dal y Cyngor, yn sefydlu protocolau ar gyfer cyfeirio achosion, ayb.<br><br>Mae Cytundebau Lefel Gwasanaeth rhwng y Cyngor a Cyngor ar Bopeth (cytundebau blynyddol, gyda'r rhai cyfredol yn eu lle tan 31 Mawrth 2016). Mae'r rhain yn cynnwys cyfeiriad penodol at y materion y cyfeirir atynt yn Cynnig i Wella C3. |
| C4 | Ystyried cyflwyno proses ymgynghori neu arolwg i werthuso barn cwsmeriaid am y gwasanaeth. | Uwch Reolwr Refeniw a Risg | Adroddwyd i'r Pwyllgor Archwilio ym Medi 2012, "Mae'r Cyngor yn gryf o blaid yr egwyddor cyffredinol o ymgynghori gyda chwsmeriaid. Fodd bynnag, nid ydym yn ystyried y byddai'n amserol i wneud hynny mor agos i'r newidiadau cenedlaethol mwyaf radical erioed i'r gwasanaeth budd-dal (torri'r lefel o lwfans rhent a ganiateir, cyflwyno'r cynllun cymorth lleol ar gyfer treth cyngor, ac allfudo hawliadau budd-dal tai y Cyngor i gyfundrefn Credyd Cynhwysol y 'DWP' eu hunain)." Cymeradwywyd y sylwadau hyn gan y Pwyllgor ar y pryd. | Mor fuan â phosib | Fel y bydd aelodau'r Pwyllgor yn ymwybodol, bu llithriad sylweddol yn amserlen Llywodraeth San Steffan wrth gyflwyno Credyd Cynhwysol. Oherwydd hyn, mae'r sefyllfa a ddisgrifiwyd yn 2012, i bob pwrpas yn parhau.<br><br>Er hyn, dylid nodi fod Siop Gwynedd yn ymgynghori â chanran o'u cwsmeriaid i werthuso barn am y gwasanaethau a dderbyniwyd; bydd hyn yn cynnwys cwsmeriaid sy'n derbyn cyngor am fudd-daliadau. |



## 2.6 Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru: Adborth ar Adolygiad Rheoli Gwybodaeth Cyngor Gwynedd (Ebrill 2012)

| Cyf | Cynigion pellach ar gyfer gwella | Cyfrifoldeb | Cynllun Gweithredu | Erbyn Pryd | Y drefn monitro a'r cynnydd wnaed hyd yn hyn |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Dylai'r Cyngor wella'r cynllun gweithredu sy'n ategu'r strategaeth wybodaeth i gynnwys camau gweithredu i ganfod anghenion gwybodaeth a chudd-wybodaeth y Cyngor a chydlynu gweithgarwch yr ystod o wasanaethau gwybodaeth i fodloni'r anghenion hyn. | Rheolwr Gwybodaeth | Trafodwyd hyn gyda Gwenan Parry, Pennaeth Cefnogaeth Gofal Cwsmer yn 2012.<br><br>Y teimlad oedd nad swyddogaeth y Gwasanaeth Rheoli Gwybodaeth oedd canfod anghenion gwybodaeth y Cyngor ac mai ein rôl ni oedd darparu canllawiau ac arbenigedd ar sut i reoli gwybodaeth unwaith mae wedi cyrraedd y Cyngor (o ran diogelwch, gwaredu, cywirdeb, cadw am | | Mae'r Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu wedi adnabod Llywodraethu Gwybodaeth fel blaenoriaeth uchel iawn, ac wedi adrodd hynny yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn 2015.<br><br>Fel canlyniad i hyn, mae Llywodraethu Gwybodaeth wedi ei gynnwys yn y Cynllun Strategol (Prosiect C8).<br><br>Erbyn diwedd 2017, bydd y Cyngor wedi asesu |

# ADRODDIADAU ARCHWILIO ALLANOL 2012/13 - 2014/15

## ATODIAD 1



| Cyf | Cynigion pellach ar gyfer gwella | Cyfrifoldeb | Cynllun Gweithredu | Erbyn Pryd | Y drefn monitro a'r cynnydd wnaed hyd yn hyn |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | gyfnodau priodol). Dyma yw rôl gwasanaethau rheoli gwybodaeth ym mhob Cyngor.<br><br>Rôl yr Uned Ymchwil yw ymateb i anghenion gwybodaeth gwasanaethau.<br><br>Mae'r Strategaeth Rheoli Gwybodaeth yn mynd i gael ei diweddaru yn fuan felly gallwn ymgorffori hyn i'r dyfodol os oes dymuniad i wneud hynny. | | priodoldeb y trefniadau diogelu gwybodaeth a llunio cynigion fel bo'r angen. Gan fod hwn yn brosiect yn y Cynllun Strategol, bydd yn cael sylw rheolaidd gan y Panel Cyflawni perthnasol. |
| 2 | Datblygu fforwm priodol i gydlynu gweithgareddau timau gwybodaeth y Cyngor. | Rheolwr Gwybodaeth? | Mae yna gydweithredu gyda'r tîm gwybodaeth Adran Oedolion yn digwydd eisoes. Byddai'n rhaid bod yn glir am bwrpas ac amcan y fforwm | | Nid oes trefn monitro wedi bodoli |
| 3 | Sicrhau y caiff cyfrifoldebau Grŵp Diogelwch Gwybodaeth eu cyflawni'n effeithiol, eu diffinio'n glir yn unol ag ISO27001 a'u dogfennu. Cryfhau'r trefniadau i gyfarwyddo'r Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth yn ffurfiol yn dilyn cyfarfodydd fforymau er mwyn sicrhau goruchwyliaeth a chyfrifoldeb corfforaethol am faterion gwybodaeth. | Rheolwr Gwybodaeth | Mae'r Grŵp Diogelwch wedi newid bellach i fod yn Grŵp Cyflawni Rôl Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth. Mae'r cyfarfodydd yn cael eu cadeirio gan yr Uwch Berchennog ac yn cael eu cofnodi ac mae trefn adrodd i'r Grŵp Rheoli a Diogelwch Gwybodaeth gorfforaethol. | | Mae'r gwaith wedi ei gwblhau. |
| 4 | Mynd i'r afael â'r materion yn ymwneud â diffyg cydymffurfio mewn perthynas â'r amser y mae'n ei gymryd i ymateb i geisiadau Rhyddid Gwybodaeth. | Rheolwr Gwybodaeth | Hyn wedi ei ddatrys – perfformiad 2013-14 yn 91% a 2014-15 yn 90% felly gwelliant mawr wedi digwydd ers dyddiad yr adolygiad. | | Mae'r perfformiad yn cael ei adrodd yn Ffynnon yn chwarterol a'r ffigurau yn mynd ger bron Grŵp Rheoli Gwybodaeth y Cyngor |

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| **DYDDIAD** | **1 RHAGFYR, 2015** |
| **PWNC** | **EFFEITHLONRWYDD TREFNIADAU CRAFFU'R CYNGOR** |
| **AWDUR (ON)** | **Arwel E Jones, Uwch Reolwr Democratiaeth a Chyflawni** |
| **ARGYMHELLIAD** | **Sefydlu is-grwp i lunio Cynllun Gweithredu** |

1. Yn ddiweddar, bu Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) yn cwblhau adolygiad o effeithlonrwydd craffu yng Ngwynedd. Fel rhan o'r gwaith hynny, maent wedi awgrymu tri prif faes y mae angen mynd i'r afael â hwy er mwyn gwella craffu yng Ngwynedd, sef:-

   - Delio â'r diffyg cyswllt sydd yn ymddangos rhwng gwaith y Cabinet a'r pwyllgorau craffu trwy edrych, ymysg pethau eraill, ar fwy o graffu cyn penderfyniad ar waith y Cabinet
   - Gwella ar eglurder argymhellion craffu fel bod modd adnabod yr hyn sy'n digwydd o ganlyniad i graffu yn haws
   - Gwella ansawdd cwestiynu mewn pwyllgorau craffu er mwyn cynnig mwy o ffocws ac ansawdd i'r craffu

   (Er na dderbyniwyd y fersiwn derfynol o'r adroddiad gan Swyddfa Archwilio Cymru eto, mae'r argymhellion tebygol wedi eu nodi yn Atodiad 1 i'r adroddiad hwn)

2. Ar yr un adeg, cynhaliwyd Arolwg 360 gradd o farn aelodau ac uwch swyddogion y Cyngor o effeithlonrwydd y trefniadau craffu o fewn y Cyngor. Daeth rhai negeseuon tebyg allan o'r arolwg hynny, yn cynnwys yr angen i edrych ar feithrin a datblygu sgiliau ond hefyd i edrych ar y model craffu i weld a oes angen ei addasu er mwyn cyfarch rhai o'r materion a godwyd yn adroddiad SAC a'r Arolwg 360 gradd.

3. Gan mai'r Pwyllgor Archwilio sydd â chyfrifoldeb i edrych ar drefniadau llywodraethu'r Cyngor ac, yn benodol, ar Gyfansoddiad y Cyngor, daethpwyd i'r casgliad y byddai'n briodol i'r Pwyllgor hwn drafod y mater.

4. Awgrymir, os yw'r aelodau yn gytun, y dylid sefydlu is-grwp o'r Pwyllgor i edrych ar fyrder ar y mater, gwahodd tystion, do di gasgliadau ar y ffordd ymlaen ac, yn benodol, i sicrhau bod Cynllun Gweithredu cadarn yn ei le i gyfarch argymhellion Swyddfa Archwilio Cymru.

| | |
|---|---|
| P1 | Galluogi mwy o graffu ymlaen llaw trwy alinio cyfarfodydd pwyllgorau craffu yn agosach at gyfarfodydd Cabinet. |
| P2 | Datblygu rhaglen waith Cabinet mwy manwl a sicrhau ei fod ar gael ar gyfer cyfarfodydd paratoi y pwyllgorau craffu. |
| P3 | Gweithredu canllawiau dewis blaen-raglenni'r pwyllgorau craffu yn gyson. |
| P4 | Datblygu cynlluniau adnoddau i adnabod y mewnbwn sydd ei angen gan aelodau a swyddogion i gefnogi a mynd i'r afael â rhaglenni craffu a gwaith ymchwiliadau craffu. |
| P5 | Gwella ansawdd, cysondeb ac amseru adroddiadau / gwybodaeth a gyflwynir i bwyllgorau craffu. |
| P6 | Darparu adborth i bwyllgorau craffu ar bob argymhelliad a wneir i'r Cabinet – boed yn cael ei weithredu neu beidio. |
| P7 | Cynnwys asesiad yn yr Adroddiad Blynyddol Trosolwg a Chraffu o'r graddau y llwyddwyd i gyrraedd amcanion y Strategaeth Craffu a'r wedi cefnogi gwelliannau i wasanaethau'r Cyngor. |
| P8 | Sicrhau bod holl argymhellion a / neu gynigion gwella rheoleiddwyr yn cael eu hadrodd i a'u monitro gan y pwyllgor craffu perthnasol. |
| P9 | Gweithredu rhaglen hyfforddi a datblygu newydd ar gyfer aelodau pwyllgorau craffu. |

# Eitem 8

| | |
|---|---|
| CYFARFOD | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| DYDDIAD | **1 Rhagfyr 2015** |
| TEITL | **Cyfrifon Terfynol 2014/15** |
| PWRPAS | **Cyflwyno –**<br>• **Cyfrifon Terfynol 2014/15 i'w ail gymeradwyo;**<br>• **Llythyr, barn ddiwygiedig a thystysgrif Swyddfa Archwilio Cymru.** |
| ARGYMHELLIAD | **Ystyried a chymeradwyo'r wybodaeth cyn awdurdodi'r Cadeirydd i lofnodi'r cyfrifon eto.** |
| AWDUR | **Dafydd L Edwards, Pennaeth Cyllid** |

---

**CEFNDIR**

**1.** Yng nghyfarfod y Pwyllgor Archwilio 24/09/15, cyflwynwyd datganiadau ariannol statudol diwygiedig y Cyngor a'r Gronfa Bensiwn am gymeradwyaeth y pwyllgor.

**2.** Penderfynwyd -
- cymeradwyo'r datganiadau ariannol statudol;
- derbyn adroddiadau perthnasol Swyddfa Archwilio Cymru (gyda barn diamod ar y cyfrifon am 2014/15), ac
- awdurdodi'r Pennaeth Cyllid a Chadeirydd y Pwyllgor i arwyddo'r "llythyrau cynrychiolaeth" a'u cyflwyno i Archwilydd Cyffredinol Swyddfa Archwilio Cymru.

**OEDI CYN CYFLWYNO TYSTYSGRIF**

**3.** Nodwyd pryd hynny y byddai oedi cyn ardystio'r cyfrifon, gan fod un aelod o'r cyhoedd wedi lleisio gwrthwynebiad i'r cyfrifon yn ymwneud â mater ymylol, sef gwariant ar gynllun Asiantaeth Cefnffyrdd yn y flwyddyn flaenorol.

**4.** O ganlyniad, ni allai Swyddfa Archwilio Cymru gwblhau eu cyfrifoldebau archwilio yn ffurfiol na chyflwyno tystysgrif i gau'r archwiliad cyn bod y mater wedi ei gyfarch.

**CWBLHAU'R ARCHWILIAD**

**5.** Atodaf lythyr sy'n cadarnhau fod Swyddfa Archwilio Cymru wedi cwblhau eu gwaith ar y mater hwn ac ymateb i'r etholwr yn datgan nad ydynt yn cynnig unrhyw gamau pellach **(Atodiad 1)**.

**6.** Mae barn diwygiedig yr Archwilydd a'i dystysgrif wedi'i amgáu efo'r llythyr atodol.

## DIM NEWID I'R CYFRIFON

**7.** Nid oes unrhyw newidiadau i'r cyfrifon a gafodd eu cymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio ar 24/09/15, ac mae’r Pennaeth Cyllid eisoes wedi’u hardystio, ond rhaid ystyried yr adroddiad terfynol hwn cyn ail-gymeradwyo'r cyfrifon.

## ARGYMHELLIAD

**8.** Felly, gofynnir i’r Pwyllgor Archwilio ar 01/12/15 awdurdodi Cadeirydd y Pwyllgor i arwyddo’r set ‘glan’ o’r un cyfrifon.

## CAMAU NESAF

**9.** Ar ôl derbyn y cyfrifon wedi’u ail-lofnodi, bydd Archwilydd Cyffredinol Swyddfa Archwilio Cymru yn gallu ardystio’r cyfrifon a chau’r archwiliad ar gyfer 2014/15.

**Wedi’i amgau:**
Atodiad 1 – Llythyr Archwilydd Cyffredinol Cymru, dyddiedig 20/11/15

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

24 Heol y Gadeirlan / Cathedral Road
Caerdydd / Cardiff CF11 9LJ
Ffôn / Tel: 029 20 320500
info@audit.wales / post@archwilio.cymru
www.audit.wales / www.archwilio.cymru

Dafydd Edwards
Pennaeth Cyllid
Cyngor Gwynedd
Pencadlys
Stryd y Castell
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1SE

| | |
|---|---|
| **Cyfeirnod** | GC/Terfynol |
| **Dyddiad** | 20 Tachwedd 2015 |
| **Tudalennau** | **1** o **4** |

Annwyl Dafydd

**Datganiad o Gyfrifon Cyngor Gwynedd 2014-15**

Dyma fy adroddiad terfynol ar archwiliad o gyfrifon 2014-15.

Cyhoeddais farn ddiamod ar eich cyfrifon yn 2014-15 ar 30 Medi ond nid oeddwn yn gallu cyhoeddi tystysgrif yn cau'r archwiliad gan fod mater eto i'w ddatrys yn ymwneud â gwrthwynebiad a godwyd gan etholwr. Rwyf wedi dod i gasgliad o ran fy ngwaith ar y mater hwn, gan ateb yr etholwr i ddweud nad wyf yn bwriadu cymryd unrhyw gamau pellach o ran archwilio ffurfiol.

O ganlyniad, ni fu unrhyw newid i'r cyfrifon a gafodd eu cymeradwyo gan y Cyngor ar 30 Medi. Mae angen i'r adroddiad terfynol hwn gael ei ystyried gan y Cyngor cyn i'r cyfrifon gael eu hail-gymeradwyo. Ar ôl derbyn y cyfrifon hyn wedi'u hail-lofnodi, gallaf gau'r archwiliad ar gyfer 2014-15.

Mae fy marn ddiwygiedig a thystysgrif wedi'u hatodi i'r llythyr yma.

Yn gywir

Derwyn Owen

Arweinydd Ymgysylltu

Ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru

**Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i Aelodau Cyngor Gwynedd**

Rwyf wedi archwilio datganiadau cyfrifyddu a nodiadau cysylltiedig:

- Cyngor Gwynedd; a
- Chronfa Bensiwn Gwynedd

am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2015 o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae datganiadau cyfrifyddu Cyngor Gwynedd yn cynnwys y Datganiad Symud Cronfeydd wrth Gefn, y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, y Fantolen a'r Datganiad Llif Arian Parod.

Mae datganiadau cyfrifyddu Cronfa Bensiwn Gwynedd yn cynnwys Cyfrif y Gronfa a'r Datganiad Asedau Net.

Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2014-15 sy'n seiliedig ar y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS).

**Priod gyfrifoldebau'r swyddog cyfrifyddu cyfrifol ac Archwilydd Cyffredinol Cymru**

Fel yr esbonnir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau ar gyfer y Datganiad Cyfrifon, mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn gyfrifol am baratoi'r datganiad cyfrifon, gan gynnwys datganiadau cyfrifyddu Cronfa Bensiwn Gwynedd, sy'n rhoi darlun gwir a theg.

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU ac Iwerddon). Mae'r safonau hynny yn ei gwneud yn ofynnol i mi gydymffurfio â Safonau Moesegol y Cyngor Adrodd Ariannol ar gyfer Archwilwyr.

**Cwmpas yr archwiliad o'r datganiadau cyfrifyddu**

Mae a wnelo archwiliad â chael tystiolaeth am y symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig i roi sicrwydd rhesymol nad oes unrhyw gamddatganiadau materol berthnasol yn y datganiadau cyfrifyddu na'r nodiadau cysylltiedig, boed hynny drwy dwyll neu wall. Mae hyn yn cynnwys asesu'r canlynol: pa un a yw'r polisïau cyfrifyddu yn briodol i amgylchiadau Cyngor Gwynedd a Chronfa Bensiwn Gwynedd a pha un a ydynt wedi'u cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n ddigonol; rhesymoldeb amcangyfrifon cyfrifyddu arwyddocaol a wnaed gan y swyddog ariannol cyfrifol a'r ffordd y cyflwynwyd y datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig yn gyffredinol.

Yn ogystal, darllenaf yr holl wybodaeth ariannol ac anariannol yn y Rhagair Eglurhaol er mwyn nodi anghysondebau materol berthnasol â'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig archwiliedig a nodi unrhyw wybodaeth sy'n ymddangos fel petai'n faterol berthnasol anghywir ar sail y wybodaeth a ddaeth i law wrth i mi gyflawni'r archwiliad neu sy'n faterol berthnasol anghyson â'r wybodaeth honno. Os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau materol berthnasol amlwg, ystyriaf y goblygiadau i'm hadroddiad.

**Barn ar ddatganiadau cyfrifyddu Cyngor Gwynedd**

Yn fy marn i, mae'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig:

- yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol Cyngor Gwynedd ar 31 Mawrth 2015 a'i incwm a'i wariant am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2014-15.

**Barn ar ddatganiadau cyfrifyddu Cronfa Bensiwn Gwynedd**

Yn fy marn i, mae cyfrifon y gronfa bensiwn a'r nodiadau cysylltiedig:

- yn rhoi darlun gwir a theg o drafodion ariannol Cronfa Bensiwn Gwynedd yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2015 ac o swm a natur asedau a rhwymedigaethau'r gronfa ar y dyddiad hwnnw; ac
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2014-15.

**Barn ar faterion eraill**

Yn fy marn i, mae'r wybodaeth a gynhwysir yn y Rhagair Eglurhaol yn gyson â'r datganiadau cyfrifyddu a'r nodiadau cysylltiedig.

**Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad**

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol, y cyflwynaf adroddiad i chi arnynt os bydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol, yn fy marn i:

- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu priodol;
- nid yw'r datganiadau ariannol yn gyson â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad;
- mae'r Datganiad Llywodraethu yn cynnwys camddatganiadau ffeithiol materol berthnasol neu mae'n anghyson â gwybodaeth arall yr wyf yn ymwybodol ohoni o'm harchwiliad.

**Tystysgrif cwblhau archwiliad**

Roedd fy adroddiad, yn ddyddiedig 30 Medi 2015, yn cynnwys barn archwilio ar gyfrifon 2014-15, ac roedd yn egluro nad oedd hi'n bosibl cau'r archwiliad yn ffurfiol cyn cwblhau ystyriaeth ffurfiol o ymholiadau yn deillio o wrthwynebiad gan aelod o'r cyhoedd. Mae'r materion hynny bellach wedi'u datrys, a gallaf ardystio fy mod i wedi cwblhau'r archwiliad o Gyngor Gwynedd yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Chod Ymarfer Archwilio yr Archwilydd Cyffredinol.

**Dros ac ar ran**

**Huw Vaughan Thomas**

**Archwilydd Cyffredinol Cymru**

**24 Heol y Gadeirlan**

**Caerdydd, CF11 9LJ**

**Dyddiad:**

# Eitem 9

| | |
|---|---|
| CYFARFOD: | **Pwyllgor Archwilio** |
| DYDDIAD: | **1 Rhagfyr 2015** |
| TEITL: | **Cyllideb Refeniw 2015/16 –<br>Adolygiad Ail Chwarter (Medi 2015)** |
| PWRPAS: | **Adroddiad Monitro ar y Sefyllfa Ariannol Ddiweddaraf** |
| GWEITHREDIAD: | **Derbyn yr wybodaeth, ystyried risgiau sy'n deillio o'r tafluniadau gwariant yn erbyn y gyllideb, a chraffu penderfyniadau'r Cabinet yng nghyswllt rheoli cyllidebau'r Cyngor a'i Adrannau.** |
| SWYDDOG CYSWLLT: | **Dafydd L Edwards, Pennaeth Cyllid** |
| AELOD CABINET: | **Cynghorydd Peredur Jenkins** |

---

**1.** Yn unol â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, disgwylir i'r Pwyllgor Archwilio graffu rhai materion ariannol gan gynnwys adroddiadau monitro cyllideb, lle'n briodol.

**2.** Cyflwynwyd yr adroddiad atodol (Cyllideb Refeniw 2015/16 – Adolygiad Ail Chwarter) i'r Cabinet ar 24 Tachwedd 2015. Hwn yw'r adolygiad cyllideb mwyaf trylwyr yn ystod 2015/16.

**3.** Mae Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio wedi mynychu'r cyfarfod Cabinet fel arsyllwr, ac wedi gofyn i ni gyflwyno'r adroddiad hwn i'r Pwyllgor Archwilio, i'w graffu ynghyd â'r penderfyniadau perthnasol. Bwriedir cyflwyno penderfyniadau'r Cabinet "ar y bwrdd" yng nghyfarfod y Pwyllgor Archwilio.

**4.** Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio nodi'r sefyllfa a'r risgiau perthnasol yng nghyswllt cyllidebau'r Cyngor a'i adrannau, ystyried penderfyniadau'r Cabinet a sylwebu fel bo angen.

**Wedi'i amgáu:**
Adroddiad Cyllideb Refeniw 2015/16 – Adolygiad Ail Chwarter (Cabinet 24/11/2015)

**ADRODDIAD I'R CABINET**
24 Tachwedd 2015

**Aelod Cabinet:** Cynghorydd Peredur Jenkins, Aelod Cabinet Adnoddau

**Pwnc:** Cyllideb Refeniw 2015/16 – Adolygiad Ail Chwarter (Medi 2015)

**Swyddog Cyswllt:** Dafydd L Edwards, Pennaeth Cyllid

---

## 1. Y penderfyniad a geisir / Pwrpas yr adroddiad

Gofynnir i'r Cabinet:

- Dderbyn yr adroddiad ar adolygiad diwedd yr ail chwarter (sefyllfa 30 Medi 2015) o'r Gyllideb Refeniw, ac ystyried y sefyllfa ariannol ddiweddaraf parthed cyllidebau pob adran / gwasanaeth, gan ofyn i'r Aelodau Cabinet a'r penaethiaid adrannau perthnasol gymryd camau priodol ynglŷn â materion o dan eu arweiniad/rheolaeth.

- Nodi'r amrywiol adolygiadau a nodir yn yr adroddiad a'r camau i'w cymryd gan adrannau i gadw rheolaeth ar eu cyllidebau.

- Rhoddi ystyriaeth a chymeradwyo fel yn briodol i'r argymhellion mewn perthynas â'r Adrannau Addysg, Economi a Chymuned, Rheoleiddio a Chyllidebau Corfforaethol.

---

## 2 Cyflwyniad / Cefndir

Cyfrifoldeb y Cabinet yw cymryd camau, fel bo angen, er mwyn sicrhau rheolaeth briodol dros gyllidebau'r Cyngor (e.e. cymeradwyo trosglwyddiadau sylweddol neu gyllideb ychwanegol).

Cyflwynwyd adroddiad adolygiad chwarter cyntaf i'r Cabinet ar 14 Gorffennaf 2015. Mae'r adroddiad gerbron heddiw yn llawer mwy manwl, sef yr adolygiad cyllideb mwyaf trylwyr yn ystod 2015/16.

Cyflwynir yr adroddiad chwarterol yma ar yr adolygiad diweddaraf o gyllideb refeniw y Cyngor am 2015/16, ac amlinellir crynhoad o'r sefyllfa fesul Adran yn **Atodiad 1**.

Yn **Atodiad 2** rhoddir manylion pellach ynglŷn â'r prif faterion a'r penawdau cyllideb ble rhagwelir gwahaniaethau sylweddol, ynghyd ag argymhellion penodol ble'n briodol.

**2.1 Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant – gorwariant £527k**

Bu llithriad gyda sawl cynllun arbedion gan yr Adran Oedolion eleni. Ar wahân i'r rheiny, byddai'r darlun ariannol net yn ymddangos yn bositif. Fodd bynnag, mae'r Pennaeth Oedolion, Iechyd a Llesiant yn cydnabod fod y gwaith datblygol perthnasol hefo nifer o gynlluniau yn y rhaglen yn cymryd fwy o amser na ragwelwyd yn wreiddiol ac felly yn annhebygol o wireddu arbedion llawn eleni. Yn yr amgylchiadau, ac i alluogi amser priodol i'r broses gwireddu, mae'n debygol iawn bydd yr Adran Oedolion angen adnoddau pontio eleni, ac fe welir o'r adroddiad fod bwriad i fanteisio ar bob cyfle i neilltuo adnodd wrth gefn i alluogi'r Cabinet ymateb i'r sefyllfa ariannol tebygol erbyn diwedd y flwyddyn.

**2.2 Adran Addysg**

Bu pwysau ychwanegol mewn sawl maes, gan gynnwys Diswyddo ac Ymddeol Cynnar, Arlwyaeth a Glanhau, ac Anghenion Dysgu Ychwanegol, ond hefyd fod yr Adran, drwy gyfuniad o fesurau a gymerwyd, defnydd o gronfeydd wrth gefn ac argymhelliad penodol a gynhwysir yn yr adroddiad yma, yn gweithredu i geisio cadw'r sefyllfa o dan reolaeth.

**2.3 Adran Rheoleiddio**

Mae darlun incwm ffafriol yr Adran Rheoleiddio eleni yn galluogi'r Adran ddarparu tuag at ariannu rhai cynlluniau penodol i'r Cyngor. Byddai'r anghenion rheiny wedi achosi cais am adnodd drwy fid ar gyfer 2016/17, pe byddent heb ei ariannu yma. Hefyd, fe fanteisir ar sefyllfa tanwariant gros yr Adran i neilltuo cyllideb eleni, fel medr y Cabinet ei ddefnyddio tuag at ofynion ariannol arall sydd yn gwynebu'r Cyngor eleni.

**2.4 Corfforaethol**

Eto, mae argymhelliad i neilltuo tanwariant o'r sylfaen Treth Cyngor a thanwariant Budd-daliadau, fel adnodd wrth gefn i'r Cabinet fedru delio gyda sefyllfa ariannol debygol yr Adran Oedolion ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

**2.5 Cyffredinol**

Argymhellir cyfuniad o gamau gweithredu pendant, defnydd o adnoddau penodol wrth gefn, ynghyd â throsglwyddo rhwng meysydd sydd mewn sefyllfa ariannol ffafriol eleni, er mwyn cynorthwyo gwasanaethau eraill sydd mewn sefyllfa ariannol llai ffafriol. Wedi hynny, bydd y darlun net ar draws y Cyngor, am y tro, ac yn gyffredinol, yn adlewyrchu rheolaeth ariannol dderbyniol.

**Camau nesaf ac amserlen**

Gweithredu ar yr argymhellion gerbron a chyflwyno adroddiad dilynol i'r Cabinet 16 Chwefror 2016 ar yr adolygiad 3ydd chwarter.

---

**Barn yr aelod lleol**
Dim yn berthnasol

---

**Barn y swyddogion statudol**

**Y Prif Weithredwr:**
Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at nifer o faterion sydd angen sylw, rhai ohonynt yn faterion yr argymhellir camau penodol ar eu cyfer ac eraill yn rhai lle y mae disgwyl i'r adrannau, a'r Aelodau Cabinet unigol, gadw llygad barcud arnynt er mwyn osgoi problemau yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Mae hyn, wrth gwrs, yn allweddol gan fod yr heriau ariannol y mae'r Cyngor yn, ac am, wynebu yn ei wneud yn bwysicach fyth i gadw ein gwariant cyfredol dan reolaeth gadarn.

**Y Swyddog Monitro:**
Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb.

**Y Pennaeth Cyllid:**
Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.

---

**Atodiadau**
Atodiad 1 – Crynhoad o sefyllfa net cyllidebau'r Adrannau.
Atodiad 2 – Manylion y cyllidebau a gwahaniaethau sylweddol.

## Cyllideb Refeniw 2015/16 - Crynhoad o'r sefyllfa fesul Adran

| | Adolygiad Ail Chwarter | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyllideb Arfaethedig 2015/16 £'000 | Gor / (Tan) Wariant Gros 2015/16 £ '000 | Defnydd o Ffynonellau Eraill £ '000 | Addasiadau a Argymhellir £'000 | Gor/ (Tan) Wariant Addasedig £ '000 | *Adolygiad Chwarter Cyntaf £ '000* |
| **Oedolion, Iechyd a Llesiant** | 50,026 | 527 | 0 | 0 | 527 | *256* |
| **Plant a Theuluoedd** | 13,730 | 144 | 0 | 0 | 144 | *14* |
| **Addysg** | 89,005 | 877 | (556) | (206) | 115 | *68* |
| **Economi a Chymuned** | 12,363 | 141 | (25) | (50) | 66 | *88* |
| **Priffyrdd a Bwrdeistrefol** | 24,213 | (45) | 0 | 0 | (45) | *200* |
| **Rheoleiddio** (Cynllunio, Trafnidiaeth a Gwarchod y Cyhoedd) | 10,424 | (314) | 0 | 300 | (14) | *(15)* |
| **Ymgynghoriaeth Gwynedd** | 962 | 109 | (100) | 0 | 9 | *166* |
| **Adran y Prif Weithredwr** | 655 | (45) | 0 | 0 | (45) | *0* |
| **Cyllid** | 1,011 | (60) | 0 | 0 | (60) | *0* |
| **Cefnogaeth Gorfforaethol** | 532 | (89) | 0 | 0 | (89) | *10* |
| **Cyllidebau Corfforaethol** *(Gwahaniaethau yn Unig)* | | (516) | 0 | 300 | (216) | *64* |
| **Cyfansymiau Gwahaniaethau (net)** | 202,921 | 729 | (681) | 344 | 392 | *851* |

**CYLLIDEB REFENIW 2015/16 - ADOLYGIAD AIL CHWARTER**

| **Crynhoad Sefyllfa Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant** | Cyllideb Arfaethedig 2015/16 | Amcan Sefyllfa Terfynol 2015/16 | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2015/16** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig** | Gor/(Tan) Wariant Net Adolygiad Chwarter 1 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Gwasanaethau Oedolion** | | | | | | |
| Gwasanaethau Pobl Hŷn | | | | | | |
| Preswyl a Nyrsio - Cartrefi | 10,200 | 9,854 | (346) | 0 | (346) | (476) |
| Gofal Cartref | 6,006 | 6,194 | 188 | 0 | 188 | 205 |
| Eraill | 2,570 | 2,458 | (112) | 0 | (112) | 10 |
| | 18,776 | 18,506 | (270) | 0 | (270) | (261) |
| Gwasanaethau Anabledd Corff | | | | | | |
| Preswyl a Nyrsio | 462 | 472 | 10 | 0 | 10 | 20 |
| Gofal Cartref | 985 | 1,022 | 37 | 0 | 37 | 70 |
| Eraill | 686 | 691 | 5 | 0 | 5 | 0 |
| | 2,133 | 2,185 | 52 | 0 | 52 | 90 |
| Gwasanaethau Anabledd Dysgu | 13,724 | 13,644 | (80) | 0 | (80) | 0 |
| Gwasanaethau Iechyd Meddwl | | | | | | |
| Preswyl a Nyrsio | 1,292 | 1,404 | 112 | 0 | 112 | 150 |
| Eraill | 2,113 | 2,076 | (37) | 0 | (37) | (50) |
| | 3,405 | 3,480 | 75 | 0 | 75 | 100 |
| Gwasanaethau Eraill (Oedolion) | | | | | | |
| Rheolwyr | 369 | 382 | 13 | 0 | 13 | 0 |
| Tim Pobl Hyn ac Anabledd Corff | 2,889 | 2,873 | (16) | 0 | (16) | 0 |
| | 3,258 | 3,255 | (3) | 0 | (3) | 0 |
| **Cyfanswm Gwasanaethau Oedolion** | **41,296** | **41,070** | **(226)** | **0** | **(226)** | **(71)** |

**CYLLIDEB REFENIW 2015/16 - ADOLYGIAD AIL CHWARTER**

| **Crynhoad Sefyllfa Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant** | Cyllideb Arfaethedig 2015/16 | Amcan Sefyllfa Terfynol 2015/16 | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2015/16** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig** | Gor/(Tan) Wariant Net Adolygiad Chwarter 1 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Gwasanaethau Darparu** | | | | | | |
| Gofal Preswyl | 7 | 144 | 137 | 0 | 137 | 50 |
| Gofal Dydd | 5 | (44) | (49) | 0 | (49) | (130) |
| Gofal Cymunedol | 2 | 203 | 201 | 0 | 201 | 0 |
| Eraill | (154) | (191) | (37) | 0 | (37) | 0 |
| **Cyfanswm Gwasanaethau Darparu** | **(140)** | **112** | **252** | **0** | **252** | **(80)** |
| **Gwasanaethau Eraill** | | | | | | |
| Gwasanaethau Tai | 5,000 | 4,983 | (17) | 0 | (17) | (35) |
| Gwasanaethau Gofal Cwsmer | 226 | 155 | (71) | 0 | (71) | 0 |
| Gwasanaethau Canolog Adrannol | 3,644 | 4,233 | 589 | 0 | 589 | 442 |
| **Cyfanswm Gwasanaethau Eraill** | **8,870** | **9,371** | **501** | **0** | **501** | **407** |
| **Cyfanswm Oedolion, Iechyd a Llesiant** | **50,026** | **50,553** | **527** | **0** | **527** | **256** |

**Crynodeb Oedolion, Iechyd a Llesiant**

**Prif Faterion:-**

**Gwasanaethau Pobl Hŷn:-**

- Preswyl a Nyrsio - Cartrefi - gostyngiad o £130k yn y lefel tanwariant a ragwelwyd yn flaenorol, i lawr i (£346k) ac yn cynnwys cyfuniad o danwariant o (£131k) ar Gartrefi Annibynnol oherwydd gostyngiad sylweddol yn y nifer o leoliadau, ynghyd â chyfraniadau incwm ychwanegol o (£214k).
- Gofal Cartref - rhagwelir gostyngiad o (£20k) yn y gorwariant i lawr i £188k ac yn adlewyrchu, yn bennaf, fod y pwysau am y ddarpariaeth yn parhau.
- Eraill - tanwariant o (£112k), ac sy'n cynnwys nifer o wahaniaethau, ac yn arbennig tanwariant o (£50k) ar Llety Cefnogol, a thanwariant o (£20k) ar Taliadau Uniongyrchol.

**Gwasanaethau Anabledd Dysgu** - sefyllfa tanwariant net o (£80k) ac sy'n cynnwys cynlluniau arbedion gwerth (£116k) a wireddwyd ymlaen llaw.

**Gwasanaeth Iechyd Meddwl:-**

- Preswyl a Nyrsio - bellach fe ragwelir gorwariant o £112k oherwydd derbyn achosion newydd, ac sy'n ostyngiad o (£38k) ers y chwarter cyntaf.

**Gwasanaeth Darparu:-**

Am y tro fe ragwelir gorwariant o £252k ar y pennawd yma ac sy'n cynnwys nifer o wahaniaethau, ac yn bennaf, gorwariant o £137k ar Gofal Preswyl oherwydd costau cyflogaeth uwch, tanwariant o (£49k) ar Gofal Dydd, a gorwariant o £201k ar Gofal Cymunedol oherwydd costau cyflogaeth a chostau teithio uwch.
Yr Adran yn adolygu gwahanol elfennau o'r Gwasanaeth Darparu gyda'r bwriad o leihau'r lefel gorwariant a ragwelir am y tro.

**Gwasanaethau Eraill:-**

- Gwasanaethau Gofal Cwsmer - fe ragwelir sefyllfa tanwariant net o (£71k) ac sy'n cynnwys nifer o wahaniaethau, ond yn bennaf tanwariant costau staffio un tro o (£36k).
- Gwasanaethau Canolog Adrannol - fe gynhwysir o fewn y pennawd yma sefyllfa "Cynlluniau Arbedion i'w Gwireddu". Mae'r gwaith i wireddu'r targed am eleni yn parhau. Er hynny, mae posibilrwydd o beidio cyflawni yn llawn eleni, gyda risg o fethu cyflawni hyd at £652k o arbedion.

**Crynhoad**

Hyderaf y bydd yr Aelod Cabinet a'r Pennaeth yn llwyddo i wella'r sefyllfa yn ystod eleni, ond pe byddai'r tueddiad yma yn parhau, wynebir risg bydd yr Adran yn gorwario £527k erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

**CYLLIDEB REFENIW 2015/16 - ADOLYGIAD AIL CHWARTER**

| **Crynhoad Sefyllfa Adran Plant a Theuluoedd** | Cyllideb Arfaethedig 2015/16 | Amcan Sefyllfa Terfynol 2015/16 | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2015/16** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig** | Gor/(Tan) Wariant Net Adolygiad Chwarter 1 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Rheolaeth Gwasanaeth | 403 | 375 | (28) | 0 | (28) | (43) |
| Gwasanaethau Gweithredol | 1,826 | 1,967 | 141 | 0 | 141 | 100 |
| Gwasanaethau Lleoliadau | | | | | | |
| Uned Breswyl | 140 | 556 | 416 | 0 | 416 | 216 |
| Lleoliadau All-Sirol | 2,233 | 2,325 | 92 | 0 | 92 | (49) |
| Maethu Drwy Asiant | 1,020 | 1,000 | (20) | 0 | (20) | 34 |
| Maethu Mewnol | 1,809 | 1,618 | (191) | 0 | (191) | (100) |
| Eraill | 1,500 | 1,527 | 27 | 0 | 27 | (62) |
| | 6,702 | 7,026 | 324 | 0 | 324 | 39 |
| Gwasanaethau Ôl-16 | 991 | 885 | (106) | 0 | (106) | 0 |
| Gwasanaethau Arbenigol/Derwen | 1,543 | 1,473 | (70) | 0 | (70) | (50) |
| Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid | 257 | 239 | (18) | 0 | (18) | 0 |
| Gwasanaethau Blynyddoedd Cynnar | 108 | 63 | (45) | 0 | (45) | 0 |
| Gwasanaethau Eraill | 1,900 | 1,846 | (54) | 0 | (54) | (32) |
| **Cyfanswm Plant a Theuluoedd** | **13,730** | **13,874** | **144** | **0** | **144** | **14** |

**Crynodeb Plant a Theuluoedd**

**Prif Faterion:-**

**Gwasanaethau Gweithredol -** fe ragwelir cynnydd pellach o £41k yn y gorwariant ers y chwarter cyntaf, ac yn cynnwys, yn bennaf gorwariant o £115k ar sefyllfa staffio gweithwyr maes.

**Gwasanaethau Lleoliadau :-**

- Uned Breswyl - fe welir yma effaith methiant i gyflawni cynllun arbedion perthnasol i gartref preswyl plant yn unol â'r bwriad gwreiddiol, gyda'r oediad wedi cyfrannu'n sylweddol at y gorwariant o £416k a ragwelir.
- Lleoliadau All-Sirol - er fe welwyd rhai achosion yn dod i ben, fe welwyd hefyd rhai achosion newydd hefo gofynion fwy sylweddol ac o ganlyniad fe ragwelir gorwariant o £92k eleni.
- Maethu Mewnol - tanwariant sylweddol sy'n adlewyrchu llwyddiant cynnar yn y trefniadau i wireddu cynllun arbedion perthnasol ar gyfer 2016/17.

**Gwasanaeth Ôl-16 -** rhagwelir tanwariant o (£106k) ar y penawd yma yn bennaf oherwydd lleihad mewn costau Cynlluniau Cefnogol.

**Crynhoad**

Mae'r Adran yn cymryd camau penodol i gyflawni tanwariant ar benawdau eraill er mwyn cadw o fewn y gyllideb net erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Yn yr amgylchiadau na ellir cyflawni rhain yn llawn, fe fwriedir defnyddio arian wrth gefn mewn cronfa i wneud fyny unrhyw wahaniaeth.

**CYLLIDEB REFENIW 2015/16 - ADOLYGIAD AIL CHWARTER**

| Crynhoad Sefyllfa Adran Addysg | Cyllideb Arfaethedig 2015/16 | Amcan Sefyllfa Terfynol 2015/16 | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2015/16** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig** | Gor/(Tan) Wariant Net Adolygiad Chwarter 1 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Ysgolion Datganoledig | 68,379 | 68,379 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cludiant | 4,153 | 4,226 | 73 | 0 | 73 | 2 |
| Diswyddo ac Ymddeol Cynnar | 422 | 918 | 496 | (496) | 0 | 32 |
| Integreiddio | (9) | (9) | 0 | 0 | 0 | 0 |
| All Sirol | 982 | 982 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Arlwyaeth a Glanhau | 395 | 595 | 200 | (60) | 140 | 0 |
| Addysg Meithrin | 606 | 606 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Grant Grant Gwella Addysg | 686 | 686 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Rheolaeth | 1,846 | 1,815 | (31) | 0 | (31) | 0 |
| Unedau Anghenion Dysgu Ychwanegol | 1,958 | 2,093 | 135 | (206) | (71) | 14 |
| Strategaeth Cynhwysiad | 348 | 310 | (38) | 0 | (38) | (30) |
| Addysg Bellach | 24 | 24 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Arian wrth Gefn Ysgolion | 68 | 68 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cefnogaeth i Ysgolion yn Tan-berfformio | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 50 |
| Cyfraniad Addysg i Cyd-Bwyllgorau | 1,576 | 1,576 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Eraill | 7,571 | 7,613 | 42 | 0 | 42 | 0 |
| **Cyfanswm Addysg** | **89,005** | **89,882** | **877** | **(762)** | **115** | **68** |

**Crynodeb Addysg**

**Prif Faterion:-**

**Diswyddo ac Ymddeol Cynnar -** yn bennaf oherwydd effaith demograffeg ar y sector uwchradd, sef gostyngiad mewn niferoedd disgyblion, a hefyd yn rhannol effaith colled grant 6ed dosbarth, ac ymhlygiadau'r rhaglen arbedion ar y sector uwchradd, rhagwelir bellach fod y gorwariant gros eleni yn £496k.
Mae'r Adran eisoes wedi newid y dull o ariannu'r costau yma, fel nad oes angen wynebu'r gost yn llawn mewn un flwyddyn, a hefyd bwriedi'r defnyddio cronfa wrth gefn ar gyfer ariannu'r gweddill o £496k.

**Arlwyaeth a Glanhau -** fe ragwelir gorwariant gros o £200k ar y pennawd yma, ac yn cynnwys yn bennaf, gorwariant o £55k ar y ddarpariaeth Brecwast am Ddim, gorwariant o £125k ar Arlwyaeth Ysgolion a gorwariant o £45k ar Glanhau a Gofalu Ysgolion. Fe fwriedir defnyddio (£60k) o ffynonellau eraill tuag at y sefyllfa, a disgwylir i'r Adran gymryd camau priodol i sicrhau fod y pennawd yma yn gweithredu o fewn y ddarpariaeth gyllidol erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

**Unedau Anghenion Dysgu Ychwanegol -**oherwydd y sefyllfa perthnasol i ddau ganolfan penodol a'r angen i wneud trefniadau amgen, fe ragwelir fod hyn am achosi cost ychwanegol o £206k eleni, (cynnydd o £10k ers y chwarter cyntaf). Fe gyfeirwyd yn y chwarter cyntaf at y posibilrwydd o'r Cabinet ystyried rhoddi cymorth cyllidol ychwanegol tuag at y sefyllfa yn hwyrach yn y flwyddyn.
***Yn yr amgylchiadau, fe argymhellir isod ar y mater.***
Fe gynhwysir o fewn y penawd yma hefyd sawl gor a than wariant ar nifer o benawdau eraill, ac yn arbennig derbyniad o grant ychwanegol o (£62k) mewn perthynas a'r ddarpariaeth Unedau Arsylwi Blynyddoedd Cynnar ac sydd wedi cynorthwyo'r darlun yn ei gyfanrwydd.

**Crynhoad**
Drwy gyfuniad o ddefnydd o gronfa wrth gefn a mesurau penodol eraill gan gynnwys yr argymhelliad isod, fe welir y gorwariant net yn gostwng i £115k, a gyda'r Adran yn parhau i weithredu i geisio sicrhau cadw o fewn y gyllideb erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

**Argymhelliad**
Yn yr amgylchiadau, **fe argymhellir** fod y Cabinet yn tanysgrifio'r gost ychwanegol perthnasol o £206k fel a amlinellir uchod o dan Unedau Anghenion Dysgu Ychwanegol, gyda'r union swm i'w gadarnhau ar ddiwedd y flwyddyn, ac yn ddibynnol ar sefyllfa net yr Adran ar y pryd.

**CYLLIDEB REFENIW 2015/16 - ADOLYGIAD AIL CHWARTER**

| **Crynhoad Sefyllfa Adran Economi a Chymuned** | Cyllideb Arfaethedig 2015/16 | Amcan Sefyllfa Terfynol 2015/16 | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2015/16** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig** | Gor/(Tan) Wariant Net Adolygiad Chwarter 1 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Rheolaeth | 816 | 809 | (7) | 0 | (7) | 0 |
| Cefnogaeth Busnes | 261 | 273 | 12 | 0 | 12 | 0 |
| Marchnata a Gofal Cwsmer | 1,017 | 1,017 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Adfywio Cymunedol | 601 | 589 | (12) | 0 | (12) | 0 |
| Sgiliau a Maentgarwch | 67 | 58 | (9) | 0 | (9) | 0 |
| Tîm Prosiectau Strategol | 596 | 596 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Strategaeth a Datblygu | 208 | 208 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Archifiau | 435 | 428 | (7) | 0 | (7) | (10) |
| Amgueddfeydd | 173 | 176 | 3 | 0 | 3 | 5 |
| Orielau | 63 | 63 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Neuaddau | 250 | 260 | 10 | 0 | 10 | 15 |
| Celfyddydau | 265 | 265 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Parciau Gwledig | 117 | 117 | 0 | 0 | 0 | 10 |
| Morwrol | 200 | 190 | (10) | 0 | (10) | 30 |
| Gwasanaeth Ieuenctid | 1,299 | 1,260 | (39) | 0 | (39) | (20) |
| Gwasanaeth Cymunedau'n Iach | 3,801 | 3,981 | 180 | (75) | 105 | 43 |
| Datblygu Chwaraeon | 255 | 255 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Llyfrgelloedd | 1,939 | 1,959 | 20 | 0 | 20 | 15 |
| **Cyfanswm Economi a Chymuned** | **12,363** | **12,504** | **141** | **(75)** | **66** | **88** |

**<u>Crynodeb Economi a Chymuned</u>**

**<u>Prif Faterion:-</u>**

**Gwasanaethau Cymunedau'n Iach - Cyfleusterau Hamdden:-**

Fe welir nifer o wahaniaethau ar y penawd yma, ac yn arbennig -

- Grant Nofio am Ddim - fe welwyd lleihad o £55k yn y grant a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru. Yr Adran wedi cymryd camau i ymateb i'r golled yma, ac yn awyddus i dderbyn cyfraniad tuag at y sefyllfa. Mewn amgylchiadau tebyg, ddim yn arferiad i roddi cymorth yn y flwyddyn gyfredol, a disgwylir i adrannau weithredu o fewn eu cyllidebau adrannol am eleni.
- Pwll Nofio Bangor - yn ystod cyfnod gwaith gwelliannau ar y safle, fe welwyd fod y cyfleuster ar gau am bum mis, yn hytrach na'r tri mis a ragwelwyd yn wreiddiol. O ganlyniad, fe welwyd colled incwm o £50k dros y cyfnod.***Fe argymhellir isod ar y mater.***
- Cyfleusterau Hamdden Eraill - fe ragwelir sefyllfa gorwariant ar nifer o benawdau eraill gan gynnwys diffyg incwm o £50k ar Bwydydd Iach (ac fe fwriedir defnyddio £25k o ffynonellau eraill tuag at y sefyllfa yma), ynghyd â diffyg incwm o £30k mewn Canolfannau.

**Llyfrgelloedd -** fe ragwelir gorwariant ar y penawd yma o £20k, oherwydd yn bennaf, colled incwm rhent o £15k gan ddarparwyr addysg gymunedol yn y Canolfannau Dysgu Gydol Oes, ynghyd â cholled incwm o £5k o ffioedd rhent eraill.

**<u>Argymhelliad</u>**

Yn yr amgylchiadau, **<u>fe argymhellir</u>** fod y Cabinet yn ystyried cymeradwyo cefnogaeth ariannol am eleni yn unig tuag :-

- Colled Incwm Pwll Nofio Bangor - ystyried cymeradwyo cyllideb ychwanegol o £50k tuag at y sefyllfa eleni.

**CYLLIDEB REFENIW 2015/16 - ADOLYGIAD AIL CHWARTER**

| **Crynhoad Sefyllfa Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol (yn cynnwys Cefnffyrdd)** | Cyllideb Arfaethedig 2015/16 | Amcan Sefyllfa Terfynol 2015/16 | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2015/16** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig** | Gor/(Tan) Wariant Net Adolygiad Chwarter 1 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Gwasanaethau Priffyrdd (cynnwys Cefnffyrdd) | 10,202 | 10,198 | (4) | 0 | (4) | 0 |
| Gwasanaethau Peirianneg | 545 | 549 | 4 | 0 | 4 | 0 |
| Gwasanaethau Bwrdeistrefol | | | | | | |
| Gwastraff | | | | | | |
| Gwaredu Gwastraff | 2,262 | 2,124 | (138) | 0 | (138) | 0 |
| Safleoedd Trin a Throsglwyddo | 1,422 | 1,604 | 182 | 0 | 182 | 200 |
| Safleoedd Mwynderau | 1,306 | 1,338 | 32 | 0 | 32 | 0 |
| Casglu Gwastraff | 1,564 | 1,578 | 14 | 0 | 14 | 0 |
| Ailgylchu | 2,147 | 2,101 | (46) | 0 | (46) | 0 |
| Eraill Gwastraff | 880 | 822 | (58) | 0 | (58) | 0 |
| Is-Gyfanswm Gwastraff | 9,581 | 9,567 | (14) | 0 | (14) | 200 |
| Eraill Bwrdeistrefol | 3,885 | 3,848 | (37) | 0 | (37) | 0 |
| | 13,466 | 13,415 | (51) | 0 | (51) | 200 |
| Uned Fflyd | 0 | 6 | 6 | 0 | 6 | 0 |
| **Cyfanswm Priffyrdd a Bwrdeistrefol (gan gynnwys Cefnffyrdd)** | **24,213** | **24,168** | **(45)** | **0** | **(45)** | **200** |

**Crynodeb Priffyrdd a Bwrdeistrefol (gan gynnwys Cefnffyrdd)**

**Prif Faterion:-**

**Gwaredu Gwastraff -** o ganlyniad i dirlenwi llai na'r amcan gwreiddiol, fe welir arbedion mewn costau treth tir lenwi a chostau gwaredu, ac yn rhoddi tanwariant o (£138k) ar y pennawd yma.

**Safleoedd trin a throsglwyddo Gwastraff -** fe ragwelir sefyllfa gorwariant o £182k ar y pennawd yma, ac fe gynhwysir nifer o wahaniaethau, yn arbennig, diffyg incwm o £258k o werthiant deunyddiau ailgylchu oherwydd sefyllfa'r farchnad berthnasol, costau ychwanegol safle compostio Penhesgyn o £16k, a thanwariant o (£100k) ar fagiau gwyrdd.

**CYLLIDEB REFENIW 2015/16 - ADOLYGIAD AIL CHWARTER**

| **Crynhoad Sefyllfa Adran Rheoleiddio** | Cyllideb Arfaethedig 2015/16 | Amcan Sefyllfa Terfynol 2015/16 | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2015/16** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig** | Gor/(Tan) Wariant Net Adolygiad Chwarter 1 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Rheolaeth yr Adran | 345 | 338 | (7) | 0 | (7) | 0 |
| Gwasanaethau Cynllunio | | | | | | |
| Rheolaeth Datblygu | 406 | 301 | (105) | 100 | (5) | 0 |
| Eraill | 39 | 36 | (3) | 0 | (3) | 0 |
| | 445 | 337 | (108) | 100 | (8) | 0 |
| Gwasanaethau Gofal Stryd a Thrafnidiaeth | | | | | | |
| Cynllunio Ymlaen | 2,106 | 2,106 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cynnal Adeiladweithiau | 1,362 | 1,364 | 2 | 0 | 2 | 0 |
| Diogelwch y Ffyrdd | 354 | 359 | 5 | 0 | 5 | 0 |
| Traffig a Threfniadau Statudol | 654 | 643 | (11) | 0 | (11) | 0 |
| Gwasanaethau Parcio | (835) | (1,039) | (204) | 200 | (4) | 0 |
| Cludiant | 2,210 | 2,198 | (12) | 0 | (12) | (16) |
| Eraill | 474 | 474 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | 6,325 | 6,105 | (220) | 200 | (20) | (16) |
| Gwasanaethau Cefn Gwlad a Mynediad | 1,275 | 1,275 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd | 285 | 285 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gwasanaethau Gwarchod y Cyhoedd | 1,819 | 1,854 | 35 | 0 | 35 | 0 |
| Gwasanaethau Arlwyo, Glanhau a Gofalu | 11 | 4 | (7) | 0 | (7) | 0 |
| Gwasanaethau Eiddo | (81) | (88) | (7) | 0 | (7) | 1 |
| **Cyfanswm Rheoleiddio** | **10,424** | **10,110** | **(314)** | **300** | **(14)** | **(15)** |

**Crynodeb Rheoleiddio**

**Prif Faterion:-**

**Rheolaeth Datblygu -** sefyllfa tanwariant, yn bennaf o ganlyniad i dderbyniad incwm ffioedd ychwanegol. ***Fe wneir argymhelliad ar y sefyllfa yma isod.***

**Gwasanaeth Parcio -** Eto, fe ragwelir sefyllfa tanwariant, yn bennaf oherwydd derbyniad ffioedd parcio ychwanegol ynghyd âg incwm uwch o werthiant tocynnau tymor. ***Fe argymhellir ar y sefyllfa yma isod.***

**Crynhoad ac Argymhelliad**

Fe ragwelir yma sefyllfa tanwariant gros o (£314k), a hyn ar ôl rhoddi darpariaeth wrth gefn tuag at ariannu rhai cynlluniau penodol i'r Cyngor, a fyddai wedi achosi cais am adnodd drwy fid ar gyfer 2016/17, pe byddent heb sicrhau i'w ariannu.

Fel sydd yn arferiad yn yr amgylchiadau, mae'r Cyngor hefyd wedi addasu'r targedau incwm blynyddol i ymateb i'r amgylchiadau ar y pryd, ac fe welwyd targed incwm y ddau bennawd yma yn cael ei ostwng yn y gorffennol.

Yn yr amgylchiadau felly, a chymryd i ystyried yr uchod, **fe argymhellir** fod (£100k) o'r tanwariant ar Reolaeth Datblygu, ynghyd â (£200k) o'r tanwariant ar Gwasanaethau Parcio, yn cael eu trosglwyddo i gyllideb wrth gefn can y Cabinet, i'w ddefnyddio tuag at y gofynnion ariannol arall sydd yn wynebu'r Cyngor eleni.

**CYLLIDEB REFENIW 2015/16 - ADOLYGIAD AIL CHWARTER**

| Crynhoad Sefyllfa Adran Ymgynghoriaeth | Cyllideb Arfaethedig 2015/16 | Amcan Sefyllfa Terfynol 2015/16 | Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2015/16 | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | Gor / (Tan) Wariant Addasedig | Gor/(Tan) Wariant Net Adolygiad Chwarter 1 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Gwasanaethau Ffyrdd a Pheirianneg | (190) | (39) | 151 | (100) | 51 | 166 |
| Gwasanaethau Uned Rheoli Risg Llifogydd | 865 | 865 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gwasanaethau Adeiladu | 287 | 245 | (42) | 0 | (42) | 0 |
| **Cyfanswm Ymgynghoriaeth** | **962** | **1,071** | **109** | **(100)** | **9** | **166** |

## Crynodeb Ymgynghoriaeth

**Prif Faterion:-**

Fe ragwelwyd gorwariant o £166k yn y chwarter cyntaf, yn bennaf o ganlyniad i ostyngiad mewn incwm ffioedd am eleni. Y sefyllfa bellach yn dangos gorwariant gros o £109k, ac er bod yr Adran yn parhau i geisio adnabod ffynonhellau arall o incwm, fe welir bwriad ganddynt am y tro i ddefnyddio adnodd wrth gefn i liniaru ar y sefyllfa, pe byddai'r darlun yn parhau hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol.

| CYLLIDEB REFENIW 2015/16 - ADOLYGIAD AIL CHWARTER | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Crynhoad Sefyllfa Adrannau Canolog** | Cyllideb Arfaethedig 2015/16 | Amcan Sefyllfa Terfynol 2015/16 | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2015/16** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig** | Gor/(Tan) Wariant Net Adolygiad Chwarter 1 |
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Adran y Prif Weithredwr | 655 | 610 | (45) | 0 | (45) | 0 |
| Cyllid | 1,011 | 951 | (60) | 0 | (60) | 0 |
| Cefnogaeth Gorfforaethol | 532 | 443 | (89) | 0 | (89) | 10 |
| **Cyfanswm Adnoddau** | **2,198** | **2,004** | **(194)** | **0** | **(194)** | **10** |

## Crynodeb Adrannau Canolog

**Prif Faterion:-**

**Cefnogaeth Gorfforaethol -** fe ragwelir sefyllfa tanwariant net o (£89k), sydd yn cynnwys nifer o wahaniaethau, ac yn arbennig, arbedion staffio unwaith ac am byth, ynghyd â llwyddiant i ddenu incwm ychwanegol o sawl cyfeiriad.

**CYLLIDEB REFENIW 2015/16 - ADOLYGIAD AIL CHWARTER**

| **Crynhoad Sefyllfa Corfforaethol (Dim ond yn adlewyrchu y gwahaniaethau)** | Cyllideb Arfaethedig 2015/16 | Amcan Sefyllfa Terfynol 2015/16 | **Amcan Gor / (Tan) Wariant Gros 2015/16** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig** | Gor/(Tan) Wariant Net Adolygiad Chwarter 1 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Treth y Cyngor | * | * | (285) | 180 | (105) | 0 |
| Budd-daliadau | * | * | (293) | 120 | (173) | 0 |
| Derbyniad Llog Net | * | * | 169 | 0 | 169 | 64 |
| Eraill | * | * | (107) | 0 | (107) | 0 |
| **Cyfanswm Corfforaethol** | * | * | **(516)** | **300** | **(216)** | **64** |

## Crynodeb Corfforaethol

**Crynhoad ac Argymhelliad**

Fe welir sefyllfa ffafriol o gasgliad uwch o (£285k) ar Treth y Cyngor, ynghyd â thanwariant o (£293k) ar Budd-daliadau. Fodd bynnag, fe welir gostyngiad o £169k mewn Derbyniad Llog Net, a thanwariant o (£107k) ar Eraill, ac sy'n cynnwys nifer o wahaniaethau ar sawl pennawd, yn arbennig, derbyniad incwm ychwanegol o (£51k) o wahanol ffynonhellau, a thanwariant o (£11k) ar gostau cyfalaf.

Yn yr amgylchiadau, **fe argymhellir** trosglwyddo (£180k) o'r casgliad ffafriol Treth y Cyngor, ynghyd â (£120k) o'r tanwariant ar Budd-daliadau, fel adnodd wrth gefn i'r Cabinet ddyrannu ar ddiwedd y flwyddyn ariannol tuag at sefyllfa gorwariant tebygol yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant.

| | |
|---|---|
| CYFARFOD: | **Pwyllgor Archwilio** |
| DYDDIAD: | **1 Rhagfyr 2015** |
| TEITL: | **Rhaglen Gyfalaf 2015/16 - Adolygiad Diwedd yr Ail Chwarter (30 Medi 2015)** |
| PWRPAS: | **Adroddiad Monitro ar Wariant ac Ariannu'r Rhaglen Gyfalaf** |
| GWEITHREDIAD: | **Derbyn yr wybodaeth, ystyried y risgiau ynglŷn â'r Rhaglen Gyfalaf, a chraffu penderfyniadau drafft y Cabinet** |
| SWYDDOG CYSWLLT: | **Dafydd L Edwards, Pennaeth Cyllid** |
| AELOD CABINET: | **Cynghorydd Peredur Jenkins** |

**1.** Yn unol â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, disgwylir i'r Pwyllgor Archwilio graffu rhai materion ariannol gan gynnwys adroddiadau monitro cyllideb, lle'n briodol.

**2.** Cyflwynwyd yr adroddiad atodol (adolygiad ail chwarter o'r rhaglen gyfalaf) i'r Cabinet ar 24 Tachwedd 2015 ar gyfer penderfyniadau ynglŷn â'r rhaglen ddiwygiedig a'i ariannu.

**3.** Mae Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio wedi mynychu'r cyfarfod Cabinet fel arsyllwr, ac wedi gofyn i ni gyflwyno'r adroddiad Cabinet atodol i'r Pwyllgor Archwilio, i'w graffu ynghyd â'r penderfyniadau perthnasol. Bwriedir cyflwyno penderfyniadau'r Cabinet "ar y bwrdd" yng nghyfarfod y Pwyllgor Archwilio.

**4.** Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio nodi'r sefyllfa ac unrhyw risgiau yng nghyswllt rhaglen gyfalaf y Cyngor, craffu penderfyniadau'r Cabinet, a sylwebu fel bo angen.

**Wedi'i amgau:**
Adroddiad Rhaglen Gyfalaf 2015/16 – adolygiad yr ail chwarter (Cabinet 24/11/2015)

**ADRODDIAD I'R CABINET**
24 Tachwedd 2015

**Aelod Cabinet:** Cynghorydd Peredur Jenkins – Aelod Cabinet Adnoddau

**Pwnc:** Rhaglen Gyfalaf 2015/16 - Adolygiad Ail Chwarter (30 Medi 2015)

**Swyddog Cyswllt:** Dafydd L Edwards – Pennaeth Cyllid

---

**Y penderfyniad a geisir / Pwrpas yr adroddiad**

Derbyn yr adroddiad ar adolygiad diwedd yr ail chwarter (sefyllfa 30 Medi 2015) o'r rhaglen gyfalaf, a chymeradwyo'r ariannu addasedig a gyflwynir yn rhan 2.2 – 2.7 o'r adroddiad, sef:

- cynnydd £965,000 mewn defnydd o fenthyca heb gefnogaeth
- cynydd £3,278,000 mewn defnydd o grantiau a chyfraniadau
- cynnydd £154,000 mewn defnydd o dderbyniadau cyfalaf
- cynnydd £300,000 mewn defnydd o gyfraniadau refeniw
- lleihad £17,000 mewn defnydd o'r gronfa gyfalaf
- cynnydd £847,000 mewn defnydd o gronfeydd adnewyddu

Cymeradwyo'r trosglwyddiad cyllidol (yn unol â gofynion y rheolau gweithdrefn ariannol berthnasol) o £200,000 rhwng dau gynllun, sef rhwng cynllun Ail-leoli Llyfrgell Bala (Adran Economi a Chymuned) a chynllun ysgolion yn nalgylch y Berwyn (Adran Addysg).

---

**Cyflwyniad / Crynodeb**

Cyflwynir yr adroddiad technegol yma fel rhan o broses monitro'r gyllideb 2015/16. Prif ddiben yr adroddiad yw cyflwyno'r rhaglen ddiwygiedig a chymeradwyo'r ffynonellau ariannu perthnasol. Mae'r adroddiad mewn 2 rhan:

**Rhan 1:** Dadansoddiad fesul Adran o'r rhaglen gyfalaf £81.6m am y 3 blynedd 2015/16 – 2017/18.

**Rhan 2:** Eglurhad o ffynonellau ariannu'r cynnydd net oddeutu £5.5m ers yr adolygiad diwethaf, gyda £3.3m o'r cynnydd oherwydd fwy o grantiau.

Y Cabinet sydd wedi'i awdurdodi i addasu'r rhaglen gyfalaf. Gofynnir am gymeradwyaeth i'r rhaglen arfaethedig (rhan 1) a'i ariannu (rhan 2).

Mae gweddill yr adroddiad er gwybodaeth:

**Rhan 3**: Symudiadau o 2015/16 i 2016/17

**Rhan 4**: Gwariant 6 mis cyntaf 2015/16.

---

**Prif Gasgliadau:**

Y prif gasgliadau sydd yn codi o'r sefyllfa ddiwygiedig yw -

- Fod cynlluniau pendant mewn lle i fuddsoddi dros £42m yn 2015/16, gyda £16m wedi'i ariannu trwy ddenu grantiau penodol.
- Llwyddodd y Cyngor i wario ychydig dros £18.9m, sef dros 44% o'r gyllideb ar gynlluniau cyfalaf yn ystod y 6 mis cyntaf o 2015/16, o'i gymharu â 33% yn y cyfnod cyfatebol llynedd.
- Ni achoswyd unrhyw golled ariannu i'r Cyngor ble gwelwyd cynlluniau yn llithro.

**Rhesymau dros argymell y penderfyniad**

Rhaid sicrhau trefniadau ariannu priodol ar gyfer cynlluniau'r Cyngor i wario ar gyfalaf, a rhaid i'r Cabinet gymeradwyo'r rhaglen gyfalaf a'r ffynonellau ariannu.

Mater o drefn yw ymgorffori ariannu trwy grant, ond hefyd mae angen delio gyda sefyllfaoedd lle bu newid rhwng blynyddoedd mewn proffil gwario a newid mewn gwerth cyfraniadau a derbyniadau cyfalaf.

Argymhellir yma gamau er mwyn sicrhau ffynonellau ariannu pendant am gynlluniau cyfalaf 2015/16 - 2017/18.

**Ystyriaethau perthnasol**

Materion technegol ynghylch ariannu'r cynlluniau sydd gerbron ac mae ymhlygiadau a dadleuon eisoes wedi'u cyfarch wrth fabwysiadu'r cynlluniau cyfalaf unigol.

**Camau nesaf ac amserlen**

Gweithredu ar yr argymhellion i ariannu'r rhaglen.

---

**Barn yr Aelod Lleol**
Dim yn berthnasol.

---

**Barn y Swyddogion Statudol**

**Y Prif Weithredwr:**
Mae'n dda gweld y proffil gwariant ar gyfer 6 mis cyntaf y flwyddyn o'i gymharu â'r flwyddyn ddiwethaf. Yn amlwg, ni fydd rheoli cyllideb gyfalaf byth yn fater statig ac, yn amlwg, mae'n rhaid gwneud rhai addasiadau yn ystod unrhyw flwyddyn. Rwy'n cymeradwyo'r adroddiad.

**Y Swyddog Monitro:**
Mae'r camau a argymhellir yn yr adroddiad yn unol â gofynion y cyfansoddiad.

**Y Pennaeth Cyllid:**
Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.

---

**Atodiad**
Adroddiad manwl yn rhan 1-4.

## 1 RHAGLEN GYFALAF 2015/16 i 2017/18

**1.1** Gweler isod gymhariaeth o'r rhaglen gyfalaf hyd at ddiwedd Medi 2015 yn erbyn yr adolygiad diwethaf:

**SYMUDIAD O'R CHWARTER CYNTAF I DDIWEDD YR AIL CHWARTER**

| | ADOLYGIAD DIWEDD MEHEFIN | | | | ADOLYGIAD DIWEDD MEDI | | | | CYNNYDD / (LLEIHAD) ERS YR ADOLYGIAD DIWETHAF |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | CYFANSWM | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | CYFANSWM | |
| **ADRAN** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Addysg | 14,869 | 16,449 | 5,703 | 37,021 | 14,122 | 15,998 | 7,959 | 38,079 | 1,058 |
| Cyllid | 804 | 560 | - | 1,364 | 691 | 653 | - | 1,344 | (20) |
| Economi a Chymuned | 5,147 | 656 | - | 5,803 | 5,748 | 1,315 | - | 7,063 | 1,260 |
| Tai | 3,153 | 2,238 | - | 5,391 | 4,768 | 2,237 | - | 7,005 | 1,614 |
| Oedolion, Iechyd a Llesiant | 775 | 397 | 155 | 1,327 | 572 | 693 | 155 | 1,420 | 93 |
| Plant a Theuluoedd | 10 | - | - | 10 | 10 | - | - | 10 | - |
| Priffyrdd a Bwrdeistrefol | 4,378 | 1,979 | 2,702 | 9,059 | 4,062 | 3,654 | 2,413 | 10,129 | 1,070 |
| Cefnogaeth Gorfforaethol | 61 | 105 | | 166 | 353 | 114 | - | 467 | 301 |
| Rheoleiddio | 12,013 | 3,619 | 18 | 15,650 | 11,956 | 3,797 | 51 | 15,804 | 154 |
| Ymgynghoriaeth | 128 | - | - | 128 | 102 | 23 | - | 125 | (3) |
| Corfforaethol | - | 202 | - | 202 | - | 202 | - | 202 | - |
| **CYFANSWM** | **41,338** | **26,205** | **8,578** | **76,121** | **42,384** | **28,686** | **10,578** | **81,648** | **5,527** |

## 2 NEWIDIADAU I'R FFYNONELLAU ARIANNU

**2.1** Mae cynnydd o £5.527m yn y gyllideb ar gyfer y rhaglen gyfalaf tair blynedd ers sefyllfa'r adolygiad diwethaf. Nodir isod y ffynonellau ariannu arfaethedig ar gyfer hyn:

| ARIANNU | ADOLYGIAD DIWEDD MEHEFIN | | | ADOLYGIAD DIWEDD MEDI | | | CYNNYDD / (LLEIHAD) ERS YR ADOLYGIAD DIWETHAF |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | |
| | £000 | £000 | £000 | £'000 | £'000 | £000 | £000 |
| Benthyca gyda chefnogaeth | 6,637 | 6,637 | 2,817 | 6,637 | 6,637 | 2,817 | - |
| Benthyca heb gefnogaeth | 7,392 | 7,424 | 0 | 6,775 | 7,386 | 1,620 | 965 |
| Grantiau a Chyfraniadau | 13,210 | 8,027 | 2,886 | 15,988 | 8,191 | 3,222 | 3,278 |
| Derbyniadau Cyfalaf | 1520 | 514 | 0 | 1,529 | 659 | - | 154 |
| Refeniw Adrannol a Chorfforaethol | 4,484 | 1,245 | 0 | 4,484 | 1,245 | 300 | 300 |
| Cronfa Cyfalaf | 3,353 | 859 | 155 | 2,390 | 1,805 | 155 | (17) |
| Cronfeydd Adnewyddu ac Eraill | 4,742 | 1,499 | 2,720 | 4,581 | 2,763 | 2,464 | 847 |
| **CYFANSWM** | **41,338** | **26,205** | **8,578** | **42,384** | **28,686** | **10,578** | **5,527** |
| **CYFANSWM 3 MLYNEDD** | | | **76,121** | | | **81,648** | |

**2.2 Benthyca Heb Gefnogaeth**

Cynnydd net o £965,000 yn y dull yma o ariannu yn bennaf ar gyfer

- **Cynlluniau Cronfa Benthyciadau Canol Tref (Adran Economi a Chymuned) £50,000 yn 2015/16 a £650,000 yn 2016/17**
  Benthyciad gan Lywodraeth Cymru am gyfnod o 15 mlynedd i'w ddefnyddio i adfywio canol trefi gan leihau'r nifer o eiddo gwag a chefnogi canol trefi i arallgyfeirio (adroddiad Cabinet 14 Ebrill 2015).
- **Cynlluniau Rheoli Carbon (Adran Rheoleiddio – Uned Eiddo) £307,476 yn 2015/16**
  Cynlluniau rheoli carbon newydd sydd yn cael eu hariannu drwy fenthyciad Salix – (£250k uwchraddio goleuadau ysgolion cynradd a £57,476 Pwll Nofio Bangor).

**2.3 Grantiau a Chyfraniadau**

Cynnydd net o £3,278,000 yn y dull yma o ariannu yn bennaf oherwydd:

- **Prosiect 'ECO' Arbed (Energy Companies Obligation) (Adran Tai) £1,631,277 yn 2015/16**
  Derbyniwyd grant drwy raglen Cartrefi Clyd Llywodraeth Cymru ac yn benodol drwy brosiect 'ECO' Arbed, sydd yn cefnogi cynlluniau effeithlonrwydd ynni ar sail ardal mewn cymunedau difreintiedig. Yr ardal berthnasol yn yr achlysur yma yw ardal Peblig, Caernarfon. Mae'n hanfodol fod y grant yn cael ei ddefnyddio a'i hawlio yn llawn cyn 31 Mawrth 2016.
- **Cartgylchu (Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol) £600,000 yn 2015/16**
  Derbyniwyd grant drwy Raglen Weithredu'r Cynllun Gwastraff ac Adnoddau (WRAP – Waste Resources Action Programme) a ariennir gan Lywodraeth Cymru, i brynu biniau 'cartgylchu' ar gyfer y strategaeth wastraff.

- **Cynlluniau Ysgolion Ganrif 21 (Adran Addysg) £500,000 yn 2017/18**
  Gwnaethpwyd cais llwyddiannus i'r Llywodraeth i ehangu cynllun gwelliannau i ysgolion yn nalgylch y Berwyn o £1miliwn, a gwelir yma 50% o gyfraniad gan y Llywodraeth ar ffurf grant i'r rhaglen (adroddiad Cabinet 15 Medi 2015) (gweler hefyd 2.5 a 2.6 isod.)
- **Canolfan Iaith Bangor (Adran Cefnogaeth Gorfforaethol) £300,000 yn 2015/16**
  Derbyniwyd grant Cronfa Buddsoddi Cyfalaf gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â datblygu Canolfan Iaith i hybu'r Gymraeg yng Ngwynedd, drwy brynu ac addasu Gweithdy Menai, Lon Bopty, Bangor.
- **Ail leoli Llyfrgell i Ganolfan Glaslyn, Porthmadog (Adran Economi a Chymuned) £250,000 yn 2015/16**
  Derbyniwyd grant arloesi CyMAL ('Museums, Archives and Libraries Wales) gan y Llywodraeth ar gyfer ail leoli llyfrgell Porthmadog (gweler hefyd 2.4 isod).

**2.4 Derbyniadau Cyfalaf**

Cynnydd net o £154,000 yn y dull yma o ariannu yn bennaf ar gyfer:

- **Ail leoli Llyfrgell i Ganolfan Glaslyn, Porthmadog (Adran Economi a Chymuned) £58,000 yn 2015/16**
  Ariannu cyfatebol gan y Cyngor ar gyfer y cynllun yma (gweler hefyd 2.3 uchod).
- **Cyfleusterau Harbwr a Thraeth Pwllheli (Adran Economi a Chymuned) £45,000 yn 2015/16**
  Ariannu pryniant tiroedd bychan gan Swyddfa'r Goron ar Benrhyn Glan Don (rhan o becyn o waith sydd yn gysylltiedig â chynllun Academi Hwylio).

**2.5 Refeniw Adrannol**

Cynnydd o £300,000 yn 2017/18 sef gwariant ymrwymedig ychwanegol ar gynllun Ysgolion Dalgylch y Berwyn (Adran Addysg), sydd yn rhan o'r pecyn cynlluniau Ysgolion Ganrif 21 (adroddiad Cabinet 15 Medi 2015)(gweler hefyd 2.3 uchod a 2.6 isod).

**2.6 Cronfa Cyfalaf**

Lleihad net o £17,000 yn y dull yma o ariannu oherwydd

- **Systemau Technoleg Gwybodaeth (Adran Gyllid) -** trosglwyddiad o £45,000 allan o'r rhaglen gyfalaf i ariannu costau refeniw
- **Rhaglen Ysgolion Ganrif 21 (Adran Addysg)** - cynnydd o £27,353 yn y gwariant ar Ysgol Bro Llifon i ariannu prisiau uwch ar y cynllun
- **Rhaglen Ysgolion Ganrif 21 (Adran Addysg) -** yng ngoleuni'r cynnydd yn y cynllun yn nalgylch y Berwyn o £1miliwn (gweler hefyd 2.3 a 2.5 uchod), a chytundeb rhwng yr Adran Addysg a'r Adran Economi a Chymuned ynglŷn â'r pecyn ariannu, mae angen felly trosglwyddiad cyllidol o £200,000. Defnyddir cyllideb y cynllun Ail-leoli Llyfrgell Bala (Adran Economi a Chymuned) ar gyfer y trosglwyddiad yma.

**2.7 Cronfeydd Adnewyddu**

Cynnydd net o £847,000 yn y defnydd o gronfeydd adnewyddu, yn bennaf gan yr Adran Briffyrdd a Bwrdeistrefol ar gyfer:

- **Cerbydau £459,010 dros 3 mlynedd.**
  Pryniant o gerbydau yn hytrach na drwy drefniant les.
- **Biniau Gwastraff a Sgipiau £183,700 yn 2015/16**
  Pryniant uwch oherwydd mwy o alw am finiau a sgipiau yn sgil y strategaeth wastraff.

**2.8 Argymhelliad**

**Gofynnir i'r Cabinet dderbyn y rhaglen gyfalaf diwygiedig ar gyfer 2015/16 i 2017/18, a chymeradwyo'r ffynonellau ariannu berthnasol (para. 2.2 i 2.7 uchod).**

**Gofynnir ymhellach i'r Cabinet gymeradwyo trosglwyddiad cyllidol (yn unol â gofynion y rheolau gweithdrefn ariannol berthnasol) o £200,000 rhwng dau gynllun, sef rhwng cynllun Ail-leoli Llyfrgell Bala (Adran Economi a Chymuned) a chynllun ysgolion yn nalgylch y Berwyn (Adran Addysg) (para. 2.6 uchod).**

## 3 PROFFILIAU GWARIANT BLYNYDDOL

**3.1** Cyfanswm lefel yr ail-broffilio yn y rhaglen gyfalaf o 2015/16 i 2016/17 hyd yma yw £4,908,490. Mae'r ffigyrau yn rhan 1 o'r adroddiad yn adlewyrchu hyn, gyda'r prif eitemau fel a ganlyn –

Cynlluniau wedi'u hariannu o adnoddau'r Cyngor:-

- Ysgolion Ganrif 21(Adran Addysg) £2,191,110
- Cerbydau'r Cyngor (Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol) £1,515,310
- Cynllun 'EDRMS' ('electronic document and records management system') (Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant) £296,000

**3.2** Ni fydd yr ail-broffilio uchod yn golygu unrhyw golled grant.

**3.3** Mae amrywiol resymau dilys tu ôl i'r ail-broffilio mewn sawl achos, ond gall yr oedi cyn gweithredu'r cynlluniau yma olygu bod gwasanaethau yn ymdopi'n hirach gyda'r asedau cyfredol heb eu gwella.

## 4 GWARIANT CYFALAF 6 MIS CYNTAF 2015/16

**4.1** Mae'r tabl isod yn dadansoddi sefyllfa gwir wariant cyfalaf adrannau'r Cyngor ar ddiwedd yr ail chwarter (6 mis), gyferbyn â'r rhaglen gyfalaf diwygiedig ar gyfer 2015/16 (blwyddyn gyfan) –

| CRYNODEB | RHAGLEN GYFALAF BLWYDDYN LLAWN (adolygwyd Medi) 2015/16 £'000 | GWIR WARIANT Y 6 MIS HYD AT 30/09/2015 £'000 |
|---|---|---|
| Addysg | 14,122 | 4,382 |
| Cyllid | 691 | 173 |
| Economi a Chymuned | 5,748 | 3,736 |
| Tai | 4,768 | 887 |
| Oedolion, Iechyd a Llesiant | 868 | 180 |
| Plant a Theuluoedd | 10 | 2 |
| Priffyrdd a Bwrdeistrefol | 4,062 | 1,713 |
| Cefnogaeth Gorfforaethol | 353 | 0 |
| Rheoleiddio | 11,956 | 7,834 |
| Ymgynghoriaeth | 102 | 32 |
| **CYFANSWM** | 42,680 | 18,939 |

Mae rhai adrannau yn ymddangos i fod yn gwario'n sylweddol llai na hanner y gyllideb flynyddol hyd yma, sef Adran Addysg (yn bennaf oherwydd proffil gwariant cynlluniau Ysgolion Ganrif 21) a'r Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol (yn bennaf oherwydd proffil gwariant ar adnewyddu cerbydau). Er hynny mae'r adrannau yn hyderus y byddent yn gwario yn unol â'r rhaglen erbyn diwedd yr ail hanner o'r flwyddyn.

Mae'r Adran Rheoleiddio yn dangos gwariant sylweddol yn y chwe mis cyntaf o'r flwyddyn, yn bennaf oherwydd gwariant rhaglenedig ar Bont Briwet, Penrhyndeudraeth. Adroddwyd yn y gorffennol fod yna elfen o risg ariannol i'r Cyngor gyda'r cytundeb yma, sy'n parhau yn destun trafodaethau rhwng y partïon, ond bellach mae swmp y gwariant wedi digwydd, a'r risg ariannol i'r Cyngor wedi lleihau. Llwyddodd yr Adran felly i reoli'r cytundeb heb alw am gyfraniad ychwanegol yn gorfforaethol.

**4.2** Mae dros £18.9m wedi ei wario yn ystod y chwe mis cyntaf, sef 44% o'r gyllideb.

| **CRYNODEB** | **ADOLYGIAD DIWEDD MEDI 2015/16** | **ADOLYGIAD DIWEDD MEDI 2014/15** | **CYNNYDD / (LLEIHAD)** |
|---|---|---|---|
| Cyllideb Blwyddyn Gyfan | £42.7miliwn | £45.0miliwn | (£2.3miliwn) |
| Gwariant y 6 mis cyntaf | £18.9miliwn | £14.9miliwn | £4.0miliwn |
| Gwariant fel canran o'r gyllideb | 44% | 33% | 11% |

**4.3** Er gwaethaf yr ail broffilio, mae'r gyfran sydd wedi'i wario eleni yn gyfatebol uwch na'r sefyllfa adeg yma'r llynedd.

| | |
|---|---|
| CYFARFOD: | **Pwyllgor Archwilio** |
| DYDDIAD: | **1 Rhagfyr 2015** |
| TEITL: | **Strategaeth Ariannol y Cyngor 2016/17 – 2019/20** |
| PWRPAS: | **Gosod sail ar gyfer cynllunio cyllidol tymor-canol ac adnabod yr angen am arbedion ariannol** |
| GWEITHREDIAD: | **Derbyn yr wybodaeth, ystyried y risgiau ynglŷn â Strategaeth Ariannol y Cyngor, a chraffu penderfyniadau drafft y Cabinet** |
| SWYDDOG CYSWLLT: | **Dafydd L Edwards, Pennaeth Cyllid** |
| AELOD CABINET: | **Cynghorydd Peredur Jenkins** |

**1.** Yn unol â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, disgwylir i'r Pwyllgor Archwilio graffu prif faterion ariannol y Cyngor, sy'n cynnwys y Strategaeth Ariannol.

**2.** Cyflwynwyd yr adroddiad atodol i'r Cabinet ar 24 Tachwedd 2015 er mwyn penderfynu a oes angen cymryd unrhyw gamau pellach i ymateb i'r darlun diweddaraf sy'n amlygu ei hun.

**3.** Mae Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio wedi mynychu'r cyfarfod Cabinet fel arsyllwr, ac wedi gofyn i ni gyflwyno'r adroddiad Cabinet atodol i'r Pwyllgor Archwilio, i'w graffu ynghyd â'r penderfyniadau perthnasol. Bwriedir cyflwyno penderfyniadau'r Cabinet "ar y bwrdd" yng nghyfarfod y Pwyllgor Archwilio.

**4.** Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio nodi'r sefyllfa ac unrhyw risgiau yng nghyswllt Strategaeth Ariannol y Cyngor, craffu penderfyniadau'r Cabinet, a sylwebu fel bo angen.

**Wedi'i amgau:**
Adroddiad Strategaeth Ariannol 2016/17 – 2019/20 (Cabinet 24/11/2015)

**ADRODDIAD I'R CABINET**
24 Tachwedd 2015

**Aelod Cabinet:** Cynghorydd Peredur Jenkins, Aelod Cabinet Adnoddau

**Pwnc:** Strategaeth Ariannol 2016/17 – 2019/20

**Swyddog Cyswllt:** Dafydd L Edwards, Pennaeth Cyllid

---

**Y penderfyniad a geisir**

Penderfynu a oes angen cymryd unrhyw gamau pellach i ymateb i'r darlun diweddaraf sy'n amlygu ei hun.

---

**Tafluniad Cyllidebol 2015/16 – 2017/18**

**1.** Mae'r Strategaeth Ariannol a fabwysiadwyd gan y Cabinet yn ôl ym mis Chwefror eleni yn seiliedig ar dafluniadau o wariant ac incwm a wnaed bryd hynny, ac mae'r tabl isod yn ei amlinellu'n gryno:

| £m | Eleni 2015-16 | 2016-17 | 2017-18 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Gofynion Gwario Anorfod Ychwanegol | 6.1 | 10.2 | 6.7 | 23.0 |
| Colled oherwydd gostyngiad Grant y Llywodraeth | 7.1 | 3.5 | 6.1 | 16.7 |
| Cynyddu Treth Cyngor (4.5%, 3.5%, 3.5%) | -2.5 | -1.9 | -2.0 | -6.4 |
| Cynlluniau Arbedion yn y gyfundrefn ac wedi'u cymeradwyo | -8.7 | -2.9 | -3.8 | -15.4 |
| Bwlch: defnydd Balansau, Cynlluniau Arbedion i'w darganfod, Toriadau | 2.0 | 8.9 | 7.0 | 17.9 |

**2.** Yn ystod haf 2015, cytunwyd strategaeth i wynebu'r bwlch ariannu uchod drwy –

- yn gyntaf, uchafu'r arbedion effeithlonrwydd gellid gwireddu;
- targed (£4.3m) arbedion yr ysgolion, a
- canfod barn y cyhoedd ar doriadau posib i wasanaethau gwerth £7m (ynghyd ag ystyried toriadau eraill i wasanaethau corfforaethol a chefnogol).

**3.** Mae'r strategaeth hwnnw yn wynebu'r bwlch cyllidebol rhwng 2015/16 a 2017/18, tra mae'r adroddiad yma yn adolygu sail y rhagdybiaethau rheiny ac yn ceisio edrych heibio'r cyfnod hynny hyd at 2020, er ni ryddhawyd unrhyw ffigyrau grant mynegol gan Lywodraeth Cymru.

**Gofynion Gwario Anorfod Ychwanegol 2016/17 – 2019/20**

**4.** Amcangyfrifwyd ymrwymiadau anochel am y 4 blynedd nesaf, wedi ystyried pwysedd ar wasanaethau (yn cynnwys sawl mater yn y maes gofal oedolion a'r strategaeth wastraff), chwyddiant (tâl ac eraill), newidiadau yswiriant gwladol, pensiynau, llog, demograffi, ayb.

| | Amcangyfrif Chwefror | Amcangyfrif Tachwedd | Newid |
|---|---|---|---|
| 2016/17 | £10.2m | £9.4m | - £0.8m |
| 2017/18 | £6.7m | £7.5m | + £0.8m |
| 2018/19 | - | £8.1m | - |
| 2019/20 | - | £8.1m | - |

**5.** Bu lleihad yn y rhagolygon o chwyddiant (tâl yn 1% yn lle 2%, ac ynni / tanwydd yn negyddol), ond y mae hynny wedi'i wrthbwyso gan amrywiol faterion yn cynnwys gofynion isafswm tâl Llywodraeth San Steffan (effaith ar gyflenwyr gwasanaethau i'r Cyngor, yn ogystal â'r Cyngor fel cyflogwr yn y tymor-canol).

**6.** Gallasai gofynion gwario fod yn sylweddol uwch pryd bydd y ffigyrau terfynol wedi'u hadnabod, ar ôl adolygu'r lefelau o incwm a ragwelir a materion eraill.

**7.** Fodd bynnag, ar sail ein amcangyfrifon diweddaraf, nid oes newid sylweddol yng nghyfanswm anghenion gwario'r Cyngor am y ddwy flynedd nesaf (2016/17 a 2017/18). Felly, ar hyn o bryd, dim ond y disgwyliadau o ran grant Llywodraeth fyddai'n arwain at newid yn strategaeth arbedion y Cyngor.

**Colled oherwydd gostyngiad Grant**

**8.** Cyn gweld canlyniad Adolygiad Gwariant Llywodraeth y DU, nid oes gwybodaeth gadarn ar gael am ariannu llywodraeth leol yng Nghymru ar gyfer 2016/17 a thu hwnt.

**9.** Bwriad Llywodraeth Cymru yw i gyhoeddi eu cyllideb drafft nhw ar 8 Rhagfyr, a'r setliad amodol ar gyfer ariannu llywodraeth leol ar 9 Rhagfyr. Fodd bynnag, er mwyn caniatáu 'craffu ystyrlon' ar lefel genedlaethol, ni fydd y setliad terfynol yn cael ei gyhoeddi tan 2 Mawrth, a bydd pleidlais arno (yn Bae Caerdydd) ar 9 Mawrth 2016.

**10.** Ar sail cyfarwyddyd gan y Canghellor, George Osborne, a'r Trysorlys, mae adrannau Llywodraeth San Steffan yn paratoi am amrediad o senarios rhwng cynnydd real mewn cyllideb (Iechyd) a thoriadau hyd at 40%.

**11.** Drwy wneud rhagdybiaethau rhesymol am sefyllfa adrannau perthnasol, ac am effaith fformiwla Barnett, ayb, gellid dyfalu gallasai fod cynnydd 1.39% yng nghyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer 2016/17, a 0.55%, 0.89%, a 1.79% o gynnydd mewn blynyddoedd dilynol.

**12.** Wedyn, mae mwy o ansicrwydd am faint fydd Llywodraeth Cymru yn dyrannu i lywodraeth leol. Gellid modelu 3 achos, lle mae Llywodraeth Cymru yn rhoi graddau cynyddol o 'warchodaeth' i Iechyd a phrosiectau eraill yng Nghymru.

**13.** Mae'r senario 'gorau' yn y tabl canlynol yn adlewyrchu sefyllfa pe bai Llywodraeth Cymru yn darparu chwyddiant i Iechyd a thrin popeth arall yn gyfartal.

**14.** Mae'r achos 'canolog' yn y tabl canlynol yn ddiweddariad o'n tafluniadau ni o Chwefror, tra mae'r ffigyrau 'gwaethaf' yn adlewyrchu rhagolygon mwy pesimistaidd sy'n gyffredin yn llywodraeth leol Gymreig ac adroddir yn y wasg / cyfryngau ar hyn o bryd.

**15.** Gallasai'r setliad fod tu allan i'r senarios amlinellir isod, ond mae'n rhesymol i ragdybio bydd rhywle rhwng y senarios gorau a gwaethaf canlynol:

| Senarios posib ar gyfer Grant Gwynedd | 2016/17 | | 2017/18 | | 2018/19 | | 2019/20 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | *%* | £m | *%* | £m | *%* | £m | *%* | £m |
| Gorau | *-0.28%* | -0.5 | *-1.71%* | -2.9 | *-1.12%* | -1.8 | *0.51%* | 0.8 |
| Canolog | *-2.00%* | -3.4 | *-3.50%* | -5.8 | *-2.75%* | -4.4 | *-2.75%* | -4.3 |
| Gwaethaf | *-4.00%* | -6.7 | *-5.00%* | -8.1 | *-4.00%* | -6.1 | *-4.00%* | -5.9 |

**16.** Nodaf yma, pe bai dim gostyngiad yn y grant, ni fyddai angen i Gyngor Gwynedd wneud unrhyw doriadau yn y cyfnod 2016/17 - 2017/18, gan fyddai ein cynlluniau arbedion effeithlonrwydd yn ddigonol i fantoli'r gyllideb.

**Y Bwlch Ariannu Tebygol ar gyfer cyfnod "Her Gwynedd"**

**17.** Mae'r uchod yn cymharu gyda rhagdybiaethau Chwefror o golled grant - £3.5m yn 2016/17 a - £6.1m yn 2017/18.

**18.** Dros y 2 flynedd 2016/17 a 2017/18, drwy effaith amrywiol ostyngiadau grant, ar sail ein rhagdybiaethau ni, byddai'r bwlch ariannu yn **newid** fel a ganlyn:

| | Rhagdybiaethau Chwefror £m | Senario Gorau £m | Senario Canolog £m | Senario Gwaethaf £m |
|---|---|---|---|---|
| 2016/17 | - 3.5 | - 0.5 | - 3.4 | - 6.7 |
| 2017/18 | - 6.1 | - 2.9 | - 5.8 | - 8.1 |
| Cyfanswm 2 flynedd | - 9.6 | - 3.4 | - 9.2 | - 14.8 |
| | | 9.6 | 9.6 | 9.6 |
| Gwahaniaeth | | 6.2 | 0.4 | - 5.2 |

**Casgliad**

**19.** Sylwer fod amrediad £11.4m rhwng y sefyllfaoedd 'gorau / gwaethaf' rydym ni wedi dyfalu arnynt dros y ddwy flynedd nesaf, ac mae'n bosib i'r canlyniad fod tu allan i'n 'senarios gorau / gwaethaf' ni hefyd. Mae ansicrwydd am swm cymaint â'n holl 'cwantwm opsiynau i dorri' ni yn amlygu anhawster cynllunio ariannol.

**20.** Fodd bynnag, fel nodwyd o'r blaen, beth bynnag fydd y ffigwr grant terfynol, nid yw hynny am newid ein gallu i ddarganfod mwy o arbedion effeithlonrwydd. Felly, gan fod ein strategaeth bresennol eisoes yn cynnwys ymgais i uchafu arbedion o'r fath, nid oes unrhyw beth gwahanol y gallwn ei wneud i ddygymod ag unrhyw gynnydd yn y bwlch ariannol heblaw gweithredu mwy o doriadau.

**21.** Yn ogystal, gellid nodi fod y tebygolrwydd o orfod gweithredu toriadau yn 2016/17 a 2017/18 **ddim** wedi newid yn sylweddol ers pryd cychwynnwyd y strategaeth "toriadau" cyfredol.

**Cynllun Ariannol Tymor Canolig am 4 blynedd**

**22.** Yn ddelfrydol, byddai'r Cyngor awydd gweithredu strategaeth ariannol dros 4 blynedd. Yn anffodus, nid yw hynny'n ymarferol, gan fod Llywodraeth Cymru yn bwriadu darparu setliad am un flwyddyn yn unig, heb unrhyw ffigyrau mynegol am flynyddoedd dilynol.

**23.** Felly, mae'n synhwyrol i gyflawni'r cynllun ymateb cyfredol am y ddwy flynedd nesaf, cyn adnabod y bwlch pellach i'w ariannu erbyn 2018/19 a 2019/20.

---

**Barn yr aelod lleol**
Dim yn berthnasol

---

**Barn y swyddogion statudol**

**Y Prif Weithredwr:**
Mae'r adroddiad yn cadarnhau doethineb ein strategaeth bresennol o uchafu arbedion effeithlonrwydd a pharatoi ar gyfer toriadau posib, ac mae'r ymarferiad Her Gwynedd sydd yn digwydd ar hyn o bryd yn rhan allweddol o hyn. Wrth gwrs, o flwyddyn i flwyddyn, bydd setliadau penodol Llywodraeth Cymru yn effeithio ar yr union sefyllfa ariannol. Eleni, ni fydd y setliad amodol yn hysbys tan 9 Rhagfyr a'r setliad terfynol ddim tan ddechrau Mawrth, yr wythnos pan fydd y Cyngor yn gorfod penderfynu ar ei gyllideb ar gyfer y flwyddyn nesaf. Yn yr amgylchiadau hyn, ac er mwyn sicrhau cynllunio darbodus, rwy'n cytuno â chyngor y Pennaeth Cyllid ar gyfer y strategaeth ar gyfer y ddwy flynedd nesaf cyn dechrau ystyried sefyllfa 2018-2020.

**Y Swyddog Monitro:**
Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

**Y Pennaeth Cyllid:**
Rwyf wedi cynorthwyo'r Aelod Cabinet dros Adnoddau (Cynghorydd Peredur Jenkins) i lunio'r diweddariad yma i'r strategaeth ariannol. Gan ddisgwyl gostyngiad sylweddol arall yn ein grant erbyn 2016/17, mae'n hanfodol fod Aelodau a swyddogion yn ymlynu at ein cynlluniau presennol i gyflawni arbedion effeithlonrwydd ac i adnabod / blaenoriaethu toriadau cyllideb posibl.

Eitem 12

CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| DYDDIAD | **1 RHAGFYR 2015** |
| TEITL | **TREFNIADAU RHEOLI RISG** |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | **RHOI DIWEDDARIAD I'R PWYLLGOR ARCHWILIO AM DREFNIADAU RHEOLI RISG Y CYNGOR** |
| AWDUR | **DEWI MORGAN, UWCH REOLWR REFENIW A RISG** |
| GWEITHREDIAD | **DERBYN TROSOLWG AM Y TREFNIADAU RHEOLI RISG PRESENNOL A DERBYN DIWEDDARIAD AM DDATBLYGIADAU PELLACH** |

---

## 1. CYFLWYNIAD – BETH SYDD ANGEN I'R PWYLLGOR ARCHWILIO EI WNEUD?

1.1 Er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau fel "y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu", mae angen i'r Pwyllgor Archwilio:

- **Sicrhau ei fod yn glir am yr hyn a olygir gan "Rheoli Risg" yn y cyd-destun yma.**
- **Fod yn glir yn ei rôl yn y gyfundrefn rheoli risg, trwy dderbyn eglurhad a holi fel bo'r angen.**
- **Gymryd trosolwg o'r trefniadau rheoli risg presennol o fewn y Cyngor, gan gynnwys y drefn o ddiweddaru cofrestrau risg, a sicrhau gweithrediad lle bo'r angen.**
- **Benderfynu os ydi'r cynigion am drefniadau adrodd yn caniatáu i'r Pwyllgor i gyflawni ei rôl statudol i adolygu ac asesu trefniadau'r awdurdod ar gyfer rheoli risgiau, rheolaeth fewnol a llywodraethu corfforaethol.**

## 2. BETH A OLYGIR GAN "RHEOLI RISG"?

2.1 Yn y cyd-destun hwn, y diffiniad o risg yw ***digwyddiad sy'n effeithio ar allu i gyflawni pwrpas neu amcan***. Nid yw risg ynddo'i hun yn beth drwg – mae problemau'n codi pan mae syndod yn digwydd, a phethau'n mynd o'i le am nad oeddynt wedi cael eu rhagweld, ble y gallent fod.

2.2 Rheolaeth risg yw'r broses o adnabod risgiau, asesu'r canlyniadau a phenderfynu ar y ffordd orau i ymateb iddynt a / neu ymdrin â hwy. Mae cyfundrefn rheoli risg gadarn yn egwyddor sylfaenol mewn unrhyw fframwaith lywodraethu, ac mae methiant i arddangos fod trefniadau rheoli risg yn eu lle yn gwanhau gallu'r Cyngor i arddangos gwydnwch ei drefniadau llywodraethu oddi mewn i'r fframwaith sicrwydd ("assurance framework") ehangach.

2.3 Nid yw rheoli risg yn gyfystyr â methiant i arloesi, neu fod ofn mentro. Heb fentro a cymryd risgiau ystyrlon ni all y Cyngor ddatblygu ac ymateb i heriau. Yr hyn y mae rheoli risg yn ei wneud ydi cefnogi aelodau a swyddogion i wneud hyn trwy eu cynorthwyo i ragweld beth all ddigwydd, a defnyddio hyn i gymryd camau priodol i reoli perfformiad a sicrhau llwyddiant.

2.4 Nid yw creu cofrestrau risg cynhwysfawr ychwaith yn symptom o gyfundrefn sy'n wrthun i risg ("risk averse"), oherwydd er mwyn bod yn wrthun i risg rhaid i'r gyfundrefn wybod pa risgiau sy'n bodoli, ac yna rhoi trefniadau rheoli caeth yn eu lle er mwyn ceisio sicrhau nad oes yr un risg yn cael ei wireddu.

2.5 Mae'r trefniadau a ddisgrifir yn adroddiad yma yn ymwneud â risgiau busnes y Cyngor yn gyffredinol. Dylid nodi hefyd fod y Cyngor yn ystyried mathau penodol o risgiau a wedi rhoi trefniadau penodol yn eu lle i ddelio gyda nhw. Mae'r mathau hyn o risgiau yn cynnwys:

- Risgiau Iechyd a Diolgelwch
- Risgiau Diogelu Plant ac Oedolion
- Risgiau Gwybodaeth
- Risgau Cynllunio Argyfwng a Parhad Gwasanaeth.

2.6 Mae'r uchod i gyd yn ffitio i mewn i'r darlun ehangach o'r risgiau busnes mwy cyffredinol.

**Rôl yr Uned Risg ac Yswiriant**


2.7 Nid oes gan y Rheolwr Cydlynu Risg ac Yswiriant na'r Uwch Reolwr Refeniw a Risg gyfrifoldeb dros reoli risgiau pobl eraill. Cyfrifoldeb swyddogion yr uned fusnes, gwasanaeth neu adran yw hynny. Er hyn, mae'r Uned Yswiriant a Risg yn annog pob adran i gymryd mantais o'u gwasanaeth sydd yn cynnig:

- Canolbwynt ar gyfer rhannu ymarfer da
- Cynnig cyngor, canllawiau a chymorth wrth ddatblygu cofrestrau rheoli risg
- Darparu hyfforddiant i reolwyr neu unedau (gyda chymorth y Gwasanaeth Dysgu a Datblygu)
- Hwyluso penaethiaid a rheolwyr i sicrhau fod risgiau yn cael sylw haeddiannol gan yr unedau busnes y maent yn gyfrifol amdanynt.

2.8 Yr Uwch Reolwr Refeniw a Risg fydd yn gyfrifol am adrodd yn rheolaidd i'r Pwyllgor Archwilio am y trefniadau rheoli risg corfforaethol.

## 3. TREFN Y CYNGOR O ADNABOD, COFNODI A BLAENORIAETHU RISGIAU

3.1 Mae'r diagram isod yn rhoi trosolwg syml o'r grwpiau o risg y mae'r Cyngor yn eu wynebu:




**Risgiau Gwasanaeth / Uned**

3.2 Disgwylir y byddai risgiau dydd-i-ddydd, cymharol fychan, yn cael eu hadnabod a'u hymdrin o fewn yr uned fusnes gan y staff a'r rheolwr.

3.3 Mae rheolwyr a staff yn gyfrifol nid yn unig am adnabod y risgiau ond hefyd am weithredu camau cywiro i fynd i'r afael â diffygion mewn prosesau a rheolaethau.

**Risg Adran**

3.4 Os oes un o'r risgiau gwasanaeth / uned yn golygu y bydd angen dargyfeirio adnoddau o fewn yr Adran, os byddai canlyniadau eu gwireddu ddigon difrifol i effeithio ar enw da yr Adran neu ei allu i weithredu neu gall effeithio ar allu Pennaeth i gyflawni ei rôl statudol (lle'n berthnasol), dylid cyfeirio'r mater i sylw'r Uwch Reolwr a/neu'r Pennaeth. Bydd tîm rheoli'r adran wedyn yn ystyried os yw'r mater ddigon difrifol i'w ystyried yn **Risg Adran**, a'i gynnwys ar y **Gofrestr Risg Adrannol**. Gall y tîm rheoli adrannol hefyd gyflwyno risgiau i'r Gofrestr Risg Adrannol heb iddynt gael eu cyfeirio i fyny gan uned neu wasanaeth. Y tîm rheoli adrannol sy'n penderfynu pa swyddog yw "perchennog" y risg a ddylai arwain ar roi trefniadau lliniaru (h.y. rheolaethau mewnol) yn eu lle, ac yn nodi hynny ar y gofrestr risg adrannol.

3.5 Mae "Camu ar y Balconi" yn cynnig cyfle i'r Pennaeth arsylwi patrymau yn yr amgylchedd ehangach a phatrymau sydd dros y gorwel. Mae'r broses arsylwi yma yn cynnig cyfle i'r Pennaeth adnabod rhai risgiau nad ydynt efallai yn amlwg i swyddogion eraill yr adran, ac felly gwneud cyfraniad adeiladol a hollbwysig i'r broses.

**Risgiau Trawsadrannol**

3.6 Bydd rhai risgiau sydd yn gyffredin i bob adran, ac angen sylw trawsadrannol i ddelio â hwy. Os felly, caiff y **Risgiau Trawsadrannol** hyn eu cynnwys yn y **Gofrestr Risg Gorfforaethol**. Mae'r gofrestr risg yma hefyd yn cynnwys materion sydd yn berthnasol o ran gweithredu i un adran yn unig, ond byddai methiant i ymdrin ag ef yn cael effaith pellgyrhaeddol ar bob adran (e.e. achosi colled difrifol mewn adnoddau).

3.7 Bydd y Grŵp Rheoli (h.y. y Prif Weithredwr, Cyfarwyddwyr Corfforaethol a'r Penaethiaid Adran) yn derbyn copi o'r Gofrestr Risg Gorfforaethol pob 6 mis (oddeutu Mai a Tachwedd) er mwyn i'r Grŵp ystyried os ydi'r risgiau trawsadrannol sydd wedi eu cynnwys ynddo yn parhau'n berthnasol, os oes risgiau sydd angen eu hychwanegu, ac os yw'r blaenoriaeth gymharol a roddwyd i'r risgiau unigol yn parhau'n briodol.

**Risgiau Strategol**

3.8 Yn ogystal â risgiau trawsadrannol, mae'r Gofrestr Risg Gorfforaethol hefyd yn cynnwys **Risgiau Strategol**, sef materion tymor hir sy'n dylanwadau ar bolisïau. Bydd rhain yn risgiau sydd wedi codi ar sail asesiadau'r aelodau etholedig o gyfeiriad y Cyngor er mwyn delio â materion cymdeithasol tymor-hir, neu'n faterion sydd wedi eu hadnabod gan y Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu fel materion llywodraethu sydd angen blaenoriaeth uchel iawn.

3.9 Bydd y camau gweithredu i ymdrin â'r risgiau strategol yn ymddangos fel prosiectau yng nghynllun strategol y Cyngor, ac mae'r Paneli Cyflawni yn chwarae rôl allweddol yn cadw trosolwg ar y cynnydd sy'n cael ei wneud ar y prosiectau hyn ac, felly, yn ymdrin â'r risgiau strategol.

**Sgorio Risgiau**

3.10 Er mwyn sgorio risg, rhoddir ystyriaeth i ddau ffactor:

- Yr effaith petai'r risg yn cael ei wireddu
- Y tebygolrwydd y bydd y risg yn cael ei wireddu.

3.11 Yn unol ag ymarfer cyffredin, pan fydd risg wedi cael ei adnabod caiff ei sgorio dair gwaith:

- Maint y risg pe na bai unrhyw drefniadau lliniaru (h.y. rheolaethau mewnol) yn eu lle
- Maint y risg ar sail y trefniadau lliniaru sydd yn eu lle ar hyn o bryd
- Maint y risg petai trefniadau lliniaru pellach yn cael eu cyflwyno.


3.12 Er mwyn cadw'r drefn mor syml â phosib defnyddir system liwiau i ddangos maint cymharol risgiau, sef

- Coch – Risgiau Uchel Iawn
- Oren – Risgiau Uchel
- Melyn – Risgiau Canolig
- Gwyrdd – Risgiau Isel

3.13 Trwy ddefnyddio'r system liwiau, gellir blaenoriaethu'r sylw a roddir i'r risgiau yma, er mwyn gwneud defnydd effeithiol ac effeithlon o adnoddau'r Cyngor. Er enghraifft, mae modd gweld os ydi'r Cyngor yn defnyddio gormod o egni ar liniaru risgiau cymharol fychan, tra'n methu rhoi blaenoriaeth ddigonol i risgiau mawr.

## 4. ROLAU, CYFRIFOLDEBAU A SWYDDOGAETHAU

4.1 Mae trefniadau'r Cyngor yn ffitio'r model "Tair Llinell o Amddiffyniad". Mae'r darlun isod yn crisialu sut mae rheoli risg, archwilio ayb yn ffitio i mewn i'r model:




**Siart 1: Sut y mae'r Model "Tair Llinell" yn gweithio yn ymarferol yng Nghyngor Gwynedd**

4.2 Mae'r model Tair Llinell yn gwahaniaethu rhwng 3 grŵp neu linell, sydd i gyd â rhan i'w chwarae mewn trefniadau rheoli risg effeithiol:

- Y llinell gyntaf, sef **Swyddogaethau sy'n berchnogion risgiau ac yn eu rheoli** – rheolaeth dydd i ddydd o fewn unedau busnes
- Yr ail linell, sef **Swyddogaethau sy'n cadw trosolwg ar risgiau** – swyddogaethau corfforaethol sy'n cynnig trosolwg o safbwynt rheolaethau a chydymffurfiaeth (e.e. Cyfreithiol, Cyfrifeg, Rheoli Gwybodaeth, Iechyd a Diogelwch, Cynllunio Argyfwng a Pharhad Busnes, Rheolwyr Perfformiad)
- Y trydydd llinell, sef **Swyddogaethau sy'n cynnig sicrwydd annibynnol** – y swyddogaeth Archwilio Mewnol, neu sicrwydd annibynnol arall

4.3 Nid yw archwilwyr allanol neu reoleiddwyr yn cael eu hystyried yn rhan o'r "dair llinell". Nid yw'r prif swyddogion, y Cabinet na'r Pwyllgor Archwilio yn rhan ohonynt chwaith, gan mai hwy sydd yn derbyn sicrwydd gan y "dair llinell".

## 5. RÔL Y PWYLLGOR ARCHWILIO

5.1 Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn datgan bod rhaid i awdurdod lleol benodi pwyllgor archwilio, ac ymysg y pethau y disgwylir iddo'i wneud mae adolygu ac asesu trefniadau'r awdurdod ar gyfer rheoli risgiau, rheolaeth fewnol a llywodraethu corfforaethol (Rhan 81(1)(c)).

5.2 Mewn un ystyr, mae'r Pwyllgor wedi gwneud hynny ers ei sefydlu yn 1999 gan ei fod yn ystyried adroddiadau Archwilio Mewnol ac archwilwyr allanol, gan herio gwasanaethau'r Cyngor ynglŷn â digonolrwydd eu rheolaethau mewnol. Mae gwaith y Pwyllgor wrth asesu trefniadau llywodraethu'r awdurdod, herio'r Strategaeth Ariannol a dal adrannau i gyfrif am eu rheolaeth ariannol hefyd yn cyfrannu at y gwaith yma.

5.3 Fodd bynnag, nid yw'r Pwyllgor, hyd yma, wedi derbyn adroddiadau rheolaidd yn rhoi trosolwg am drefniadau ffurfiol y Cyngor er mwyn cadw cofrestrau o'r risgiau y mae yn eu wynebu.

5.4 Er mwyn cyflawni ei rôl ddisgwyliedig o fewn y gyfundrefn lywodraethu, mae talu sylw i drefniadau risg y Cyngor yn galluogi'r Pwyllgor Archwilio i godi proffil rheoli risgiau fel dull rheoli angenrheidiol o fewn yr awdurdod yn gyffredinol. Fel mae'r Canllawiau Statudol a wnaed o dan Fesur Llywodraeth Leol 2011 yn ei nodi, trwy adolygu'r trefniadau rheoli risg yn rheolaidd, bydd y Pwyllgor Archwilio yn cryfhau ymhellach ei rôl sylweddol o fewn strwythur llywodraethu corfforaethol yr awdurdod.

5.5 Fel nodir uchod, cyfrifoldeb "perchnogion" y risgiau yw sicrhau fod trefniadau yn eu lle er mwyn lliniaru'r risgiau fel bo'r angen. Rôl y Pwyllgor yw cymryd trosolwg, er mwyn cael sicrwydd fod trefniadau priodol yn eu lle ar draws y gyfundrefn er mwyn asesu, dadansoddi, monitro a rheoli risgiau.

5.6 Os bydd yr Uned Risg ac Yswiriant yn bryderus fod risgiau nad ydynt yn cael eu lliniaru'n ddigonol, yna byddant yn trafod y mater gyda perchnogion y risgiau; ni fyddant yn adrodd yn syth i'r Pwyllgor Archwilio. Mewn achosion eithriadol yn unig y disgwylir gorfod tynnu sylw'r Pwyllgor i risgiau unigol lle mae pryder fod methiant o fewn yr adran berthnasol i'w cymryd o ddifri a rhoi rheolaethau mewnol priodol yn eu lle.

5.7 Bydd Archwilio Mewnol hefyd yn parhau â'u gwaith o adolygu trefniadau rheoli risg a rheolaethau mewnol unedau busnes, gan adrodd i'r Pwyllgor ar ganlyniadau'r gwaith yma.

5.8 Nid cyfrifoldeb y Pwyllgor Archwilio yw delio gyda'r risgiau unigol sydd yn ymddangos ar y cofrestrau risg, ond yn hytrach derbyn sicrwydd fod trefniadau digonol yn eu lle i sicrhau fod rhywun yn gwneud. Hynny yw, ar gyfer pob risg mae enw aelod gweithredol neu swyddog wedi ei nodi fel ei "berchennog". Yr unigolyn yna sydd yn gyfrifol am:

- gadw'r risg dan adolygiad
- ystyried os oes newidiadau yn yr effaith petai'r risg yn cael ei wireddu, neu yn y tebygolrwydd o'r risg yn cael ei wireddu
- rhoi camau gweithredu yn eu lle, os oes angen, er mwyn lliniaru'r risg
- adolygu'r trefniadau lliniaru sydd yn eu lle, er mwyn penderfynu os oes rhai ohonynt yn ormodol.

5.9 Ar gyfer pob math o risg a restrir yn Rhan 3, mae trefniadau yn eu lle i sicrhau fod y perchnogion yn gweithredu yn unol â'r disgwyl. Dyma'r grwpiau o risg y mae'r Cyngor yn eu hadnabod, a sut yr ydym yn delio â'r risgiau o fewn y grwpiau hyn:

| **Math o Risg** | **Cofnodi Risgiau** | **Perchnogaeth** | **Sicrhau Gweithrediad** |
|---|---|---|---|
| Risgiau Gwasanaeth / Uned | Cofrestr Risg Uned | Rheolwyr a Staff | Rheolwyr a Staff |
| Risg Adran | Cofrestr Risg Adrannol | Swyddog penodol, fel arfer yn aelod o'r tîm rheoli adrannol | Pennaeth Adran |
| Risgiau Trawsadrannol | Cofrestr Risg Corfforathol | Swyddogion penodol | Grŵp Rheoli |
| Risgiau Strategol | Cofrestr Risg Corfforathol | Aelod Cabinet penodol | Paneli Cyflawni |

5.10 Bydd adroddiadau i'r Pwyllgor Archwilio ar y maes Rheoli Risg yn y dyfodol yn crynhoi'r gwaith sydd wedi ei wneud yn y meysydd hyn yn y cyfnod blaenorol.

## 6. DATBLYGIADAU PELLACH

6.1 Yn unol â'r prosiect Rhoi Ffordd Gwynedd ar Waith, bydd grŵp tasg o swyddogion, gan gynnwys yr Uwch Reolwr Refeniw a Risg, yn ystyried y trefniadau rheoli risg yn y misoedd nesaf er mwyn sicrhau eu bod yn parhau'n addas o fewn y diwylliant newydd y mae'r Cyngor am ei feithrin.

6.2 Yn benodol, byddwn yn ystyried sut y mae'r gyfundrefn gyfredol, a ddisgrifir yn yr adroddiad yma, yn plethu gyda'r ymarferiad o adnabod rhwystrau rhag cyflawni pwrpas unedau a rhoi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth yr ydym yn ei wneud.

6.3 Byddwn yn adrodd i'r Pwyllgor Archwilio pan fydd y gwaith yma wedi ei gyflawni.

## 7. ARGYMHELLIAD

7.1 Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio:

- **Sicrhau ei fod yn glir am yr hyn a olygir gan "Rheoli Risg" yn y cyd-destun yma.**
- **Fod yn glir yn ei rôl yn y gyfundrefn rheoli risg, trwy dderbyn eglurhad a holi fel bo'r angen.**
- **Gymryd trosolwg o'r trefniadau rheoli risg presennol o fewn y Cyngor, gan gynnwys y drefn o ddiweddaru cofrestrau risg, a sicrhau gweithrediad lle bo'r angen.**
- **Benderfynu os ydi'r cynigion am drefniadau adrodd yn caniatáu i'r Pwyllgor i gyflawni ei rôl statudol i adolygu ac asesu trefniadau'r awdurdod ar gyfer rheoli risgiau, rheolaeth fewnol a llywodraethu corfforaethol.**

| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| DYDDIAD | **1 RHAGFYR 2015** |
| TEITL | **ADRODDIAD Y GWEITHGOR GWELLA RHEOLAETHAU** |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | **ADRODD AR Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 12 TACHWEDD 2015** |
| AWDUR | **JOHN PUGHE ROBERTS, CADEIRYDD Y PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| GWEITHREDIAD | **DERBYN YR ADRODDIAD AC YSTYRIED YR ARGYMHELLION** |

---

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Cyflwynwyd crynodebau gweithredol 8 o adroddiadau i gyfarfod y Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar 24 Medi 2015, sef adroddiadau oedd wedi eu rhyddhau'n derfynol rhwng 1 Gorffennaf 2015 hyd at 11 Medi 2015. Derbyniodd 2 o'r adroddiadau hyn farn 'C'.

## 2. CYFARFOD Y GWEITHGOR

2.1 Cynhaliwyd cyfarfod y Gweithgor ar 12 Tachwedd 2015 gyda Chadeirydd y Pwyllgor a'r Cynghorwyr Angela Russell a Tom Ellis, a Luned Fôn Jones, Rheolwr Archwilio yn bresennol. Gwahoddwyd y Cynghorydd Peredur Jenkins, yr Aelod Cabinet (Adnoddau) i'r Gweithgor i drafod yr adroddiad 'Arwystl ar Eiddo preswylwyr Cartrefi'.

2.2 Yr adroddiadau a dderbyniodd sylw'r Gweithgor oedd:

| TEITL | ADRAN | GWASANAETH | BARN |
|---|---|---|---|
| Terfynu Gweithwyr oddi ar Systemau TG | Corfforaethol | | C |
| Arwystl ar Eiddo Preswylwyr Cartrefi | Oedolion, Iechyd a Llesiant | Preswyl a Dydd | C |

2.3 Mynychodd swyddogion i drafod yr adroddiadau.

**2.4 Terfynu Gweithwyr oddi ar Systemau TG**

2.4.1 Prif Ddarganfyddiadau'r archwiliad oedd:

*Nid oes dogfen swyddogol ar gyfer y trefniadau o derfynu hawliau swyddogion oddi ar systemau TG/rhwydwaith y Cyngor. Fodd bynnag mae'r ddogfen, 'Human Resources Information Security Standards' a gafodd ei lunio yn 2009 ar gael ar fewnrwyd y Cyngor. Mae'r ddogfen yn nodi'r pwysigrwydd o'r angen i ddiddymu mynediad gweithwyr petai unrhyw newid yn eu cyflogaeth h.y. "Termination of employment may be due to resignation, change of role, suspension or the end of a contract or project.", gan fod y Cyngor yn dal llawer o ddata personol a gwybodaeth gyfyngedig. Mae'r polisi hefyd yn cyfeirio at weithwyr allanol. Yn unol â'r polisi, cyfrifoldeb y Rheolwyr Llinell yw hysbysu'r Ddesg Gymorth o ddefnyddwyr newydd, newidiadau mewn rolau, ac unrhyw derfyniadau mewn perthnasedd a mynediad i systemau TG. Hefyd y Ddesg Gymorth fyddai'n hysbysu gweinyddwyr y systemau perthnasol bod angen diddymu hawliau'r defnyddwyr. Nid yw hon yn ddogfen swyddogol.*

*Gwiriwyd adroddiad o swyddogion sydd wedi gadael cyflogaeth y Cyngor yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn erbyn adroddiadau o ddefnyddwyr sampl o systemau Technoleg Gwybodaeth y Cyngor. Gwelwyd bod sawl swyddog yn parhau i fod â hawliau mynediad i'r systemau er eu bod wedi gadael cyflogaeth y Cyngor.*

*Mae gan rai o'r gweinyddwyr drefniadau eu hunain ar gyfer gwirio'r defnyddwyr sydd â mynediad i'r systemau. Nid ydynt yn derbyn cais i ddiddymu hawliau ym mhob achos. Os ydynt yn darganfod bod swyddog wedi newid swydd neu bellach ddim yn gweithio i'r Cyngor buasent yn diddymu'r hawliau. Hefyd mae modd i rai o'r gweinyddwyr wirio 'last login' y defnyddwyr, gyda threfniadau eu hunain o dynnu'r hawliau os nad ydynt yn mewngofnodi i'r system o fewn y 6 mis/blwyddyn ddiwethaf.*

*Mae gan yr Uned TG drefniadau ar gyfer adnabod cyfrifon sydd ddim yn cael eu defnyddio h.y. ddim yn mewngofnodi i'r rhwydwaith. Fel arfer mae hyn yn digwydd oherwydd bod swyddog wedi gadael cyflogaeth y Cyngor ond bod yr Uned TG heb dderbyn hysbysiad o hyn. Gwneir hyn hefyd mewn achlysuron o absenoldeb tymor hir e.e. salwch, cyfnod mamolaeth, absenoldeb di-dâl. Derbyniwyd adroddiad o gyfrifon oedd wedi eu hanablu a gwelwyd bod rhai o'r cyfrifon wedi eu hanablu ers 2005 - dylai bod y cyfrifon yma wedi cael eu dileu yn unol â'r broses. Eglurwyd bod y broses o greu adroddiadau o'r math yma yn llafurus ac yn cymryd amser swyddogion oddi wrth waith arall.*

*Yn ogystal, derbyniwyd adroddiad o weithwyr allanol sydd gyda chyfrifon ar rwydwaith y Cyngor. Caiff y gweithwyr yma fynediad at systemau Technoleg Gwybodaeth y Cyngor. Ar hyn o bryd mae 353 cyfrif gweithredol ar gyfer gweithwyr allanol. Nid oes gan y gweithwyr yma rifau cyflog gan nad ydynt yn gyflogedig gan y Cyngor ac felly nid oes modd adnabod os ydynt wedi gadael y Cyngor yn yr un modd a gyda gweithwyr arferol. Mae'n ddibynnol ar y rheolwyr llinell/swyddogion perthnasol i hysbysu nad yw'r gweithwyr hyn angen mynediad bellach. Nid yw hyn yn digwydd ym mhob achos.*

*Er bod trefniadau mewn lle, daeth i'r amlwg nad oedd llawer o reolwyr yn ymwybodol o'r angen i hysbysu'r swyddogion perthnasol o'r angen i ddiwygio hawliau gweithwyr petai angen. Nid oedd y drefn yn glir ac nid oeddynt wedi cael eu hysbysu o'r drefn. Hefyd, credir fod elfen o ddyblygu yn y ffurflenni 'Defnyddiwr Newydd' wrth ddefnyddio'r rhain i hysbysu 'newid swydd', gan fod angen cwblhau'r ffurflen gyda'r holl fanylion e.e. rhif cyflog, rhif yswiriant gwladol ar gyfer swyddogion sydd o fewn cyflogaeth y Cyngor yn barod er bod gan y Cyngor y wybodaeth yma gan eu bod yn weithwyr mewnol. Mater arall a amlygwyd oedd bod cyn-swyddogion o un adran sydd yn parhau yng nghyflogaeth y Cyngor yn parhau i gael mynediad at ffeiliau cyfrinachol.*

2.4.2 Croesawyd Huw Ynyr, Uwch Reolwr Technoleg Gwybodaeth a Thrawsnewid a Richard Gwyn Jones, Peiriannydd Diogelwch, Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth, Cyllid, i'r cyfarfod.

2.4.3 Cyflwynwyd cefndir i'r adroddiad gan y Rheolwr Archwilio. Eglurodd bod yr archwiliad wedi ei gynnwys yn y cynllun archwilio oherwydd y pwysigrwydd i sicrhau bod mynediad swyddogion i systemau'r Cyngor yn cael eu terfynu os yw'r swyddogion yn gadael cyflogaeth y Cyngor neu yn symud swydd o fewn y Cyngor. Pwysleisiodd y ffaith nad oes gan y Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth reolaeth dros yr amrywiol systemau sydd yn bodoli gan wasanaethau ond yn hytrach maent yn gyfrifol am atal mynediad i'r rhwydwaith yn dilyn cyfarwyddyd bod aelod o staff wedi gadael y Cyngor.

2.4.4 Eglurodd yr Uwch Reolwr Technoleg Gwybodaeth a Thrawsnewid bod gwendid yn y broses y tu hwnt i'r Gwasanaeth TG. Eglurodd mai y Gwasanaethau Cefnogol, Cefnogaeth Gorfforaethol sydd yn cychwyn y broses pan anfonir ffurflen terfynu i'r Gwasnaeth Cyflogau a'r Gwasnaeth Technoleg Gwybodaeth ond nad oes cywllt ar gyfer diddymu cyfrifon systemau y defnyddwyr.

2.4.5 Mynegodd bod systemau sydd yn gysylltiedig â'r 'Active Directory' megis system 'Raise' yn llawer mwy diogel na systemau eraill. Ar gyfer cael mynediad at y systemau hynny, byddai yn orfodol i hacio i mewn i rwydwaith y Cyngor ond bod hynny'n risg isel. Eglurodd bod 'Active Directory' yn fodd o liniaru risgiau a bod y Gwasanaeth yn y broses o edrych ar system 'Manager Plus' ond bod cost refeniw o £3,000 y flwyddyn ynghlwm â'r datrysiad. Eglurwyd y gall 'ADManager Plus' olrhain cyfrifon anweithredol, cyfrifon wedi eu anablu, defnyddwyr â chyfrifon wedi eu terfynu a chyfrifiaduron sydd yn yr 'Active Directory'. Gellir felly ddileu, anablu, gallluogi neu symud y cyfrifon hyn.

2.4.6 Ymholwyd pam fod cynifer o weithwyr allanol gyda mynediad at y rhwydwaith. Eglurodd yr Uwch Reolwr Technoleg Gwybodaeth a Thrawsnewid bod llawer o'r defnyddwyr wedi eu sefydlu oherwydd eu bod yn cefnogi systemau ac angen mynediad petai problem yn bodoli. Eglurodd bod opsiwn o gau cyfrif ar ôl cyfnod penodol ac y buasai hyn yn fodd o liniaru'r risg.

2.4.7 Ymholodd aelod beth oedd y trefniadau pe byddai aelod o staff ar gyfnod o salwch tymor hir. Eglurodd yr Uwch Reolwr Technoleg Gwybodaeth bod y system gyfredol yn chwilio am gyfnod o anactifedd cyn dileu unrhyw gyfrif. Fel rheol, byddent yn cyrmyd y penderfyniad i wneud cyfrif yn anactif yn hytrach na'i ddileu oherwydd bod posibilrwydd o golli gwybodaeth wrth ddileu.

2.4.8 Esboniodd y Peiriannydd Diogelwch beth oedd y drefn os yw gweithiwr yn symud swydd oddi fewn y Cyngor gan egluro bod y Gwasanaeth TG yn dileu pob mynediad/hawliau sydd ganddynt ac yn ail-gychwyn. Golyga hyn eu hawl i ddefnyddio USB, gwefannau penodol a.y.b. ond nad yw'n cynnwys mynediad i systemau megis y cyfriflyfr ariannol neu'r system gyflogau.

2.4.9 Mynegodd yr Uwch Reolwr Technoleg Gwybodaeth a Thrawsnewid y dylai'r Cyngor ystyried asedau (e.e. ffonau symudol, llechi, gliniadur) wrth derfynu swydd ynghyd ag allweddi, cardiau adnabod a.y.b. ac y dylai bod gweithdrefnau penodedig yn bodoli pan mae aelod o staff yn gadael y Cyngor.

2.4.10 Yn sgil trafodaeth ar y posibilrwydd o sefydlu cofrestr asedau ar gyfer unigolion, awgrymodd yr Aelod Cabinet (Adnoddau) bod y Pwyllgor Archwilio yn comisiynu archwiliad ar y maes hwn.

2.4.11 Ymholodd y Rheolwr Archwilio os bydd y Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth wedi sefydlu trefniadau erbyn chwarter 1 2016/17. Cadarnhaodd yr Uwch Reolwr Technoleg Gwybodaeth a Thrawsnewid y bydd trefniadau mewn llaw erbyn hynny ac ategodd y Rheolwr Archwilio y bydd archwiliad dilyniant yn cael ei gynnal ar ddiwedd chwarter 1, blwyddyn ariannol 2016/17.

2.4.12 **Diolchwyd i'r Uwch Reolwr Technoleg Gwybodaeth a Thrawsnewid a'r Peiriannydd Diogelwch am fynychu'r cyfarfod ac am egluro'r camau gweithredol sydd ar y gweill i liniaru'r risgiau o fynediad anwadurdodedig at systemau'r Cyngor.**

## 2.5 Arwystl ar Eiddo Preswylwr Cartrefi

2.5.1 Prif Ddarganfyddiadau'r archwiliad oedd:

Yn ddelfrydol, bydd pob ymdrech yn cael ei wneud gan y Cyngor i gynnig cytundeb taliadau gohiriedig i breswylwyr yn gyntaf fel bod gan y Cyngor ganiatâd i roi arwystl cyfreithiol ar yr eiddo. Os nad yw'r unigolyn neu'r cynrychiolydd yn cytuno, neu yn anwybyddu'r cynnig ac yn gwrthod gwneud taliadau am y gofal sy'n cael ei dderbyn, yna gall y Cyngor roi arwystl heb ganiatâd ar yr eiddo drwy ddefnyddio deddf HASSASSA (Health & Social Services And Social Security Adjudications Act 1983).

Mae gan y Cyngor ddyletswydd i sicrhau lleoliad i'r unigolyn mewn cartref preswyl neu nyrsio, felly bydd y Cyngor yn cychwyn talu am y gofal heb gadarnhad bod y preswylydd yn deilwng i gymorth ariannol. Gall oediadau i gynnal asesiadau ariannol a gwirio'r wybodaeth arwain at oedi pellach cyn y gellir sefydlu cytundeb, ac yn y cyfamser gall dyled sylweddol gronni. Felly, nid yw'r Cyngor yn cynnig cytundeb i'r preswylwyr, ond yn hytrach gwelwyd (fel rhan o archwiliad 'Asedau Preswylwyr Cartrefi', Mawrth 2015) y defnyddir HASSASSA cyn gynted ag y bo modd gan nad oes ffordd arall o warchod y ddyled yn yr amser mae'n cymryd i gynnal asesiadau.

Gwelir mai gwraidd y dyledion yw analluu neu anfodlonrwydd y preswylwyr neu eu perthynas agosaf i dalu'r cyfraniadau. Teimlir mai un broblem sylfaenol yn y rhan fwyaf o achosion oedd yr anawsterau oedd y Gwasanaeth Busnes yn eu profi wrth geisio derbyn ymatebion am wybodaeth gan berthnasau agosaf y preswylwyr. Fe welir bod y Gwasanaeth wedi ymdrechu i adfer y dyledion, boed hynny drwy alwadau ffôn neu drwy lythyru'r unigolion perthnasol, ond bod cysylltu â chynrychiolydd i'r cleient - boed gyda Power of Attorney neu beidio - yn profi i fod yn anodd.

Yn ogystal â'r Gwasanaeth Busnes, mae'r Gwasanaethau Incwm a Chyfreithiol yn rhan o'r broses o adennill y dyledion. Gwelwyd nad oes strategaeth cydweithio wedi ei sefydlu, ac o ganlyniad nid yw'n amlwg pwy sydd â pherchnogaeth dros y gwahanol ddyledion ar unrhyw bryd na phwy sy'n atebol. O ystyried y dystiolaeth, teimlir bod y ddyled yn cronni i swm sylweddol cyn y cymerir camau penodol i'w adfer, gan fod yr amser a gymerir i ymateb i ymholiadau rhwng swyddogion neu i drydydd parti yn weddol hir mewn rhai achosion.

Yn gyffredinol, gwelir fod cymhlethdod a sensitifrwydd y maes dan sylw yn rhoi cryn bwysau ar y Gwasanaeth Busnes wrth iddynt geisio rheoli ac adfer y sawl ddyled sydd wrth law, sydd i gyd yn wahanol yn eu natur. Heb strategaeth benodol o ran cydweithio rhwng y gwasanaethau (Busnes, Incwm a Chyfreithiol), nid oes perchnogaeth ac atebolrwydd amlwg. Ystyrir bod posibilrwydd y byddai'r buddiannau a geir trwy lwyddo i adfer y dyledion yn gorbwyso'r costau a ddaw yn sgil sefydlu'r strategaethau. Yn ogystal, darganfuwyd bod mân gamgymeriadau mewn dogfennau, gan gynnwys rhai llythyrau a anfonwyd yn allanol, a allai fod wedi cyfrannu at gynyddu'r amser a gymerir i adennill y dyledion.

2.5.2 Croesawyd Dafydd Tudur Jones, Rheolwr Adnoddau Ariannol, Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant i'r cyfarfod.

2.5.3 Eglurodd y Rheolwr Archwilio bod yr archwiliad wedi ei gynnal ar gais yr Aelod Cabinet (Adnoddau) i ymchwilio i'r cyfnod mae'n cymryd i roi arwystl cyfreithiol ar eiddo unigolion sy'n derbyn gofal mewn cartrefi preswyl. Mae hyn yn deillio o gyfanswm y dyledion sy'n gysyllteidig â phreswylwyr sy'n cael eu diddymu.

2.5.4 Bu i'r Aelod Cabinet (Adnoddau) gyflwyno sut y daeth y mater i'r amlwg pan fynychodd gyfarfod gyda'r Pennaeth Cyllid i ddileu dyledion a'r ffaith bod dyledion sylweddol yn cael eu dileu'n flynyddol. Dywedodd bod barn yr adroddiad archwilio yn cyd-fynd â'i bryderon.

2.5.5 Esboniodd y Rheolwr Adnoddau Ariannol gefndir o ran talu am ofal preswyl a nyrsio ac hefyd y polisi codi tâl am wasanaeth dibreswyl, e.e. gofal dydd. Mynegodd mai canllawiau Arweiniad ar Godi Tâl am Lety Preswyl (CRAG – Charging for Residential Accomodation Guide) sydd yn gosod y sylfaen ar gyfer codi tâl a bod y gost bresennol am ofal preswyl yng Ngwynedd yn oddeutu £585 yr wythnos ac felly nad yw'n syndod bod dyledion yn cronni'n gyflym.

2.5.7 Dywedodd yr Aelod Cabinet (Adnoddau) fod modd i'r broses o drafod arwystl fynd ymlaen am gyfnod hir iawn a bod angen trefn benodol. Cytunodd y Rheolwr Adnoddau Ariannol â'r sylw hyn ac aeth ymlaen i esbonio'r camau sydd eisoes wedi eu cymryd ers rhyddhau'r adroddiad.

2.5.8 Eglurodd y Rheolwr Adnoddau Ariannol bod trefniadau gwell wedi eu sefydlu erbyn hyn rhwng yr Uned Incwm, Cyfreithiol ac Incwm a Lles a bod trefniadau ar y gweill er mwyn ffurfioli'r prosesau ac ategodd bod y diffyg cydweithredu a chyfathrebu rhwng yr unedau yn y gorffennol wedi arwain at broblemau. Dywedodd bod y cyfarfod cyntaf wedi ei drefnu ar gyfer 18 Tachwedd 2015 ac y bydd cyfarfodydd yn cael eu cynnal ar sail reolaidd wedi hynny i drafod achosion penodol ac i gadw ffocws ar y maes gwaith ac i hybu cydweithrediad trawsadrannol.

2.5.9 **Diolchwyd i'r Rheolwr Adnoddau Ariannol am fynychu'r cyfarfod ac am ei atebion clir i egluro'r prosesau a'r trefniadau, ac am amlinellu y camau arfaethedig sydd ar droed i wella rheolaethau a thynhau gweithdrefnau.**

| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| DYDDIAD | **1 RHAGFYR 2015** |
| TEITL | **CYNNYRCH ARCHWILIO MEWNOL** |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | **AMLINELLU GWAITH ARCHWILIO MEWNOL AM Y CYFNOD HYD AT 31 HYDREF 2015** |
| AWDUR | **LUNED FÔN JONES - RHEOLWR ARCHWILIO** |
| GWEITHREDIAD | **DERBYN YR ADRODDIAD, SYLWEBU AR Y CYNNWYS A CHEFNOGI'R ARGYMHELLION SYDD EISOES WEDI'U CYFLWYNO I'R GWASANAETHAU PERTHNASOL ER GWEITHREDIAD** |

---

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r adroddiad yma yn crynhoi gwaith yr Adain Archwilio Mewnol am y cyfnod o 14 Medi 2015 hyd at 31 Hydref 2015.

## 2. GWAITH A GWBLHAWYD YN Y CYFNOD

2.1 Cwblhawyd y gwaith canlynol yn y cyfnod hyd at 31 Hydref 2015:

| **Disgrifiad** | **Nifer** |
|---|---|
| Adroddiadau am Archwiliadau o'r Cynllun Gweithredol | 6 |
| Archwiliadau Dilyniant | 1 |
| Archwiliad Ymatebol | 1 |

Ceir manylion pellach ar y gwaith yma yng nghorff yr adroddiad hwn ac yn yr atodiadau amgaeedig.

## 2.2 Adroddiadau Archwilio

2.2.1 Mae'r tabl canlynol yn gosod allan yr archwiliadau o'r cynllun a gwblhawyd yn y cyfnod hyd at 31 Hydref 2015, gan ddangos y categori barn perthnasol a chyfeiriad i'r atodiad perthnasol.

| TEITL | ADRAN | GWASANAETH | BARN | ATODIAD |
|---|---|---|---|---|
| Ysgolion – Llywodraethu | Addysg | Ysgolion | B | Atodiad 1 |
| Canolfan Hamdden Plas Ffrancon | Economi a Chymuned | Hamdden | C | Atodiad 2 |
| Canolfan Hamdden Glaslyn | Economi a Chymuned | Hamdden | B | Atodiad 3 |
| Canolfan Hamdden Penllyn | Economi a Chymuned | Hamdden | B | Atodiad 4 |
| Cefn Rodyn, Dolgellau | Oedolion, Iechyd a Llesiant | Preswyl a Dydd | C | Atodiad 5 |
| Trafnidiaeth Gyhoeddus | Rheoleiddio | Trafnidiaeth a Gofal Stryd | C | Atodiad 6 |

2.2.2 Mae categorïau barn yr adroddiadau yn datgan y canlynol:

Barn "A" Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle, a'u bod wedi eu dilyn.

Barn "B" Mae rheolaethau mewn lle, a gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol gan fod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau.

Barn "C" Ni ellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol gan na ellir dibynnu ar y rheolaethau mewn lle, ond ni ddarganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth.

Barn "CH" Ni ellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol gan nad oes rheolaethau derbyniol yn bodoli, a darganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth hyn.

## 2.3 Archwiliadau Dilyniant

2.3.1 Mae'r tabl isod yn crynhoi'r dilyniant a gwblhawyd yn ystod y cyfnod:

| TEITL | ADRAN | GWASANAETH | BARN DILYNIANT |
|---|---|---|---|
| Taliadau Uniongyrchol | Oedolion, Iechyd a Llesiant | Oedolion | Derbyniol |

2.3.2 Gosodir gwaith dilyniant mewn un o bedwar categori:

**Rhagorol** - pob un o'r argymhellion wedi ei gweithredu yn unol â'r disgwyl.
**Derbyniol** - y rhan fwyaf o'r argymhellion, gan gynnwys y mwyafrif o'r argymhellion "hanfodol", wedi eu gweithredu yn ôl y disgwyl.
**Anfoddhaol** - nifer o'r argymhellion heb eu gweithredu.
**Annerbyniol** - y mwyafrif o'r argymhellion (gan gynnwys argymhellion pwysig) heb ei gweithredu, a dim tystiolaeth o ymdrech i wella rheolaeth fewnol.

2.3.3 Mae'r rhestr isod yn dangos yr Adroddiadau Barn 'C' neu 'CH' a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio fel atodiadau i'r adroddiadau chwarterol, lle nad yw'r adroddiad dilyniant wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor eto. Mae'r rhestr yn dangos y dyddiad sy'n darged cwblhau pob un o'r archwiliadau dilyniant hyn:

**Targed Cwblhau: Chwarter yn diweddu 31 Rhagfyr 2015**
System Swyddi – Diogelwch a Chywirdeb
TG – Trefniadau Wrth Gefn a Pharhad Gwasanaeth
Taliadau Cymorth Cyntaf

**Targed Cwblhau: Chwarter yn diweddu 31 Mawrth 2016**
Iechyd Diogelwch – Gweithio'n Unig
Cynllun Datblygu Amgueddfa ac Oriel Gwynedd
Costau Teithio Gweithwyr Gofal Cymunedol

**Targed Cwblhau: Chwarter yn diweddu 30 Mehefin 2016**
Arwystl ar Eiddo Preswylwyr Cartrefi
Terfynu Gweithwyr oddi ar Systemau TG

## 2.4 Archwiliad Ymatebol

<u>Canolfan y Gwystl</u>

2.4.1 Cynhaliwyd yr archwiliad ymatebol pan dderbyniwyd cais gan Reolwr Llety â Gofal Gwynedd i Archwilio Mewnol ei gynorthwyo i adnabod y rhesymau am y gorwariant sylweddol yng nghostau cyflogau Canolfan y Gwystl yn ystod blynyddoedd ariannol 2014/15 a 2015/16. Dath y mater i'r amlwg pan dderbyniodd y Rheolwr Llety â Gofal Gwynedd gyfrifoldebau ychwanegol am wasanaethau dydd anableddau yn y flwyddyn gyfredol.

2.4.2 Edrychwyd ar wariant cyflogau ar gyfer 2014/15 a'r flwyddyn ariannol gyfredol hyd at Awst 2015 ynghyd â chymharu yr oriau a nodwyd yng nghytundebau cyflogaeth gweihwyr Canolfan y Gwystl yn erbyn manylion a echdynnwyd o'r system gyflogau/cyfriflyfr. Cymharwyd yn ogystal y rota ar gyfer swyddogion Canolfan y Gwystl yn erbyn yr oriau fel a nodir yn eu cytundebau cyflogaeth.

2.4.3 Mae rhai o'r ffactorau sydd wedi cyfrannu at y gorwariant fel a ganlyn:

- Darganfuwyd bod sawl un o'r swyddogion yn gweithio oriau sydd yn uwch na'u horiau safonol cytundebol yn rheolaidd ac y telir am yr oriau hyn ar sail amser a hanner.

- Gwelwyd bod tri Gweithiwr Cefnogol Achlysurol wedi eu cynnwys ar y rota wythnosol gydag oriau sefydlog, roedd un wedi ei nodi fel 37 awr, yr ail gyda 21.5 awr a'r trydydd yn gweithio un i un gyda defnyddiwr gwasanaeth penodol.
- Roedd y Gweithiwr Cefnogol Achlysurol a nodwyd ar y rota i weithio 37 awr wedi gweithio dros hynny mewn 70% o'r wythnoasau a wiriwyd (45 allan o 64 wythnos).

2.4.4 Ni ddylai fod gweithwyr achlysurol yn cael eu cynnwys ar y rota ac yn sicr nid gydag oriau sefydlog. Pwrpas gweithwyr achlysurol yw gweithio ar sail llanw yn ôl y gofyn e.e. pan fo swyddog arall yn sâl neu ar wyliau. Ym marn yr archwiliwr, mae'r uchod wedi cyfranu'n sylweddol at y gorwariant cyflogau.

2.4.5 Yn ogystal, gwelwyd bod gorwariant materol yn erbyn y gyllideb cludo. Awgrymwyd i'r Uwch Reolwr Gweithredol bod y Gwasanaeth yn ymchwilio i mewn i ddulliau o geisio lleihau'r gorwariant gan gynnwys ymchwilio i'r syniad o ddarparu'r gwasanaeth cludo'n fewnol.

2.4.6 I grynhoi, yn dilyn cyfarfodydd gyda'r Uwch Reolwr Gweithredol a'r Rheolwr Llety â Gofal Gwynedd i drafod canlyniadau'r ymchwiliad, cadarnhawyd y bydd yr adroddiad yn derbyn sylw buan gyda'r gobaith y gwelir gwelliant yn sefyllfa ariannol y Ganolfan yn y dyfodol agos.

## 3. GWAITH AR Y GWEILL

3.1 Roedd y gwaith canlynol ar y gweill ar 2 Tachwedd 2015.

**3.2 Archwiliadau yn mynd rhagddynt**

- Defnydd Ymgynghorwyr *(Corfforaethol)*
- Ymwybyddiaeth o Bolisi Canu'r Gloch - Gweithwyr Llaw *(Corfforaethol)*
- Asesiad Corfforaethol *(Corfforaethol)*
- Rhoddion a Lletygarwch Swyddogion - Gwasanaethau Risg Uchel *(Corfforaethol)*
- Gwaith Atal Twyll ac Atal Llygredigaeth Rhagweithiol *(Corfforaethol)*
- Llywodraethu Gwybodaeth – Deddf Diogelu Data *(Corfforaethol)*
- Y Fenter Twyll Genedlaethol *(Corfforaethol)*
- Grant Partneriaeth Ddysgu Gwynedd ac Ynys Môn *(Addysg)*
- Arlwyaeth Ysgolion *(Addysg)*
- Modelu'r Gweithlu *(Addysg)*
- Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru
- System Dyledwyr – Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol *(Cyllid)*
- System Taliadau – Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol *(Cyllid)*
- Cysoni Banc – Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol *(Cyllid)*
- System Gyflogau – Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol *(Cyllid)*
- Cronfa Bensiwn – Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol *(Cyllid)*
- Budd-daliadau – Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol *(Cyllid)*
- Treth Cyngor – Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol *(Cyllid)*
- Trethi Busnes – Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol *(Cyllid)*
- Canolfan Hamdden Arfon *(Economi a Chymuned)*
- Academi Hwylio *(Economi a Chymuned)*
- Gofal Cartref *(Oedolion, Iechyd a Llesiant)*
- Llywodraethu trefniadau cydweithio gyda'r trydydd sector *(Oedolion, Iechyd a Llesiant)*
- Rhaglenni Hyfforddiant Gweithwyr Gofal *(Oedolion, Iechyd a Llesiant)*
- Plas y Don, Pwllheli *(Oedolion, Iechyd a Llesiant)*
- Plas Hedd, Bangor *(Oedolion, Iechyd a Llesiant)*
- Hafod Mawddach, Abermaw *(Oedolion, Iechyd a Llesiant)*
- Cynnal a chadw adeiladau a safleoedd *(Priffyrdd a Bwrdeistrefol)*
- Arolygiadau *(Priffyrdd a Bwrdeistrefol)*
- Pont Briwet *(Rheoleiddio)*
- Incwm Meysydd Parcio *(Rheoleiddio)*

## 4. ARGYMHELLIAD

4.1 Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn yr adroddiad hwn ar waith yr Adain Archwilio Mewnol am y cyfnod o 14 Medi 2015 hyd at 31 Hydref 2015, sylwebu ar y cynnwys yn ôl dymuniad yr aelodau, a chefnogi'r argymhellion sydd eisoes wedi'u cyflwyno i reolwyr y gwasanaethau perthnasol er gweithrediad.

Atodiad 1

## YSGOLION – LLYWODRAETHU
## ADDYSG

Cefndir

Mae'r Corff Llywodraethu yn gyfrifol am gyfeiriad cyffredinol yr Ysgol a'r modd y caiff ei rheoli'n strategol. Bydd Adran Addysg y Cyngor yn cadw cofnod ar fas-data o bob un o'r oddeutu 1,400 o Lywodraethwyr sydd yma yng Ngwynedd. Mae cymorth ar gael i'r Llywodraethwyr gan yr Adran Addysg a fydd yn trefnu a darparu hyfforddiant mandadol a dewisol ar eu cyfer. Mae Offerynnau Statudol y Llywodraeth yn nodi dyletswyddau'r Corff Llywodraethu dan Reoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005 a Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Gofynion Hyfforddi ar gyfer Llywodraethwyr) (Cymru) 2013.

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod trefniadau cadarn mewn lle ar gyfer cynnig hyfforddiant i Lywodraethwyr Ysgolion Cyngor Gwynedd a sicrhau eu bod yn mynychu'r hyfforddiant.

Cwmpas yr Archwiliad

Trafodaethau gyda'r Adran Addysg a gwirio'r trefniadau i sicrhau bod hyfforddiant, dogfennau a chymorth ar gael i Lywodraethwyr Ysgolion Gwynedd.

Prif Ddarganfyddiadau

Gwelwyd bod trefniadau cyffredinol da gan yr Adran Addysg ar gyfer rhoi cymorth a darparu hyfforddiant i Lywodraethwyr ysgolion. Gwelwyd bod cyfansoddiad priodol yn bodoli ar gyfer y Cyrff Llywodraethu. Cafwyd cadarnhad bod gwybodaeth angenrheidiol yn cael ei anfon at sylw'r Adran Addysg gan glercod y Corff Llywodraethu perthnasol; megis gwybodaeth cyfredol am aelodau'r Cyrff Llywodraethu perthnasol.

Mae hyfforddiant mandadol priodol yn cael ei ddarparu sef 'Rôl y Cadeirydd', 'Rôl y Clerc', 'Dehongli data' ac 'Anwytho Llywodraethwyr newydd'. Hefyd mae hyfforddiant dewisol yn cael ei gynnig yn ystod y flwyddyn e.e. ar gyfer 2015/16 mae'r cyrsiau canlynol yn cael eu cynnig: 'Gormodedd a Chyllid', 'Delio â Chwynion', 'Gweithdy ar faterion Adnoddau Dynol', 'Llywodraethu Effeithiol' a 'Diogelu Plant' (cwrs 'Diogelu Plant' yn cael ei gynnig ar y we).

Gwelwyd bod hyfforddiant yn cael ei gynnig yn rheolaidd, ac ers Gorffennaf 2015 mae modd cwblhau rhai hyfforddiant mandadol a dewisol ar y we. Fodd bynnag, mae angen sicrhau bod y dull yma o gyflwyno hyfforddiant oherwydd ei fod yn ei gyfnod cychwynnol, gyda'r modd o adnabod y sawl sydd wedi ei gwblhau fel y gellir diweddaru'r cofnodion hyfforddiant yn briodol.

Mae trefniadau mewn lle i gofrestru Llywodraethwyr ar gyfer hyfforddiant mandadol a dewisol gan yr Adran Addysg. Ar adeg yr archwiliad roedd ambell i fater wedi codi gyda'r bas-data lle cofnodir manylion y cyrsiau a fynychwyd gan y Llywodraethwyr, megis methiant i gynhyrchu adroddiadau o'r bas-data yn manylu ar bwy oedd heb fynychu hyfforddiant mandadol yn ystod y flwyddyn 2014/15. Golyga hyn nad oedd yn bosibl cadarnhau os oedd pob Llywodraethwr perthnasol wedi mynychu'r cyrsiau mandadol.

Os nad yw'r Llywodraethwyr yn mynychu'r hyfforddiant mandadol, nid ydynt yn deilwng i fod yn y swydd yn unol â Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Gofynion Hyfforddi ar gyfer Llywodraethwyr) (Cymru) 2013 a Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Clerc i Gorff Llywodraethu) (Cymru) 2013 gan nad ydynt yn gwybod beth yw eu rolau a'u dyletswyddau oddi fewn y corff llywodraethu a gall hyn arwain at fethiant i reoli'r ysgol yn gywir a phriodol.

<u>**Barn yr Archwiliad**</u>

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb yn nhrefniadau rheolaethol Ysgolion – Llywodraethu gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid datrys y problemau gyda'r bas-data, er mwyn galluogi'r Cymhorthydd Cefnogi Llywodraethu i adnabod y Llywodraethwyr sydd heb fynychu cyrsiau mandadol o fewn yr amser penodol.**
- **Dylid sefydlu trefn briodol o ddelio gyda'r Llywodraethwyr hynny sydd heb fynychu'r hyfforddiant mandadol, drwy gysylltu gyda'r Cadeiryddion neu'r Clercod i'w hysbysu bod angen i'r Llywodraethwyr fynychu'r hyfforddiant mandadol ac os yw'r Llywodraethwyr yn parhau i beidio mynychu, yna bod trefniadau diswyddo yn cael eu hystyried.**

**PLAS FFRANCON, BETHESDA**
**ECONOMI A CHYMUNED**

Cefndir
Mae canolfannau hamdden Cyngor Gwynedd o fewn y gwasanaeth Cymunedau Iach, sydd yn rhan o'r Adran Economi a Chymuned. Mae trefniadau rheoli'r canolfannau wedi newid yn lled ddiweddar, ac erbyn hyn ceir 4 Rheolwr Ardal sydd rhyngddynt yn gyfrifol am reoli canolfannau'r sir.

Mae gan Gyngor Gwynedd 13 o ganolfannau hamdden o fewn cyffiniau'r sir, gyda 6 wedi'u lleoli yn Arfon, 2 yn Nwyfor a 5 ym Meirionnydd. Mae Canolfan Hamdden Plas Ffrancon yn darparu nifer o wasanaethau i'r cwsmeriaid, gan gynnwys ystafell ffitrwydd, neuadd chwaraeon a chae pob tywydd.

Bwriad yr Archwiliad
Sicrhau fod trefniadau yn bodoli yn y Canolfan Hamdden, er mwyn rheoli a lliniaru risgiau'n briodol, ac i sicrhau cydymffurfiaeth â gweithdrefnau mewnol y Cyngor a gweithdrefnau perthnasol eraill.

Cwmpas yr Archwiliad
Ymwelwyd â'r Ganolfan i gynnal archwiliad, er mwyn sicrhau bod trefniadau priodol dros gasglu incwm, rheolaeth gyllidebol ac iechyd a diogelwch yn bodoli ar gyfer rheoli amrywiaeth o risgiau.

Prif Ddarganfyddiadau
Y pryderon mwyaf a ddarganfuwyd yn ystod yr archwiliad oedd y diffyg rheolaeth dros drefniadau bancio, a'r methiant o godi anfonebau ar gyfer cwsmeriaid sy'n llogi cyfleusterau'r Ganolfan.

Un o feysydd mwyaf arwyddocaol yr archwiliad oedd y drefn bancio ar ddiwedd y diwrnod gwaith, ble gwelwyd fod llawer o gamgymeriadau ar draws yr amrywiol ddogfennau sy'n cael eu creu wrth gyflawni'r dasg. Gwelwyd bod llawer o ddefnydd o gyfeireb Gwarged/Diffyg y cyfriflyfr (cod 8264, cod byr 'J'), er bod y balans terfynol yn isel ar ddiwedd 2014/15. Disgwylir nad oes llawer o ddefnydd o'r gyfeireb hon ymysg y canolfannau, ac yn ddelfrydol ni fyddai llawer o eitemau â gwerth mwy na +/-£3.00 i'w gweld arno. Wrth edrych ar y trafodion unigol, gwelir fod yna bron i 300 ohonynt ar y cyfriflyfr ar gyfer 2014/15, a dros 70 ar gyfer 2015/16 hyd at ddechrau Gorffennaf 2015. Golyga hyn bod nifer o gamgymeriadau yn cael eu gwneud yn y Ganolfan.
Ystyriwyd hefyd y defnydd o gyfrifiaduron y Ganolfan fel rhan o'r archwiliad. Defnyddir y system Gladstone ac fe gynhyrchir adroddiadau mewn-/allgofnodi o'r system yn fisol ers Ionawr 2015. Wrth archwilio'r adroddiadau, gwelwyd bod angen tynhau ar achosion ble mae staff yn mewngofnodi ar fwy nag un peiriant, ac o bosib ddim yn allgofnodi ar ddiwedd pob shifft.
Wrth ymweld â'r Ganolfan ni lwyddwyd i dderbyn tystiolaeth bod trefniadau cadarn wedi eu sefydlu ar gyfer anfonebu defnyddwyr y Ganolfan am ddefnydd o'r gwasanaethau.

Archwiliwyd hefyd y trefniadau wrth ddelio gyda phecynnau debydau uniongyrchol aelodau'r Ganolfan. Mae'r pecynnau'n cynnwys manylion y cwsmeriaid, ac fe'u hystyrir i fod yn wybodaeth o natur sensitif. Cedwir y manylion mewn cwpwrdd dan glo yn y Ganolfan. Fodd bynnag, nid oes trefn mewn bodolaeth o anfon y wybodaeth i Gaernarfon gan ddefnyddio gwasanaeth 'danfoniad wedi ei gofnodi', er bod y wybodaeth yn bersonol a sensitif.

Mae gan y Ganolfan set o asesiadau risg cyfredol, sy'n cynnwys fersiynau penodol ar gyfer y gwahanol ystafelloedd, gweithgareddau a chategorïau o bobl, a gwelir bod y rhain yn cynnwys y manylion a ddisgwylir. Gwelwyd hefyd fod gan y Gwasanaeth Cymunedau Iach gofrestr risg ar wahân, sy'n cyfeirio at y risgiau sy'n gysylltiedig â'r canolfannau hamdden. Gwelir fod bylchau yn y wybodaeth a gyflwynir yn y gofrestr, ond eglurwyd bod bwriad i'w diweddaru ddiwedd y flwyddyn.

<u>**Barn yr Archwiliad**</u>

**(C) Barn yr Archwiliad yw na ellir datgan sicrwydd o briodoldeb yn nhrefniadau Canolfan Hamdden Plas Ffrancon, Bethesda gan na ellir dibynnu ar y rheolaethau mewn lle, ond ni ddarganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Sicrhau bod gwahaniad dyletswyddau yn bodoli wrth gyflawni'r bancio, drwy wneud yn siŵr bod 2 swyddog yn gwirio'r ffigyrau ar y dogfennau yn annibynnol cyn eu hardystio, ac yn gwneud gwiriadau pellach pe na bai'r 2 swyddog yn dod i'r un canlyniad.**
- **Sicrhau fod ffurflenni Derbyniadau a Bancio (TR34) yn cael eu hanfon i'r Gwasanaeth Refeniw yn amserol, fel nad oes oediad hir cyn bod yr incwm yn dangos yn y cyfriflyfr.**
- **Ystyried casglu arian o'r peiriant poteli diod a'r bwrdd pŵl yn fwy aml, er mwyn i'r incwm gael ei ddangos yn y cyfrifon yn amserol ac er mwyn rheoli'r risg o ladrad.**
- **Dylid sicrhau nad yw lefelau stoc y poteli diod yn cyrraedd sero, drwy gynnal gwiriadau stoc rheolaidd ac archebu stoc pan fo angen.**
- **Sicrhau bod trefniadau priodol yn cael eu sefydlu i sicrhau bod defnydd minimal o'r gyfeireb Gwarged/Diffyg (cod 8264).**
- **Sicrhau bod pob aelod o staff yn allgofnodi ar ddiwedd pob shifft, a chyn mewngofnodi ar gyfrifiadur arall.**
- **Ble bo'n berthnasol, sicrhau bod naill ai ffurflen Trosglwyddiad Mewnol (TR296) neu anfoneb swyddogol (ar gyfer cwsmeriaid 3ydd parti) yn cael eu codi yn brydlon ar gyfer pob ffurflen 'Cais i Logi'.**
- **Gan fod y wybodaeth ynglŷn ag aelodaeth / debydau uniongyrchol a anfonir i Gaernarfon o natur sensitif, dylid ystyried a ddylid eu hanfon drwy ddefnyddio'r gwasanaeth 'danfoniad wedi ei gofnodi', yn hytrach na 'dosbarth cyntaf' yn unig. Dylid yn bennaf ystyried y goblygiadau petai'r wybodaeth yn digwydd mynd ar goll.**
- **Dylid sicrhau bod gwybodaeth sensitif bersonol ar ffurflenni HS11 yn cael eu cadw dan glo i gyd-fynd â gofynion y Ddeddf Diogelu Data.**

Atodiad 3

**CANOLFAN HAMDDEN GLASLYN, PORTHMADOG**
**ECONOMI A CHYMUNED**

Cefndir

Mae Canolfannau Hamdden Cyngor Gwynedd o fewn y gwasanaeth Cymunedau Iach, sydd yn rhan o'r Adran Economi a Chymuned. Mae trefniadau rheoli'r Canolfannau wedi newid yn lled ddiweddar, ac erbyn hyn ceir 4 Rheolwr Ardal sydd rhyngddynt yn gyfrifol am reoli Canolfannau'r sir.

Mae Cyngor Gwynedd yn rhedeg 13 o Ganolfannau Hamdden o fewn cyffiniau'r Sir, gyda 6 wedi'u lleoli yn Arfon, 2 yn Nwyfor a 5 ym Meirionnydd. Mae Canolfan Hamdden Glaslyn yn darparu nifer o wasanaethau i'w gwsmeriaid megis pwll nofio, ystafell ffitrwydd a chodi pwysau, cyrtiau chwaraeon o dan do a cae pob tywydd.

Bwriad yr Archwiliad

Sicrhau fod trefniadau yn bodoli yn y Ganolfan Hamdden, er mwyn rheoli a lliniaru risgiau'n briodol, ac i sicrhau cydymffurfiaeth â gweithdrefnau mewnol y Cyngor a gweithdrefnau perthnasol eraill.

Cwmpas yr Archwiliad

Ymweld â'r Ganolfan i gynnal archwiliad, er mwyn sicrhau bod trefniadau priodol dros gasglu incwm, rheolaeth gyllidebol ac iechyd a diogelwch yn bodoli ar gyfer rheoli amrywiol o risgiau.

Prif Ddarganfyddiadau

Gwelwyd bod tystiolaeth gref iawn o ymarfer da a rheolaeth gadarn mewn lle yng Nghanolfan Hamdden Glaslyn, er mwyn lliniaru ystod o risgiau yng ngweinyddiaeth a rheolaeth y Ganolfan. Fodd bynnag, gwelwyd bod rhai o'r meysydd a archwiliwyd angen sylw pellach.

Gwiriwyd y gyfeireb gwarged/diffyg (8264) yn y cyfriflyfr er mwyn sicrhau nad oedd defnydd helaeth o'r gyfeireb. Wrth edrych ar y trafodion unigol, gwelwyd bod 233 o drafodion wedi eu gwneud yn ystod y flwyddyn 2014/15 a 17 wedi eu gwneud hyd at 13/08/2015 yn y flwyddyn ariannol 2015/16. Golyga hyn fod nifer o gamgymeriadau yn cymryd lle yn y Ganolfan a chanlyniad hyn yw bod incwm ddim yn cael ei gyfeirebu i'r cyfeireb cywir yn y cyfriflyfr gan nad yw'n bosibl adnabod yr incwm. Mae angen lleihau'r niferoedd o drafodion ar y cyfrif gwarged / diffyg er mwyn gallu cyfeirbu'r incwm yn gywir yn y cyfriflyfr.

Mynegodd y Swyddog Cysoni a Gweinyddiaeth, y Gwasanaeth Refeniw bod pryderon yn codi gyda phrydlondeb anfon derbyn ffurflenni TR34 'Derbyniadau a Bancio' y Ganolfan, gyda'r ffurflenni yn cael eu hanfon i mewn yn hwyr. Yn yr wythnosau diwethaf mae'r Gwasanaeth Refeniw wedi dechrau stampio'r ffurflenni TR34 i fonitro prydlondeb derbyn y ffurflenni.

Derbyniwyd manylion dyledwyr y Ganolfan gan y Gwasanaeth Refeniw a gwelwyd bod cyfanswm y dyledion yn £8,250.28 ar 08/06/2015 gyda nifer o ddyledion cyfwerth ag £7,000 heb eu talu gan denantiaid caffi y Ganolfan.

Mae'r Uwch Dderbynnydd Rhan Amser yn gyfrifol am reoli ddebydau uniongyrchol aelodau'r Ganolfan. Gwelir ei bod yn gwneud copi o'r telerau a'r amodau ynghyd â'r ffurflen aelodaeth a'u hanfon ymlaen i'r Swyddog Cefnogi Busnes yn y Ganolfan Tennis yng Nghaernarfon. Caiff y dogfennau eu hanfon yn syth drwy'r post i'r Swyddog Cefnogi Busnes. Nid oes trefn mewn bodolaeth ar gyfer anfon y wybodaeth gan ddefnyddio gwasanaeth 'danfoniad wedi ei gofnodi' yn hytrach fe'i hanfonir drwy'r gwasanaeth post arferol, serch bod y wybodaeth yn bersonol a sensitif. Os derbynnir ceisiadau debydau uniongyrchol ar ddiwedd y dydd, bydd y wybodaeth yn cael ei gadw dan glo.

Mae'r Ganolfan yn cadw adroddiadau digwyddiad ar gyfer cofnodi manylion damweiniau a ddigwyddir yn y Ganolfan yn ogystal â cwblhau ffurflenni HS11 ar gyfer damweiniau difrifol. Ni chedwir yr adroddiadau digwyddiad na'r ffurflenni HS11 dan glo. Golyga hyn bod risg i wybodaeth bersonol am unigolion gyrraedd y dwylo anghywir.

<u>Barn yr Archwiliad</u>

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb yn nhrefniadau rheolaethol Canolfan Hamdden Glaslyn gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Sicrhau bod trefniadau priodol yn cael eu sefydlu i sicrhau bod defnydd minimal o'r cyfrif Gwarged/Diffyg (cod 8264).**
- **Sicrhau fod ffurflenni TR34 'Derbyniadau a Bancio' yn cael eu hanfon i'r Gwasanaeth Refeniw yn amserol, fel nad oes oediad hir cyn bod yr incwm yn ymddangos yn y cyfriflyfr.**
- **Dylid adolygu dyledion y Ganolfan a cheisio eu datrys yn brydlon.**
- **Gan fod y wybodaeth debydau uniongyrchol a anfonir i Gaernarfon o natur sensitif, dylid ystyried a ddylid eu hanfon drwy ddefnyddio gwasanaeth 'danfoniad wedi ei gofnodi', yn hytrach na 'dosbarth cyntaf' yn unig. Dylid yn bennaf ystyried y goblygiadau petai'r wybodaeth yn digwydd mynd ar goll.**
- **Dylid sicrhau bod gwybodaeth sensitif bersonol ar ffurflenni HS11 ac Adroddiadau Digwyddiad yn cael eu cadw dan glo i gyd-fynd â gofynion y Ddeddf Diogelu Data.**

Atodiad 4

**CANOLFAN HAMDDEN PENLLYN , BALA**
**ECONOMI A CHYMUNED**

Cefndir

Mae Canolfannau Hamdden Cyngor Gwynedd o fewn y gwasanaeth Cymunedau Iach, sydd yn rhan o'r Adran Economi a Chymuned. Mae trefniadau rheoli'r Canolfannau wedi newid yn lled ddiweddar, ac erbyn hyn ceir 4 Rheolwr Ardal sydd rhyngddynt yn gyfrifol am reoli Canolfannau'r Sir.

Mae Cyngor Gwynedd yn rhedeg 13 o Ganolfannau Hamdden o fewn cyffiniau'r Sir, gyda 6 wedi'u lleoli yn Arfon, 2 yn Nwyfor a 5 ym Meirionnydd. Mae Canolfan Hamdden Penllyn yn darparu nifer o wasanaethau i'w gwsmeriaid megis pwll nofio, ystafell ffitrwydd a neuadd chwaraeon.

Bwriad yr Archwiliad

Sicrhau fod trefniadau yn bodoli yn y Ganolfan Hamdden, er mwyn rheoli a lliniaru risgiau'n briodol, ac i sicrhau cydymffurfiaeth â gweithdrefnau mewnol y Cyngor a gweithdrefnau perthnasol eraill.

Cwmpas yr Archwiliad

Ymweld â Chanolfan Hamdden Penllyn i gynnal archwiliad, er mwyn sicrhau bod trefniadau priodol dros gasglu incwm, rheolaeth gyllidebol a iechyd a diogelwch yn bodoli ar gyfer rheoli amrywiol o risgiau.

Prif Ddarganfyddiadau

Gwelwyd bod tystiolaeth o ymarfer da a rheolaeth gadarn mewn lle yng Nghanolfan Hamdden Penllyn, er mwyn lliniaru ystod o risgiau yng ngweinyddiaeth a rheolaeth y Ganolfan. Fodd bynnag, gwelwyd bod nifer o'r meysydd a archwiliwyd angen sylw pellach.

Gwiriwyd y gyfeireb gwarged / diffyg (8264) yn y cyfriflyfr er mwyn sicrhau nad oedd defnydd helaeth o'r gyfeireb. Wrth edrych ar y trafodion unigol, gwelwyd bod 231 o drafodion wedi eu gwneud yn ystod flwyddyn ariannol 2014/15, a 153 wedi eu gwneud hyd at 10/08/15 yn flwyddyn ariannol 2015/16. Golyga hyn fod nifer o gamgymeriadau yn cymryd lle yn y Ganolfan. Mae angen lleihau'r niferoedd o drafodion a gaiff eu cyfeirebu i'r cyfrif gwarged / diffyg drwy sicrhau bod trefniadau cysoni diwedd dydd yn cael eu dilyn ac yn briodol.

Archwiliwyd sampl o 3 adroddiad misol "log in, log out" a gynhyrchiwyd yn 2014/15 a 2015/16. Gwelwyd bod adroddiad mis Awst 2014 wedi cael ei gynhyrchu ym mis Tachwedd 2014 ac wedi ei arwyddo a'i ddyddio yr un adeg. Wrth archwilio'r adroddiadau, gwelwyd bod aelodau o staff ar rai achlysuron yn mewngofnodi ar fwy nag un peiriant (heb fod wedi allgofnodi o'r peiriant gwreiddiol).

Archwiliwyd sampl o ffurflenni "Cais i Logi Cyfleusterau" a gwirio fod "Cais i Godi Anfoneb" wedi cael ei gwblhau ar eu cyfer yn brydlon. Gwelwyd nad oedd yr un anfoneb wedi cael ei chodi yn brydlon, ond yn hytrach, nifer o fisoedd yn ddiweddarach. Mae angen codi anfonebau yn brydlon pob amser, er mwyn cael trefniadau casglu incwm effeithlon. Roedd cyfanswm dyledion y Ganolfan yn £6,637.10 ar 08/06/15. Mae £3,500 o'r dyledion yma yn perthyn i denantiaid caffi'r Ganolfan.

Mae'r cytundebau aelodaeth sydd yn ymwneud â debydau uniongyrchol sydd wedi eu harwyddo gan aelodau'r Ganolfan yn cael eu cadw mewn ffeil gyda'i gilydd ond nid dan glo. Golyga hyn bod risg i wybodaeth bersonol am unigolion gyrraedd y dwylo anghywir. Mae pecynnau debydau uniongyrchol yn cael eu darparu gan staff y Ganolfan. Gwelwyd bod gwybodaeth sensitif iawn yn cael ei roi ar y ffurflenni ac os oes raid cadw'r wybodaeth cyn ei anfon ymlaen i Gaernarfon bydd yn cael ei gadw dan glo yn y ddiogell. Nid oes trefn mewn bodolaeth o anfon y wyboaeth i Gaernarfon drwy ddefnyddio gwasanaeth 'danfoniad wedi ei gofnodi', er bod yr wybodaeth yn bersonol a sensitif.

Gwelwyd bod y ffeil sy'n cynnwys manylion damweiniau a ffurflenni HS11 yn cael eu gadw ar silff yn ystafell y Rheolwr ar Ddyletswydd. Golyga hyn bod risg i wybodaeth bersonol am unigolion gyrraedd y dwylo anghywir. Mae staff y Ganolfan yn ymwybodol o'r angen i anfon y wybodaeth at yr Uned Iechyd a Diogelwch. Fodd bynnag, mynegodd y Swyddog Iechyd a Diogelwch bod y Ganolfan yn dueddol o adrodd ond ar y digwyddiadau mwyaf difrifol yn unig.

<u>Barn yr Archwiliad</u>

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb yn nhrefniadau rheolaethol Canolfan Hamdden Penllyn gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Sicrhau bod trefniadau priodol yn cael eu sefydlu i sicrhau bod defnydd minimal o'r cyfrif Gwarged/Diffyg (cod 8264).**
- **Sicrhau bod pob aelod o staff yn allgofnodi ar ddiwedd pob shifft, a chyn mewngofnodi ar gyfrifiadur arall.**
- **Byddai'n ymarfer da rhannu gwybodaeth am dargedau a perfformiad y Ganolfan gyda staff y Ganolfan o bryd i'w gilydd, fel bod staff yn ymwybodol o dargedau a pherfformiad y Ganolfan.**
- **Ble bo'n berthnasol, sicrhau bod naill ai ffurflen Trosglwyddiad Mewnol (TR296) neu anfoneb swyddogol (ar gyfer cwsmeriaid 3ydd parti) yn cael eu codi yn brydlon ar gyfer pob ffurflen 'Cais i Logi'.**
- **Dylid sicrhau bod rhif anfoneb a'r dyddiad yn cael ei nodi yn y man perthnasol ar y ffurflen 'Cais i Logi', fel bod modd paru yr anfoneb gywir â'r 'Cais i Logi'.**
- **Dylid adolygu dyledion y Ganolfan a cheisio eu datrys yn brydlon.**
- **Dylid sicrhau bod unrhyw wybodaeth sydd yn ymwneud â debydau uniongyrchol aelodau'r Ganolfan yn cael eu cadw dan glo.**
- **Gan fod y wybodaeth debydau uniongyrchol a anfonir i Caernarfon o natur sensitif, dylid ystyried a ddylid eu hanfon drwy ddefnyddio gwasanaeth 'danfoniad wedi ei gofnodi', yn hytrach na 'dosbarth cyntaf' yn unig. Dylid yn bennaf ystyried y goblygiadau petai'r wybodaeth yn digwydd mynd ar goll.**
- **Dylid sicrhau bod gwybodaeth sensitif bersonol ar ffurflenni HS11 yn cael ei cadw dan glo i gyd-fynd a gofynion Deddf Diogelu Data.**

Atodiad 5

**CEFN RODYN, DOLGELLAU**
**OEDOLION, IECHYD A LLESIANT**

Cefndir

Mae Cartref Cefn Rodyn wedi ei leoli yn Nolgellau ac yn cynnig gofal parhaol a thymor byr i breswylwyr.

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau ariannol Cartref Cefn Rodyn yn briodol ac yn unol â Rheolau Gweithdrefn Ariannol y Cyngor ynghyd â gwirio trefniadau diogelwch a rheolaeth meddyginiaeth.

Cwmpas yr Archwiliad

Archwiliwyd prif feysydd gwariant ac incwm yn ôl y cofnod yng nghyfriflyfr 2014-15 ynghyd â threfniadau rheolaeth y Cartref. Archwiliwyd trefniadau meddyginiaeth y Cartref i sicrhau eu bod yn unol â rheoliadau, deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol.

Prif Ddarganfyddiadau

Yn ystod yr archwiliad darganfuwyd enghreifftiau o ymarfer da mewn rhai o drefniadau'r Cartref. Fodd bynnag, ymddengys bod enghreifftiau o weithredu yn groes i drefniadau gweinyddol y Cyngor ac o ganlyniad i'r Rheolau Gweithdrefn Ariannol.

Roedd gwariant y cartref yn fwy na'r gyllideb a osodwyd yn ystod y flwyddyn ariannol 2014/15 yn y meysydd canlynol: eiddo; trafnidiaeth a gwasanaethau a chyflenwadau.
Nid oedd archebion yn cael eu defnyddio yn y modd cywir gan fod 5 wedi eu cwblhau ar ôl dyddiad yr anfoneb ac felly'n eu gwneud yn ddibwys. Nid oedd cofnod derbyn y nwyddau/gwasanaeth wedi ei nodi ar 2 o'r archebion ac nid oedd cost amcangyfrif wedi ei nodi o gwbl ar yr archebion yn y sampl. Gwelwyd bod rhai o'r blychau ar y ffurflenni TR252 yn cael eu cwblhau'n ddiangen e.e. blychau rhanbarth a stoc wedi eu harwyddo ar gyfer anfoneb cyflenwad trydan. Nid oedd stamp "derbyniwyd" ar yr anfonebau yn y sampl a ddetholwyd.

Mae'n ofynnol bod y taflenni 'Cofnod o Arian Preswylydd' yn cael eu llofnodi gan ddau berson ar gyfer pob gwariant o arian poced y preswylwyr. Roedd dau achos lle gwelwyd mai ond un person oedd wedi arwyddo'r daflen. Cymerwyd sampl o daflenni 'eitemau personol' o Gynlluniau Gofal 4 o'r preswylwyr a'u gwirio. Roedd llofnod a dyddiad ar ddwy o'r ffurflenni hyn yn unig.

Nid oedd cofnodion cyfrif mwynderau'r cartref yn gyflawn gan nad oedd yr holl incwm a dderbyniwyd wedi ei gofnodi. Gwelwyd bod costau trwydded teledu yn cael ei dalu o'r cyfrif mwynderau er bod cyfrif ar ei gyfer yng nghyllideb y cartref (4807 - Trwyddedau Cyffredinol). Gwiriwyd ffurflenni TR34 ar gyfer incwm a dderbyniwyd, a gwelwyd mai'r Clerc yn unig sydd yn eu llofnodi – nid oedd cofnod o wiriad gan ail-berson. Roedd un ffurflen heb lofnod o gwbl.

Gwiriwyd cyfrif imprest y cartref ar gyfer 2014/15 a gwelwyd bod gwariant dros y lefel uchaf o'r cyfrif sef £170 wedi digwydd ddwywaith. Nid oedd derbynebau ar gyfer nifer o'r taliadau ond roedd ffurflen TR24b wedi ei defnyddio. Nid oedd y ffurflenni wedi eu harwyddo na'u hawdurdodi mewn sawl achos.

Gwelwyd rhai camgymeriadau yn hawliau gwyliau'r staff, gan amlaf oherwydd bod ganddynt dros 5 mlynedd o wasanaeth di-dor ond bod hyn heb ei ystyried wrth gyfrifo'r oriau. Hefyd, roedd gwyliau oriau ychwanegol yn cael ei gyfrifo'n anghywir.

Nid oedd rhai staff oedd â hawl i arwyddo am feddyginiaeth yn ymddangos ar y rhestr derbyn cymhwysedd i weinyddu meddyginiaeth. Nid oedd y daflen 'Rhestr o Enwau Staff Cyfrifol i Arwyddo am Feddyginiaeth' yn gyfredol. Gwiriwyd sampl o 6 taflen MAR (Medication Administration Record) unigol ac ni welwyd dau lofnod derbyn ar gyfer meddyginiaeth mewn sawl achos. Nid oedd y dos olaf wedi ei gofnodi ar y daflen MAR mewn un achos. Roedd y Rheolwr yn bresennol pan wiriwyd y cofnod. Nid yw tymheredd oergell Cartref Cefn Rodyn yn cyd-fynd gyda chanllawiau Polisi Meddyginiaeth y Cyngor. Ni welwyd cofnod o dymheredd ar gyfer 5/07/15 ar gyfer yr ystafell feddyginiaeth.

<u>Barn yr Archwiliad</u>

**(C)** **Barn yr Archwiliad yw na ellir datgan sicrwydd o briodoldeb yn nhrefniadau Cartref Cefn Rodyn, Dolgellau gan na ellir dibynnu ar y rheolaethau mewn lle, ond ni ddarganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid sicrhau nad oes gorwariant ar y gyllideb a osodwyd, a’i bod yn cael ei rheoli a'i monitro.**
- **Dylid sicrhau bod archeb swyddogol yn cael ei chodi lle mae'n briodol cyn dyddiad anfoneb, er mwyn sicrhau bod y gwariant wedi ei awdurdodi ac er mwyn cofnodi amcan bris a dyddiad derbyn y nwyddau.**
- **Dylid sicrhau bod pob anfoneb yn cael stamp derbyn wrth gyrraedd y cartref.**
- **Dylid sicrhau bod cofnodion eitemau personol y preswylwyr yn cael eu dyddio a'u llofnodi gan swyddog perthnasol yn dilyn gwiriad.**
- **Dylid sicrhau bod cofnodion y cyfrif mwynderau yn gyflawn a thaclus ac yn cysoni gyda’r cyfriflyfr ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.**
- **Dylid sicrhau bod ffurflenni TR34 yn cael eu cwblhau gan ddau swyddog – h.y. un i’w cwblhau a pherson awdurdodedig i wirio’r manylion.**
- **Dylid sefydlu trefn o farcio offer fel bod modd eu hadnabod fel eiddo'r cartref/cyngor.**
- **Dylid sicrhau bod oriau gwyliau blynyddol gweithwyr yn cael ei gyfrifo'n gywir drwy ddefnyddio'r canllawiau 'Fformiwla Gwyliau Staff Adran Darparu a Hamdden'.**
- **Dylid sicrhau bod dau aelod o staff yn arwyddo eu bod wedi derbyn y feddyginiaeth ar y ffurflenni MAR unigol ym mhob achos.**
- **Dylid sicrhau bod unrhyw feddyginiaeth sydd yn cael ei weinyddu i'r preswylwyr yn cael ei gofnodi'n gyflawn ym mhob achos.**
- **Dylid sicrhau bod tymheredd yr oergell yn cyd-fynd gyda chanllawiau h.y. rhwng 2◦C ac 8◦C a'i fod yn cael ei gofnodi'n gywir.**

Atodiad 6

**TRAFNIDIAETH CYHOEDDUS**
**RHEOLEIDDIO**

**Cefndir**

Gall pobl dros 60 oed a phobl anabl sy'n byw yng Ngwynedd hawlio tocyn mantais bws fydd yn eu galluogi i deithio am ddim ar unrhyw fws lleol yng Nghymru. Mae gofyn i'r cwmnïau bysus adrodd i'r Cyngor faint o weithiau a defnyddiwyd y tocynnau yma ar siwrneiau yng Ngwynedd yn fisol, a bydd y Cyngor yn talu'r cwmnïau yn seiliedig ar y niferoedd yma wedi ei luosi gyda chyfartaledd pris tocyn sengl i oedolyn y cwmni (ystadegau mis Medi 2009), a'i luosi eto gyda 'ffactor generadiad' sy'n rif a gaiff ei ddarparu yn chwarterol gan Lywodraeth Cymru. Bydd y Cyngor yn adhawlio'r arian a dalwyd i'r cwmnïau drwy geisiadau chwarterol i Lywodraeth Cymru.

Mae'r Cyngor yn gwahodd cwmnïau i dendro am gytundebau darparu cludiant i'r cyhoedd. Bydd y cwmni buddugol yn derbyn taliad misol yn unol â'u tendr am ddarparu gwasanaeth bws neu dacsi rhwng cymunedau neu i gludo plant i'r ysgol.

**Bwriad yr Archwiliad**

Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod rheolaethau mewnol priodol ynghlwm â'r broses gweinyddu taliadau i gwmnïau bysiau yn seiliedig ar eu defnydd o docynnau teithio mantais i bobl dros 60 oed a phobl anabl. Roedd yr archwiliad hefyd yn sicrhau bod trefniadau tendro gwasanaethau trafnidiaeth yn briodol.

**Cwmpas yr Archwiliad**

Roedd yr archwiliad yn gwirio'r drefn o gasglu a gweinyddu gwybodaeth gan y cwmnïau bysiau er mwyn cyfrifo a phrosesu'r taliadau drwy adolygu sampl o geisiadau diweddar, yn ogystal â gwirio'r drefn o hawlio'r arian yn ôl gan Lywodraeth Cymru a'r hawliad grant diweddaraf. Gwiriwyd yn ogystal sampl o dendrau diweddar er mwyn sicrhau bod y broses yn deg a chywir.

**Prif Ddarganfyddiadau**

Gan fod cywirdeb cyfartaledd prisiau tocyn sengl i oedolyn mis Medi 2009 yn sylfaen i gywirdeb y taliadau hyd heddiw, mae'n hanfodol bod y ffigwr yma yn gywir. Fodd bynnag, dengys adroddiad archwilio 'Tocynnau Teithio Rhad 2013/14' na ellir rhoi sicrwydd bod y ffigyrau yma yn gywir. Argymhellwyd i ail-wneud yr ymarferiad yma er mwyn cael ffigyrau mwy diweddar, a tystiolaeth ddigonol i'w gyfiawnhau. Erbyn yr archwiliad yma, nid yw'r ymarferiad wedi ei gynnal ac o ganlyniad ni ellir rhoi sicrwydd bod y taliadau yn gywir.

Detholwyd sampl o hawliadau chwarter cyntaf pedwar cwmni bysus a gwelwyd fod yr adroddiadau disgwyliedig (adroddiadau Wayfarer sy'n cofnodi'r defnydd o docynnau mantais fesul llwybr) wedi eu cyflwyno i gefnogi yr hyn hawliwyd. Fodd bynnag, gwelwyd fod un cwmni yn gyson yn ceisio hawlio mwy o siwrneiau nag mae'r adroddiadau yn awgrymu y maent yn deilwng iddynt a bod gwiriadau'r Gwasanaeth yn golygu nad yw'r cwmni yn derbyn beth maent yn hawlio. Gwelwyd bod y Gwasanaeth wedi dod a hyn i sylw y cwmni.

Mae’r defnydd a wneir o gofnodi tocynnau gyda llaw yn gynhennus. Disgwylir bod dim mwy na 2% o ad-daliadau yn deillio o docynnau proseswyd gyda llaw, yn hytrach na drwy sganio tocyn i beiriant wrth i deithwyr gamu ar fws. Mae risg sylweddol o gamddefnyddio'r botwm yma, ac mae hyn eisoes wedi ei adnabod.

Mae’r Gwasanaeth yn cofnodi'r defnydd a wneir o docynnau a broseswyd gyda llaw drwy eu cofnodi mewn taenlen. Gan fod y canran o docynnau a broseswyd gyda llaw yn gyson dros 2%, gwelwyd fod y Gwasanaeth wedi bod yn rhagweithiol drwy dynnu hyn i sylw Llywodraeth Cymru ar y cyd gyda Chynghorau eraill Gogledd Cymru. Gofynnwyd am arweiniad os dylai’r cwmnïau dderbyn taliad am unrhyw docyn a broseswyd gyda llaw dros y 2%, a hyd yn hyn ni dderbyniwyd gwrthwynebiad gan Lywodraeth Cymru i dalu dros y trothwy. Ar amser yr archwiliad, mae un cwmni yn bryderus nad oedd eu peiriannau yn gweithio (‘memory’ llawn) ac felly bydd rhaid iddynt brosesu llawer o docynnau gyda llaw.

Yn ôl cymal 19 o ganllawiau ‘Concessionary Travel Scheme: Guidance for Local Authorities’ (1 Ebrill 2010), caiff y Cyngor hawlio costau gweinyddiaeth gan y Llywodraeth yn chwarterol, sy'n gyfatebol i £3 ar gyfer pob tocyn teithio rhad mewn cylchrediad yng Ngwynedd. Bydd y Cyngor yn nodi yn eu hawliad chwarterol faint o docynnau rhad sydd mewn cylchrediad, eu lluosi gyda £3, ac yna ei chwarteru, i adlewyrchu cyfnod yr hawliad. Gwirwyd hawliad chwarter 1 2015/16 a gwelwyd fod y costau gweinyddiaeth wedi eu cyfrifo’n gywir.

Gwelwyd fod y Gwasanaeth yn gosod pob cytundeb cludiant ar Sell2Wales, beth bynnag ei gwerth ac ystyrir hyn fel ymarfer da. Fodd bynnag, mae bwriad gan y Gwasanaeth i werthuso tendrau ar sail pris yn unig yn y dyfodol. Bydd rhan technegol, neu ansawdd y tendr, yn cael ei ddyfarnu ar sail ‘pass/fail’ yn hytrach na cyfrannu at sgor y tendr.

Nid yw’r Gwasanaeth fel rheol yn cynnal gwiriadau ariannol ar y cwmnïau er mwyn sicrhau os ydynt yn hyfyw neu beidio. Gall yr Uned Caffael gynnal gwiriadau syml o’r fath, ac argymhellir i’r Gwasanaeth ystyried gwneud hynny fel rhan o’u proses gwerthuso, yn ogystal â derbyn prawf bod yr hyn gyflwynwyd yn y tendr yn gywir.

**Barn yr Archwiliad**

**(C) Barn yr Archwiliad yw na ellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol yn nhrefniadau ‘Trafnidiaeth Cyhoeddus’ gan na ellir dibynnu ar y rheolaethau mewn lle. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Buasai’n fuddiol parhau i ymchwilio i’r posibilrwydd o ail-ymweld ag ymarferiad Medi 2009 er mwyn sicrhau cywirdeb cyfartaledd prisiau tocyn sengl i oedolyn.**
- **Buasai'n ymarfer da cofnodi'r nifer o docynnau a hawliwyd gan gwmnïau ar un daenlen neu drwy graff, fel y gellir cymharu'r hyn hawliwyd dros amser er mwyn adnabod unrhyw dueddiadau amheus.**
- **Dylid ystyried cynnal gwiriadau ariannol syml ar gwmnïau sy'n ennill tendr er mwyn sicrhau eu bod yn hyfyw i gynnal gwaith dros hyd y gytundeb.**
- **Ar ôl gwobrwyo cytundeb i gwmni, mae angen derbyn prawf bod yr hyn gyflwynwyd yn y tendr yn gywir e.e. bod Teledu Cylch Cyfyng ar y cerbydau**

# Eitem 15

| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| DYDDIAD | **1 RHAGFYR 2015** |
| TEITL | **CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2015/16** |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | **DIWEDDARU'R PWYLLGOR AR Y CYNNYDD YN ERBYN CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2015/16** |
| AWDUR | **LUNED FÔN JONES - RHEOLWR ARCHWILIO** |
| GWEITHREDIAD | **ER GWYBODAETH** |

---

**1. CYFLWYNIAD**

1.1 Mae'r adroddiad yma yn ddiweddariad ar y sefyllfa gyfredol o ran cwblhau cynllun archwilio mewnol 2015/16.

**2. CRYNODEB O WAITH Y CYNLLUN**

2.1 Mae Cynllun Archwilio 2015/16 wedi ei gynnwys yn Atodiad 1, gyda statws y gwaith ar 31 Hydref 2015 wedi ei nodi, yn ogystal â'r amser a dreuliwyd ar bob archwiliad. Roedd statws y gwaith yn y cynllun gweithredol ar y dyddiad hwnnw fel a ganlyn:

| **Statws yr Archwiliad** | **Nifer** |
|---|---|
| Wedi ei gynllunio | 12 |
| Crëwyd Papurau Gwaith | 3 |
| Gwaith Maes ar y gweill | 21 |
| Cwblhawyd Gwaith Maes | 2 |
| Disgwyl Adolygiad | 2 |
| Adroddiad Drafft | 4 |
| Adroddiad Terfynol | 21 |
| **Cyfanswm** | **65** |
| | |
| Wedi ei ganslo | 2 |

2.2 Targed perfformiad 2015/16 yw i gael 95% o archwiliadau'r cynllun unai wedi eu cau neu gydag adroddiad terfynol wedi ei ryddhau erbyn 31 Mawrth 2016. Mae proffil y dangosydd fesul chwarter fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Diwedd chwarter 1 | 8% |
| Diwedd chwarter 2 | 20% |
| Diwedd chwarter 3 | 50% |
| Diwedd chwarter 4 | 95% |

2.3 Gwelir o'r tabl uchod mai gwir gyrhaeddiad Archwilio Mewnol hyd at 31 Hydref 2015 oedd **32.31%** - allan o'r **65** archwiliad unigol yng nghynllun 2015/16 roedd **21** wedi eu rhyddhau yn derfynol.

**3. ADDASIADAU I'R CYNLLUN**

3.1 Mae dau archwiliad o'r cynllun gwrieddiol wedi eu canslo – 'GwE', oherwydd bod Swyddfa Archwilio Cymru ynghyd â Estyn yn cynnal adolygiad ac felly penderfynwyd nad oedd diben dyblygu ymdrech. Hefyd, canslo yr archwiliad 'Canolfannau Hamdden – Casglu Incwm'. Roedd 20 diwrnod yr un wedi eu dyrannu ar gyfer y ddau archwiliad yma. Yn sgil trafodaethau gyda'r Uwch Reolwr Cymunedau Iach, cytunwyd i gynnal archwiliad lawn ar bedair canolfan hamdden sef 'Canolfan Hamdden Plas Ffrancon', 'Canolfan Hamdden Glaslyn', 'Canolfan Hamdden Arfon' a 'Chanolfan Hamdden Penllyn' a dyrannu 10 diwrnod ar gyfer cynnal archwiliad ar gyfer pob canolfan unigol.

3.2 Ar gyfer yr archwiliad 'Ysgolion – Llywodraethu', llwyddwyd i gwblhau'r archwliad heb yr angen i ymweld ag ysgolion unigol i dderbyn y wybodaeth angenrheidiol ac o ganlyniad roedd gwir ddyddiau yr archwiliad yn llai na'r hyn a gynlluniwyd yn wreiddiol. Mae'r archwiliad 'Modelu'r Gweithlu' eisoes ar y gweill a rhagwelir nad yw'r dyddiau sydd ar gael yn ddigonol ar gyfer cyflawni'r archwiliad. Felly, mae'n rhesymol i drosglwyddo 7 diwrnod o'r archwiliad 'Ysgolion – Llywodraethu' i'r archwiliad 'Modelu'r Gweithlu'.

**4. ARGYMHELLIAD**

4.1 Gofynnir i'r Pwyllgor nodi cynnwys yr adroddiad hwn fel diweddariad o gynnydd yn erbyn cynllun archwilio 2015/16, cynnig sylwadau arno a derbyn yr adroddiad.

Atodiad 1

# Cynllun Archwilio Mewnol 2015/16

| Côd yr Archwiliad | Enw'r Archwiliad | Cynllun Gwreiddiol | Addasiad | **Cynllun Addasiedig** | **Gwir Ddyddiau** | Statws yr Archwiliad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **CORFFORAETHOL** | | | | | | |
| 1-CORFF-02/2016 | Defnydd Ymgynghorwyr | 20.00 | 0.00 | **20.00** | **17.36** | Cwblhawyd Gwaith Maes |
| 1-CORFF-09/2016 | Cefnogi Adolygiadau Ffordd Gwynedd | 20.00 | 0.00 | **20.00** | **1.09** | Wedi ei gynllunio |
| 1-CORFF-12/2016 | Ymwybyddiaeth o Bolisi Canu'r Gloch - Gweithwyr Llaw | 25.00 | 0.00 | **25.00** | **3.14** | Gwaith Maes ar y gweill |
| 1-CORFF-14/2016ccy | Taliadau Cymorth Cyntaf | 7.00 | 0.00 | **7.00** | **7.72** | Adroddiad Terfynol |
| 1-CPGV-01/2016cor | Asesiad Corfforaethol | 25.00 | 0.00 | **25.00** | **7.12** | Gwaith Maes ar y gweill |
| 1-CPGV-01/2016lle | Rhoddion a Lletygarwch Swyddogion - Gwasanaethau Risg Uchel | 15.00 | 0.00 | **15.00** | **5.38** | Gwaith Maes ar y gweill |
| 1-CPGV-02/2016 | Gwaith Atal Twyll ac Atal Llygredigaeth Rhagweithiol | 20.00 | 0.00 | **20.00** | **5.55** | Gwaith Maes ar y gweill |
| 2-ADN-CGC-DPA/2016 | Llywodraethu Gwybodaeth - Deddf Diogelu Data | 15.00 | 0.00 | **15.00** | **7.18** | Gwaith Maes ar y gweill |
| 2-ADN-X-GRANT/2016 | Grantiau Amrywiol | 20.00 | 0.00 | **20.00** | **8.14** | Wedi ei gynllunio |
| AO-ABL-05/2016 | Y Fenter Twyll Genedlaethol | 50.00 | 0.00 | **50.00** | **24.84** | Gwaith Maes ar y gweill |
| AW-TG-12/2016def | Terfynu Gweithwyr oddi ar Systemau TG | 15.00 | 0.00 | **15.00** | **16.82** | Adroddiad Terfynol |
| AW-TG-12/2016tg | Diogelwch Systemau TG | 30.00 | 0.00 | **30.00** | **3.07** | Wedi ei gynllunio |
| **ADDYSG** | | | | | | |
| **Adnoddau** | | | | | | |
| 4-DAT-X-ADD/2016eig | Grant Gwella Addysg ar gyfer Ysgolion | 20.00 | 0.00 | **20.00** | **0.47** | Wedi ei gynllunio |
| 4-DAT-X-ADD/2016par | Grant Partneriaeth Ddysgu Gwynedd ac Ynys Môn | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **5.59** | Crewyd Papurau Gwaith |
| EADDA03/2016 | Cyfathrebu gydag Ysgolion | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **13.53** | Adroddiad Terfynol |
| **Ar draws yr adran** | | | | | | |
| EADDA06/2016hlon | Ysgol Arbennig Dwyfor Meirionnydd | 15.00 | 0.00 | **15.00** | **0.81** | Wedi ei gynllunio |
| **Arlwyo** | | | | | | |
| M-GMG-A04/2016 | Arlwyaeth Ysgolion | 20.00 | 0.00 | **20.00** | **7.63** | Gwaith Maes ar y gweill |
| **GwE** | | | | | | |
| 4-GWE/2016 | GwE | 20.00 | -20.00 | **0.00** | **0.34** | Wedi ei ganslo |
| **Ysgolion** | | | | | | |
| EADDA18/2016dol | Ysgol Gynradd Dolgellau | 5.00 | 0.00 | **5.00** | **9.43** | Adroddiad Terfynol |
| EADDA35/2016 | Ysgolion Cyffredinol | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **2.06** | Wedi ei gynllunio |

| Côd yr Archwiliad | Enw'r Archwiliad | Cynllun Gwreiddiol | Addasiad | Cynllun Addasiedig | Gwir Ddyddiau | Statws yr Archwiliad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| EADDAY4007/2016 | Ysgol Dyffryn Nantlle | 8.00 | 0.00 | **8.00** | **12.22** | Adroddiad Terfynol |
| EADDAYC/2016a | Ysgolion - Llywodraethu | 20.00 | -7.00 | **13.00** | **12.70** | Adroddiad Terfynol |
| EADDAYC/2016b | Modelu'r Gweithlu | 17.00 | 7.00 | **24.00** | **7.29** | Gwaith Maes ar y gweill |
| **ASIANTAETH CEFNFFYRDD GOGLEDD A CHANOLBARTH CYMRU** | | | | | | |
| 3-AMG-ACGC/2016 | Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru | 50.00 | 0.00 | **50.00** | **87.20** | Gwaith Maes ar y gweill |
| **CEFNOGAETH GORFFORAETHOL** | | | | | | |
| **Democratiaeth** | | | | | | |
| BB-YSG-18/2016 | Hyfforddi a Datblygu Aelodau | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **0.31** | Wedi ei gynllunio |
| BE-POL-14/2016 | Cronfa'r Cadeirydd | 5.00 | 0.00 | **5.00** | **7.58** | Adroddiad Terfynol |
| **Iechyd a Diogelwch** | | | | | | |
| BC-PER-02/2016 | Ysgolion - Iechyd a Diogelwch Ymweliadau Addysgol | 20.00 | 0.00 | **20.00** | **6.74** | Gwaith Maes ar y gweill |
| **CYLLID** | | | | | | |
| **Ariannol** | | | | | | |
| AD-DY-01/2016 | System Dyledwyr - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | 12.00 | 0.00 | **12.00** | **0.58** | Crewyd Papurau Gwaith |
| AE-TAL-01/2016kc | System Taliadau - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | 12.00 | 0.00 | **12.00** | **4.70** | Gwaith Maes ar y gweill |
| **Cyfrifeg** | | | | | | |
| AN-ACY-02/2016kc | PSG - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **10.38** | Adroddiad Terfynol |
| AN-ACY-02/2016kcx | PSG gan gynnwys Dyledwyr a Taliadau - Cau i Lawr 2014-15 | 8.00 | 0.00 | **8.00** | **10.62** | Adroddiad Terfynol |
| AN-ACY-13/2016kc | Cysoni Banc - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **4.22** | Gwaith Maes ar y gweill |
| AN-ACY-13/2016kcx | Cysoni Banc - Cau i Lawr 2014-15 | 5.00 | 0.00 | **5.00** | **6.34** | Adroddiad Terfynol |
| **Pensiynau a Chyflogau** | | | | | | |
| AL-CYF-01/2016kc | System Gyflogau - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | 12.00 | 0.00 | **12.00** | **8.77** | Gwaith Maes ar y gweill |
| AL-CYF-01/2016kcx | System Gyflogau - Cau i Lawr 2014-15 | 5.00 | 0.00 | **5.00** | **5.05** | Adroddiad Terfynol |
| AP-PEN-01/2016 | Cronfa Bensiwn - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **7.76** | Gwaith Maes ar y gweill |
| **Refeniw** | | | | | | |
| AB-BD-01/2016dhp | Taliadau Tai Dewisol | 10.00 | 0.00 | **10.00** | | Wedi ei gynllunio |
| AB-BD-01/2016kc | Budd-daliadau - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **2.39** | Gwaith Maes ar y gweill |
| AB-BD-01/2016kcx | Systemau Refeniw - Cau i Lawr 2014-15 | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **10.76** | Adroddiad Terfynol |
| AC-TR-01/2016ipo | System Treth Cyngor - Connect & Serve | 10.00 | 0.00 | **10.00** | | Wedi ei gynllunio |

| Côd yr Archwiliad | Enw'r Archwiliad | Cynllun Gwreiddiol | Addasiad | Cynllun Addasiedig | Gwir Ddyddiau | Statws yr Archwiliad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| AC-TR-01/2016kc | Treth Cyngor - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | 8.00 | 0.00 | **8.00** | **2.09** | Gwaith Maes ar y gweill |
| AC-TR-11/2016 | Trethi Busnes - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | 8.00 | 0.00 | **8.00** | **7.03** | Gwaith Maes ar y gweill |
| **Technoleg Gwybodaeth** | | | | | | |
| AW-TG-06/2016 | Rhyngwyneb Siebel - eFinancials | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **5.55** | Adroddiad Terfynol |
| **ECONOMI A CHYMUNED** | | | | | | |
| **Adfywio Cymunedol** | | | | | | |
| EADDZ-01/2016 | Cronfa Degwm | 5.00 | 0.00 | **5.00** | | Wedi ei gynllunio |
| **Hamdden** | | | | | | |
| E-DGO-01/2016 | Canolfannau Hamdden - Casglu Incwm | 20.00 | -20.00 | **0.00** | **0.00** | Wedi ei ganslo |
| EHAMAC6401/2016 | Canolfan Hamdden Arfon | 0.00 | 10.00 | **10.00** | **11.35** | Disgwyl Adolygiad |
| EHAMAC6406/2016 | Canolfan Hamdden Plas Ffrancon | 0.00 | 10.00 | **10.00** | **10.18** | Adroddiad Terfynol |
| EHAMAC6421/2016 | Canolfan Hamdden Glaslyn | 0.00 | 10.00 | **10.00** | **9.51** | Adroddiad Terfynol |
| EHAMAC6442/2016 | Canolfan Hamdden Penllyn | 0.00 | 10.00 | **10.00** | **8.99** | Adroddiad Terfynol |
| **Prosiectau Sylweddol** | | | | | | |
| DDAT-AH-01/2016 | Academi Hwylio | 15.00 | 0.00 | **15.00** | **20.97** | Cwblhawyd Gwaith Maes |
| **OEDOLION, IECHYD A LLESIANT** | | | | | | |
| **Ar draws yr adran** | | | | | | |
| 5-GOF-GCY-GC/2016 | Gofal Cartref | 25.00 | 0.00 | **25.00** | **7.68** | Gwaith Maes ar y gweill |
| GCC-03/2016 | Llywodraethu trefniadau cydweithio gyda'r 3ydd Sector | 20.00 | 0.00 | **20.00** | **20.28** | Adroddiad Drafft |
| GRH-GW04/2016 | Rhaglenni Hyfforddiant Gweithwyr Gofal | 20.00 | 0.00 | **20.00** | **4.80** | Crewyd Papurau Gwaith |
| **Gofal Cymunedol** | | | | | | |
| GDAPR-GC04/2016 | Costau Teithio Gweithwyr Gofal Cymunedol | 15.00 | 0.00 | **15.00** | **12.93** | Adroddiad Terfynol |
| **Oedolion** | | | | | | |
| GDAPR-H03/2016 | Dilysrwydd Anfonebau Darparwyr Preifat | 20.00 | 0.00 | **20.00** | **15.33** | Adroddiad Terfynol |
| GGWAS-C01/2016 | Newidiadau i ILF | 15.00 | 0.00 | **15.00** | **1.76** | Wedi ei gynllunio |
| **Preswyl a Dydd** | | | | | | |
| 5-GOF-CART1341/2016 | Plas y Don, Pwllheli | 12.00 | 0.00 | **12.00** | **12.05** | Adroddiad Drafft |
| 5-GOF-CART1345/2016 | Plas Hedd, Bangor | 12.00 | 0.00 | **12.00** | **13.01** | Adroddiad Drafft |
| 5-GOF-CART1350/2016 | Hafod Mawddach, Abermaw | 12.00 | 0.00 | **12.00** | **11.54** | Adroddiad Drafft |
| 5-GOF-CART1356/2016 | Cefn Rodyn, Dolgellau | 12.00 | 0.00 | **12.00** | **18.27** | Adroddiad Terfynol |

| Côd yr Archwiliad | Enw'r Archwiliad | Cynllun Gwreiddiol | Addasiad | **Cynllun Addasiedig** | **Gwir Ddyddiau** | Statws yr Archwiliad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| GDAPR-H01/2016 | Arwystl ar Eiddo Preswylwyr Cartrefi | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **5.99** | Adroddiad Terfynol |
| **PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL** | | | | | | |
| **Fflyd** | | | | | | |
| PGW-TR-02/2016 | Cynnal a chadw adeiladau a safleoedd | 10.00 | 0.00 | **10.00** | **10.14** | Disgwyl Adolygiad |
| **Gwaith Priffyrdd** | | | | | | |
| PPR-CYN-03/2016 | Arolygiadau | 20.00 | 0.00 | **20.00** | **10.54** | Gwaith Maes ar y gweill |
| **RHEOLEIDDIO** | | | | | | |
| **Trafnidiaeth a Gofal Stryd** | | | | | | |
| 3-PROJ-TRAF/2016briw | Pont Briwet | 15.00 | 0.00 | **15.00** | **1.91** | Gwaith Maes ar y gweill |
| DDAT-CC-01/2016 | Trafnidiaeth Gyhoeddus | 25.00 | 0.00 | **25.00** | **21.80** | Adroddiad Terfynol |
| PPE-P-01/2016 | Incwm Meysydd Parcio | 20.00 | 0.00 | **20.00** | **9.90** | Gwaith Maes ar y gweill |
| **YMGYNGHORIAETH GWYNEDD** | | | | | | |
| **Adeiladau ac Amgylcheddol** | | | | | | |
| PYM01/2016 | Recriwtio a Phenodi | 15.00 | 0.00 | **15.00** | | Wedi ei gynllunio |

**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| DYDDIAD | **1 RHAGFYR 2015** |
| TEITL | **BLAEN RAGLEN Y PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | **CYFLWYNO AMLINELLIAD O RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR AM Y CYFNOD HYD AT MEDI 2016** |
| AWDUR | **DEWI MORGAN, UWCH REOLWR REFENIW A RISG** |
| GWEITHREDIAD | **ER GWYBODAETH** |

---

**1. CYFLWYNIAD**

1.1 Pwrpas yr adroddiad yma yw rhoi amlinelliad o raglen waith y Pwyllgor am y cyfnod hyd at Medi 2016, sydd wedi ei gynnwys yn yr atodiad.

1.2 Bydd hyn yn gyfle i'r aelodau ystyried yr eitemau sydd i'w trafod yn ystod y cyfnod yma er mwyn cyflawni rôl y Pwyllgor o fewn Fframwaith Lywodraethu'r Cyngor, a rhoi cyfle i'r aelodau baratoi fel bo'r angen.

1.3 Gall union ffurf y rhaglenni fod yn wahanol erbyn y cyfarfodydd wrth gwrs, yn ddibynnol ar amgylchiadau ar y pryd. Gall hyn gynnwys materion sydd wedi codi mewn gwaith archwilio, neu'r angen i ystyried materion penodol yn y maes llywodraethu ehangach.

**2. ARGYMHELLIAD**

2.1 Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio ystyried cynnwys y blaen raglen, holi'r swyddogion am yr eitemau fel bo'r angen, cynnig sylwadau a nodi er gwybodaeth.

**Blaen-raglen Pwyllgor Archwilio hyd at Medi 2016**

| 11 Chwefror 2016 |
|---|
| Strategaeth Ariannol 2016/17 – 2019/20 a Cyllideb 2016/17 |
| Rheolaeth Trysorlys – Datganiad Strategaeth Rheolaeth Trysorlys, Strategaeth Darpariaeth Lleiafswm Refeniw a Strategaeth Fuddsoddiad Flynyddol ar gyfer 2016/17 |
| Adroddiad y Gweithgor Gwella Rheolaethau |
| Cyllideb Refeniw 2015/16 – Adolygiad Trydydd Chwarter |
| Rhaglen Gyfalaf 2015/16 – Adolygiad Diwedd y Trydydd Chwarter |
| Cynnyrch Archwilio Mewnol 1/11/2015 – 31/12/2015 |
| Cynllun Archwilio Mewnol 2015/16 |
| Cynllun Archwilio Mewnol Drafft 2016/17 |
| Hunanasesiad o Drefniadau Llywodraethu |

| 5 Mai 2016 |
|---|
| Amlinelliad o waith yr archwilwyr allanol ar Gyfrifon 2015/16 Cyngor Gwynedd |
| Amlinelliad o waith yr archwilwyr allanol ar Gyfrifon 2015/16 Cronfa Bensiwn Gwynedd |
| Adroddiad y Gweithgor Gwella Rheolaethau |
| Cynnyrch Archwilio Mewnol 1/1/2016 – 31/3/2016 |
| Adroddiad Blynyddol Pennaeth Archwilio Mewnol 2015/16 |
| Hunanasesiad o Drefniadau Llywodraethu |
| Hunanasesiad o Effeithiolrwydd y Pwyllgor Archwilio |

| Mehefin 2016 |
|---|
| Datganiad Llywodraethu Blynyddol Cyngor Gwynedd 2015/16 |
| Datganiad Llywodraethu Blynyddol Harbyrau 2015/16 |
| Cyfrifon Terfynol 2015/16 – Alldro Refeniw |
| Argymhellion a Chynigion Gwella Adroddiadau Archwilio Allanol |
| Trefniadau Rheoli Risg |

| |
|---|
| Trefniadau Gwrth Dwyll, Gwrth Lygredigaeth a Gwrth Lwgrwobrwyo |
| Adolygiad o Gronfeydd |
| Cyfrifon Terfynol Harbyrau Gwynedd 2015/16 |
| Cynllun Archwilio Mewnol 2016/17 |

| Gorffennaf 2016 |
|---|
| Datganiad o Gyfrifon 2015/16 |
| Rheolaeth Trysorlys 2015/16 |
| Cynnyrch Archwilio Mewnol 1/4/2016 – 30/6/2016 |
| Adroddiad y Gweithgor Gwella Rheolaethau |

| Medi 2016 |
|---|
| Cyfrifon Terfynol<br>a) Cyflwyno'r datganiadau ariannol statudol diwygiedig<br>b)(i) Cyflwyno adroddiad ffurfiol "ISA 260" Cyngor Gwynedd<br>b)(ii) Awdurdodi Cadeirydd y Pwyllgor a'r Pennaeth Cyllid i arwyddo'r "llythyr cynrychiolaeth" (y Cyngor)<br>c)(i) Cyflwyno adroddiad ffurfiol "ISA 260" y Gronfa Bensiwn<br>c)(ii) Awdurdodi Cadeirydd y Pwyllgor a'r Pennaeth Cyllid i arwyddo'r "llythyr cynrychiolaeth" (y Gronfa Bensiwn) |
| Rheolaeth Trysorlys 2016/17 – Adolygiad Canol Blwyddyn |
| Adroddiad y Gweithgor Gwella Rheolaethau |
| Cynnyrch Archwilio Mewnol 1/7/2016 – 31/8/2016 |
| Cynllun Archwilio Mewnol 2016/17 |
| Cyfrifon Terfynol Harbyrau Gwynedd 2015/16 |